Law Commission
Reforming the law
Comisiwn y Gyfraith
Diwygio'r gyfraith

# Tribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru
## Papur Ymgynghori

Papur Ymgynghori 251

Comisiwn y Gyfraith
Diwygio'r gyfraith

**Comisiwn y Gyfraith**

**Papur Ymgynghori 251**

# Tribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru

# Papur Ymgynghori

**16 Rhagfyr 2020**

OGL

© Hawlfraint y Goron 2020

Mae’r cyhoeddiad yma’n drwyddedig o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 (oni bai lle nodwyd i’r gwrthwyneb). I weld y drwydded hon ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle bo deunydd sydd dan hawlfraint trydydd parti wedi ei ddynodi, fe fydd angen cael caniatad y deiliaid hawlfraint perthnasol.

Mae’r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.lawcom.gov.uk/project/devolved-tribunals-in-wales/

# COMISIWN Y GYFRAITH - EIN HYMGYNGHORIAD

**Comisiwn y Gyfraith:** Cafodd Comisiwn y Gyfraith ei sefydlu dan adran 1 Deddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 gyda'r bwriad o hybu diwygio'r gyfraith.Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Ustus Green (y Cadeirydd), yr Athro Sarah Green, yr Athro Nicholas Hopkins, yr Athro Penney Lewis a Nicholas Paines CF ydy Comisiynwyr y Gyfraith. Phillip Golding yw'r Prif Weithredwr.

**Testun yr ymgynghoriad hwn:** Rydym yn ymgynghori ar y tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru. Canolbwyntiwn ar y materion sy'n effeithio'r system o dribiwnlysoedd yng Nghymru yn ei chyfanwaith, gan edrych ar strwythur y tribiwnlysoedd, prosesau cyffredin (megis pwerau i benodi a disgyblu aelodau o'r tribiwnlys, neu i wneud rheolau gweithdrefnol ), a rolau Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ac Uned Tribiwnlysoedd Cymru.

**Cwmpas daearyddol:** Mae'r ymgynghoriad yma'n gymwys i gyfraith Cymru a Lloegr.

**Hyd yr ymgynghoriad:** Byddwn yn croesawu ymatebion rhwng 16 Rhagfyr 2020 a 19 Mawrth 2020.

Gellir cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad trwy ddefnyddio ffurflen, sydd ar gael i'w lawrlwytho yn <https://www.lawcom.gov.uk/project/devolved-tribunals-in-wales/>. Lle bo'n bosib gwneud hynny, mi fyddwn yn ddiolchgar pe byddech yn defnyddio'r ffurflen yma. Dylid dychwelyd y ffurflen trwy ei yrru at DevolvedTribunalsWales@lawcommission.gov.uk

Fel arall, gellir gyrru unrhyw sylwadau:
Trwy e-bost at DevolvedTribunalsWales@lawcommission.gov.uk
NEU
Trwy'r post at Devolved Tribunals in Wales Team, Law Commission, 1st Floor, Tower, 52 Queen Anne's Gate, London, SW1H 9AG.

Os ydych am yrru eich sylwadau trwy'r post, carem pe byddech yn gallu eu gyrru, os yn bosib, ar e-bost hefyd.

**Argaeledd y deunydd:** Mae'r Papur Ymgynghori hwn ar gael ar ein gwefan yn https://www.lawcom.gov.uk/tribiwnlysoedd-datganoledig-yng-nghymru/

Mae'r Comisiwn yn ymrwymedig i ddarparu ein cyhoeddiadau mewn ffurf hygyrch. Fe fydd fersiwn hawdd ei ddeall ar gael ar ein gwefan yn fuan. Os yr ydych am gael y papur hwn mewn fformat arall, e-bostiwch

DevolvedTribunalsWales@lawcommission.gov.uk os gwelwch yn dda.

**Wedi’r ymgynghoriad:** Fe fyddwn yn dadansoddi’r ymatebion i’r ymgynghoriad, a fydd yn ei dro yn llywio ein barn wrth greu cynigion i’w cyflwyno i Lywodraeth Cymru ar ffurf adroddiad.

**Egwyddorion Ymgynghori:** Mae Comisiwn y Gyfraith yn dilyn yr Egwyddorion Ymgynghori a amlinellir yn y ddogfen a grëwyd gan Swyddfa’r Cabinet, sy’n gosod canllawiau ar y math a’r arddull o ymgynghoriadau, hyd, amseru, hygyrchedd a thryloywder. Mae’r Egwyddorion ar gael ar wefan Swyddfa’r Cabinet yn <https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>.

**Gwybodaeth a roddir i Gomisiwn y Gyfraith:** Ein bwriad ydy sicrhau bod ein modd o wneud penderfyniadau yn glir, gan egluro sut y daethom i gasgliad penodol. Efallai y byddwn yn cyhoeddi neu’n datgelu'r wybodaeth y byddwch yn rhoi i Gomisiwn y Gyfraith mewn ymateb i bapurau, gan gynnwys gwybodaeth bersonol. Er enghraifft, efallai y byddwn am gyhoeddi detholiad o’ch ymateb yn un o gyhoeddiadau Comisiwn y Gyfraith, neu efallai byddwn am gyhoeddi’r ymateb ei hun. Gallwn hefyd rannu eich ymateb gyda’r Llywodraeth. Yn ogystal â hynny, efallai bydd dyletswydd arnom i ddatgelu gwybodaeth, yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Fe fyddwn yn prosesu eich data personol yn unol â’r Rheoliadau Gwarchod Data Cyffredinol.

Rydym o’r farn bod ymatebion i ymgynghoriad yn fwyaf effeithlon pan ydyn ni’n gallu adrodd pwy a gyflwynodd ymateb, a beth oedd eu barn. Os ydych chi’n ystyried ei bod yn angenrheidiol cadw'r holl, neu gyfran o’r wybodaeth yr ydych am ei ddarparu yn gyfrinachol, cysylltwch â ni i fynegi hynny cyn gyrru’r ymateb os gwelwch yn dda. Gofynnwn ichi gadw’r wybodaeth gyfrinachol i’r isafswm, ei nodi yn glir, ac egluro pam yr ydych am i ni ei gadw’n gyfrinachol. Ni allwn warantu bod modd cadw’r cyfrinachedd hwn ym mhob achos, a ni fydd ymwadiad awtomatig a grëir gan eich system TG yn cael ei ystyried yn gyfrwymol ar Gomisiwn y Gyfraith.

Fel arall, efallai y byddwch yn dymuno i ni gadw eich ymateb yn ddienw. Golyga hyn y byddwn yn gallu cyfeirio at eich ymateb a chynnwys eich ymateb, heb ddatgelu mai gennych chi ddaeth yr ymateb. Efallai byddwch yn dymuno gwneud hyn pe byddai’ch ymateb yn cynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch chi neu’ch teulu, neu os ydych yn poeni am bobl eraill yn dod i wybod am y wybodaeth y darparwyd gennych.

Rydym yn rhestru'r sawl sy’n ymateb i’r ymgynghoriad yn ein hadroddiad. Os ydych am gyflwyno ymateb cyfrinachol, ni fydd eich enw’n ymateb ar y rhestr. Os ydy’ch ymateb yn ddienw, ni fydd eich enw yn ymddangos ar y rhestr ychwaith, heblaw os rhoddwch ganiatâd i ni wneud hynny.

Am wybodaeth bellach am sut rydym yn ymdrin â data, dilynwch y ddolen i’n gwefan - https://www.lawcom.gov.uk/ymdrin-a-data-personol/

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch cynnwys yr Hysbysiad Breifatrwydd hwn, cysylltwch â ni trwy e-bostio enquiries@lawcommission.gov.uk

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| **RHESTR TERMAU** | **1** |
| **PENNOD 1: CYFLWYNIAD** | **1** |
| Dechreadau'r prosiect hwn | 1 |
| Ein cylch gorchwyl | 2 |
| Datblygiad y tribiwnlysoedd datganoledig | 3 |
| Y system dribiwnlysoedd datganoledig | 3 |
| Adolygiadau blaenorol o'r system dribiwnlysoedd yng Nghymru | 5 |
| Y tribiwnlysoedd Cymreig o dan Ddeddf Cymru 2017 | 7 |
| Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru (2019) | 7 |
| Yr egwyddorion sy'n sail i'n dadansoddiad | 8 |
| Strwythur y Papur Ymgynghori hwn | 9 |
| Yr asesiad effaith drafft | 10 |
| Diolchiadau | 11 |
| Y tîm sy'n gweithio ar y prosiect | 11 |
| **PENNOD 2: TRIBIWNLYSOEDD YNG NGHYMRU: CYMHWYSEDD DATGANOLEDIG A THRIBIWNLYSOEDD DATGANOLEDIG** | **12** |
| Cyflwyniad | 12 |
| Y fframwaith datganoledig | 12 |
| Cymhwysedd deddfwriaethol | 13 |
| Cymhwysedd gweithredol | 15 |
| Datganoli mewn perthynas â thribiwnlysoedd datganoledig | 15 |
| Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru | 16 |
| Uned Tribiwnlysoedd Cymru | 16 |
| Penodiadau | 16 |
| Pŵer i wneud a safoni rheolau gweithdrefnol | 17 |
| Prosesau apelio | 18 |
| Cwynion a disgyblaeth | 20 |
| Beth yw tribiwnlys datganoledig? | 20 |
| Beth yw tribiwnlys? | 21 |
| Dulliau gweithredu blaenorol | 22 |
| Penderfynu ar anghydfodau rhwng partïon drwy wneud penderfyniadau rhwymol | 24 |
| Pa gyrff, heblaw tribiwnlysoedd adran 59, sydd i'w hystyried yn dribiwnlysoedd i ddibenion y prosiect hwn? | 24 |
| Cyrff a ystyriwn am y tro yn rhai sydd o fewn cwmpas y prosiect | 25 |

Cyrff a ystyriwn am y tro yn rhai sydd y tu allan i gwmpas y prosiect 26

**PENNOD 3: SYSTEM DRIBIWNLYSOEDD I GYMRU 34**

Diwygiadau mewn lleoedd eraill 34
Adolygiad Leggatt 35
Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 36
Yr Alban 37

Y manteision o gyfuno 39
Tystiolaeth o blaid y manteision hyn 41

Y Tribiwnlysoedd Cymreig 41
Y cynnydd hyd yn hyn 41
Argymhellion blaenorol dros gyfuno 43
Pa broblemau sy'n aros? 44

Opsiynau ar gyfer y dyfodol 47
Cadw system o dribiwnlysoedd unigol 47
Cyflwyno system siambrau 48

Tribiwnlysoedd datganoledig eraill 51
Tribiwnlys Prisio Cymru 51
Ymgorffori Tribiwnlys Prisio Cymru yn y tribiwnlys unedig 52
Paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion 54

Ad-drefnu posib ar awdurdodaethau gyda'r tribiwnlys unedig 60

**PENNOD 4: APELIADAU 64**

Apeliadau o dribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru 64
Llwybrau apêl a nifer yr apeliadau 65

Lleoedd eraill yn y Deyrnas Unedig 69
Tribiwnlysoedd a gedwir yn ôl 69
Yr Alban 71
Gogledd Iwerddon 72

Opsiynau er gyfer diwygio 72
Dim newid sylweddol 73
Y Llys Gweinyddol yng Nghymru 74
Yr Uwch Dribiwnlys 75
Tribiwnlys Apêl i Gymru? 75
Paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion 77
Tribiwnlys Prisio Cymru 79
Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru 80

**PENNOD 5: RHEOLAU GWEITHDREFNOL 81**

Cyflwyniad 81

Sut y gwneir rheolau gweithdrefnol? 81
Cyfarwyddiadau ymarfer 82

Problemau cyffredin ar draws y tribiwnlysoedd datganoledig 83
Materion penodol mewn rheolau gweithdrefnol 83

Gwrandawiadau o bell 89
Cyflwyniad 89
Y ddarpariaeth bresennol ar gyfer gwrandawiadau o bell yn y tribiwnlysoedd datganoledig 91
Cynnwys gwrandawiadau o bell yn rheolau gweithdrefnol tribiwnlysoedd 93

Safoni rheolau gweithdrefnol tribiwnlysoedd 93
Manteision safoni 93
Anfanteision safoni 94
Cynigion dros dro ar safoni rheolau tribiwnlysoedd 96

A ddylid cyfuno rheolau tribiwnlysoedd i wneud un set o reolau? 97
Cyfuno rheolau tribiwnlysoedd 97
Opsiynau ar gyfer rheolau gweithdrefnol 98

Gwneud a chynnal y rheolau gweithdrefnol 101
Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd 101
Gwneud rheolau tribiwnlys ar gyfer tribiwnlysoedd datganoledig yr Alban 102
Gwneud rheolau tribiwnlys ar gyfer tribiwnlysoedd yng Ngogledd Iwerddon 103
Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd i Gymru 103

**PENNOD 6: PENODIADAU 106**

Penodiadau o fewn y tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru 106
Tribiwnlys Prisio Cymru 108
Paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion 109
Tribiwnlys y Gymraeg 110
Trosglwyddo rhwng tribiwnlysoedd 110
Rôl y Comisiwn Penodiadau Barnwrol 111

Lleoedd eraill yn y Deyrnas Unedig 113
Tribiwnlysoedd a gedwir yn ôl 113
Yr Alban 113
Gogledd Iwerddon 114

Diwygio penodiadau yng Nghymru 115
Safoni'r awdurdod penodi 115
Pwy a ddylai fod yn awdurdod penodi? 116
Rôl y Comisiwn Penodiadau Barnwrol 121

**PENNOD 7: CWYNION A DISGYBLAETH 124**

Prosesau cwynion a disgyblu ymysg y tribiwnlysoedd a gedwir yn ôl 124
I bwy y gwneir cwynion? 124
Pwerau disgyblu a diswyddo 125
Prosesau cwynion 126
Yr Ombwdsmon Penodiadau ac Ymddygiad Barnwrol 128

Prosesau cwynion o fewn y tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru 129
I bwy y gwneir cwynion? 130

Rolau Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 133

Pwerau disgyblu o fewn y tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru 135
Disgyblu a diswyddo deiliaid swyddi barnwrol 135
Disgyblu a diswyddo aelodau eraill o dribiwnlysoedd datganoledig 135

Prosesau cwynion a disgyblu yn yr Alban a Gogledd Iwerddon 136
Yr Alban 136
Gogledd Iwerddon 138

Diwygio prosesau cwynion yn y tribiwnlysoedd datganoledig 139
Polisi a gweithdrefn cwynion unffurf 140
Pwy a ddylai ymchwilio i gwynion? 142
Rôl yr Ombwdsmon Penodiadau ac Ymddygiad Barnwrol 143
Paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion 145
Tribiwnlys Prisio Cymru 146

Diwygio pwerau disgyblu yn y tribiwnlysoedd datganoledig 147
Y weithdrefn ar gyfer ymchwilio i gwynion yn erbyn aelodau tribiwnlysoedd ac arweinwyr barnwrol 147
Pwy a ddylai ddal y pwerau disgyblu? 148

**PENNOD 8: LLYWYDD TRIBIWNLYSOEDD CYMRU 152**

Rôl Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru 152

Lleoedd eraill yn y DU 155

Y cefndir i swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru 158

Diwygiadau posib 158
Rôl farnwrol 159
Ehangu rôl goruchwylio Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru 161

**PENNOD 9: UNED TRIBIWNLYSOEDD CYMRU 164**

Datblygiad Uned Tribiwnlysoedd Cymru 164
Yr Uned Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd 164
Strwythur a chyfansoddiad Uned Tribiwnlysoedd Cymru 166
Tribiwnlys Prisio Cymru 166

Gweinyddu tribiwnlysoedd mewn lleoedd eraill yn y DU 167
Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi 167
Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban 169
Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Gogledd Iwerddon 175

Diwygio Uned Tribiwnlysoedd Cymru 176
Cynigion blaenorol ar gyfer diwygio 176
Opsiynau ar gyfer diwygio 178

**PENNOD 10: ANNIBYNIAETH FARNWROL 183**

Cyflwyniad 183

Beth yw annibyniaeth farnwrol? 183

Gwarchod penderfynu diduedd 183
Annibyniaeth strwythurol 184

Sicrhau annibyniaeth drwy statud 185

Y llw barnwrol 187
Y llw barnwrol a thribiwnlysoedd 188
Y tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru 188

**ATODIAD 1: Y TRIBIWNLYSOEDD SYDD O FEWN CWMPAS Y PROSIECT HWN 189**

Tribiwnlysoedd adran 59 189
Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru 189
Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru 190
Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru 191
Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 191
Y Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Ysgolion a'r Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Addysg Feithrin 192
Panel Dyfarnu Cymru 193
Tribiwnlys y Gymraeg 194

Tribiwnlysoedd eraill 195
Tribiwnlys Prisio Cymru 195
Paneli apelio annibynnol 197

**ATODIAD 2: RHESTR O'R RHAI A OEDD YN BRESENNOL YNG NGHYFARFOD CYNTAF Y GRŴP CYNGHOROL A GYNHALIWYD 01 HYDREF 2020, MS TEAMS 201**

**PENNOD 11: CWESTIYNAU YMGYNGHORI 202**

# Rhestr termau

**Adolygiad/Adroddiad Leggatt:** Comisiynwyd Syr Andrew Leggatt i adolygu'r system dribiwnlysoedd fel yr oedd ar y pryd yn 2000. Arweiniodd yr adolygiad at gyhoeddi'r adroddiad "Tribunals for Users; One System, One Service: Report of the Review of Tribunals" ym Mawrth 2001. Yn y pen draw, roedd yr Adroddiad yn rhan o'r sail i'r diwygiadau a wnaed drwy Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007. Ni wnaeth argymhellion yn ymwneud â'r tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru.

**Aelodau tribiwnlys:** Yng nghyd-destun y Papur Ymgynghori hwn, mae aelod o dribiwnlys yn golygu pob un sy'n eistedd ar banel tribiwnlys boed nhw'n aelodau cyfreithiol, yn aelodau â phrofiad proffesiynol arall neu'n aelodau lleyg. Nid ydy'n defnydd o'r term yma yn cynnwys arweinyddion barnwrol.

**Arweinydd barnwrol:** Y barnwr uchaf mewn tribiwnlys a elwir fel arfer yn Llywydd neu, yn llai aml, yn Gadeirydd tribiwnlys.

**Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, '*Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru*':** Cynhaliodd y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru ("Comisiwn Thomas ") adolygiad cynhwysfawr, o dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Thomas o Gwmgïedd, o weithrediad y system gyfiawnder yng Nghymru. Cyhoeddodd ei adroddiad yn Hydref 2019.

**'Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, Pwyllgor Cymreig, *Adolygiad o Dribiwnlysoedd sy'n Gweithredu yng Nghymru'* ("Adroddiad 2010"):** Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn 2010 gan Bwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd. Roedd yn darparu trosolwg cynhwysfawr ar effeithiolrwydd tribiwnlysoedd datganoledig sy'n gweithredu yng Nghymru, a gwnaeth argymhellion ar gyfer diwygio.

**Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd ("CCGT"):** Sefydlwyd y CCGT gan adran 44 o Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, gyda phedwar prif nod mewn golwg: dal sylw ar y system cyfiawnder gweinyddol gyffredinol a'r rhan fwyaf o dribiwnlysoedd ac ymchwiliadau statudol; cynghori gweinidogion ar ddatblygiad y system cyfiawnder gweinyddol; cyflwyno cynigion ar gyfer newidiadau, a gwneud cynigion ar gyfer ymchwil. Y CCGT oedd yr olynydd i'r Cyngor Tribiwnlysoedd.

**Deddf Cymru 2017 ("Deddf 2017"):** Gwnaeth Deddf Cymru 2017 newidiadau yn y setliad datganoli i Gymru. Yr hyn sy'n bwysig yng nghyd-destun y prosiect hwn yw bod adran 59(1) yn rhestru tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru sy'n cael eu harolygu gan LITC.

**Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 ("Deddf 2005"):** Roedd Deddf 2005 yn ymgais i ddiwygio rhannau o'r farnwriaeth, ac mae Atodlen 14 i Ddeddf 2005 yn cynnwys rhestr o ddeiliaid swyddi barnwrol. Rhestrwyd rhai o aelodau ac arweinwyr barnwrol y tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru yn Atodlen 14.

**Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 ("DTLIG 2007"):** Creodd DTLIG 2007 strwythur unedig newydd ar gyfer tribiwnlysoedd a oedd yn cynnwys THG a'r UD.

**Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi ("GLITEM"):** Mae GLITEM yn gyfrifol am weinyddu llysoedd troseddol, sifil a theulu a thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr. Mae'n asiantaeth weithredol sydd o dan nawdd y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

**Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Gogledd Iwerddon ("GLITGI"):** Mae GLITGI yn gweinyddu holl lysoedd Gogledd Iwerddon a'r rhan fwyaf o'i dribiwnlysoedd. Mae GLITGI yn asiantaeth weithredol i'r Adran Gyfiawnder.

**Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban ("GLITA"):** Mae GLITA yn darparu cymorth gweinyddol i lysoedd a thribiwnlysoedd yr Alban. Mae'n gorff corfforaethol ac yn adran anweinidogol a sefydlwyd dan Ddeddf Barnwriaeth a Llysoedd (yr Alban) 2008.

**Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ("LITC"):** Sefydlwyd swydd LITC gan Ddeddf Cymru 2017. Y Llywydd yw'r barnwr uchaf yn system y tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru, ac mae'n gyfrifol am hyfforddi, cyfarwyddo a sicrhau lles llywyddion ac aelodau tribiwnlysoedd, yn ogystal â chyfleu barn y tribiwnlysoedd datganoledig i'r Senedd.

**Llywydd Tribiwnlysoedd yr Alban ("LITA"):** LITA yw'r uwch aelod o dribiwnlysoedd yr Alban (Tribiwnlys Haen Gyntaf yr Alban ac Uwch Dribiwnlys yr Alban). Pennaeth tribiwnlysoedd yr Alban yw'r Arglwydd Lywydd a gaiff ddirprwyo rhai cyfrifoldebau dros dribiwnlysoedd yr Alban i LITA.

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("OGCC"):** Sefydlwyd swydd OGCC gan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Mae OGCC yn ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus a darparwyr gofal annibynnol yng Nghymru, a hefyd i honiadau bod aelodau o gyrff llywodraeth leol wedi torri cod ymddygiad eu hawdurdod.

**Ombwdsmon Penodiadau ac Ymddygiad Barnwrol ("OPYB"):** Mae OPYB yn gyfrifol am ymchwilio i'r modd y deliwyd â chwynion am brosesau penodiadau barnwrol ac am ddisgyblaeth neu ymddygiad barnwrol.

**Panel apelio annibynnol:** Term torfol sy'n cyfeirio at baneli apelio derbyniadau ysgolion a phaneli apelio gwaharddiadau ysgolion.

**Panel Dyfarnu Cymru ("PDC"):** Mae PDC yn gwrando achosion sy'n ymwneud â thoriadau honedig ar godau ymddygiad awdurdodau gan aelodau o gynghorau sir, bwrdeistref sirol a chymuned ac awdurdodau tân a pharc cenedlaethol yng Nghymru.

**Paneli apelio derbyniadau ysgolion:** Mae'r paneli hyn yn gwrando apeliadau yn erbyn penderfyniadau gan awdurdodau derbyn (awdurdodau lleol gan amlaf) am ddyrannu lleoedd mewn ysgolion. Mae adran 94(5) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn gwneud awdurdodau derbyn yn gyfrifol am weinyddu'r paneli.

**Paneli apelio gwaharddiadau ysgolion:** Sefydlwyd paneli apelio gwaharddiadau ysgolion gan Ddeddf Addysg 2002 i wrando apeliadau yn erbyn penderfyniadau gan bwyllgorau disgyblu cyrff llywodraethu ynghylch gwahardd disgyblion yn barhaol. Gweinyddir y paneli gan awdurdodau lleol.

**‘Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol Tribiwnlysoedd Cymru, *Cyfiawnder Gweinyddol, Sylfaen Cyfiawnder Cymdeithasol yng Nghymru*’ ("Adroddiad 2016"):** Yn 2016, cyhoeddodd Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru o’r enw "Sylfaen Cyfiawnder Cymdeithasol yng Nghymru". Mae’n cynnwys trosolwg ar gyfiawnder gweinyddol yng Nghymru a hefyd yn darparu mewnwelediad diweddar i’r datblygiadau yn y tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru er 2010.

**Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru ("PCGTC"):** Sefydlwyd PCGTC gan Weinidogion Cymru yn 2013, fel pwyllgor i olynu’r CCGT. Ei rôl oedd gwarchod y budd cyhoeddus o ran cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru, darparu cyngor arbenigol a cheisio sicrhau bod anghenion defnyddwyr y system cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru yn parhau’n brif ystyriaeth. Daeth gweithrediadau PCGTC i ben yn 2016, pan gyhoeddwyd adroddiad terfynol (Adroddiad 2016).

**Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd:** Mae’r Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd yn gwneud rheolau ar yr ymarfer a’r weithdrefn yn THG a’r UD.

**Senedd:** Y Senedd yw’r corff etholedig democrataidd sy’n gwneud deddfwriaeth i Gymru (o fewn meysydd pwnc penodol). Mae’n cael ei galw’n Senedd Cymru ac yn Welsh Parliament. Yn y Papur Ymgynghori hwn, rydym yn ei galw wrth yr enw a ddefnyddir amdani fel arfer, y Senedd.

**Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol ("SYYB"):** Mae SYYB yn swyddfa annibynnol sy’n helpu’r Arglwydd Ganghellor a’r Arglwydd Brif Ustus i ystyried cwynion am ymddygiad deiliaid swyddi barnwrol.

**Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru ("TAIMC"):** Mae TAIMC yn gwrando ceisiadau gan ac yn ymwneud â phersonau a gadwyd o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

**Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ("TAAAC"):** Mae TAAAC yn gwrando apeliadau gan blant, eu rhieni neu bobl ifanc, yn erbyn y penderfyniadau a wnaed gan awdurdod lleol am eu haddysg. Bydd TAAAC yn cael ei ailenwi’n Dribiwnlys Addysg Cymru pan ddaw’r ddarpariaeth berthnasol yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 i rym.

**Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Addysg Feithrin ("TAACAF"):** Mae arolygwyr addysg feithrin wedi’u cynnwys mewn cofrestr y darparwyd ar ei chyfer gan Ddeddf Addysg 2005. Mae adran 27 o Ddeddf Addysg 2005 yn caniatáu i arolygwyr anghytuno â phenderfyniad i dynnu eu henwau o’r gofrestr, neu i orfodi cofrestriad amodol, drwy wneud cais i’r TAACAF.

**Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Ysgolion ("TAACY"):** Mae arolygwyr ysgolion wedi’u cynnwys mewn cofrestr y darparwyd ar ei chyfer gan Ddeddf Addysg 2005. Mae adran 27 o Ddeddf Addysg 2005 yn caniatáu i arolygwyr anghytuno â phenderfyniad i dynnu eu henwau o’r gofrestr, neu i orfodi cofrestriad amodol, drwy wneud cais i’r TAACY.

**Tribiwnlys datganoledig:** Y diffiniad o dribiwnlys datganoledig yn Atodlen 7A paragraff 9(2) i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yw tribiwnlys y mae ei holl swyddogaethau (a) yn ymarferadwy mewn perthynas â Chymru’n unig, a (b) heb gysylltiad â materion a gedwir

yn ôl. Defnyddiwn y term “tribiwnlys datganoledig yng Nghymru” lle y bo angen i wahaniaethu rhwng y tribiwnlysoedd hynny a thribiwnlysoedd datganoledig mewn lleoedd eraill yn y Deyrnas Unedig.

**Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru ("TEPC"):** Mae TEPC yn dribiwnlys “ambarél” sy’n cynnwys tri thribiwnlys gwahanol (pob un wedi’i seilio ar wahanol ddeddfiadau); pwyllgorau asesu rhenti, tribiwnlysoedd prisio lesddaliadau a thribiwnlysoedd eiddo preswyl.

**Tribiwnlysoedd adran 59:** Y tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59(1) o Ddeddf Cymru 2017 (ac a elwir yn “Welsh tribunals” yn y Ddeddf honno). Maent yn cael eu harolygu gan LITC a’u gweinyddu gan UTC.

**Tribiwnlys Prisio Cymru ("TPC"):** Mae TPC yn gwrando apeliadau sy’n ymwneud yn bennaf â phenderfyniadau ar ardrethi annomestig a phrisiadau’r dreth gyngor. Nid yw TPC wedi’i gynnwys yn y rhestr o dribiwnlysoedd yn adran 59(1) o Ddeddf Cymru 2017.

**Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru ("TTAC"):** Mae TTAC yn gwrando anghydfodau rhwng landlordiaid a thenantiaid amaethyddol ac anghydfodau ynghylch draenio.

**Tribiwnlys y Gymraeg ("TG"):** Mae TG yn gwrando apeliadau yn erbyn penderfyniadau gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn cysylltiad â Safonau’r Gymraeg.

**Tribiwnlys yr Haen Gyntaf ("THG"):** Lefel gyntaf y strwythur tribiwnlysoedd unedig a grëwyd gan DTLIG 2007.

**Trosglwyddo rhwng cyrff barnwrol:** Dyma’r arfer o ganiatáu i farnwr a benodwyd i un corff barnwrol gael eistedd mewn corff barnwrol arall, ar ôl cael cytundeb gan farnwr uwch fel arfer. Defnyddiwyd y term “cross-ticketing” yn wreiddiol yn strwythur DTLIG 2007 i olygu rhoi’r gallu i farnwr eistedd mewn gwahanol awdurdodaethau o fewn un siambr, ond fe’i defnyddir yn fwy cyffredinol nawr. Roedd “cross-assignment” o dan strwythur DTLIG 2007 yn golygu caniatáu i farnwr eistedd mewn siambr wahanol. Mae Deddf Cymru 2017 yn cyfeirio at “cross-deployment”, sef (a) gallu aelod o un tribiwnlys adran 59 i eistedd mewn tribiwnlys adran 59 arall, a (b) gallu barnwyr y tribiwnlysoedd adran 59 i eistedd yn THG (ac i’r gwrthwyneb; i farnwyr THG i eistedd mewn tribiwnlys adran 59).

**Uned Tribiwnlysoedd Cymru ("UTC"):** Mae Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn un o unedau Llywodraeth Cymru. Mae’n gyfrifol am weinyddu’r tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59(1) o Ddeddf Cymru.

**Uwch Dribiwnlys ("UD"):** Ail lefel y strwythur tribiwnlysoedd unedig a grëwyd gan DTLIG 2007. Mae’n gwrando apeliadau yn erbyn penderfyniadau gan THG, ymysg hawliadau eraill.

**Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd (“ULT”):** Crëwyd swydd yr Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd gan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007. Rhai o ddyletswyddau’r Llywydd yw sicrhau bod y tribiwnlysoedd yn hygyrch a theg, a bod aelodau’r tribiwnlysoedd yn cael y wybodaeth sydd ei hangen i allu penderfynu ar achosion. Mae’r ULT yn llywyddu ar THG a’r UD.

**Y Coleg Barnwrol:** Mae'r Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd yn gyfrifol am wneud trefniadau i hyfforddi aelodau a barnwyr y tribiwnlysoedd hynny sydd o fewn cwmpas DTLIG 2007. Cynhelir yr hyfforddiant hwn gan y Coleg Barnwrol.

**Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol ("CPB"):** Mae'r CPB yn gorff statudol annibynnol sy'n dethol ymgeiswyr ar gyfer swyddi barnwrol mewn llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr.

**Yr Arglwydd Brif Ustus:** Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr yw Pennaeth Barnwriaeth Cymru a Lloegr a Llywydd Llysoedd Cymru a Lloegr.

**Yr Arglwydd Ganghellor:** Mae'r Arglwydd Ganghellor yn un o Weinidogion Cabinet y DU (a chyn pasio Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, roedd hefyd yn farnwr). Mae'r rôl yn cael ei chyfuno fel arfer â rôl yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder.

# Chapter 1: Cyflwyniad

1.1 Mae'r tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru wedi datblygu ar hap. Sefydlwyd y rhan fwyaf ohonynt cyn datganoli, ac mewn ymateb i'r anghenion polisi a oedd gan wahanol adrannau llywodraeth. O ganlyniad i ddatganoli, nid oeddent wedi'u cynnwys wrth resymoli tribiwnlysoedd drwy Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 ac fe'u rheolir yn bennaf o hyd gan y ddeddfwriaeth wreiddiol ar eu cyfer; mae prosesau a gweithdrefnau'n amrywio rhwng y naill dribiwnlys a'r llall, a cheir bylchau ac anghysonderau. Ni ddiweddarwyd y ddeddfwriaeth sy'n sail iddynt i adlewyrchu datganoli na'r ffaith bod swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru wedi'i chreu yn 2017.

1.2 Mae'r swydd honno wedi helpu i uno'r tribiwnlysoedd, drwy ddarparu canolbwynt i rai ohonynt, a ffigwr barnwrol uwch i gyfleu eu buddiannau i Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Sicrhawyd mwy o gysondeb drwy ganoli gweinyddiaeth rhai o'r tribiwnlysoedd yn Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn Llywodraeth Cymru. Ond mae'r ddeddfwriaeth sy'n sail i'r tribiwnlysoedd yn ddigyswllt o hyd, ac mae'n anodd dweud bod y tribiwnlysoedd presennol yn rhan o "system".

1.3 Mae'r Papur Ymgynghori hwn yn edrych ar y bylchau ac anghysonderau, ac yn gwneud cynigion dros dro i'w datrys. Nod ein cynigion yw creu system o dribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru a fydd yn hyblyg ac yn ymatebol i newidiadau yn y galw yn y dyfodol, ac a fydd yn osgoi'r posibilrwydd i anghysonderau godi yn y dyfodol.

1.4 Rydym yn gofyn am ymatebion i'r ymgynghoriad hwn erbyn 19 Mawrth 2021. Er y byddwn yn croesawu ymatebion ar unrhyw ffurf, mae'n bosib y bydd ymgyngoreion yn ei chael yn fwyaf cyfleus defnyddio'r ffurflen ymateb sydd ar gael ar ein gwefan yn https://www.lawcom.gov.uk/tribiwnlysoedd-datganoledig-yng-nghymru/.

## DECHREADAU'R PROSIECT HWN

1.5 Yn 13eg raglen Comisiwn y Gyfraith, rhagwelwyd y byddai Comisiwn y Gyfraith yn ymgymryd â gwaith yn ymwneud â chyfraith ddatganoledig Cymru, ond ni nodwyd maes cyfreithiol penodol. Yn dilyn trafodaethau, cytunodd y Comisiwn a Llywodraeth Cymru mai Tribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru fyddai'r prosiect arfaethedig.

1.6 Cyflwynwyd datganiad ysgrifenedig i'r Cynulliad gan y Prif Weinidog ar y pryd, Carwyn Jones AS, ym mis Gorffennaf 2018, yn cyhoeddi'r prosiect.[1] Cafwyd datganiad pellach yn cyhoeddi bod y prosiect wedi dechrau gan y Prif Weinidog presennol, Mark Drakeford AS, yn Awst 2020.[2]

1 https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-tribiwnlysoedd-cymru-prosiect-comisiwn-y-gyfraith (Cyrchwyd yr holl hyperddolenni ddiwethaf ar 1 Rhagfyr 2020.)

2 https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-prosiect-comisiwn-y-gyfraith-tribiwnlysoedd-datganoledig-yng-nghymru

## EIN CYLCH GORCHWYL

1.7 Gofynnwyd i ni ystyried materion yn ymwneud â Bil Tribiwnlysoedd newydd i Gymru, sydd â’r bwriad o reoleiddio gweithrediadau system sengl o dribiwnlysoedd yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori eisoes ar gynlluniau i gynnwys rheoleiddio tribiwnlysoedd mewn Cod Gweinyddiaeth Gyhoeddus i Gymru.[3] Mae ein Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Llywodraeth Cymru yn cofnodi bod ein hadolygiad yn cynnwys materion fel:

(1) cwmpas system dribiwnlysoedd i Gymru;

(2) rolau Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ac Uned Tribiwnlysoedd Cymru;

(3) penodi a disgyblu barnwyr tribiwnlysoedd ac aelodau eraill;

(4) penodi Llywyddion a Dirprwyon;

(5) y pŵer i wneud a safoni rheolau gweithdrefnol;

(6) prosesau apeliadau;

(7) prosesau cwynion; ac

(8) gwarchod annibyniaeth farnwrol.

1.8 Nid yw’r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn enwi’r tribiwnlysoedd sydd o fewn cylch gwaith y prosiect. Rydym yn gwneud cynigion dros dro, ac yn gofyn am farn ar ba gyrff penderfynu y dylid eu cynnwys, ym Mhennod 2. Y rhai amlwg i’w hystyried yw’r tribiwnlysoedd Cymreig a restrir yn adran 59(1) o Ddeddf Cymru 2017, sef:

(1) Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru (“TTAC”);

(2) Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (“TAIMC”);

(3) Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru (“TEPC”);[4]

(4) Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (“TAAAC”) (sydd i’w ailenwi’n Dribiwnlys Addysg Cymru);

(5) tribiwnlys wedi’i gyfansoddi’n unol ag Atodlen 3 i Ddeddf Addysg 2005 (cofrestru arolygwyr yng Nghymru; tribiwnlysoedd yn gwrando apeliadau o dan adran 27);[5]

---

[3] Llywodraeth Cymru, *Dyfodol cyfraith Cymru: categoreiddio, cydgrynhoi a chodeiddio* (Hydref 2019) https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-01/dyfodol-cyfraith-cymru-dogfen-ymgynghori.pdf.

[4] Fe’i diffiniwyd fel a ganlyn yn adran 59(1) o Ddeddf Cymru 2017: “rent assessment committee constituted in accordance with Schedule 10 to the Rent Act 1977 (including a leasehold valuation tribunal and a residential property tribunal)”.

[5] Mae dau dribiwnlys wedi’u cyfansoddi’n unol â’r darpariaethau hyn sef, yn eu trefn, y Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Ysgolion a’r Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Addysg Feithrin. Anaml y

(6) tribiwnlys a godir o Banel Dyfarnu Cymru ("PDC"); a

(7) Tribiwnlys y Gymraeg ("TG").

1.9 Yn ogystal â'r "tribiwnlysoedd adran 59" hyn, ein barn ddechreuol yw y dylai'r prosiect gwmpasu unrhyw dribiwnlys sy'n ateb y diffiniad o "dribiwnlys datganoledig" yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Ym Mhennod 2 rydym yn ystyried pa gyrff y dylid eu hystyried yn "dribiwnlysoedd datganoledig" i ddibenion y prosiect hwn, ac yn gwneud cynigion dros dro am ein dull o bennu pa gyrff penderfynu sy'n dribiwnlysoedd a ddylai gael eu cynnwys yn y prosiect. Ein barn dros dro yw y bydd y dull hwn o weithredu yn golygu cynnwys Tribiwnlys Prisio Cymru ("TPC"), sy'n dyfarnu ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau ar y dreth gyngor ac ardrethi annomestig, a hefyd paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion.[6]

1.10 Ein dull o weithredu drwy gydol y prosiect hwn oedd canolbwyntio ar y tribiwnlysoedd presennol, a'r strwythurau cyffredinol sy'n eu rheoli. Nid oedd yn bosib adolygu maes cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru a ffurfio barn ynghylch a oes angen tribiwnlysoedd neu ddulliau apelio ychwanegol. Yn hytrach, rydym wedi canolbwyntio ar wneud cynigion dros dro a fydd yn gwella gweithrediadau'r tribiwnlysoedd presennol, gan greu strwythur cadarn a hyblyg yr un pryd a fydd yn gallu datblygu dros amser. Byddai ein cynnig dros dro ym Mhennod 3.89 ar gyfer tribiwnlys unedig newydd yn ei gwneud yn haws i greu siambrau ychwanegol, heb orfod ailddyfeisio prosesau ar gyfer materion fel penodiadau, disgyblu a rheolau gweithdrefnol.

## DATBLYGIAD Y TRIBIWNLYSOEDD DATGANOLEDIG

1.11 Er mwyn deall patrwm presennol y tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru, bydd o gymorth deall sut maent wedi datblygu. Yn yr adran hon rydym yn cynnig trosolwg byr ar ddatblygiad y system bresennol o dribiwnlysoedd datganoledig, yn cynnwys argymhellion blaenorol ar gyfer diwygio. Rydym yn canolbwyntio yn yr adran hon ar y "tribiwnlysoedd adran 59". Er hynny, rydym yn trafod tribiwnlysoedd eraill sydd, yn ein barn dros dro, yn dod o fewn cwmpas y prosiect.

### Y system dribiwnlysoedd datganoledig

1.12 Sefydlwyd y rhan fwyaf o'r tribiwnlysoedd adran 59 yn ystod yr 20fed ganrif, yn rhan o rwydwaith ehangach o dribiwnlysoedd ar draws Cymru a Lloegr. Hyd yn oed cyn datganoli, roedd nifer o'r tribiwnlysoedd yn gweithredu ar sail ranbarthol. Er enghraifft, roedd yr olynydd i Ddeddf Iechyd Meddwl 1959, Deddf Iechyd Meddwl 1983, yn darparu ar gyfer tribiwnlys adolygu iechyd meddwl i Gymru, yn ogystal â thribiwnlysoedd rhanbarthol eraill (un i bob awdurdod iechyd rhanbarthol) yng Nghymru a Lloegr. Rhai enghreifftiau eraill yw TAAAC a TPC (a oedd gynt yn rhan o rwydwaith rhanbarthol ehangach o dribiwnlysoedd prisio).[7] Y diweddaraf o'r tribiwnlysoedd adran 59 i gael ei greu yw Tribiwnlys y Gymraeg a sefydlwyd yn 2015.

---

ceir apeliadau i'r tribiwnlysoedd hyn; a gall swyddogaethau'r tribiwnlys gael eu gweithredu gan aelodau TAAAC.

[6] Gweler paragraffau 2.57 i 2.69 isod} am drafodaeth bellach am y cyrff hyn.

[7] Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, *Adolygiad o Dribiwnlysoedd sy'n Gweithredu yng Nghymru* (Ionawr 2010), t 43.

1.13 Fel y nododd Huw Pritchard, datganolwyd y cyfrifoldeb dros weinyddu'r rhan fwyaf o'r tribiwnlysoedd datganoledig (ac eithrio PDC a TG, nad oeddent yn bodoli eto) pan ddaeth Deddf Cymru 1998 i rym:

> Executive functions over 18 devolved fields, listed in Schedule 2 of the [Government of Wales] Act [1998], were transferred to the National Assembly for Wales. Powers over administrative tribunals within those fields were also devolved. For example, [the National Assembly of Wales (Transfer of Functions)] Order in 1999 devolved functions under the Rent Act 1977 which included responsibility for Rent Assessment Committees.[8]

1.14 Y prif reswm dros ddatganoli tribiwnlysoedd ynghyd â phwerau gweithredol mewn meysydd penodol oedd bod y tribiwnlysoedd yn cael eu gweld o hyd yn atodiad i'r weithrediaeth, yn hytrach na rhan o'r farnwriaeth. Un o ganlyniadau datganoli oedd bod tribiwnlysoedd a ddatganolwyd eisoes heb gael eu cynnwys yn adolygiad Leggatt a heb gael eu cynnwys yn y diwygiadau a weithredwyd wedyn drwy Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 (DTLIG 2007"). Roedd y diwygiadau hynny'n disodli tribiwnlysoedd unigol gan roi tribiwnlys unedig yn eu lle a oedd yn cynnwys Tribiwnlys yr Haen Gyntaf ac Uwch Dribiwnlys apeliadol, y ddau wedi'u rhannu'n siambrau.

1.15 Yn rhan o'r diwygiadau hyn, diddymwyd y tribiwnlysoedd cyfatebol ar gyfer Lloegr, a throsglwyddwyd eu swyddogaethau i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf. Ac eithrio TG, roedd tribiwnlys neu dribiwnlysoedd cynt yn Lloegr a oedd yn cyfateb i bob un o'r tribiwnlysoedd adran 59. Diddymwyd y tribiwnlysoedd yn Lloegr a oedd yn cyfateb i'r Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Ysgolion a'r Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Addysg Feithrin gan Ddeddf Addysg 2005 cyn gwneud DTLIG 2007; diddymwyd y tribiwnlysoedd a oedd yn cyfateb i'r tribiwnlysoedd eraill a'u disodli gan Dribiwnlys yr Haen Gyntaf.

1.16 Mae tribiwnlys cyfatebol o hyd yn Lloegr ar gyfer tribiwnlysoedd datganoledig eraill. Yr enghraifft amlycaf yw Tribiwnlys Prisio Lloegr, sydd heb gael ei gynnwys yn Nhribiwnlys yr Haen Gyntaf. Yn yr un modd, mae paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion yn bodoli o hyd yn Lloegr (er bod paneli apelio gwaharddiadau ysgolion bellach yn cael eu galw'n baneli adolygu annibynnol, ac yn gweithredu ychydig yn wahanol).

1.17 Ar ôl cyhoeddi Adroddiad Leggatt, trosglwyddwyd swyddogaethau gweithredol o Gynulliad Cenedlaethol Cymru i Lywodraeth Cynulliad Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006"). Yn 2010, pan gyhoeddodd Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd ("Pwyllgor Cymreig y CCGT") ei adolygiad o dribiwnlysoedd sy'n gweithredu yng Nghymru (sydd wedi'i drafod yn fanylach isod), roedd y tribiwnlysoedd datganoledig yn cael eu gweinyddu gan wahanol adrannau o Lywodraeth Cynulliad Cymru.[9]

---

[8] H Pritchard, "Building a Welsh Jurisdiction Through Administrative Justice" (2017) yn *Administrative Justice in Wales and Comparative Perspectives*, t 225.

[9] Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, *Adolygiad o Dribiwnlysoedd sy'n Gweithredu yng Nghymru* (2010), t 12.

1.18 O 2010 ymlaen, daeth rhai o'r tribiwnlysoedd hyn i gael eu gweinyddu gan yr Uned Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd ("yr UCGT") a oedd yn rhan o Lywodraeth Cymru (sy'n cael ei thrafod yn fwy manwl ym mharagraffau 1.27 a 9.7 i 9.9 isod). Yn ddiweddarach, ailenwyd yr uned honno'n Uned Tribiwnlysoedd Cymru, ac mae'n parhau i weinyddu'r tribiwnlysoedd adran 59.

1.19 Y sefyllfa a gafwyd o ganlyniad i hyn yw bod y tribiwnlysoedd datganoledig wedi'u sefydlu:

> at different stages of devolution, meaning that their statutory basis and regulation is governed by multiple sources of United Kingdom, England and Wales, and Wales only primary and secondary legislation.[10]

## Adolygiadau blaenorol o'r system dribiwnlysoedd yng Nghymru

1.20 Mae'r adran hon yn cynnwys crynodeb byr o adolygiadau blaenorol o dribiwnlysoedd yng Nghymru, ac adolygiadau o'r system gyfiawnder ehangach yng Nghymru a oedd yn cynnwys trafodaeth am y tribiwnlysoedd datganoledig. Rydym yn tynnu'n fwy manwl ar yr argymhellion a wnaed yn yr adolygiadau hynny ym mhob un o'r penodau dilynol.

### Adolygiad o dribiwnlysoedd sy'n gweithredu yng Nghymru (2010)

1.21 Roedd y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd ("CCGT") yn gorff statudol a gafodd ei sefydlu gan Lywodraeth y DU yn 2008 a'i ddiddymu yn 2013. Roedd ganddo gyfrifoldeb helaeth dros gyfiawnder gweinyddol. Yn adroddiad Pwyllgor Cymreig y CCGT yn 2010, cafwyd adolygiad o weithrediad tribiwnlysoedd yng Nghymru. Roedd yr adolygiad yn ymdrin â'r cyrff hynny a restrir yng Ngorchymyn Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd (Tribiwnlysoedd a Restrir) (Cymru) 2007,[11] TAIMC, TTAC a'r Tribiwnlys Cosbau Traffig (pan fydd yn cynnal gwrandawiadau yng Nghymru).

1.22 Roedd Pwyllgor Cymreig y CCGT wedi nodi'r ffordd *ad hoc* yr oedd y system dribiwnlysoedd datganoledig wedi datblygu ac wedyn wedi beirniadu diffyg annibyniaeth tribiwnlysoedd oddi wrth adrannau yn Llywodraeth Cymru a oedd yn gyfrifol am eu gweinyddu. Cynigiodd set o egwyddorion ar gyfer gwerthuso tribiwnlysoedd datganoledig: mae disgrifiad manylach o'r rhain ym mharagraff 1.39 isod.

1.23 Gwnaed nifer o argymhellion yn yr adroddiad, yn cynnwys un i sefydlu canolbwynt ar gyfer cyfiawnder gweinyddol (yn Adran y Prif Weinidog a'r Cabinet, os oedd modd) ac un i gyfuno tribiwnlysoedd. Roedd Pwyllgor Cymreig y CCGT hefyd yn argymell

---

10 S Nason a H Pritchard, "Administrative Justice and the Legacy of Executive Devolution: Establishing a Tribunals System for Wales" (2020) *26 Australian Journal of Administrative Law* 233, t 235.

11 Roedd y Gorchymyn yn rhestru'r tribiwnlysoedd yng Nghymru sydd o dan oruchwyliaeth y CCGT. Mae wedi'i ddiddymu bellach ond roedd yn cynnwys pwyllgorau asesu rhenti, Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, tribiwnlysoedd a godir o Banel Dyfarnu Cymru, y Panel Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Ysgolion a Phaneli Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Addysg Feithrin, paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion, Tribiwnlys Prisio Cymru a nifer o'r cyrff eraill a drafodir yn Pennod 2 isod.

sefydlu egwyddorion cyffredin er mwyn sicrhau mwy o gydlyniant rhwng y tribiwnlysoedd, yn cynnwys hawliau apelio a gweithdrefnau cwynion cyson.

1.24 Roedd yr argymhelliad yn adolygiad 2010 ar gyfer sefydlu "canolbwynt" i gyfiawnder gweinyddol wedi arwain ym Mawrth 2010 at greu UCGT, y cyfeiriwyd ati ym mharagraff 1.18 uchod.

### Adolygiad o dribiwnlysoedd datganoledig sy'n gweithredu yng Nghymru (2014)

1.25 Yn 2014 cynhaliwyd adolygiad gan Lywodraeth Cymru i asesu'r cynnydd a gafwyd ar weithredu'r argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Cymreig y CCGT yn ei adroddiad yn 2010.

1.26 Nodwyd yn yr adroddiad fod nifer o faterion pwysig nad oedd yr UCGT yn gallu delio â nhw, er ei bod wedi'i sefydlu i fod yn "ganolbwynt sengl" i gyfiawnder gweinyddol a thribiwnlysoedd. Roedd y rhain yn cynnwys materion yn ymwneud ag adnoddau, ymddygiad ac arweinyddiaeth farnwrol o fewn y Tribiwnlysoedd Cymreig, penodiadau a hyfforddi aelodau tribiwnlysoedd.

1.27 Wrth adleisio argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Cymreig y CCGT, roedd yr adroddiad yn argymell bod dull cyson ac unedig o weithredu'n cael ei ddatblygu ar draws y tribiwnlysoedd Cymreig datganoledig mewn meysydd fel prosesau cwynion, hyfforddi, apeliadau a phenodiadau. Roedd yr adroddiad hefyd yn argymell creu swydd Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru, i oruchwylio'r tribiwnlysoedd datganoledig a'r broses o drosglwyddo swyddogaethau polisi'r UCGT i'r Tîm Polisi Cyfiawnder yn Llywodraeth Cymru. Trosglwyddwyd swyddogaethau polisi'r UCGT i'r Tîm Polisi Cyfiawnder ar ddiwedd 2014, ac ailenwyd yr UCGT yn Uned Tribiwnlysoedd Cymru.

### Cyfiawnder cymdeithasol: sylfaen cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru (2016)

1.28 Yn 2016 cyhoeddwyd adroddiad gan Bwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru ("PCGTC"), yr olynydd i Bwyllgor Cymreig y CCGT, am faes cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru. Yn yr un modd â'r adolygiad gan Lywodraeth Cymru yn 2014, roedd PCGTC yn argymell y dylid cael uwch arweinydd barnwrol i dribiwnlysoedd datganoledig a gweithdrefn safonol ar gyfer penodiadau.[12]

1.29 Rhoddwyd sylw i'r mater hwn yn Neddf Cymru 2017, a greodd rôl Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ("LITC").[13] Rydym yn trafod rôl LITC yn fwy manwl yn Pennod 8.

1.30 Problem arall a nodwyd yn Adroddiad 2016 oedd "only partial existence of formal agreements between the Welsh Government and the Judicial Office, Judicial Appointments Commission, the Judicial College and Judicial Conduct Investigations Office".[14] Unwaith eto, cafwyd rhywfaint o gynnydd ar hyn; mae cytundeb ffurfiol wedi'i

---

[12] Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru, *Administrative Justice: a Cornerstone of Social Justice in Wales* (2016), paragraff 31.

[13] Deddf Cymru 2017, a 60.

[14] Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru, *Administrative Justice: a Cornerstone of Social Justice in Wales* (2016), paragraff 24.

wneud bellach â'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol ar gyfer y penodiadau y mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol amdanynt.

1.31 O ganlyniad i'r adolygiadau a amlinellwyd uchod, cymerwyd rhai camau i ddod â'r tribiwnlysoedd datganoledig ynghyd. Fodd bynnag, fel y nododd Dr Huw Pritchard, er bod hyn wedi creu "some degree of coherence", "it remains difficult to conclude that the devolved tribunals actually constitute a 'system'".[15]

1.32 Mae'r prosiect hwn yn adeiladu ar sail y gwaith blaenorol hwn ac, fel y nodwyd yn 1.7 uchod, mae ein cylch gorchwyl yn cynnwys materion sy'n ymwneud â Bil Tribiwnlysoedd newydd i Gymru ar gyfer rheoleiddio gweithrediad system sengl o dribiwnlysoedd yng Nghymru.

### Y tribiwnlysoedd Cymreig o dan Ddeddf Cymru 2017

1.33 Gwnaed y newidiadau pwysicaf yn y tribiwnlysoedd datganoledig er 1998 gan Ddeddf Cymru 2017 ("Deddf 2017"). Yn ogystal â gwneud diwygiadau sylweddol i'r setliad datganoli, sefydlodd swydd LITC a chreu'r rhestr o "dribiwnlysoedd Cymreig"; rydym yn galw'r tribiwnlysoedd hyn fel arfer yn "dribiwnlysoedd adran 59", er mwyn osgoi cymysgu rhyngddynt a thribiwnlysoedd eraill sy'n gweithredu yng Nghymru. Mae LITC yn gyfrifol am y tribiwnlysoedd adran 59 yn unig, ynghyd â chyfuniad o ddyletswyddau "mewnol" (yn cynnwys lles aelodau, hyfforddiant, a sicrhau bod tribiwnlysoedd yn hygyrch) a dyletswyddau "allanol" (i weithredu ar ran tribiwnlysoedd adran 59 wrth ymwneud â Llywodraeth Cymru a'r Senedd).

1.34 Roedd Deddf 2017 hefyd wedi cyflwyno trefniadau trawsleoli rhwng tribiwnlysoedd adran 59. Mae hyn yn galluogi aelod o un o'r tribiwnlysoedd i eistedd yn aelod o dribiwnlys arall, ar ôl cael cymeradwyaeth gan LITC ac, yn y rhan fwyaf o achosion, cytundeb gan arweinydd barnwrol yr ail dribiwnlys.[16] Mae Deddf 2017 hefyd yn caniatáu i aelodau tribiwnlysoedd adran 59 gael eistedd yn Nhribiwnlys yr Haen Gyntaf, ac i aelodau a barnwyr Tribiwnlys yr Haen Gyntaf gael eistedd yn y tribiwnlysoedd adran 59.[17]

1.35 Fel yr eglurwyd uchod, nid yw'r rhestr o dribiwnlysoedd yn adran 59 o Ddeddf 2017 yn un hollgynhwysol. Mae'n bwysig nodi nad yw'n cynnwys TPC na phaneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion, sydd wedi'u cynnwys yn y diwygiadau arfaethedig yn ein cynnig dros dro.[18]

### Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru (2019)

1.36 Cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr gan y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru o'r system gyfiawnder yng Nghymru a gwnaeth argymhellion ar gyfer ei dyfodol hirdymor.

---

15 H Pritchard, "Building a Welsh jurisdiction through administrative justice" yn *Administrative Justice in Wales and Comparative Perspectives*, S Nason (gol) (2017) t 229. Ceir rhagor o fanylion ym Mhennod 3, paragraffau 3.52 i 3.56 isod.

16 Deddf Cymru 2017, a 62. Mae'r ddeddfwriaeth yn defnyddio nifer o wahanol dermau wrth gyfeirio at aelodau llywyddol y tribiwnlysoedd; rydym ni'n defnyddio'r term "arweinwyr barnwrol" fel arfer ar gyfer hyn.

17 Deddf Cymru 2017, a 63.

18 Gweler paragraffau 2.57 i 2.61 isod.

Gwnaeth y Comisiwn argymhellion mewn nifer o feysydd, yn cynnwys mynediad at gyfiawnder, cyfiawnder troseddol, cyfiawnder teuluol, cyfiawnder sifil a gweinyddol a'r Gymraeg.

1.37 O ran tribiwnlysoedd, roedd y Comisiwn yn argymell y dylai LITC fod yn gyfrifol am oruchwylio'r holl gyrff cyhoeddus, ombwdsmyn neu dribiwnlysoedd eraill a sefydlir o dan gyfraith Cymru neu gan Lywodraeth Cymru. Yn ogystal â hyn, roedd y Comisiwn yn argymell y dylai strwythur LITC fod yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru ac y dylid defnyddio tribiwnlysoedd datganoledig i ddatrys anghydfodau sy'n codi yng nghyswllt deddfwriaeth Gymreig yn y dyfodol.[19]

1.38 Rydym yn ymwybodol bod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn y Senedd wedi cychwyn ymchwiliad, mewn ymateb i gynigion y Comisiwn, i weithrediad swyddogaethau cyfiawnder ac i ffyrdd i'r system gyfiawnder weithredu'n fwy effeithiol yng Nghymru.[20] Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn rhoi ystyriaeth ar hyn o bryd i weithredu rhannau o gynigion y Comisiwn.

## YR EGWYDDORION SY'N SAIL I'N DADANSODDIAD

1.39 Wrth baratoi'r Papur Ymgynghori hwn, roeddem wedi'i chael yn fuddiol cyfeirio at yr egwyddorion ar gyfer tribiwnlysoedd Cymreig a baratowyd yn rhan o adroddiad Pwyllgor Cymreig y CCGT yn 2010,[21] sef:

(1) **Annibyniaeth a didueddrwydd**. Roedd adroddiad 2010 wedi pwysleisio y dylai tribiwnlysoedd fod yn annibynnol a diduedd, a'i bod yn bwysig iddynt gael eu gweld felly. Roedd hynny'n golygu hefyd fod angen i aelodau tribiwnlysoedd fod yn annibynnol ac y dylai'r gweithdrefnau ar gyfer eu penodi fod yn rhai teg, agored a seiliedig ar deilyngdod. Mae cyfarwyddyd penodol yn ein cylch gorchwyl hefyd i ystyried annibyniaeth y farnwriaeth.

(2) **Dylai tribiwnlysoedd gael eu cynllunio a'u trefnu gan roi sylw i anghenion y dinesydd**. Roedd adroddiad 2010 wedi trafod yn eithaf manwl sut y gellid cyflawni hyn. Egwyddorion a oedd yn neilltuol o bwysig i'r adolygiad hwn oedd bod rhaid darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr am brosesau a gweithdrefnau tribiwnlysoedd ac y dylai'r gweithdrefnau hynny fod yn rhai sy'n anffurfiol a galluogol.

(3) **Effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd**. Yma eto, mae adroddiad 2010 yn cynnig nifer o ffyrdd i gyflawni'r egwyddor hon. Mae hyn yn cynnwys yr angen i sicrhau arweinyddiaeth farnwrol a strwythur tribiwnlysoedd clir.

(4) **Cydlyniant**. Hon oedd yr egwyddor olaf yn adroddiad 2010. Roedd yn awgrymu y dylid cael strwythur cydlynus ar gyfer tribiwnlysoedd a fframwaith neu egwyddorion cyffredin ar gyfer sefydlu tribiwnlysoedd newydd. Roedd hefyd yn

---

19 Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, *Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru* (Hydref 2019), paragraffau 6.50 a 6.59.2.

20 https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=27933

21 Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, *Adolygiad o Dribiwnlysoedd sy'n Gweithredu yng Nghymru* (2010) tt 24 a 25.

argymell y dylid cael dulliau priodol a chyson ar gyfer adolygu neu apelio yn erbyn penderfyniadau gan dribiwnlysoedd.

## STRWYTHUR Y PAPUR YMGYNGHORI HWN

1.40 Mae'r Papur Ymgynghori hwn wedi'i rannu'n naw pennod bellach a'r rheini'n cyfateb yn fras i'r gwahanol elfennau yng nghylch gorchwyl y prosiect.

(1) Mae Pennod 2 yn egluro rhai o'n syniadau cyntaf am y prosiect. Mae'n edrych ar beth rydym yn ei olygu wrth y term "tribiwnlys" ac ar y fframwaith datganoledig sy'n berthnasol i'r prosiect hwn. Wedyn rydym yn cymhwyso'r dadansoddiad hwnnw at gyrff penderfynu penodol yng Nghymru er mwyn ffurfio barn dros dro am ba gyrff a ddylai fod y tu mewn neu'r tu allan i gwmpas y prosiect hwn.

(2) Mae Pennod 3 yn ymdrin â strwythur y system dribiwnlysoedd ar lefel yr haen gyntaf. Mae'n edrych ar y system bresennol o dribiwnlysoedd adran 59, ac yn gwneud cynnig dros dro ar gyfer sefydlu tribiwnlys unedig newydd, wedi'i rannu'n siambrau drwy is-ddeddfwriaeth. Mae hefyd yn ystyried a ddylai tribiwnlysoedd eraill fel TPC a phaneli apelio gwaharddiadau ysgolion fod yn rhan o dribiwnlys unedig newydd, gan wneud cynnig dros dro y dylai TPC fod yn rhan ohono ac y dylid trosglwyddo swyddogaethau paneli apelio gwaharddiadau ysgolion i TAAAC. Mae'n cynnig y dylai paneli apelio derbyniadau ysgolion aros fel y maent am y tro, ond y dylid dal dan sylw y posibilrwydd o drosglwyddo eu swyddogaethau i TAAAC.

(3) Mae Pennod 4 yn ystyried apeliadau sy'n cael eu dwyn ymlaen o'r tribiwnlysoedd datganoledig. Mae'n gofyn a ddylai'r llwybrau apêl o bob tribiwnlys fod yr un fath, a ble y dylid gwrando'r apeliadau hynny. Mae'n gwerthuso manteision yr Uchel Lys a'r Uwch Dribiwnlys presennol fel cyrff apeliadol ar gyfer y tribiwnlysoedd datganoledig, ac yn edrych ar y posibilrwydd o greu Tribiwnlys Apêl i Gymru, gan ofyn am farn ymgyngoreion ar yr opsiynau hyn. Mae hefyd yn gwneud cynnig dros dro y dylid creu hawl apelio o baneli apelio derbyniadau ysgolion i TAAAC.

(4) Mae Pennod 5 yn ystyried sut mae rheolau gweithdrefnol y tribiwnlysoedd datganoledig yn cael eu gwneud, ac i ba raddau y gellid safoni'r rheolau hynny. Mae'n gwneud cynnig dros dro ar greu Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd ar gyfer y tribiwnlysoedd datganoledig.

(5) Mae Pennod 6 yn edrych ar y gwahanol ffyrdd o benodi i'r tribiwnlysoedd datganoledig, ar gyfer arweinwyr barnwrol ac aelodau, ac yn ystyried pa egwyddorion a allai fod yn sail i ddull mwy cyson o weithredu. Rydym yn gwneud cynnig dros dro ar gyfer system lle mae aelodau'n cael eu penodi gan LITC, ac arweinwyr barnwrol[22] yn cael eu penodi ar y cyd gan LITC a Gweinidogion Cymru. Rydym hefyd yn ystyried prosesau dethol a rôl y Comisiwn Penodiadau Barnwrol.

[22] Rydym yn defnyddio'r term hwn i gyfeirio at Lywydd neu Gadeirydd tribiwnlys.

(6) Mae Pennod 7 yn ystyried pwy a ddylai fod yn gyfrifol am ddisgyblu arweinwyr barnwrol ac aelodau tribiwnlysoedd, a pha fath o broses y dylid ei fabwysiadu. Mae hefyd yn ystyried ffyrdd i wella prosesau cwynion yn y tribiwnlysoedd datganoledig.

(7) Mae Pennod 8 yn edrych ar rôl LITC, gan ymhelaethu ar ein trafodaeth am y rôl mewn meysydd eraill fel penodiadau a disgyblu. Mae'n ystyried a ddylai LITC gael yr hawl i eistedd fel barnwr yn y tribiwnlysoedd. Mae hefyd yn ystyried a ddylid ehangu'r rôl i gynnwys goruchwyliaeth farnwrol ar baneli apelio derbyniadau ysgolion.

(8) Mae Pennod 9 yn trafod rôl UTC, a ffyrdd posib i'w hailstrwythuro i ddarparu mwy o annibyniaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru.

(9) Yn olaf, mae Pennod 10 yn trafod egwyddor annibyniaeth farnwrol a ffyrdd i'w gwarchod o fewn y tribiwnlysoedd datganoledig. Rydym yn gwneud cynnig dros dro y dylid gosod dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru ac eraill sy'n gyfrifol am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru i barchu annibyniaeth y tribiwnlysoedd datganoledig, ac y dylai arweinwyr barnwrol ac aelodau tribiwnlysoedd dyngu'r llw barnwrol.

1.41 Yn Atodiad 1 i'r Papur Ymgynghori hwn, darperir gwybodaeth gefndir am bob un o'r tribiwnlysoedd y dylid eu cynnwys, yn ôl ein barn dros dro, yn y diwygiadau yn ein cynigion dros dro.

## YR ASESIAD EFFAITH DRAFFT

1.42 Mae Comisiwn y Gyfraith yn llunio asesiadau effaith yng nghyswllt ei gynigion ar gyfer diwygio. Byddwn yn cyhoeddi asesiad effaith rhagarweiniol o'n cynigion dros dro ar gyfer diwygio a fydd ar gael ar-lein gyda'r Papur Ymgynghori hwn. Rydym yn gobeithio y bydd ein hymgynghoriad cyhoeddus yn darparu cyfle i gryfhau ein sylfaen dystiolaeth er mwyn llunio asesiad effaith trylwyr i'w ystyried ar y cyd â'n hargymhellion ar gyfer diwygio, a'n hadroddiad terfynol. Rydym yn gofyn am sylwadau gan ymgyngoreion ynghylch effaith ein cynigion dros dro. Fel rydym yn nodi isod {ym mharagraffau 3.35 i 3.37, mae'n anodd asesu a fydd strwythurau tribiwnlysoedd cyfunol yn dod â'r manteision arfaethedig. Byddwn yn falch iawn o gael mewnwelediad gan ymgyngoreion i'r effaith o gyfuno tribiwnlysoedd.

1.43 Her arall wrth baratoi'r asesiad effaith drafft oedd dod o hyd i wybodaeth ddiweddar a chynhwysfawr am weithrediad paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion. Gweinyddir y rhain gan awdurdodau lleol ac, o ganlyniad i hynny, nid oes ffynhonnell wybodaeth gynhwysfawr, ganolog am weithrediad y paneli hyn ledled Cymru, ac nid oes person neu swyddfa benodol sy'n gallu siarad ar eu rhan. Byddem yn falch o gael sylwadau gan ymgyngoreion am effaith ein cynigion ar y paneli hynny, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth y gall ymgyngoreion ei rhannu am weithrediad y paneli hynny a nifer eu gwrandawiadau.

## DIOLCHIADAU

1.44 Rydym yn ddiolchgar i bawb sydd wedi rhannu eu barn â ni wrth weithio ar y Papur Ymgynghori hwn. Mae'r gwaith hwnnw wedi digwydd yn ystod cyfnod anodd i'r tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru, gan eu bod wedi gorfod ymateb yn gyflym i newidiadau a gododd yn sgil y pandemig COVID-19. Er hynny, mae'r LITC presennol, Syr Wyn Williams, tîm Cyfiawnder a Pholisi Llywodraeth Cymru, staff UTC a'i phennaeth, Rhian Davies Rees, ac arweinwyr barnwrol y tribiwnlysoedd datganoledig wedi rhoi'n hael bob un o'u hamser a'u harbenigedd. Rydym yn ddiolchgar dros ben am y cymorth a gawsom gan aelodau Pwyllgor Cynghorol Comisiwn y Gyfraith i Gymru a chan aelodau ein grŵp cynghorol ar dribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru, a gynhaliodd ei gyfarfod cyntaf ar 1 Hydref 2020. Mae rhestr yn Atodiad 2 o'r rheini a oedd yn bresennol yng nghyfarfod cyntaf grŵp cynghorol y prosiect hwn.

1.45 Rydym hefyd yn ddyledus i'r rheini a oedd yn ymwneud â threfnu cynhadledd Cymru'r Gyfraith, a fu mor garedig â'n gwahodd i siarad am y prosiect yn Hydref 2019 ac yn Hydref 2020.

## Y TÎM SY'N GWEITHIO AR Y PROSIECT

1.46 Mae'r aelodau staff canlynol wedi cyfrannu i'r Papur Ymgynghori hwn mewn gwahanol gyfnodau: Henni Ouahes (rheolwr tîm); Sarah Smith (cyfreithiwr yn y tîm cyfraith gyhoeddus a chyfraith yng Nghymru yng Nghomisiwn y Gyfraith); Liam Evans ac Awen Edwards (cynorthwywyr ymchwil).

# Chapter 2: Tribiwnlysoedd yng Nghymru: cymhwysedd datganoledig a thribiwnlysoedd datganoledig

## CYFLWYNIAD

2.1 Mae'r bennod hon yn disgrifio'r fframwaith datganoledig yng nghyd-destun y prosiect hwn ac yn egluro sut rydym wedi mynd ati i bennu'r tribiwnlysoedd sydd o fewn cwmpas ein hadolygiad. Rydym yn dechrau drwy ddarparu rhai manylion technegol am y fframwaith datganoledig presennol yng Nghymru. Rhoddir sylw neilltuol i effaith y setliad datganoli ar y gwahanol bynciau yn ein cylch gorchwyl, a nodir lle y byddai angen ymgynghori â Gweinidogion y DU neu gael cydsyniad ganddynt cyn y byddai modd i'r Senedd weithredu ar ein cynigion dros dro.

2.2 Yn ail ran y bennod, rydym yn mynd ymlaen i ystyried cwestiwn cysylltiedig: pa gyrff penderfynu yng Nghymru sy'n dribiwnlysoedd datganoledig i ddibenion y prosiect hwn? Nid mater syml yw penderfynu pa gyrff sy'n dribiwnlysoedd datganoledig. Yn ein barn ni, mae corff yn dribiwnlys datganoledig: (1) os yw'n gorff y mae ei swyddogaethau'n ymarferadwy mewn perthynas â Chymru'n unig; (2) os nad yw ei swyddogaethau'n ymwneud â materion a gedwir yn ôl,[23] a (3) os yw'n dwyn nodau amgen tribiwnlys sef, yn benodol, ei fod yn dyfarnu ar anghydfodau rhwng partïon drwy wneud penderfyniadau rhwymol. Rydym yn gofyn i ymgyngoreion a ydynt yn cytuno â'r meini prawf hynny a hefyd â'r ffordd rydym yn cymhwyso'r meini prawf at wahanol gyrff penderfynu yng Nghymru.

## Y FFRAMWAITH DATGANOLEDIG

2.3 Yn yr adran hon rydym yn trafod cymhwysedd deddfwriaethol (gallu'r Senedd i basio deddfwriaeth mewn maes penodol) yn ogystal â chymhwysedd gweithredol (gallu Gweinidogion Cymru i arddel eu pwerau trwy wneud deddfwriaeth eilaidd). Rydym yn canolbwyntio ar y ffordd y mae datganoli'n gymwys i nifer penodol o agweddau ar y prosiect hwn, yn cynnwys Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ac Uned Tribiwnlysoedd Cymru ("UTC"), penodiadau i dribiwnlysoedd, y pŵer i wneud eu rheolau gweithdrefnol ac i bennu prosesau apelio a phrosesau cwynion.

2.4 Nid yw cwmpasau'r cymhwysedd deddfwriaethol a'r cymhwysedd gweithredol yn cyfateb. Er enghraifft, er bod y gyfraith ar gyfer penodi aelodau i dribiwnlysoedd datganoledig yn dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, mae'r pŵer i benodi aelodau i rai tribiwnlysoedd yn cael ei arfer ar hyn o bryd gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") yn darparu y gellir trosglwyddo swyddogaethau oddi wrth Weinidogion y DU (fel yr Arglwydd Ganghellor) i Weinidogion Cymru drwy Orchymyn yn y Cyfrin

[23] Mae criteria (1) a (2) yn deillio o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 7A, paragraff 9(2).

Gyngor.[24] Gall y Senedd ddeddfu hefyd i dynnu swyddogaethau oddi ar yr Arglwydd Brif Ustus, er ei bod yn debygol yn yr achos hwn y bydd angen cael cydsyniad gan y Gweinidog priodol.[25]

### Cymhwysedd deddfwriaethol

2.5 Wedi i Ddeddf Cymru 2017 ("Deddf 2017") ddod i rym, newidiodd y model datganoli yng Nghymru o fod yn fodel "rhoi pwerau" i fod yn fodel "cadw pwerau". Yn lle pennu pa bynciau y gallai'r Senedd ddeddfu ar eu cyfer, mae Atodlen 7A i Ddeddf 2006 bellach yn pennu pa feysydd a gedwir yn ôl i Senedd y DU. Mae adran 108A o Ddeddf 2006, fel y mae wedi'i mewnosod gan Ddeddf 2017, yn pennu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae'n darparu y bydd darpariaeth y tu allan i'w chymhwysedd:

(1) os yw ei rhychwant yn ymestyn heblaw i Gymru a Lloegr yn unig;[26]

(2) os yw'n gymwys heblaw mewn perthynas â Chymru, neu'n rhoi, yn gosod, yn addasu neu'n dileu (neu'n rhoi pŵer i roi, gosod, addasu neu ddileu) swyddogaethau sy'n ymarferadwy heblaw mewn perthynas â Chymru;[27]

(3) os yw'n ymwneud ag unrhyw un o'r materion a gedwir yn ôl a restrir yn Atodlen 7A;

(4) os yw'n torri unrhyw un o'r cyfyngiadau cyffredinol a restrir yn Atodiad 7B; neu

(5) os yw'n anghyson â hawliau'r Confensiwn[28] neu â chyfraith yr UE.

#### Atodlen 7A: materion a gedwir yn ôl

2.6 Mae Atodlen 7A i Ddeddf 2006 yn cynnwys nifer o faterion cyffredinol a phenodol a gedwir yn ôl. Mae'n bwysig nodi, yng nghyd-destun y prosiect hwn, fod paragraff 8 o Atodlen 7A yn cadw awdurdodaeth gyfreithiol sengl Cymru a Lloegr. Mae paragraff 9 yn cadw tribiwnlysoedd yn ôl, heblaw am eithriad pwysig y tribiwnlysoedd datganoledig. Trafodir y mater a gedwir yn ôl a'r eithriad hwn ym mharagraff 2.14 isod.

2.7 Mae Rhan 3 o Atodlen 7A yn cynnwys darpariaethau cyffredinol sy'n amodi'r materion a gedwir yn ôl a bennwyd yn gynharach yn yr Atodlen. Darperir un o'r amodau

---

24 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, a 58.

25 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 7B paragraff 8; heblaw am faterion cyllidol, y Gweinidog priodol yw'r Ysgrifennydd Gwladol.

26 Ystyr rhychwant ("extent") Deddf yw'r diriogaeth lle mae'n rhan o'r gyfraith. Ar hyn o bryd, mae holl Ddeddfau'r Senedd yn rhan o gyfraith Cymru a Lloegr, er mai dim ond mewn perthynas â Chymru y gellir eu cymhwyso.

27 Yn yr achos hwn, mae'r mater a gedwir yn ôl yn cael ei amodi gan a 108A(3) (fel y'i diwygwyd gan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020) , sy'n dweud amdano nad yw'n gymwys "ancillary to a provision of any Act of the Assembly or Assembly Measure or to a devolved provision of an Act of Parliament" a "has no greater effect otherwise than in relation to Wales, or in relation to functions exercisable otherwise than in relation to Wales, than is necessary to give effect to the purpose of that provision".

28 Sef hawliau o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol y cyfeirir atynt yn Neddf Hawliau Dynol 1998, a 1: gweler Deddf Llywodraeth Cymru 2006, a 81.

pwysicaf gan baragraff 194(1), sy’n dweud nad yw’r Senedd wedi’i hatal rhag deddfu mewn cysylltiad â materion penodol sy’n ymwneud ag awdurdodau Cymreig datganoledig. Er enghraifft, gall y Senedd roi, gosod, addasu neu ddileu swyddogaethau sy’n ymarferadwy yn benodol mewn perthynas ag awdurdod Cymreig datganoledig.[29] Mae paragraff 196 yn ychwanegu y gall y Senedd hefyd ddeddfu ar yr un materion mewn perthynas â thribiwnlysoedd datganoledig.

2.8 Mae dwy ffordd o ddiffinio awdurdod Cymreig datganoledig (“devolved Welsh authority”) yn Neddf 2006; diffiniad cyffredinol, a rhestr.[30] Mae’r rhestr o awdurdodau Cymreig datganoledig sydd yn Atodlen 9A yn cynnwys y tribiwnlysoedd Cymreig a restrir yn adran 59 o Ddeddf 2017,[31] Tribiwnlys Prisio Cymru (“TPC”) a phaneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion.

### Atodlen 7B: cyfyngiadau cyffredinol

2.9 Mae Atodlen 7B yn cynnwys nifer o gyfyngiadau cyffredinol ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae hefyd yn cynnwys cyfyngiadau ar ddiwygio swyddogaethau o natur gyhoeddus sydd gan awdurdodau a gedwir yn ôl (“reserved authorities”) sef, yn ôl y diffiniad, Gweinidogion y Goron, adran llywodraeth neu unrhyw awdurdod cyhoeddus arall ar wahân i awdurdod Cymreig datganoledig.

2.10 Mae gofyniad yn y darpariaethau yn Atodlen 7B am gael cydsyniad gan y Gweinidog priodol neu am ymgynghori ag ef i ddileu, addasu neu roi swyddogaethau sydd gan awdurdodau a gedwir yn ôl. Mae’r tabl isod yn grynodeb sy’n dangos lle mae’n ofynnol cael cydsyniad gan y Gweinidog neu ymgynghori ag ef:

---

29 Mae paragraff 194(1), yn llawn, yn darparu nad yw’r atodlen yn cadw’n ôl: (a) cyfansoddi awdurdod sydd â swyddogaethau a gedwir yn ôl; (b) rhoi neu osod (neu roi pŵer i roi neu osod) swyddogaethau cyfrifyddu neu gaffael cyhoeddus ar awdurdod o’r fath; (c) addasu neu ddileu (neu roi pŵer i addasu neu ddileu) unrhyw swyddogaethau cyfrifyddu neu gaffael cyhoeddus sydd gan awdurdod o’r fath; neu (d) rhoi, gosod, addasu neu ddileu (neu roi pŵer i roi, gosod, addasu neu ddileu) swyddogaethau sy’n ymarferadwy’n benodol mewn perthynas ag awdurdod o’r fath, os yw’r awdurdod yn awdurdod Cymreig datganoledig.

30 Trydydd categori o awdurdod Cymreig datganoledig, nad yw’n berthnasol yn y cyd-destun presennol, yw sefydliadau addysg uwch penodol. Mae adran 157A(2) yn darparu y bydd awdurdod cyhoeddus yn awdurdod Cymreig datganoledig os yw ei swyddogaethau: (a) yn ymarferadwy mewn perthynas â Chymru’n unig; a (b) yn llwyr neu’n bennaf yn swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl.

31 Gweler paragraffau 1.33 i 1.35 uchod.

| | Rhoi neu osod swyddogaethau | Dileu neu addasu swyddogaethau |
|---|---|---|
| **Awdurdodau cyhoeddus (heblaw awdurdodau Cymreig datganoledig)** | Atodlen 7B paragraff 8(1): Cydsyniad<br>[Eithriadau ym mharagraff 9] | Atodlen 7B paragraff 10: Cydsyniad<br>[Nid yw'n gymwys i gyrff a restrir ym mharagraff 10(2). Nodir esemptiadau ar gyfer swyddogaethau penodol sydd gan lysoedd a thribiwnlysoedd yn mharagraff 10(4)] |
| **Gweinidogion y Goron** | Atodlen 7B paragraff 8(1): Cydsyniad<br>[Eithriadau ym mharagraff 9] | Atodlen 7B paragraff 11:<br>Swyddogaethau a restrir ym mharagraff 11(1) (yn cynnwys swyddogaethau datganoledig amodol a'r rheini sy'n ymwneud â'r Gymraeg):[32] Cydsyniad<br>Swyddogaethau eraill: Ymgynghori |

### Cymhwysedd gweithredol

2.11 Wrth ystyried sut mae datganoli'n effeithio ar faes cyfreithiol, mae'n bwysig ystyried y cymhwysedd gweithredol sydd gan Weinidogion Cymru (eu gallu i arfer pŵer gweithredol) yn ogystal â chymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Nid yw cwmpas y ddau gymhwysedd yn cyfateb o reidrwydd.

2.12 Mae'r angen yn codi'n aml i ganfod graddau'r cymhwysedd gweithredol yng nghyd-destun Cymru oherwydd y cyfyngiadau sydd yn Atodlen 7B. Fel rydym newydd nodi, os yw cymhwysedd gweithredol yn cael ei arfer gan un o Weinidogion y DU neu awdurdod a gedwir yn ôl, yna gall fod yn ofynnol i'r Senedd ymgynghori â'r Gweinidog priodol, neu gael cydsyniad ganddo, cyn gallu deddfu i ddileu neu addasu'r swyddogaethau hynny. Mae hyn yn wir hyd yn oed os nad yw'r maes pwnc wedi'i gadw'n ôl o dan Atodlen 7A. Ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau oddi wrth Weinidogion y DU i Weinidogion Cymru, gellir defnyddio Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 58 o Ddeddf 2006.

## DATGANOLI MEWN PERTHYNAS Â THRIBIWNLYSOEDD DATGANOLEDIG

2.13 Mae'r adran hon yn ystyried agweddau penodol ar y prosiect ac a ydynt yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

2.14 Y man cychwyn yw bod tribiwnlysoedd wedi'u cadw'n ôl gan baragraff 9(1) o Atodlen 7A i Ddeddf 2006. Mae hyn yn cynnwys eu haelodaeth, penodi a thalu aelodau, swyddogaethau a gweithdrefnau, ac apelio yn erbyn eu penderfyniadau. Fodd bynnag, mae paragraff 9(2) yn eithrio "tribiwnlysoedd datganoledig" yn benodol. Y diffiniad o'r rhain yw tribiwnlysoedd sydd â'r cyfan o'u swyddogaethau yn rhai:

(1) sy'n ymarferadwy mewn perthynas â Chymru'n unig, a

---

[32] Mae paragraff 11(3) o Atodlen 7B yn diffinio swyddogaeth ddatganoledig amodol fel a ganlyn: "a function that (a) is conferred or imposed on or transferred to the Welsh Ministers, the First Minister or the Counsel General by any Act (whenever passed) or by an instrument made under any Act (whenever made), and (b) is to any extent exercisable (i) concurrently or jointly with a Minister of the Crown, or (ii) only with the consent or agreement of, or after consultation with, a Minister of the Crown."

(2) nad ydynt yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl.

2.15 Byddwn yn dychwelyd at y diffiniad hwn yn ddiweddarach wrth bennu pa dribiwnlysoedd sy'n dod o fewn cwmpas y prosiect.

### Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru

2.16 Nid yw Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn awdurdod Cymreig datganoledig.[33] Oherwydd hynny, ni all y Senedd roi neu osod pwerau arno heb gydsyniad y Gweinidog priodol.[34]

### Uned Tribiwnlysoedd Cymru

2.17 Ar hyn o bryd, nid oes hunaniaeth gyfreithiol benodol gan UTC, gan ei bod wedi'i ffurfio o dîm o staff a gyflogir gan Lywodraeth Cymru.[35] Rhai modelau posib ar gyfer UTC ddiwygiedig yw asiantaeth weithredol neu adran anweinidogol. Ein barn gychwynnol yw y byddai creu corff o'r fath yn dod o fewn cymhwysedd y Senedd, ar yr amod bod ei gyfrifoldebau'n ymwneud â gweinyddu tribiwnlysoedd datganoledig yn unig. [36]

### Penodiadau

2.18 Fel y nodwyd uchod, mae tribiwnlysoedd wedi'u cadw'n ôl yn benodol gan baragraff 9(1) o Atodlen 7A i Ddeddf 2006, yn cynnwys (a) eu haelodaeth a (b) penodi a thalu eu haelodau. Yn yr achos hwn, mae'r gofyniad am gadw'n ôl wedi'i amodi gan baragraff 9(2), sy'n eithrio tribiwnlysoedd datganoledig.

2.19 Y man cychwyn, felly, yw bod penodi a disgyblu aelodau tribiwnlysoedd datganoledig yn faterion a ddatganolwyd. Mae dau amod posib ar hyn.

2.20 Yr amod cyntaf yw bod "barnwyr (yn cynnwys, yn benodol, eu penodi a'u talu)" yn fater a gedwir yn ôl gan Ddeddf 2006.[37] Nid yw'r paragraff yn dweud yn benodol fod hyn yn ymwneud â llysoedd yn unig. Mae hyn yn codi cwestiwn ynghylch ei gymhwyso at dribiwnlysoedd datganoledig. A yw'r cyfeiriad at farnwyr yn cynnwys aelodau cyfreithiol o dribiwnlysoedd, fel bod eu penodi'n fater a gedwir yn ôl? Nid yw Deddf 2006 na Deddf 2017 yn rhoi unrhyw gyfarwyddyd ynghylch ystyr y term

---

[33] Deddf Cymru 2017, a 60(2).

[34] Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 7B, paragraff 8. Mae Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn ateb y diffiniad o "reserved authority" o dan Atodlen 7B, paragraff 8(3): mae'r Llywydd yn awdurdod cyhoeddus, yn ôl y diffiniad ym mharagraff 8(4) ("a body, office or holder of an office that has functions of a public nature") ac nid yw'n awdurdod Cymreig datganoledig (Deddf Cymru 2017, a 60(2)).

[35] Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, *Adroddiad Blynyddol 2018 – 2019* (Mawrth 2019), t 9. Gweler https://senedd.wales/laid%20documents/gen-ld12494/gen-ld12494-w.pdf.

[36] Yn ein barn dros dro, byddai Uned Tribinwlysoedd Cymru ("UTC") ddiwygiedig yn ateb y diffiniad o awdurdod Cymreig datganoledig yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, a 157A. Byddai gan UTC swyddogaethau sy'n ymarferadwy mewn perthynas â Chymru'n unig a byddai'r swyddogaethau hynny'n rhai nad ydynt yn ymwneud yn llwyr neu'n bennaf â materion a gedwir yn ôl. Fel y trafodwyd uchod, mae'r tribiwnlysoedd datganoledig yn fater a ddatganolwyd.

[37] Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 7A, paragraff 8(1)(b)

"barnwyr", mewn cyferbyniad ag "aelodau",[38] ac mae'r rheolau gweithdrefnol ar gyfer y tribiwnlysoedd datganoledig yn anghyson yn eu defnydd o'r term. Mae rhai (ond nid y cyfan) o aelodau ac arweinwyr barnwrol y tribiwnlysoedd datganoledig wedi'u cynnwys mewn diffiniad o "farnwriaeth" yn adran 3 o Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, a'u rhestru yn Atodlen 14 i'r Ddeddf honno.[39] Nid hynny yw diwedd y mater, fodd bynnag.

2.21 Hyd yn oed os ceir bod yr amod bod penodi barnwyr yn fater a gedwir yn ôl yn un sy'n gymwys i farnwyr tribiwnlysoedd, rhaid ystyried effaith paragraffau 194 a 196 o Atodlen 7A (a drafodwyd uchod ym mharagraff 2.7). Mae'r paragraffau hynny'n darparu nad yw'r materion a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A yn atal y Senedd rhag rhoi, gosod, addasu neu ddileu swyddogaethau sy'n ymarferadwy'n benodol mewn perthynas â thribiwnlysoedd datganoledig. Yn ein barn dros dro, byddai gallu i benodi barnwyr i dribiwnlys yn dod o fewn y diffiniad hwnnw.

2.22 Yr ail amod yw bod penodi aelodau tribiwnlysoedd yn gyfrifoldeb ar hyn o bryd i nifer o bersonau gwahanol,pwnc a drafodwn yn fwy manwl ym Mhennod 6  isod. Mewn rhai achosion, byddai angen ymgynghori neu gael cydsyniad cyn i'r Senedd allu dileu neu addasu eu swyddogaethau (er enghraifft, mae angen ymgynghori cyn y gall y Senedd ddileu neu addasu un o swyddogaethau'r Arglwydd Ganghellor, fel un o Weinidogion y Goron).[40] O ganlyniad i hyn, os oedd ein prosiect yn argymell newid yn y trefniadau presennol, byddai angen cael cydsyniad gan Lywodraeth y DU a/neu ymgynghori â hi cyn bod y Senedd yn gallu pasio'r ddeddfwriaeth angenrheidiol.

### Pŵer i wneud a safoni rheolau gweithdrefnol

2.23 Y man cychwyn eto yw bod deddfwriaeth sy'n ymwneud â "thribiwnlysoedd datganoledig", yn cynnwys eu rheolau gweithdrefnol, yn dod o fewn cymhwysedd y Senedd. Mae pwerau ar gael ar hyn o bryd i wneud rheolau gweithdrefnol ar gyfer tribiwnlysoedd penodol; mae'r rhan fwyaf o'r rhain gan Weinidogion Cymru.[41] Felly, nid oes gofyniad am gael cydsyniad gan un o Weinidogion y DU neu ymgynghori ag ef er mwyn i'r Senedd ddeddfu i addasu'r swyddogaethau hyn. Roedd rhai o'r pwerau i wneud rheolau gweithdrefnol (er enghraifft, ar gyfer Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru ("TAIMC")  a Thribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru ("TTAC")) yn cael eu

38 Fel y cyfeirir atynt gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 7A, paragraff 9(1)(a) a (b).

39 Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, Atodlen 14, Rhan 3, Penodiadau sy'n ymwneud â thribiwnlysoedd a phenodiadau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys Cadeirydd Tribiwnlys Tir Amaethyddol, aelod o banel o ddirprwy gadeiryddion Tribiwnlys Tir Amaethyddol, aelodau o baneli a sefydlwyd o dan Atodlen 10 i Ddeddf Rhenti 1977, Llywydd ac aelodau Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru ("TAIMC") a Llywydd ac aelodau panel cadeirydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ("TAAAC").

40 Deddf Gweinidogion y Goron 1975 a 8(1).

41 Yr eithriadau yw Tribiwnlys y Gymraeg ("TG") a thribiwnlysoedd apêl Panel Dyfarnu Cymru ("PDC") . Mae pŵer gan Lywydd pob un o'r tribiwnlysoedd hynny i osod rheolau gweithdrefnol, yn amodol ar eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru yn achos PDC, a sêl bendith Gweinidogion Cymru yn achos TG. Mae trafodaeth fanylach am reolau gweithdrefnol ym Mhennod 5  isod.

harfer o'r blaen gan yr Arglwydd Ganghellor, ond mae'r rhain wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru bellach.[42]

### Prosesau apelio

2.24 Fel y trafodwyd uchod, mae Atodlen 7A, paragraff 9(1) i Ddeddf 2006 yn gwneud "tribiwnlysoedd" yn fater a gedwir yn ôl yn gyffredinol, yn cynnwys apeliadau yn erbyn eu penderfyniadau.[43] Mae hyn yn cael ei amodi gan is-baragraff 2 o baragraff 9, sy'n eithrio tribiwnlysoedd datganoledig.

2.25 Mae'r cwestiwn ynghylch a yw apeliadau oddi wrth dribiwnlysoedd datganoledig yn fater a ddatganolwyd yn cael ei gymhlethu gan y ffaith bod gwneud newidiadau mewn llwybr apêl yn effeithio nid yn unig ar swyddogaethau'r tribiwnlys datganoledig, ond hefyd ar swyddogaethau'r corff apeliadol. Y ddau gorff sy'n gwrando apeliadau o dribiwnlysoedd datganoledig ar hyn o bryd yw'r Uwch Dribiwnlys[44] a'r Uchel Lys.[45] Rydym yn ystyried sefyllfa'r ddau gorff hyn isod, ynghyd â thrydydd posibilrwydd, sef creu Tribiwnlys Apêl i Gymru.

#### Yr Uwch Dribiwnlys

2.26 Mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol i ddarparu ar gyfer gwneud apêl neu gais newydd oddi wrth dribiwnlys datganoledig i'r Uwch Dribiwnlys, ar yr amod bod yr apêl neu'r cais yn ymwneud â materion datganoledig. Fodd bynnag, mae'r weithdrefn sy'n gymwys i wrando'r apeliadau neu geisiadau hynny yn fater a gedwir yn ôl gan Ddeddf 2006.[46]

#### Yr Uchel Lys

2.27 Mae llysoedd yn gyffredinol, yn cynnwys eu creu a'u hawdurdodaeth, yn faterion a gedwir yn ôl.[47] At hynny, mae Deddf 2006 yn cyfyngu'n gyffredinol ar allu'r Senedd i roi swyddogaethau i awdurdodau a gedwir yn ôl neu osod swyddogaethau arnynt.[48] Fodd bynnag, mae paragraff 9(4)(a) o Atodlen 7B yn darparu na fydd y cyfyngiad hwnnw'n gymwys i:

> the conferral or imposition on a court of a devolved function (within the meaning of paragraph 6 of Schedule 7A).

---

42 Gorchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018, OS 2018 Rhif 644, erthygl 4 ac erthygl 20.

43 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 7A, paragraff 9(1)(d).

44 Gwneir apeliadau ar bwyntiau cyfreithiol i'r Uchel Lys oddi wrth y tribiwnlysoedd canlynol: Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (trefniant a fydd yn parhau pan gaiff ei ailenwi'n Dribiwnlys Addysg Cymru), Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru, a Thribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru.

45 Bydd apeliadau PDC, TPC a TG yn mynd i'r Uchel Lys.

46 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 7A, paragraff 9(3).

47 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 7A, paragraff 8(1)(a).

48 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 7B, paragraff 8(1).

2.28 Ar amser ysgrifennu'r Papur Ymgynghori, dydy paragraff 6 o Atodlen 7A ddim yn cynnwys diffiniad o weithred ddatganoledig. Er bod diffiniad o'r fath yn bodoli yn nrafftiau cynnar Bil Cymru, cafodd ei hepgor o'r Bil cyn iddo ddod yn Ddeddf. Mewn ymgais rannol i gywiro'r camgymeriad, gosodwyd Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor ger bron Senedd Cymru a Senedd y DU dan adran 109 o Ddeddf 2006, ar y 10 Rhagfyr 2020. Mae Erthygl 4(4) o'r Gorchymyn ddrafft yn ail gyflwyno'r diffiniad o weithred ddatganoledig gan ychwanegu paragraff newydd 9 (4A) yn Atodlen 7B i Ddeddf 2006.

2.29 Diffiniwyd gweithred ddatganoledig fel:

> a function involving deciding an application or an appeal in relation to a matter that is not a reserved matter, but this does not include the function of deciding an appeal from a court or from a tribunal to which paragraph 9 of Schedule 7A applies (tribunals other than devolved tribunals).[49]

Fe fydd rhaid i'r Gorchymyn dderbyn cymeradwyaeth dau Dŷ Senedd y DU a Senedd Cymru. Pe byddai'n cael ei gymeradwyo, fe fyddai effaith paragraff 9(4)(a) o Atodlen 7B yn golygu y bydd creu llwybr apelio newydd o dribiwnlys datganoledig i'r Uchel lys, neu i newid neu amnewid llwybr cyfredol, yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

## Tribiwnlys Apêl i Gymru?

2.30 Er bod creu llysoedd newydd yn fater penodol a gedwir yn ôl,[50] nid felly creu tribiwnlysoedd newydd. Byddai lle i'r Senedd greu tribiwnlys newydd, ar yr amod bod y tribiwnlys hwnnw'n ateb y diffiniad o dribiwnlys datganoledig sydd ym mharagraff 9(2) o Atodlen 7A i Ddeddf 2006.

2.31 Mae un anhawster posib. Pan wnaed Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 ("DTLIG 2007"), yr hyn a ragwelwyd oedd "where a jurisdiction is exercised by separate tribunals for England and Wales, difficulties could arise if there were different routes of onward appeal for the English and Welsh tribunals".[51] Felly rhoddwyd pŵer i'r Arglwydd Ganghellor i wneud rheoliadau sy'n darparu bod apeliadau oddi wrth nifer o dribiwnlysoedd yng Nghymru i gael eu gwneud i'r Uwch Dribiwnlys.[52] Mae rhestr o'r tribiwnlysoedd hyn yn rhan 7 o Atodlen 6 i DTLIG 2007, ac mae'n cynnwys yr holl dribiwnlysoedd Cymreig a restrir yn adran 59 o Ddeddf 2017, ac eithrio Tribiwnlys y Gymraeg ("TG") a Thribiwnlysoedd Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Ysgolion ac Addysg Feithrin.[53]

2.32 Byddai'n anghyson i'r Arglwydd Ganghellor gadw'r pŵer hwnnw os oedd llwybr apêl newydd ar gyfer y tribiwnlysoedd Cymreig yn cael ei greu gan y Senedd. Fodd

---

49 Teitl y Gorchymyn ddraft yw'r Deddf Llywodraeth Cymru (2006) (Diwygiad) Gorchymyn 2021 (ar yr amser yr ysgrifennwyd y Papur Ymgynghori hwn, nid oedd cyfieithiad ar gael o'r Gorchymyn) https://senedd.wales/laid%20documents/lco-ld13919/lco-ld13919-e.pdf

50 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 7A, paragraff 8(1).

51 Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, nodiadau esboniadol, paragraffau 180 i 183.

52 Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, a 32(3), ac Atodlen 6, rhan 7, paragraff 1.

53 Tynnir enw TAAAC o'r rhestr gan Ddeddf Anghenion Addysgol Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, anaw 2 Atodlen 1 paragraff 13, pan ddaw darpariaethau'r Ddeddf honno i rym.

bynnag, byddai'n ofynnol ymgynghori â'r Gweinidog priodol cyn gallu dileu'r pŵer gan y Senedd.[54]

### Cwynion a disgyblaeth

2.33 Nid yw Deddf 2006 yn sôn am gwynion a wneir yn erbyn aelodau tribiwnlysoedd. Yn ein barn ni, mae cwynion o'r fath yn dod o fewn yr eithriad ar gyfer tribiwnlysoedd datganoledig, os nad ydynt wedi'u cadw'n ôl yn benodol, ac felly maent o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

2.34 Ar hyn o bryd, mae'r Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus yn arfer rhai pwerau sy'n ymwneud â disgyblu aelodau a Llywyddion tribiwnlysoedd a restrir yn Atodlen 14 i Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005.[55] Rydym yn trafod y pwerau hynny'n fwy manwl ym Mhennod 7 isod. Bydd y camau i dynnu'r pwerau hyn oddi ar yr Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus yn ddarostyngedig i Atodlen 7B i Ddeddf 2006. Felly, byddai gofyn ymgynghori er mwyn dileu swyddogaethau'r Arglwydd Ganghellor, a chael cydsyniad i ddileu swyddogaethau'r Arglwydd Brif Ustus.

## BETH YW TRIBIWNLYS DATGANOLEDIG?

2.35 Ar ôl ystyried cwmpas datganoli, yn yr adran hon rydym yn ystyried y cwestiwn: beth yw "tribiwnlys datganoledig" i'n dibenion ni? Mae angen ateb y cwestiwn hwn er mwyn penderfynu pa gyrff a ddylai fod o fewn cwmpas ein hargymhellion. Mae nifer mawr o gyrff penderfynu ar waith yng Nghymru ac nid tribiwnlys yw pob un ohonynt. Maent o wahanol siâp a maint, mae ganddynt bwerau ac awdurdodaethau o lawer math, ac mae'r termau i'w disgrifio yn amrywio. Hyd yn oed yn y rhestr o dribiwnlysoedd Cymreig sydd yn Neddf 2017, ceir cyrff a elwir yn bwyllgorau a phaneli, yn ogystal â chyrff sy'n dwyn yr enw 'tribiwnlys'. Mae angen edrych y tu ôl i'r labeli hyn i ystyried pa waith y mae corff penderfynu yn ei gyflawni.

2.36 Yn ein barn dros dro, dylai'r prosiect hwn gwmpasu tribiwnlysoedd sy'n ateb y diffiniad o dribiwnlys datganoledig yn Neddf 2006 a amlinellwyd ym mharagraff 2.14 uchod. Mae'r diffiniad hwnnw'n un eang ac, yn ein barn ni, mae'n cynnwys y tribiwnlysoedd a ddynodwyd yn 'dribiwnlysoedd Cymreig' gan adran 59 o Ddeddf 2017.

2.37 Er bod y diffiniad statudol o 'dribiwnlys datganoledig' yn ein helpu i benderfynu a yw tribiwnlys yn un datganoledig, nid yw'n rhoi arweiniad ar sut i bennu a yw corff yn dribiwnlys yn y lle cyntaf. Rydym yn trafod isod sut y dylid pennu bod corff yn dribiwnlys a sut y dylid gwahaniaethu rhyngddo a mecanweithiau penderfynu eraill. Rydym hefyd yn egluro'r sail resymegol dros ein penderfyniad i beidio â chynnwys cyrff fel ombwdsmyn yn ein hadolygiad. Ar ddiwedd y bennod, mae trafodaeth fer am nifer o dribiwnlysoedd a chyrff penderfynu ac eglurhad o'n barn dros dro ynghylch a ddylent ddod o fewn cwmpas yr adolygiad neu beidio.

---

54 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 7B, paragraff 11(2).

55 Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, aa 108(1) a (7), a 109(4), ac Atodlen 14, rhan 3, Penodiadau cysylltiedig â thribiwnlysoedd a phenodiadau eraill. Mae'r rhestr o benodiadau'n cynnwys Cadeirydd Tribiwnlys Tir Amaethyddol, aelod o banel o ddirprwy gadeiryddion Tribiwnlys Tir Amaethyddol, aelodau o baneli a sefydlwyd o dan Atodlen 10 i Ddeddf Rhenti 1977, a Llywydd ac aelodau TAIMC a Llywydd ac aelodau panel cadeirydd TAAAC.

## Beth yw tribiwnlys?

2.38 Nid oes diffiniad o dribiwnlys a dderbynnir yn gyffredinol. Fel y nododd yr Arglwydd Ustus Fry yn achos *Royal Aquarium*, “that word has not, like the word ‘court’, an ascertainable meaning in English Law”.[56] Yn ôl Edward Jacobs, y rheswm am hynny yw bod y cwestiwn bob amser yn codi mewn cyd-destun cyfreithiol penodol.[57] Gall corff fod yn dribiwnlys at un diben, ac yn llys at ddiben arall.

2.39 Er hynny, mae’n ymddangos bod modd dyfarnu cyffredin gan dribiwnlysoedd yn y DU. Eu prif swyddogaeth yw gwrando anghydfodau rhwng partïon. Gan amlaf, mae’r anghydfodau hynny’n rhai rhwng y dinesydd a’r wladwriaeth. Er enghraifft, mae TAAAC yn gwrando anghydfodau rhwng plentyn (neu riant) ac awdurdod lleol.

2.40 Yn ogystal â gwrando’r anghydfodau hynny, byddant hefyd yn dyfarnu arnynt. Yn ei lyfr *Administrative Tribunals and Adjudication*, mae Peter Cane yn sôn am y dull o benderfynu ar sail esiampl sydd gan dribiwnlysoedd ac yn dod i’r casgliad mai gwaith yr adolygydd, ar ddiwedd y broses, yw gwneud penderfyniad.[58]

2.41 Ar ôl hynny, mae pennu a yw corff yn dribiwnlys yn dod yn fwy anodd. Mae nifer o gyrff a elwir fel arfer yn dribiwnlysoedd yn rhannu nifer o nodweddion, a ystyrir isod. Nid yw’r holl dribiwnlysoedd yn rhannu pob un ohonynt, ac mae rhai ohonynt yn cael eu rhannu gan lysoedd. Ond at ei gilydd, mae’r rhan fwyaf o dribiwnlysoedd yn amlygu nifer sylweddol o’r nodweddion canlynol.

### Annibyniaeth neu ddidueddrwydd

2.42 Mae gwahaniaeth pwysig rhwng y termau hyn yng nghyswllt tribiwnlysoedd. Mae rhai tribiwnlysoedd, fel y paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion, yn cadw cysylltiadau â llywodraeth, felly ni ellir eu galw’n annibynnol, mewn termau strwythurol o leiaf. Er hynny, mae’n ofynnol iddynt wneud penderfyniadau diduedd. Fel y nododd y Farwnes Hale yn achos *Gillies*:

> Impartiality is not the same as independence, although the two are closely linked. Impartiality is the tribunal’s approach to deciding the cases before it. Independence is the structural or institutional framework which secures this impartiality, not only in the minds of the tribunal members, but also in the perception of the public.[59]

### Hygyrchedd

2.43 Fel arfer, bydd tribiwnlysoedd ar ffurf sy’n eu gwneud yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr nag y mae llysoedd. Yn aml, bydd hygyrchedd o’r fath yn cael ei sicrhau drwy weithdrefnau llai ffurfiol, a’r defnydd o banel lleyg.[60]

---

56 *Royal Aquarium and Summer and Winter Garden Society Ltd v Parkinson* [1892] 1 QB 431 yn [446].

57 E Jacobs, *Tribunals Practice and Procedure* (5ed argraffiad 2019) paragraff 1.16.

58 P Cane, *Administrative Tribunals and Adjudication* (2009) pennawd 6.5.1.1, t 238.

59 *Gillies v Secretary of State for Work and Pensions* [2006] UKHL 2, [2006] 1 WLR 781 yn [38].

60 Rheolau Gweithdrefn y Tribiwnlys (yr Uwch Dribiwnlys) OS 2008 rhif 2698 rh 2 (2)(b) ac E Jacobs, *Tribunals Practice and Procedure* (5ed argraffiad 2019) paragraff 1.50.

2.44 Agwedd arall ar hygyrchedd yw'r un ariannol; fel arfer, bydd tribiwnlysoedd yn codi ffioedd llai na llysoedd (os byddant yn codi ffioedd o gwbl). Cynlluniwyd y rhan fwyaf o dribiwnlysoedd ar y sail na fyddai angen cynrychiolaeth gyfreithiol ar y defnyddiwr ym mhob achos.[61]

### Cyflymder

2.45 Mae cysylltiad agos rhwng y syniad o anffurfioldeb a chyflymder. Mae ei weithdrefnau symlach i fod i alluogi tribiwnlys i wneud penderfyniadau'n gyflymach na llys. Mae hyn yn bwysig iawn i nifer mawr o ddefnyddwyr tribiwnlysoedd, a all fod yn aros am benderfyniadau ynghylch addysg, neu ynghylch eu cadw mewn ysbyty. Mae Deddf 2017 yn siarsio Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru i roi sylw i'r angen i achosion o flaen tribiwnlysoedd gael eu trafod yn gyflym ac effeithiol.[62]

### Gwybodaeth arbenigol o fewn awdurdodaeth gyfyng

2.46 Dywedodd yr Arglwydd Carnwath mai un o brif nodau amgen tribiwnlysoedd yw "the specialist expertise of their members, including both lawyers and non-lawyers (such as doctors or accountants or others with relevant experience)".[63] Roedd adolygiad Leggatt hefyd wedi nodi bod hon yn nodwedd bwysig.[64]

### Dulliau gweithredu blaenorol

2.47 Ceir rhywfaint o gymorth i ddiffinio tribiwnlysoedd datganoledig yng ngwaith adolygiadau blaenorol ac mewn deddfwriaeth. Er enghraifft, roedd Gorchymyn Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd (Tribiwnlysoedd a Restrir) (Cymru) 2007 ("Gorchymyn 2007"), a drafodwyd ym mharagraff 1.21 uchod, yn rhestru cyrff Cymreig roedd yn ofynnol i'r Cyngor eu dal dan sylw. Roedd 14 o gyrff wedi'u dynodi'n 'dribiwnlysoedd' a'u rhestru yn Gorchymyn 2007.[65]

2.48 Ychydig o ddefnydd sydd i'r rhestr hon heddiw, fodd bynnag. Nid yw'n cynnwys Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru, Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru na Thribiwnlys y Gymraeg. Mae hefyd yn cynnwys nifer o gyrff nad ydynt yn bodoli bellach ar yr un ffurf; er enghraifft, Paneli Cwynion Annibynnol y GIG a Phaneli Cwynion Annibynnol Gwasanaethau Cymdeithasol.

2.49 Ceir mwy o gymorth yn adroddiad Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru ("Adroddiad 2016"), a drafodwyd ym mharagraffau 1.28 i 1.32 uchod. Nid oedd

---

61 A W Bradley, K D Ewing a C J S Knight, *Constitutional and Administrative Law* (17ed argraffiad 2018), t 602.

62 Deddf Cymru 2017, a 60(4)(b)(ii).

63 Carnwath LJ, "Tribunal justice – a new start." [2009] *Public Law*, vol 1, 48.

64 Syr Andrew Leggatt, *Tribunals for Users: One System, One Service: Report of the Review of Tribunals* (Mawrth 2001) paragraff 1.12.

65 Gorchymyn Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd (Tribiwnlysoedd a Restrir) (Cymru) 2007, OS 2007 Rhif 2876 (Cy 250) erthygl 2, atodlen 1 (wedi'i ddiddymu bellach). Y tribiwnlysoedd a restrwyd oedd y tribiwnlysoedd a godir o Banel Dyfarnu Cymru, Bwrdd Canolwyr Meddygol, Pwyllgorau Coedwigaeth Cymru, paneli adolygu annibynnol ar ddyfarniadau yng Nghymru, Paneli Cwynion Annibynnol y GIG, Dyfarnwyr Parcio yng Nghymru, y Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Addysg Feithrin a'r Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Ysgolion, pwyllgorau asesu rhenti, paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion yng Nghymru, Paneli Cwynion Annibynnol Gwasanaethau Cymdeithasol, TAAACribiwnlys a TPChribiwnlys.

Adroddiad 2016 yn ymdrin â thribiwnlysoedd yn unig, ond yn ystyried maes cyfiawnder gweinyddol yn ei gyfanrwydd yng Nghymru. Yn ogystal â'r tribiwnlysoedd adran 59 roedd yn trafod:

(1) TPC;

(2) Paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion;

(3) Arolygiaeth Gynllunio Cymru a Lloegr;

(4) y panel adolygu annibynnol ar ddyfarniadau;

(5) cronfa cymorth dewisol Cymru;

(6) y broses apeliadau annibynnol i ffermwyr a pherchnogion coedwigoedd;

(7) Paneli gofal iechyd parhaus y GIG.

2.50 Roedd atodiad i Adroddiad 2016 hefyd a oedd yn cynnwys tabl yn dangos cyfansoddiad a swyddogaethau'r tribiwnlysoedd Cymreig, a luniwyd yn wreiddiol gan Lywodraeth Cymru. Roedd y tabl yn cynnwys cyrff a oedd heb gael eu hystyried yn fanwl yn Adroddiad 2016:

(1) Bwrdd y Canolwyr Meddygol;

(2) Pwyllgor Coedwigaeth Cymru;

(3) y Tribiwnlys Cosbau Traffig;

(4) Panel Cwynion Annibynnol Gwasanaethau Cymdeithasol.[66]

2.51 Fodd bynnag, roedd Adroddiad 2016 yn derbyn na ddylid ystyried pob un o'r rhain yn dribiwnlysoedd. Yn benodol, mae'n nodi y byddai'n well ystyried y panel adolygu annibynnol ar ddyfarniadau yn "ad hoc redress scheme". Ceir y disgrifiad canlynol o gynlluniau o'r fath yn yr adroddiad:

> The Welsh Government has established various ad hoc redress schemes through legislation enacted by the Assembly which have some of the characteristics of a tribunal but which do not, and are not intended, to meet all the standards required of the tribunal in relation to such matters as the extent of their independence from Government, their structure, their openness to public scrutiny and their procedures.[67]

---

66 Disodlwyd y paneli annibynnol gan weithdrefn lle mae gofyn gwneud cwynion i awdurdodau lleol am eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Gweler Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014, OS 2014 Rhif 1794 (Cy 187), rheoliad 3.

67 Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru, Wales, *Administrative Justice: a Cornerstone of Social Justice in Wales* (2016) t 7.

### Penderfynu ar anghydfodau rhwng partïon drwy wneud penderfyniadau rhwymol

2.52 Fel y trafodwyd uchod, rhaid ystyried y cyd-destun wrth geisio pennu diffiniad o dribiwnlys. Yn y cyd-destun hwn, mae'n glir pa rai o'r cyrff sy'n gweithredu yng Nghymru sy'n llysoedd. Y dasg yw gwahaniaethu rhwng tribiwnlysoedd a chyrff penderfynu eraill, a elwir weithiau'n gynlluniau gwneud iawn *ad hoc* neu'n fecanweithiau adolygu mewnol. Mae'r termau hyn yn disgrifio cyrff penderfynu sy'n llai ffurfiol a/neu'n llai annibynnol ar Lywodraeth na thribiwnlys.

Y maen brawf mwyaf hwylus a gawsom yw gofyn a yw'r corff penderfynu yn dyfarnu ar anghydfodau rhwng partïon drwy wneud penderfyniadau rhwymol. Fel y nodwyd uchod, mae Cane yn dod i'r casgliad hwn: "at the end of the process, the reviewer's job is to make a decision".[68] Adleisiwyd y farn hon gan Jacobs. Mae'n nodi:

> tribunals are exclusively judicial bodies, created by statute with their own specific jurisdiction, that are independent and *whose decisions are binding by virtue of their status*.[69]

2.53 Credwn fod gofyn a yw corff yn dyfarnu ar anghydfodau rhwng partïon, drwy wneud penderfyniadau rhwymol, yn faen prawf cymharol syml ar gyfer penderfynu a yw corff penderfynu yn dribiwnlys. Rydym yn cynnig dros dro mai dim ond y cyrff penderfynu hynny sy'n rhoi dyfarniadau rhwymol y dylid eu hystyried yn dribiwnlysoedd sydd o fewn cwmpas y prosiect hwn. Mae rhai o'r cyrff a drafodwyd gan adolygiadau blaenorol yn methu â bodloni'r maen prawf hwn. Isod rydym yn ystyried enghreifftiau ar ffurf Pwyllgorau Coedwigaeth Cymru, a phaneli adolygu annibynnol ar ddyfarniadau yng Nghymru.

2.54 Fodd bynnag, ein barn dros dro yw nad yw'r maen prawf am wneud penderfyniadau rhwymol yn un terfynol ar ei ben ei hun. Mae rhai cyrff penderfynu, fel Arolygiaeth Gynllunio Cymru a Lloegr (er nad yw'n arfer swyddogaethau mewn cysylltiad â Chymru'n unig ar hyn o bryd) a Bwrdd y Canolwyr Meddygol, yn rhai sy'n rhoi dyfarniadau rhwymol ond sydd heb nodweddion eraill sy'n cael eu cysylltu fel arfer â thribiwnlysoedd, sydd wedi'u hamlinellu isod. Yn achos y cyrff penderfynu hynny, rydym yn ystyried ystod ehangach o nodweddion i bennu a ddylai'r corff penderfynu ddod o fewn cwmpas y prosiect hwn.

## Pa gyrff, heblaw tribiwnlysoedd adran 59, sydd i'w hystyried yn dribiwnlysoedd i ddibenion y prosiect hwn?

2.55 Yma rydym yn trafod y cyrff, heblaw tribiwnlysoedd adran 59, a allai ddod o fewn cwmpas y prosiect hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain o fewn cylch gwaith Adroddiad 2016.[70] Rydym yn eu hystyried ar sail y meini prawf a ddisgrifiwyd uchod er mwyn dod i farn dros dro ynghylch a ddylid eu cynnwys yn y cynigion yn y Papur Ymgynghori hwn. Rydym yn gofyn am farn ymgyngoreion ar y rhain ac am unrhyw gyrff eraill y gallem fod heb eu hystyried.

---

68 P Cane, *Administrative Tribunals and Adjudication* (2009) pennawd 6.5.1.1, t 238.

69 E Jacobs, *Tribunals Practice and Procedure* (5ed argraffiad 2019) paragraff 1.2 (ni biau'r italeiddio).

70 Nid ydym yn ystyried y Panel Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Annibynnol gan fod y weithdrefn hon wedi'i disodli bellach. Gweler paragraff 2.50(4) uchod.

## Cyrff a ystyriwn am y tro yn rhai sydd o fewn cwmpas y prosiect

### Tribiwnlys Prisio Cymru

2.56 Mae gan Dribiwnlys Prisio Cymru ("TPC") bŵer statudol i ddyfarnu ar apeliadau sy'n ymwneud â phenderfyniadau ar ardrethi annomestig a'r dreth gyngor a wnaed gan awdurdodau bilio, sef cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yn ôl y diffiniad ar gyfer Cymru.[71] Mae hefyd yn gwrando rhai apeliadau sy'n ymwneud ag ardrethi draenio. Fe'i hariennir gan Lywodraeth Cymru, ond nid yw'n cael ei weinyddu gan UTC.

2.57 Mae'r anghydfodau y mae TPC yn dyfarnu arnynt (mewn cysylltiad ag ardrethi annomestig a'r dreth gyngor) yn faterion a ddatganolwyd, felly mae'n ymddangos bod TPC yn dod o fewn y diffiniad o "ddatganoledig" yn Neddf 2006.[72] At hynny, mae TPC yn amlygu nifer o nodweddion eraill a gysylltir â thribiwnlys a drafodwyd uchod. Mae'n cynnal gwrandawiadau lle mae'n cael argymhellion gan bartïon yr anghydfod ac yn rhoi dyfarniad rhwymol. Er bod aelodau'r paneli'n wirfoddolwyr lleol, di-dâl, maent yn cael cymorth gan glerc sy'n arbenigo yn y mater dan sylw – dull o ddyfarnu sy'n debyg i'r un sy'n cael ei arfer gan Ynadon Heddwch.[73] Yn ein barn dros dro, mae TPC yn dribiwnlys datganoledig.

### Paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion

2.58 Yn wahanol i'r rhan fwyaf o dribiwnlysoedd eraill yng Nghymru, gweinyddir systemau apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion yng Nghymru gan yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am yr ysgol dan sylw. Mae'r gofynion ar gyfer cyfansoddiad paneli wedi'u pennu mewn rheoliadau, a'r rheini wedi'u hategu gan god statudol a luniwyd gan Lywodraeth Cymru.[74] Mae addysg yn fater a ddatganolwyd.

2.59 Mae paneli apelio derbyniadau ysgolion yn gwrando a dyfarnu ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau gan yr awdurdod derbyn. Mae paneli apelio derbyniadau yn gallu cyfarwyddo bod plentyn i gael lle mewn ysgol benodol. Bydd y penderfyniad hwnnw'n rhwymo'r awdurdod derbyn a chorff llywodraethu'r ysgol gymunedol neu ysgol wirfoddol a reolir lle mae'r panel yn penderfynu bod y plentyn i'w leoli.[75] Mewn cyferbyniad â hynny, mae paneli apelio gwaharddiadau ysgolion yn gwrando apeliadau yn erbyn penderfyniadau gan bwyllgorau disgyblu cyrff llywodraethu ar wahardd plant yn barhaol.[76] Bydd paneli apelio gwaharddiadau yn gwneud

---

71 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, adrannau 1 ac 16.

72 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 7A, paragraff 15.

73 I gael rhagor o fanylion am rôl y clerc, gweler Cyfarwyddyd Arfer Gorau 2B: https://www.valuationtribunal.wales/fileadmin/resources/docs/best-practice-protocols/en/vtw-best-practice-protocol-2b.pdf.

74 Mae Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) OS 2005 Rhif 1398 (Cy 112) yn pennu'r gofynion ar gyfer cyfansoddiad paneli ac mae'r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion a ddyroddwyd gan Lywodraeth Cymru yn darparu canllawiau ychwanegol i awdurdodau lleol. Mae apeliadau gwaharddiadau ysgolion yn cael eu rheoli gan ddeddfwriaeth, yn cynnwys OS 2003 Rhif 3227 ac OS 2003 Rhif 3246 (fel y'i diwygiwyd).

75 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, a 94(6).

76 Deddf Addysg 2002, a 52.

penderfyniadau rhwymol a gallant orchymyn bod disgybl i gael ei dderbyn yn ôl.[77] Oherwydd hynny, rydym yn cynnig dros dro fod paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion yn dribiwnlysoedd datganoledig ac y dylent ddod o fewn cwmpas yr adolygiad hwn.

2.60 Er bod y cyrff hyn yn cael eu galw'n baneli, yn hytrach na thribiwnlysoedd, mae'n ymddangos bod cydnabyddiaeth gyffredinol eu bod yn ddigon tebyg i dribiwnlysoedd eraill i'w hystyried ochr yn ochr â nhw. Roeddent wedi'u rhestru yng yr Atodlen i Orchymyn Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd (Tribiwnlysoedd a Restrir) (Cymru) 2007, a'u hystyried yn Adroddiad Leggatt[78].

### Cyrff a ystyriwn am y tro yn rhai sydd y tu allan i gwmpas y prosiect

#### Byrddau Canolwyr Meddygol

2.61 Mae Byrddau Canolwyr Meddygol yn dyfarnu ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau sy'n ymwneud â materion "meddygol eu natur" a wneir gan awdurdodau tân ac achub o dan gynlluniau iawndal pensiynau diffoddwyr tân yng Nghymru.[79] Y weithdrefn ar eu cyfer, yn fras, yw'r ganlynol. Pan fydd rheolwr perthnasol y cynllun yn cael hysbysiad am apêl, rhaid iddo ddarparu i Weinidogion Cymru yr hysbysiad am apêl, yr hysbysiad am y penderfyniad perthnasol, y farn, ymateb neu dystiolaeth a ddarparwyd i'r apelydd a phob dogfen berthnasol arall sydd yn ei feddiant. Wedyn rhaid i Weinidogion Cymru gyfeirio'r apêl at Fwrdd o Ganolwyr Meddygol.[80]

2.62 Rhaid i'r Bwrdd "gynnwys o leiaf dri ymarferydd meddygol a benodir gan Weinidogion Cymru, neu yn unol â threfniadau wneir gan Weinidogion Cymru".[81] Nid yw swyddogaethau Byrddau Canolwyr Meddygol yn cael eu gweinyddu gan Lywodraeth Cymru, ond yn cael eu gosod ar gontract allanol. Bydd y Byrddau yn dyfarnu ar apeliadau drwy wneud adroddiad ysgrifenedig am eu penderfyniad, a gaiff ei drosglwyddo i Weinidogion Cymru.[82]

2.63 Rydym wedi dod i'r casgliad dros dro fod swyddogaethau Byrddau Canolwyr Meddygol yn ddatganoledig; mae gwasanaethau tân ac achub a diogelwch tân yn faterion a ddatganolwyd, fel y mae cynlluniau pensiwn galwedigaethol a phersonol

---

77 Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) OS 2003 Rhif 3227 (Cy 308), rheoliadau 7(4) a 7(5).

78 Syr Andrew Leggatt, *Tribunals for Users: One System, One Service: Report of the Review of Tribunals* (Mawrth 2001) Part II, Individual Tribunals – continued.

79 Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) OS 2007 Rhif 1072 (Cy 110), Atodlen 1, rhan 8, paragraff 4, ac OS 2015 Rhif 622, rheoliad 163(1).

80 Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) OS 2007 Rhif 1072 (Cy 110), Atodlen 1, atodiad 2, paragraff 2, a Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) OS 2015 Rhif 622 (Cy 50), rheoliad 166.

81 Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) OS 2007 Rhif 1072 (Cy 110), Atodlen 1, atodiad 2, rhan 8, rheol 4, paragraff 3 (1), a Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) OS 2015 Rhif 622 (Cy 50), rheoliad 166(2).

82 Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) OS 2007 Rhif 1072 (Cy 110), Atodlen 1, atodiad 2, paragraff 8, a Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) OS 2015 Rhif 622 (Cy 50), rheoliad 168.

awdurdodau tân ac achub.[83] Ond rydym wedi dod i'r casgliad dros dro nad ydynt yn dribiwnlys.

2.64 Mae'r Byrddau yn gwneud penderfyniadau, yn hytrach nag argymhellion, ac felly yn ôl y sail resymegol a ddisgrifiwyd uchod fe ddylent fod yn gymwys i'w hystyried yn dribiwnlysoedd. Fodd bynnag, mewn pethau eraill mae'r Byrddau'n wahanol i dribiwnlysoedd eraill sy'n cael eu cynnig dros dro fel rhai sydd o fewn cwmpas y prosiect hwn. Maent yn cynnwys aelodau meddygol yn unig, ac nid oes ganddynt neb yn cyfateb i glerc ynadon. Caiff eu haelodau eu dethol drwy broses sy'n annodweddiadol o benodi barnwrol, a gellir rhoi'r broses yn nwylo contractwr masnachol (fel y gwnaed). Nid ydynt yn cynnal yr hyn sy'n cyfateb i wrandawiad. Yn lle hynny, rhaid iddynt gyfweld yr apelydd a chynnal archwiliad meddygol arno.[84]

2.65 Mewn unrhyw gyfweliad a gynhelir, gall personau fod yn bresennol a benodwyd i'r diben hwnnw gan yr apelydd yn ogystal â'r rheolwr cynllun, a gaiff gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig neu ddatganiad ysgrifenedig cyn y cyfweliad;[85] er hynny, nid yw'r cyfweliad yn cael ei alw'n wrandawiad, ac nid yw'r Rheoliadau'n gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer argymhellion llafar. Rydym wedi dod i'r casgliad dros dro ar sail cyfuniad o ffactorau rydym newydd gyfeirio atynt nad yw Byrddau Canolwyr Meddygol yn dribiwnlys y dylid ei gynnwys yn y prosiect hwn.

### Ombwdsmyn

2.66 Yr ombwdsmon mwyaf blaenllaw yng Nghymru yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("OGCC"). Crëwyd swydd OGCC yn 2005 gan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2005 yn Senedd y DU. Y ddeddfwriaeth sydd bellach yn berthnasol yw Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2019 ("Deddf 2019"), un o Ddeddfau Senedd Cymru.

2.67 Mae Deddf 2019 yn darparu y gall OGCC ymchwilio i faterion ar ei fenter ei hun neu i gwynion gan aelodau o'r cyhoedd yn ymwneud â:

(1) honiad o gamweinyddu gan awdurdod rhestredig mewn cysylltiad â cham gweithredu perthnasol;

(2) honiad o fethiant mewn gwasanaeth perthnasol a ddarparwyd gan awdurdod rhestredig; neu

(3) honiad o fethiant gan awdurdod rhestredig i ddarparu gwasanaeth perthnasol.

---

83 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 7A, rhan 2, pennawd F, adran F3, paragraff 134

84 Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) OS 2007 Rhif 1072 (Cy 110), Atodlen 1, atodiad 2, paragraff 6(1), a Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) OS 2015 Rhif 622 (Cy 50), rheoliad 167. Nid yw hyn yn ddigon ar ei ben ei hun i beidio ag ystyried bod y Byrddau yn dribiwnlys; mae archwiliadau meddygol yn elfen mewn apeliadau i TAIMC ac mewn rhai apeliadau nawdd cymdeithasol i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf.

85 Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) OS 2007 Rhif 1072 (Cy 110), Atodlen 1, atodiad 2, rhan 8, rheol 4, paragraff 6 (5), a Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) OS 2015 Rhif 622 (Cy 50), rheoliad 167(6) a (7).

2.68 Mae Atodlen 3 yn pennu'r awdurdodau rhestredig. Yr unig gyrff penderfynu a ystyriwyd yn y bennod hon sydd wedi'u diffinio'n awdurdodau rhestredig yw paneli apelio derbyniadau ysgolion a phaneli apelio gwaharddiadau ysgolion.

2.69 Mae OGCC yn elfen bwysig yn system cyfiawnder gweinyddol Cymru, ac mae rhywfaint o orgyffwrdd rhwng ei waith ef a gwaith tribiwnlysoedd. Yn benodol, gall OGCC gyfeirio cwestiynau ynghylch a yw aelodau awdurdod lleol wedi torri cod ymddygiad statudol yr awdurdod lleol i sylw Panel Dyfarnu Cymru.[86] Fodd bynnag, ein barn dros dro yw bod ombwdsmon yn wahanol i dribiwnlys ac na ddylid cynnwys ombwdsmyn yn y prosiect hwn. Fel y nodwyd uchod, gall OGCC ystyried cwyn ar ei fenter ei hun. Nid yw gweithredu ar gŵyn yn gyfystyr â dyfarnu ar anghydfod rhwng partïon.

2.70 Mae'r sail dros ymchwilio i gwynion gan OGCC yn wahanol hefyd gan amlaf i'r sail dros ymchwilio iddynt gan dribiwnlysoedd; fel arfer bydd ombwdsmon yn canolbwyntio ar gamweinyddu,[87] neu ar fethiant i ddarparu gwasanaeth. Ein casgliad dros dro cyffredinol yw nad yw'n briodol disgrifio ombwdsmyn yn "dribiwnlysoedd".

### Arolygiaeth Gynllunio Cymru a Lloegr: ymchwiliadau

2.71 Awgrymwyd i ni fod modd ystyried bod Arolygiaeth Gynllunio Cymru a Lloegr yn dribiwnlys, ac felly y gallai ddod o fewn cwmpas yr adolygiad hwn. Ar hyn o bryd, mae'r arolygiaeth yn gweithredu yng Nghymru ac yn Lloegr, felly ni fyddai'n gymwys ei hystyried yn y prosiect hwn gan nad yw ei swyddogaethau'n ymarferadwy mewn perthynas â Chymru'n unig. Nid oes cyfeiriad penodol at yr Arolygiaeth Gynllunio ei hun yn y ddeddfwriaeth sy'n sail iddi, sy'n cyfeirio yn lle hynny at "determination of certain appeals by a person appointed by the [Welsh Ministers]".[88]

2.72 Pe byddai corff cyfatebol i Gymru'n unig yn cael ei gyflwyno, ac iddo'r un nodweddion â'r Arolygiaeth Gynllunio bresennol, rydym wedi dod i'r farn dros dro ei bod yn annhebygol o ateb ein diffiniad o dribiwnlys. Mae'n arwyddocaol, er enghraifft, er bod rhai penderfyniadau'n cael eu gwneud gan arolygwyr, mai Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am benderfynu'r weithdrefn ar gyfer cynnal apeliadau (mewn ymchwiliad lleol, mewn gwrandawiad neu drwy gyflwyno sylwadau ysgrifenedig yn unig)[89] a bod Gweinidogion Cymru yn cadw'r gallu i alw achosion yn ôl lle maent o bwysigrwydd cyhoeddus neilltuol. Lle mae apêl wedi'i galw'n ôl, bydd yr arolygydd yn cynnal yr apêl, yn ysgrifennu adroddiad ac yn gwneud argymhelliad i Weinidogion Cymru; ond Gweinidogion Cymru fydd yn gwneud y penderfyniad yn y diwedd. Felly, nid ydym yn credu bod gan yr Arolygiaeth Gynllunio bresennol y graddau o annibyniaeth sy'n cael ei ddisgwyl fel arfer mewn tribiwnlysoedd.

---

86 Deddf Llywodraeth Leol 2000, aa 71(3) a 72(4).

87 Nid yw hyn wedi'i ddiffinio mewn statud. Y diffiniad cyffredinol ohoni yn Adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar Ombwdsmyn Gwasanaethau Cyhoeddus yw "considering whether the actions of the public body are of a standard which individual citizens should be able to expect from public service providers". Public Services Ombudsmen (2011) Law Com No 329, paragraff 1.20. https://s3-eu-west-2.amazonaws.com/lawcom-prod-storage-11jsxou24uy7q/uploads/2015/03/lc329_ombudsmen.pdf.

88 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Atodlen 6.

89 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adran 319B.

### Paneli adolygu annibynnol ar ddyfarniadau yng Nghymru

2.73 Mae'r paneli hyn yn darparu proses adolygu y gall darpar fabwysiadwyr ei defnyddio i herio penderfyniadau penodol a wneir gan asiantaethau mabwysiadu yng Nghymru. Rhestrwyd y paneli yng Ngorchymyn 2007, ac maent wedi'u cynnwys yn y rhestr "Tribiwnlysoedd 'Cymreig' sy'n gweithredu yng Nghymru" yn adroddiad Pwyllgor Cymreig y CCGT yn 2010.

2.74 Fodd bynnag, nid yw'r paneli'n gwneud penderfyniadau rhwymol, felly nid ydynt yn ateb ein meini prawf dros dro ar gyfer eu cynnwys yn y prosiect. Yn adroddiad blynyddol IRM Cymru ar gyfer 2015-2016 (y diweddaraf sydd ar gael), gelwir y broses yn "fecanwaith adolygiad annibynnol" a dywedir "Nid proses apelio yw'r IRM, a'r asiantaeth biau'r penderfyniad terfynol ..., ond mae'n rhaid iddynt gymryd i ystyriaeth barn y panel IRM wrth wneud eu penderfyniad terfynol".[90] Oherwydd hynny, ein cynnig dros dro yw na ddylid eu hystyried yn rhan o'r prosiect hwn.

### Pwyllgorau Coedwigaeth Cymru

2.75 Mae Pwyllgorau Coedwigaeth Cymru yn gyfrifol am gynghori Gweinidogion Cymru ar adolygiadau o benderfyniadau i wrthod neu osod amodau ar drwyddedau cwympo coed neu ar apeliadau yn erbyn hysbysiad ailstocio o dan Ddeddf Coedwigaeth 1967.

2.76 Mae'r Pwyllgorau Coedwigaeth yn gwneud argymhellion yn hytrach na phenderfyniadau; ar ôl cael argymhelliad ganddynt, gall un o Weinidogion Cymru gadarnhau, gwrthdroi neu addasu'r penderfyniad gwreiddiol.[91] Yn adroddiad Dr Sarah Nason "Understanding administrative justice in Wales", nodir bod hyn yn codi rhywfaint o amheuaeth ynghylch a yw Pwyllgorau Coedwigaeth Cymru yn dribiwnlys, neu a yw'n well meddwl amdanynt fel mecanwaith adolygu mewnol:

> given its adjudicative function is by way of making a recommendation of its findings to the Welsh Ministers as opposed to independently determining the dispute.[92]

2.77 Rydym yn cynnig dros dro na fydd Pwyllgorau Coedwigaeth Cymru yn cael eu cynnwys yn yr adolygiad hwn.

### Cronfa cymorth ddewisol Cymru

Roedd y gronfa cymorth ddewisol wedi'i rhestru yn Adroddiad 2016 yn "ad hoc redress scheme".[93] Mae'n darparu dau fath o grant: taliadau cymorth mewn argyfwng, i ddarparu cymorth mewn argyfwng sy'n creu bygythiad ar y pryd i iechyd neu les yr ymgeisydd, a thaliadau cymorth i unigolion, i gwrdd ag angen brys penodol er mwyn helpu dinasyddion agored i niwed i fyw'n annibynnol yn y gymuned.

---

90 IRM Cymru, *Adroddiad Blynyddol 2015-2016* (2017), t 2.

91 Deddf Coedwigaeth 1967, aa 16(3) a 17B(2).

92 S Nason, *Understanding administrative justice in Wales* (2015) paragraff 7.2, nodyn 1.

93 Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru, *Administrative Justice: a Cornerstone of Social Justice in Wales* (2016) atodiad 6.

2.78 Mae proses apelio ddwy haen ar gael. Yn y lle cyntaf, caiff penderfyniadau eu hadolygu'n fewnol gan Northgate Public Services (yr endid sy'n dal y contract i weinyddu'r cynllun yng Nghymru). Os bydd ymgeiswyr yn anfodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, gallant wneud cais am adolygiad allanol gan Family Fund Trust, endid corfforaethol arall.[94] Yn ein barn dros dro, nid yw'r broses adolygu hon yn gyfystyr â dyfarnu ar anghydfod rhwng partïon. Rydym yn dod i'r casgliad dros dro ei bod y tu allan i gwmpas y prosiect hwn.

### Proses apeliadau annibynnol i ffermwyr a pherchnogion coedwigoedd

2.79 Mae apeliadau yn erbyn penderfyniadau gan Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud â hawliadau neu geisiadau o dan gynlluniau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn cael eu gwneud drwy'r broses apeliadau annibynnol i ffermwyr a pherchnogion coedwigoedd (proses arall a elwir yn "ad hoc redress scheme" yn Adroddiad 2016).[95] Y cam cyntaf yw adolygiad gan swyddogion o fewn y grŵp sy'n gyfrifol am weinyddu'r polisi. Yr ail gam yw adolygiad gan banel annibynnol, sydd wedyn yn gwneud argymhellion i Weinidog Cymru dros Gyfoeth Naturiol.

2.80 Gan fod y panel annibynnol yn gwneud argymhellion yn unig, yn hytrach na gwneud penderfyniadau rhwymol, nid ydym yn credu y dylai'r panel annibynnol gael ei ystyried yn dribiwnlys. Mae Huw Pritchard wedi nodi bod swyddogaethau dyfarnu gan y panel, ond nad yw'n ffitio'n dwt i ddosbarth y tribiwnlysoedd.[96] Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n ddiweddar ar symleiddio fframwaith rheoleiddio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Disgwylir y bydd newidiadau mwy sylweddol yn cael eu cyflwyno maes o law gan Fil Amaethyddiaeth (Cymru); os bydd y rhain yn arwain at greu tribiwnlys, gellid ei gynnwys wedyn yn y cynllun rydym yn ei gynnig dros dro.[97]

### Paneli adolygu gofal iechyd parhaus y GIG

2.81 Mae gofal iechyd parhaus ("GIP") yn becyn gofal parhaus a ariennir gan y GIG drwy Fyrddau Iechyd Lleol, lle nodwyd bod prif angen yr unigolyn yn seiliedig ar iechyd. Gall cleifion herio penderfyniad gan Fwrdd Iechyd Lleol ynghylch cymhwystra i gael GIP. Bydd byrddau'n defnyddio panel sefydlog, y "Panel Adolygu Annibynnol", sy'n cynnwys cadeirydd annibynnol, cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd Lleol a chynrychiolydd awdurdod lleol. Rôl gynghorol sydd gan y panel; nid yw ei benderfyniadau'n ffurfiol

---

[94] Gweler https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-06/requesting-a-review-to-your-discretionary-assistance-fund-application.pdf

[95] Rheoliadau Cynlluniau Cymorthdaliadau a Grantiau Amaethyddol (Apelau) (Cymru) OS 2006 Rhif 3342, rheoliad 3. Gweler hefyd Llywodraeth Cymru, *Independent appeals process for farmers and foresters in Wales,* (2018) am ragor o fanylion am y broses. https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/appeal-a-farming-or-forestry-grant-guidance.pdf

[96] H Pritchard, "Building a Welsh Jurisdiction Through Administrative Justice", yn *Administrative Justice in Wales and Comparative Perspectives,* S Nason (gol) (2017) p 73.

[97] Llywodraeth Cymru, *Sustainable farming and our land: proposals to continue and simplify agricultural support for farmers and the rural economy* (Gorffennaf 2020) https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2020-07/sustainable-farming-consultation-document.pdf.

rwymol ond disgwylir y bydd ei argymhellion yn cael eu derbyn.[98] Roedd hefyd yn cael ei alw yn Adroddiad 2016 yn “ad hoc redress scheme”.

2.82 Gan mai rôl gynghorol yn unig sydd gan y panel adolygu annibynnol, ein barn dros dro yw nad yw’n ddigon tebyg i rôl tribiwnlys i gyfiawnhau ei gynnwys yng nghwmpas y prosiect hwn.

### Proses apeliadau annibynnol i ffermwyr a pherchnogion tir yng Nghymru

2.83 Mae prosiectau ar gyfer ailstrwythuro daliadau tir amaethyddol ac ar gyfer defnyddio tir heb ei drin neu ardaloedd lled-naturiol at ddibenion amaethyddol dwys yn cael eu rheoli gan system gydsynio, i ddiogelu’r ardaloedd hyn rhag difrod amgylcheddol. Mae modd herio gwahanol benderfyniadau cyhoeddus a wneir o dan y system drwy broses apeliadau annibynnol.

2.84 Mae’r rheoliadau’n rhagnodi y bydd Gweinidogion Cymru yn penodi person annibynnol i wrando’r apêl, a all ddigwydd mewn gwrandawiad llafar neu drwy gyflwyno sylwadau ysgrifenedig.[99] Fel arfer bydd Gweinidogion Cymru yn penodi’r Arolygiaeth Gynllunio yn berson annibynnol.[100] Yn dilyn y gwrandawiad, bydd y person annibynnol yn llunio adroddiad yn argymell sut i ddyfarnu ar yr apêl. Cyflwynir yr adroddiad hwn wedyn i Weinidogion Cymru.

2.85 Unwaith eto, gan mai gwneud argymhellion yn unig y bydd y person annibynnol, yn hytrach na gwneud penderfyniad rhwymol, ein barn dros dro yw na ellir ystyried y broses apeliadau annibynnol yn dribiwnlys.

### Tribiwnlys Cosbau Traffig

2.86 Mae’r Tribiwnlys Cosbau Traffig yn ystyried apeliadau yn erbyn cosbau traffig a osodir yn Lloegr (y tu allan i Lundain) ac yng Nghymru gan awdurdodau gorfodi. Nid yw’r term Tribiwnlys Cosbau Traffig yn cael ei ddefnyddio mewn statud; yn lle hynny, mae Deddf Rheoli Traffig 2004 (“Deddf 2004”) yn cyfeirio at “adjudicators”. [101]

2.87 Yn unol â Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013 (“Rheoliadau 2013”), mae pŵer gan awdurdodau gorfodi yng Nghymru (awdurdodau lleol, fel arfer) i benodi dyfarnwyr traffig. O dan Reoliadau 2013, rhaid i swyddogaethau awdurdodau gorfodi yng Nghymru o ran dyfarnwyr gael eu cyflawni ar y cyd, gan gyd-bwyllgor.[102] *Gall* y cyd-bwyllgor hwnnw gynnwys

---

98 *Continuing NHS Healthcare: The National Framework for Implementation in Wales* (2014) paragraff A.5.18, http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/866/Continuing%20NHS%20Healthcare%20The%20National%20Framework%20for%20Implementation%20in%20Wales%202014.pdf.

99 Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) OS 2017 Rhif 565 (Cy 134).

100 Llywodraeth Cymru, *Proses Apelio Annibynnol i Ffermwyr a Thirfeddianwyr yng Nghymru dan Reoliadau Asesu’r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017* (2019), t 5.

101 Deddf Rheoli Traffig 2004, a 81.

102 OS 2013 Rhif 362, rheoliad 15(1).

cynghorau sir neu fwrdeistref sirol yn Lloegr.[103] Ar hyn o bryd, mae'r cydbwyllgor yn cynnwys awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr.[104]

2.88 Yn 2010, roedd Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd o'r farn bod y dyfarnwyr yn dribiwnlys Cymreig datganoledig, pan fyddent yn eistedd yng Nghymru.[105] Fodd bynnag, rhaid ystyried y sefyllfa nawr o dan Ddeddf 2006 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2017.

2.89 Yn ein barn dros dro, nid yw'r tribiwnlys yn gyson â'r diffiniad o dribiwnlys datganoledig yn Neddf 2006 gan nad yw ei swyddogaethau'n ymarferadwy mewn perthynas â Chymru'n unig.[106] Nid ydym yn credu bod modd trin dyfarnwyr y Tribiwnlys Cosbau Traffig fel tribiwnlys ar wahân pan fyddant yn penderfynu achosion yng Nghymru. Yn unol â Rheoliadau 2013, a amlinellwyd uchod, byddai awdurdodau lleol Cymru wedi gallu dewis arfer eu pwerau i benodi dyfarnwyr ar wahân i Gymru, ond ni wnaethant hynny. Eu dewis oedd arfer pwerau penodi dyfarnwyr drwy'r cyd-bwyllgor. Felly rydym yn dod i'r farn dros dro bod y Tribiwnlys Cosbau Traffig y tu allan i gwmpas y prosiect hwn.

**Cwestiwn Ymgynghori 1.**

2.90 Ein barn dros dro yw y dylai cyrff penderfynu sy'n dyfarnu ar anghydfodau rhwng partïon drwy wneud dyfarniadau rhwymol gael eu dynodi'n "dribiwnlysoedd" i ddibenion y prosiect hwn.

Ydych chi'n cytuno?

103 Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) OS 2013 Rhif 362, rheoliad 15(2).

104 Gweler PATROL https://www.patrol-uk.info/authority-directory/.

105 Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, *Adolygiad o Dribiwnlysoedd sy'n Gweithredu yng Nghymru* (2010) paragraff 7.

106 Deddf Cymru 2017 Atodlen 7A paragraff 9(2).

**Cwestiwn Ymgynghori 2.**

2.91 Rydym yn cynnig dros dro fod y cyrff canlynol yn dribiwnlysoedd datganoledig:

(1) Y tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017;

(2) Tribiwnlys Prisio Cymru;

(3) paneli apelio derbyniadau ysgolion; a

(4) paneli apelio gwaharddiadau ysgolion.

Ydych chi'n cytuno?

**Cwestiwn Ymgynghori 3.**

2.92 Rydym yn cynnig dros dro nad yw'r cyrff penderfynu neu gynlluniau canlynol yn "dribiwnlysoedd datganoledig":

(1) ombwdsmyn, yn cynnwys Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;

(2) Arolygiaeth Gynllunio Cymru a Lloegr;

(3) paneli adolygu annibynnol ar ddyfarniadau yng Nghymru;

(4) y gronfa cymorth dewisol i Gymru;

(5) y broses apeliadau annibynnol i ffermwyr a pherchnogion coedwigoedd;

(6) paneli adolygu gofal iechyd parhaus y GIG;

(7) Byrddau Canolwyr Meddygol o dan gynlluniau pensiwn ac iawndal diffoddwyr tân yng Nghymru;

(8) Pwyllgorau Coedwigaeth Cymru;

(9) y broses apeliadau annibynnol i ffermwyr a pherchnogion tir yng Nghymru; a

(10) y Tribiwnlys Cosbau Traffig.

Ydych chi'n cytuno?

# Chapter 3: System dribiwnlysoedd i Gymru

3.1 Ym 1977, ysgrifennodd Syr William Wade:

> The tribunal system has an inherent resistance to uniformity and simplicity. When legislation is in preparation the line of least resistance is usually to create new tribunals rather than to reorganize those already existing. This tendency, if unchecked, leads to a jungle of different jurisdictions which are as inconvenient to the citizen as they are bewildering.[107]

3.2 Ataliwyd y duedd hon yn y pen draw yn achos y tribiwnlysoedd a gedwir yn ôl a oedd o fewn cwmpas Adolygiad Leggatt ac wedyn Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 ("DTLIG 2007"). Ond nid oedd yr adroddiad hwnnw'n ymdrin â thribiwnlysoedd a oedd yn gweithredu yng Nghymru'n unig ar y pryd.[108] O ganlyniad i hyn, y disgrifiad mwyaf priodol o dribiwnlysoedd datganoledig yw dweud eu bod yn 'gymysgryw'.[109]

3.3 Bydd rhai ohonynt, fel Tribiwnlys Prisio Cymru ("TPC"), yn gwrando miloedd o achosion bob blwyddyn. Gall Panel Dyfarnu Cymru ("PDC") wrando dau neu dri o achosion (sydd o bwys mawr, er hynny, i ddemocratiaeth leol yng Nghymru). Gweinyddir y rhan fwyaf o dribiwnlysoedd gan lywodraeth ganolog, tra bo eraill, fel y paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion, wedi cadw cysylltiad agos â llywodraeth leol. Mae rhai ohonynt, fel Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru ("TEPC"), yn gwrando achosion o lawer math sy'n ymwneud â maes pwnc penodol, tra bydd eraill, fel Tribiwnlys y Gymraeg ("TG"), yn canolbwyntio ar nifer bach o fathau o hawliad.[110]

3.4 Yn y bennod hon, rydym yn ystyried ymdrechion a gafwyd mewn lleoedd eraill i greu strwythur ar gyfer tribiwnlysoedd. Adolygir y cynnydd a gafwyd ar hyn yng Nghymru hyd yma, ac ystyrir y posibiliadau ar gyfer y dyfodol.

## DIWYGIADAU MEWN LLEOEDD ERAILL

3.5 Nid yng Nghymru'n unig, na hyd yn oed yn y DU, y mae'r cynnydd yn nifer y tribiwnlysoedd yn broblem. Yn y bennod hon, rydym yn edrych yn fanwl ar ddiwygiadau a wnaed yn system y tribiwnlysoedd a gedwir yn ôl yn y DU, ac ar ddiwygiadau diweddarach yn yr Alban. Mae llawer yn gyffredin rhwng y systemau hyn a'r tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru. Mae nifer o'r tribiwnlysoedd (fel y

---

107 W Wade, *Administrative Law*, 4ydd argraffiad (1977), t 763.

108 Syr Andrew Leggatt, *Tribunals for Users One System, One Service: Report of the Review of Tribunals* (Mawrth 2001), paragraff 11.2.

109 Llywodraeth Cymru, Tystiolaeth Ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, t 7.

110 Defnyddir y byrfoddau canlynol yn y Papur Ymgynghori hwn: Panel Dyfarnu Cymru ("PDC"), Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru ("TAIMC"), Tribiwnlys Anghenion Addysg Arbennig Cymru ("TAAAC"), Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Ysgolion a Thribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Addysg Feithrin ("TAACY" a "TAACAF"), Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru ("TEPC"), Tribiwnlys Prisio Cymru ("TPC"), Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru ("TTAC") a Thribiwnlys y Gymraeg ("TG").

tribiwnlysoedd iechyd meddwl) yn deillio o'r un ffynhonnell â chyrff cyfatebol yn Lloegr, gan eu bod yn wreiddiol yn un tribiwnlys neu'n rhan o rwydwaith o dribiwnlysoedd rhanbarthol.

### Adolygiad Leggatt

3.6 Yn 2000, gofynnwyd i Syr Andrew Leggatt adolygu'r system o dribiwnlysoedd er mwyn sicrhau (ymysg amcanion eraill) fod tribiwnlysoedd, yn gyffredinol, yn rhan o strwythur cydlynol ar gyfer darparu cyfiawnder gweinyddol.[111] Ar adeg yr adolygiad, roedd 70 o wahanol dribiwnlysoedd gweinyddol yng Nghymru a Lloegr, heb gynnwys cyrff rheoleiddio ond, o'r 70 tribiwnlys hyn, dim ond 20 ohonynt oedd yn gwrando mwy na 500 o achosion y flwyddyn yr un ac roedd nifer ohonynt heb fod yn weithredol bellach.[112] Yn yr adroddiad a gyhoeddwyd wedyn yn 2001 ("Adroddiad Leggatt"), cafwyd y crynodeb canlynol o'r sefyllfa:

> … the present collection of tribunals has grown up in an almost entirely haphazard way. Individual tribunals were set up, and usually administered by departments, as they developed new statutory schemes and procedures. The result is a collection of tribunals, mostly administered by departments, with wide variations of practice and approach, and almost no coherence. The current arrangements seem to us to have been developed to meet the needs and conveniences of the departments and other bodies which run tribunals, rather than the needs of the user.[113]

3.7 Casgliad Adroddiad Leggatt oedd:

> If it is to be capable of handling its workload effectively, and ensuring the consistent development of the law, the Tribunals System must have a coherent structure to enable the effective management of workload, encourage consistency, and further a common approach in decision-making and case handling and management.[114]

3.8 Yr ateb oedd diddymu nifer o dribiwnlysoedd a sefydlu dim ond dau yn eu lle: Tribiwnlys yr Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys. Roedd hyn wedi creu problem arall. Roedd y tribiwnlysoedd a fodolai ar y pryd yn gwrando nifer fawr o wahanol fathau o achosion, yn amrywio o rai yn ymwneud ag iechyd meddwl i hawliadau am loches. Wrth gyfuno'r rhain, roedd perygl o golli'r arbenigedd a oedd gan aelodau a staff cymorth. Roedd yr adroddiad ei hun yn cydnabod y byddai tribiwnlys o'r fath yn "impracticably large and diverse" os nad oedd yn cynnwys adrannau.

3.9 Felly roedd yr adroddiad yn argymell grwpio'r tribiwnlysoedd ar sail pynciau yn 'feysydd gwaith synhwyrol o gydlynol' mewn strwythur a fyddai'n amlwg yn syth i'r

---

111 Syr Andrew Leggatt, *Tribunals for Users One System, One Service: Report of the Review of Tribunals* (Mawrth 2001), rhagair, paragraff 2.

112 Fel uchod, paragraff 2.

113 Fel uchod, paragraff 1.3.

114 Fel uchod, paragraff 6.2.

defnyddiwr. Yr argymhelliad oedd cyfuno'r tribiwnlysoedd a oedd o dan nawdd adrannau llywodraeth penodol.[115]

3.10 Argymhelliad hollbwysig yn yr adroddiad oedd bod rhaid i unrhyw strwythur arfaethedig fod yn un hyblyg. Byddai'n rhaid iddo allu addasu i'r canlynol: ychwanegu awdurdodaethau ato'n raddol wrth i'r system ddod ynghyd; trosglwyddo awdurdodaethau presennol, mewn ymateb i newidiadau mewn llwythi gwaith neu ofynion gweithdrefnol, ac ychwanegu hawliau apêl newydd. Awgrymodd yr adroddiad y dylai'r Arglwydd Ganghellor fod â'r gallu i greu adrannau a neilltuo awdurdodaethau iddynt drwy Gyfarwyddyd Ymarfer, neu, ar yr eithaf, drwy is-ddeddfwriaeth wedi'i phasio drwy'r weithdrefn penderfyniad negyddol.[116]

### Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007

3.11 Yn dilyn Adroddiad Leggat, cafwyd Papur Gwyn,[117] ac wedyn Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth ("DTLIG 2007"), a weithredodd nifer o'r argymhellion yn yr adroddiad.

3.12 Roedd adran 7(1) o DTLIG 2007 yn galluogi'r Arglwydd Ganghellor i wneud gorchmynion yn rhannu Tribiwnlys yr Haen Gyntaf yn siambrau (ar ôl cael cytundeb gan yr Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd). Er bod y termau wedi'u newid o 'adran' i 'siambr', mae'n glir bod y Llywodraeth wedi'i hargyhoeddi gan y rhesymau a roddodd Leggat dros rannu'r tribiwnlys.

3.13 Mae'r nodyn esboniadol i DTLIG 2007 yn egluro hyn:

> The tribunals will bring together a wide range of specialist jurisdictions. It would dilute expertise and damage the service provided to the public if they were organised on the basis that all judges and members can deal with all kinds of case. Instead, jurisdictions will be grouped so that similar work is dealt with by judges and members with the relevant skills to deal with it.[118]

3.14 Yn unol â hynny, rhannwyd Tribiwnlys yr Haen Gyntaf yn siambrau. Yn ymgynghoriad y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2007, nodwyd:

> In some respects Chambers replace existing tribunals, but there are a number of important differences. Individual jurisdictions will be grouped together so that similar work, or jurisdictions requiring similar skills, will be dealt with in a single Chamber. Unlike existing jurisdictions, Chambers will be flexible groupings, able to maintain and expand expertise and incorporate new jurisdictions where they fit best.[119]

---

[115] Syr Andrew Leggatt, *Tribunals for Users One System, One Service: Report of the Review of Tribunals* (Mawrth 2001), paragraff 6.3.

[116] Fel uchod, paragraff 6.4.

[117] Yr Adran Materion Cyfansoddiadol, *Transforming public services: complaints, redress and tribunals* (Gorffennaf 2004).

[118] Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, Nodyn Esboniadol, paragraff 78.

[119] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, *Transforming Tribunals: Implementing Part 1 of the Tribunals, Courts and Enforcement Act 2007* (Rhagfyr 2007), paragraff 151.

3.15 Ar y dechrau, roedd tair siambr haen gyntaf: y Siambr Hawliau Cymdeithasol, Siambr Pensiynau Rhyfel ac Iawndal y Lluoedd Arfog, a'r Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol. Ychwanegwyd y Siambr Rheoleiddio Cyffredinol, y Siambr Mewnfudo a Lloches, y Siambr Dreth a'r Siambr Eiddo yn ddiweddarach.[120]

3.16 Penodir barnwyr un ai i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf neu i'r Uwch Dribiwnlys, a'u neilltuo wedyn i siambrau penodol. Mae Llywydd yn bennaeth ar bob siambr, ac mae gan bob un ei rheolau gweithdrefnol sy'n cael eu harolygu gan y Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd.

3.17 Er bod tribiwnlysoedd wedi'u grwpio o fewn siambrau bellach, mae cydnabyddiaeth bod y gwaith o fewn siambrau yn amrywio. Mae siart drefniadol Tribiwnlys yr Haen Gyntaf yn rhestru'r awdurdodaethau allweddol sy'n perthyn i bob siambr.[121] O ran ymarfer, nid yw barnwyr a neilltuwyd i siambr yn gallu eistedd ym mhob un o'i hawdurdodaethau.[122]

3.18 Barnwyd bod y diwygiadau'n rhai llwyddiannus at ei gilydd. Yn achos *R (Cart) v Upper Tribunal* yn y Llys Apêl, mynegodd Arglwydd Ustus Sedley y farn ganlynol:

> The edifice of administrative and adjudicative tribunals created by the Tribunals, Courts and Enforcement Act 2007 (TCEA) is a landmark in the development of the United Kingdom's organic constitution. For the first time, a single structure has been created within which a huge variety of existing tribunals is gathered.[123]

### Yr Alban

3.19 Nid oedd Adroddiad Leggatt wedi ystyried yr hyn a alwodd Leggatt yn 'gyrff datganoledig Albanaidd'.[124] O ganlyniad i hynny, yn yr un modd â Chymru, roedd nifer o wahanol dribiwnlysoedd Albanaidd heb eu cyffwrdd gan y diwygiadau dilynol. Am nifer o flynyddoedd, roedd y tribiwnlysoedd hyn wedi parhau i weithredu ar wahân i'w gilydd. Fodd bynnag, yn 2014 pasiwyd Deddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014 ("Deddf 2014").

3.20 Yn yr un modd â DTLIG 2007, bwriad Deddf 2014 oedd cyfuno tribiwnlysoedd unigol (a restrir yn Atodlen 1 i Ddeddf 2014) mewn tribiwnlys haen gyntaf: Tribiwnlys Haen Gyntaf yr Alban. Byddai hyn yn cywiro'r "narrowness of outlook" sydd wedi'i greu gan y sefyllfa bresennol, drwy greu strwythur a fyddai'n cael yr effaith ganlynol: "reduce overlap, eliminate duplication, ensure better deployment and allow for the wider

---

120 Darperir ar gyfer y strwythur siambrau presennol yng Ngorchymyn Tribiwnlys yr Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys (Siambrau) 2010, OS 2010 Rhif 2655.

121 Yr Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd, *Annual Report 2020*, t 10 sydd ar gael yn https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2020/07/6.6755_The-Senior-President-of-Tribunals-Annual-Report-2020_WEB-CS-amend-1.pdf.

122 https://www.judiciary.uk/about-the-judiciary/judges-career-paths/becoming-a-tribunal-judge/

123 *R (Cart) v Upper Tribunal* [2010] EWCA Civ 859, [2011] QB 120 yn [1].

124 Syr Andrew Leggatt, *Tribunals for Users One System, One Service: Report of the Review of Tribunals* (Mawrth 2001), paragraff 11.12.

sharing of available resources".[125] Byddai apeliadau'n cael eu gwrando yn Uwch Dribiwnlys yr Alban.

3.21 Yn yr un modd hefyd â DTLIG 2007, daeth llunwyr Deddf 2014 i'r casgliad y byddai angen rhannu gwaith Tribiwnlys Haen Gyntaf yr Alban yn siambrau, er mwyn gallu grwpio swyddogaethau tebyg a chadw'r arbenigedd a oedd ar gael. Mae'r memorandwm polisi yn egluro mai bwriad y pŵer i rannu'r tribiwnlys yn siambrau yw:

> to establish boundaries within the First-tier Tribunal according to the subject-matter of the functions it is to exercise so as to allow similar functions to be grouped together.[126]

3.22 Mae adran 20 o Ddeddf 2014 yn caniatáu i Weinidogion yr Alban wneud rheoliadau drwy'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol i neilltuo swyddogaethau Tribiwnlys Haen Gyntaf yr Alban i siambrau. Gellir dirprwyo'r pŵer i'r Arglwydd Lywydd.[127] Mae'r memorandwm polisi yn pwysleisio mai un o brif fanteision y dull hwn o weithredu yw ei fod yn hyblyg. Byddai dirprwyo'r pŵer i'r Arglwydd Lywydd yn caniatáu iddo:

> adapt the chamber structure within the confines permitted by the regulations. It would also allow this to happen without the need for further legislation, as long as it adhered to the limits of the delegated authority. For example, the regulations could provide for certain core chambers to exist but allow the Lord President to organise the structure out-with those particular chambers. The chamber structure will need to be flexible to allow changes to be made as the Scottish Tribunals acquire more functions and additional functions are conferred on them.[128]

3.23 Ar hyn o bryd, mae Tribiwnlys Haen Gyntaf yr Alban yn cynnwys y siambrau canlynol:

(1) Iechyd Meddwl;

(2) Tai ac Eiddo;

(3) Iechyd ac Addysg;

(4) Rheoleiddio Cyffredinol;

(5) Treth; a

(6) Nawdd Cymdeithasol.

3.24 Mae'r broses o drosglwyddo awdurdodaethau i Dribiwnlys Haen Gyntaf yr Alban yn parhau. Mae nifer o wahaniaethau rhwng trefniadaeth y siambrau yn y tribiwnlysoedd a gedwir yn ôl ac yn y tribiwnlysoedd yn yr Alban. Yn yr Alban, er enghraifft, mae iechyd meddwl wedi'i neilltuo i siambr ar wahân, nid ei gyfuno â maes ehangach iechyd ac addysg. Pan ymgynghorodd Llywodraeth yr Alban ar ei chynigion ar gyfer

---

125 Deddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014, Memorandwm polisi, paragraff 3. Ar gael yn https://www.parliament.scot/S4_Bills/Tribunals%20(Scotland)%20Bill/b30s4-introd-pm.pdf.

126 Deddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014, Memorandwm polisi, paragraff 41.

127 Deddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014, aa 20 a 10(1)(a).

128 Deddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014, Memorandwm polisi, paragraff 41.

diwygio'r strwythur tribiwnlysoedd, roedd nifer o ymgyngoreion wedi mynegi'r farn na ddylai Tribiwnlys Iechyd Meddwl yr Alban gael ei gyfuno â thribiwnlysoedd eraill. Mae memorandwm polisi Llywodraeth yr Alban ar gyfer Deddf 2014 yn egluro:

> The Scottish Government has made a commitment that initially mental health will be in a chamber on its own… The Scottish Government recognises the uniqueness of the Mental Health Tribunal for Scotland and is committed to ensuring that all of its distinctive and valued characteristics can be protected and maintained in the new structure.[129]

3.25 Gwahaniaeth amlwg arall yn yr Alban yw bod pwyllgorau apelio addysg, sy'n gwrando apeliadau'n ymwneud â gwahardd o ysgolion (ymysg materion eraill), wedi'u rhestru yn Atodlen 1 i Ddeddf 2014. Disgwylir y byddant yn cael eu trosglwyddo i Dribiwnlys Haen Gyntaf yr Alban yn Ebrill 2021.[130]

## Y MANTEISION O GYFUNO

3.26 Cynigiwyd nifer o wahanol seiliau rhesymegol dros osod strwythur ar dribiwnlysoedd. Yn y gorffennol, mae Dr Sarah Nason wedi nodi y byddai tribiwnlys cyfunol yn gallu darparu "a structure that is more efficient, expert, accessible and flexible".[131]

### Arbedion maint

3.27 Mae cyfuno adnoddau'n cynnig y cyfle i redeg gwahanol agweddau ar waith y tribiwnlys yn fwy effeithlon, ac yn y pen draw i wella'r gwasanaeth y gellir ei gynnig i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd. Yn benodol, byddai rhannu gweinyddiaeth y tribiwnlysoedd yn gallu arwain at arbedion. O gael nifer mwy o staff, gellir cynnig gwasanaethau mwy arbenigol a soffistigedig i dribiwnlysoedd. Mae cyllideb fwy a mwy o arbenigedd TG hefyd yn ei gwneud yn haws buddsoddi mewn technolegau newydd, a'u diweddaru'n rheolaidd mewn ymateb i'r galw gan ddefnyddwyr tribiwnlysoedd.

3.28 Drwy gyfuno adnoddau, gellir gwella ansawdd rheolau gweithdrefnol hefyd. Mae adolygu a diweddaru'r rhain yn waith arbenigol a llafurus ond, drwy gyfuno adnoddau, bydd yn fwy ymarferol eu hadolygu'n rheolaidd. Mae hefyd yn caniatáu i dribiwnlysoedd rannu'r arferion gorau.

3.29 Gellir cynnig yr un ddadl am arbenigedd barnwrol. Ar yr amod bod barnwyr yn meddu ar yr arbenigedd priodol, mae caniatáu iddynt eistedd mewn nifer o awdurdodaethau'n golygu bod mwy o adnoddau barnwrol ar gael i'r tribiwnlys. Bydd hynny yn ei dro yn gallu cyflymu'r broses o restru a gwrando achosion a galluogi'r tribiwnlys i ymateb yn well i unrhyw gynnydd annisgwyl yn y galw.

---

129 Deddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014, Memorandwm polisi, paragraff 43.

130 Swyddfa Farnwrol yr Alban, "The Scottish Tribunals: Annual Report Prepared by the President of the Scottish Tribunals – 1 April 2018 – 31 March 2019" (2019) t 14.

131 S Nason, *Understanding Administrative Justice in Wales* (Tachwedd 2015) t 17.

## Cydlyniant

3.30 Un o'r gwerthoedd eraill a nodwyd yn aml yn Adroddiad Leggatt oedd cydlyniant. O dan y pennawd hwnnw, mae'r adroddiad yn nodi:

> The necessary skills for tribunal decision-makers, and the services provided by their staff, will be greatly improved if they are brought together to form a coherent system and services; and without that coherence the improvements which are necessary for tribunals to remain a distinctive and viable alternative to courts cannot be achieved.[132]

3.31 Mae gwahaniaeth barn o ran beth yw union ystyr 'cydlyniant' yng nghyd-destun system dribiwnlysoedd. Yn ôl Craig, ystyr yr egwyddor hon yw y dylai'r dinesydd gael delio â strwythur sengl cyffredinol sy'n rhoi mynediad at yr holl dribiwnlysoedd.[133] Mae'r diffiniad hwn yn ymwneud â phrofiad yr unigolyn wrth ddefnyddio tribiwnlysoedd; y ddadl yw bod darparu strwythur sengl yn lleihau'r risg y bydd unigolyn yn mynd at y tribiwnlys anghywir, neu'n methu â dod o hyd i wybodaeth berthnasol ar gyfer gwneud cais.

3.32 Nododd Mr Ustus Hickinbottom dri math o gydlyniant a ystyriwyd yn Adroddiad Leggatt. Y cyntaf oedd cydlyniant gweinyddol: cyfuno systemau cymorth gweinyddol mewn un man. Yr ail oedd 'cydlyniant systemig', sef strwythur trefniadol y tribiwnlysoedd. Cyfeiriodd yn benodol at y gwahanol lwybrau apêl oddi wrth dribiwnlysoedd. Yn olaf, roedd 'cydlyniant cyfreithiegol'. Nododd fel a ganlyn:

> The new system will have long-term and sustained benefits for administrative justice. While some jurisdictions with a strong second-tier appeal tribunal were able to develop their own specialist jurisprudence, the splintered nature of tribunals before the reforms meant that the development of the law in a coherent way elsewhere was at best difficult. Where the right of challenge was restricted to judicial review in the Administrative Court such effective development was nigh on impossible. The new system allows the development of the relevant law, by a dedicated cadre of specialist judges.[134]

## Proffil cyhoeddus

3.33 Mantais bosib arall o gyfuno tribiwnlysoedd yw y bydd yn cynyddu eu proffil cyhoeddus. Ar y pwnc hwn, mae'r Athro Robin Creyke wedi nodi:

> if the combined tribunal, because of its size and multiple jurisdictions, acquires an enhanced stature, this could improve the acceptance by agencies of its jurisprudence.[135]

---

132 Syr Andrew Leggatt, *Tribunals for Users One System, One Service: Report of the Review of Tribunals* (Mawrth 2001), paragraff 1.15.

133 P Craig, Administrative Law, (8fed argraffiad 2016) paragraff 9-012.

134 Hickinbottom J, "Tribunal reform: a new coherent system" (2010) 15(2) *Judicial Review* 103.

135 R Creyke, "Amalgamation of Tribunals in Australia: Whether 'tis Better…?" yn *Administrative Justice in Wales and Comparative Perspectives*, S Nason (gol) (2017) t 322.

3.34 Ymhlith y manteision posib eraill o gynyddu proffil cyhoeddus y tribiwnlysoedd yw y bydd ymgeiswyr dichonol a’r rhai sy’n eu cynghori yn ei gael yn haws dod o hyd i wybodaeth berthnasol am y tribiwnlys. Byddai mwy o amlygrwydd i dribiwnlysoedd hefyd yn gallu sicrhau y byddant ym mlaen meddwl llunwyr polisi wrth ystyried hawliau apêl newydd yn erbyn penderfyniadau gan lywodraeth.

### Tystiolaeth o blaid y manteision hyn

3.35 Tasg anodd yw asesu a yw strwythurau rhesymoledig fel system Leggatt neu’r diwygiadau yn yr Alban yn sicrhau’r buddion arfaethedig. Mae rhywfaint o dystiolaeth ar gael gan y rheini sy’n gweithio o fewn y system. Er enghraifft, mae’r Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd yn cyhoeddi adroddiad blynyddol. Yn 2012, yn ei gyflwyniad i’r adroddiad, dywedodd yr Arglwydd Ustus Carnwath:

> I am proud that the radical transformation of the tribunals structure has been completed without major public controversy, or disruption to services, but with important gains in efficiency, productivity and access for users, and substantial financial savings.[136]

3.36 Ac ar ddegfed pen blwydd Adroddiad Leggatt, yn 2017, daeth Syr Ernest Ryder i’r casgliad canlynol:

> the Act’s modern and coherent framework continues to assure jurisdictional leadership and operational delivery of tribunal justice across the United Kingdom, requiring us to deliver our statutory hallmark of specialist, innovative and accessible justice. The Act gives us a structure that combines effectiveness, simplicity and fairness.[137]

3.37 Fodd bynnag, nid ydym wedi gallu dod o hyd i ymchwil empeiraidd ynghylch a oedd cyflwyno’r system dribiwnlysoedd unedig wedi arwain at yr holl fuddion honedig. Mae’n anodd didoli a gwerthuso effaith y diwygiadau. Mae gwaith y tribiwnlysoedd yn cael ei arwain gan y galw, ac mae’n amrywio o ganlyniad i newidiadau ym mholisi llywodraeth ac yng nghyflwr cyffredinol yr economi, ymysg ffactorau eraill.

## Y TRIBIWNLYSOEDD CYMREIG

### Y cynnydd hyd yn hyn

3.38 Er bod yr enghreifftiau o ddiwygiadau Leggatt a’r tribiwnlysoedd Albanaidd yn rhai defnyddiol, mae gwahaniaethau pwysig rhwng cyflwr y tribiwnlysoedd hynny cyn y diwygiadau a’r tribiwnlysoedd Cymreig heddiw. Cafwyd rhai ymdrechion i gyfuno’r tribiwnlysoedd a sicrhau rhai o’r manteision a drafodwyd uchod.

3.39 Un enghraifft yw TEPC. Mae ei adroddiad blynyddol yn ei alw’n “sefydliad mantell”; a bod yn fanwl, mae’n cynnwys tribiwnlysoedd eiddo preswyl, tribiwnlysoedd prisio lesddaliadau, a phwyllgorau asesu rhenti. Mae’r ddeddfwriaeth sy’n sail iddo yn darparu bod unrhyw awdurdodaeth a roddir i dribiwnlys eiddo preswyl neu dribiwnlys prisio lesddaliadau yn ymarferadwy gan bwyllgor asesu rhenti, a bod y pwyllgor asesu

---

136 Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd, *Annual Report (2012)*, t 5.

137 Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd, *Annual Report (2017)*, t 3.

rhenti, wrth arfer yr awdurdodaeth honno, i gael ei alw'n dribiwnlys eiddo preswyl neu'n dribiwnlys prisio lesddaliadau.[138]

3.40 Nid yw'r trefniant hwn yn un arbennig o daclus, yn enwedig o ystyried bod y tri math o dribiwnlys yn parhau i ddilyn rheolau gweithdrefnol gwahanol. Er hynny, mae'n arwydd o rywfaint o gyfuno.

3.41 Cafwyd ymdrechion mwy cyffredinol i resymoli'r tribiwnlysoedd yn dilyn dau adroddiad allweddol, un gan Bwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd ("Pwyllgor Cymreig y CCGT") ("Adroddiad 2010") ac un wedyn gan Bwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru ("PCGTC") ("Adroddiad 2016"). Roedd yr adolygiad cyntaf yn 2010 gan Bwyllgor Cymreig y CCGT wedi nodi nifer o'r problemau sydd hefyd yn cael eu trafod yn Adroddiad Leggatt. Yn benodol, roedd y pwyllgor yn pryderu bod tribiwnlysoedd yn cael eu gweinyddu o hyd gan yr adrannau llywodraeth a oedd yn eu noddi, fel bod pryderon yn codi am annibyniaeth y tribiwnlysoedd. Ei argymhelliad oedd bod y cyfrifoldeb dros bolisi a threfniadaeth y tribiwnlysoedd Cymreig yn cael ei drosglwyddo i "ganolbwynt" ar gyfer cyfiawnder gweinyddol y Adran y Prif Weinidog a'r Cabinet.[139]

3.42 Roedd yr argymhellion hyn wedi arwain at greu'r Uned Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yn Llywodraeth Cymru. Yn dilyn adolygiad pellach gan Lywodraeth Cymru yn 2013/2014, rhannwyd yr uned honno i greu Uned Tribiwnlysoedd Cymru ("UTC") (yn gyfrifol am weinyddu'r tribiwnlysoedd) a'r tîm Polisi Cyfiawnder yn Llywodraeth Cymru, sy'n gyfrifol am bolisi cyfiawnder.[140]

3.43 O ran ymarfer, mae sefydlu UTC wedi sicrhau nifer o'r arbedion effeithlonrwydd a awgrymwyd uchod. Er enghraifft, mae PDC, TEPC a Thribiwnlys y Gymraeg ("TG") yn rhannu swyddfeydd yn Parc Cleppa yng Nghasnewydd, ac mae Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ("TAAAC") a Thribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru ("TTAC") wedi'u lleoli yn Llandrindod. Enghraifft dda arall yw ymateb y tribiwnlysoedd datganoledig i'r pandemig COVID-19 lle mae UTC wedi sicrhau bod ystafelloedd gwrando rhithwir ar gael i'r tribiwnlysoedd hynny sy'n gallu gwrando achosion o bell. Mae hyn yn fwy effeithlon na bod pob tribiwnlys yn gorfod caffael y dechnoleg ar wahân.

3.44 Roedd rhagor o ddiwygiadau wedi'u hargymell yn Adroddiad 2016 gan PCGTC. Nododd mai un o'r prif rwystrau rhag diwygio'r system oedd y ffaith nad oedd arweinydd barnwrol yn y tribiwnlysoedd datganoledig a oedd yn gallu cynrychioli'r holl awdurdodaethau datganoledig y mae angen i Lywodraeth Cymru ymwneud â nhw ar faterion ymarferol sy'n gysylltiedig â chyfiawnder gweinyddol.[141]

---

138 Deddf Tai 2004, a 229(1) a (2); Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002, a 173.

139 Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, *Adolygiad o Dribiwnlysoedd sy'n Gweithredu yng Nghymru* (2010), t 3 (argymhellion 1 a 2).

140 Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru, *Administrative Justice: a Cornerstone of Social justice in Wales*, (2016) t 22.

141 Fel uchod, tt 22 a 23.

3.45 Rhoddwyd sylw i'r mater hwn yn Neddf Cymru 2017, a greodd rôl Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ("LITC").[142] Mae'r rôl yn cynnwys cyfrifoldeb dros oruchwyliaeth ac arweinyddiaeth y tribiwnlysoedd hynny a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017 ("y tribiwnlysoedd adran 59"). Mae gwaith Syr Wyn Williams yn y rôl honno dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn bwysig iawn o ran dod â chydlyniant i'r tribiwnlysoedd Cymreig presennol a'u helpu i weithredu'n rhan o un system.

3.46 Problem arall a nodwyd yn Adroddiad 2016 oedd mai dim ond rhai o'r cytundebau ffurfiol angenrheidiol sydd wedi'u gwneud rhwng Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Farnwrol, y Comisiwn Penodiadau Barnwrol, y Coleg Barnwrol a'r Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol.[143] Yma eto, mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud ar hyn; mae cytundeb adran 83 wedi'i wneud bellach â'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol ar gyfer y penodiadau hynny sy'n gyfrifoldeb i Weinidogion Cymru.[144]

### Argymhellion blaenorol dros gyfuno

3.47 Er bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud ar wella annibyniaeth, arweinyddiaeth a gweinyddiaeth tribiwnlysoedd, mae'n glir bod argymhellion eraill yn ymwneud â chyfuno tribiwnlysoedd sydd heb gael eu dilyn. Roedd Adroddiad 2010 wedi argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel yr oedd ar y pryd, yn "sefydlu tribiwnlysoedd newydd mewn ffordd gyson a chydlynol", ac y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol "ystyried uno awdurdodaethau tribiwnlysoedd yng Nghymru yn briodol yn ôl pwnc".[145] Roedd hynny wedi arwain at astudiaeth ddichonoldeb ar y posibilrwydd o drosglwyddo swyddogaethau paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion i Lywodraeth Cymru.

3.48 Roedd Adroddiad 2016 yn fwy gochelgar. Nododd ddiwygiadau yn yr Alban a gwnaeth y sylw canlynol:

> There are of course significant differences between the administrative justice systems in Wales and Scotland and we do not envisage that a comparable restructuring is necessarily appropriate or a realistic prospect for devolved Welsh tribunals over the life of the next Assembly.[146]

3.49 Er hynny, roedd Adroddiad 2016 wedi gwneud yr argymhelliad isod:

> The Welsh Government should explore the merits of extending the jurisdiction of the Special Educational Needs Tribunal for Wales (which may be suitably renamed as

---

142 Deddf Cymru 2017, a 60.

143 Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru, *Administrative justice: a cornerstone of social Justice in Wales*, (2016) t 23.

144 Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006, a 83 yn galluogi Gweinidogion Cymru i drefnu ar gyfer cyflawni unrhyw un o'u swyddogaethau gan awdurdod cyhoeddus arall.

145 Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, *Adolygiad o Dribiwnlysoedd sy'n Gweithredu yng Nghymru* (2010), tt 29 a 37 (argymhellion 4 a 19).

146 Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru, *Administrative justice: a cornerstone of social Justice in Wales*, (2016) t 23.

the Education Tribunal for Wales) to create a national tribunal for school admissions and exclusion appeals within the next 5 years.[147]

3.50 Er y bydd TAAAC yn cael ei ailenwi maes o law yn Dribiwnlys Addysg Cymru, fodd bynnag, nid oedd Llywodraeth Cymru wedi cytuno y byddai cyfuno prosesau apelio ysgolion â TAAAC yn welliant, a'i chasgliad oedd nad yw TAAAC yn addas ar gyfer gwrando apeliadau derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion.[148]

### Pa broblemau sy'n aros?

3.51 Nid yw tribiwnlysoedd datganoledig wedi'u "gadael ar ôl". Nid ydynt yn yr un sefyllfa ag yr oedd tribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr cyn diwygiadau Leggatt, neu cyn gwneud Deddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014 yn yr Alban. Cymerwyd rhai camau i ddod â nhw ynghyd. Fodd bynnag, fel y nododd Dr Huw Pritchard, er bod hyn wedi dod â rhywfaint o gydlyniant, "it remains difficult to conclude that the devolved tribunals actually constitute a 'system'".[149]

3.52 Beth yn rhagor y gellid ac y dylid ei wneud? Y pwynt cyntaf y dylid ei wneud yw nad yw'r holl dribiwnlysoedd datganoledig wedi'u cynnwys yn y system bresennol mewn ffordd ystyrlon. Fel y trafodwyd ym mharagraffau 2.57 i 2.61 uchod , mae yna gyrff a nodwyd gennym dros dro yn dribiwnlysoedd datganoledig nad ydynt yn cael eu gweinyddu gan UTC, ac, am nad ydynt wedi'u rhestru yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017, nad ydynt yn cael eu goruchwylio gan LITC. Y rhain yw paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion a TPC. Rydym yn trafod isod ym mharagraffau 3.97 i 3.127 a ddylid alinio'r rhain â'r tribiwnlysoedd datganoledig eraill, ac i ba raddau.

3.53 A gadael y tribiwnlysoedd hynny o'r neilltu am y tro, mae un o'r prif wahaniaethau rhwng y tribiwnlysoedd datganoledig a systemau diwygiedig Leggatt a'r Alban yn un strwythurol. Sefydlwyd pob un o'r tribiwnlysoedd datganoledig i gwrdd ag anghenion polisi penodol ar wahanol adegau, felly maent wedi'u seilio ar wahanol ddeddfiadau. Nid oes strwythur cynhwysfawr, cyffredinol. Ni chafwyd ymgais systematig i ystyried y berthynas rhwng awdurdodaethau presennol y tribiwnlysoedd, nac i sicrhau bod y system dribiwnlysoedd yn gallu ymateb yn effeithiol i newidiadau yn ei hawdurdodaeth yn y dyfodol.

3.54 Gellir gweld y gwahaniaeth yn glir drwy edrych ar Orchymyn Tribiwnlys yr Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys (Siambrau) 2010, sy'n neilltuo swyddogaethau i siambrau penodol. Mae Erthygl 5(1) o'r Gorchymyn yn darparu:

---

[147] Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru, *Administrative Justice: a Cornerstone of Social Justice in Wales*, (2016) argymhelliad 24, t 33.

[148] Llywodraeth Cymru, *Response to Committee for Administrative Justice and Tribunals*, *Wales (CAJTW) Legacy Report,* Mawrth 2016 (Gorffennaf 2016), t 4.

[149] H Pritchard, "Building a Welsh jurisdiction through administrative justice" yn *Administrative Justice in Wales and Comparative Perspectives*, S Nason (gol) (2017) t 229.

To the Immigration and Asylum Chamber of the First-tier Tribunal are allocated **all functions related to immigration and asylum matters**, with the exception of matters allocated to—

(a) the Social Entitlement Chamber by article 6(a);

(b) the General Regulatory Chamber by article 3(a).[150]

3.55 Nid felly y gwneir yn y ddeddfwriaeth wreiddiol sy'n rheoleiddio'r tribiwnlysoedd datganoledig.

### Yr effaith ar ddatblygiad y gyfraith yng Nghymru yn y dyfodol

3.56 Mae'n ddigon posib nad yw'r system bresennol o dribiwnlysoedd *ad hoc* a sefydlwyd i wrando mathau penodol o hawliad yn un sy'n peri problemau i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd penodol, sy'n ymwybodol o'r math o hawliad y maent am ei wneud ac ym mha dribiwnlys y dylid gwneud hynny. Er hynny, mae'n peri problemau i lunwyr polisi ac, yn y pen draw, i ddatblygiad y gyfraith yng Nghymru.

3.57 Mae cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd wedi ehangu'n sylweddol ers sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol ym 1999. Mae ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd hefyd yn agor meysydd newydd o weithgarwch rheoleiddio i'r Senedd. O ganlyniad i hyn, mae cyfle mawr i greu llwybrau apêl newydd drwy ddeddfwriaeth Gymreig, a mae galw am system dribiwnlysoedd effeithiol.

3.58 Gwnaed hyn yn glir yn nhystiolaeth Llywodraeth Cymru i Gomisiwn Silk, lle eglurwyd mai'r nod hirdymor oedd datblygu system gydlynol o dribiwnlysoedd yng Nghymru i wrando apeliadau ar yr holl faterion mewn meysydd datganoledig.[151] Yn fwy diweddar, mae'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru wedi argymell defnyddio tribiwnlysoedd datganoledig i ddatrys anghydfodau sy'n ymwneud â deddfwriaeth Gymreig yn y dyfodol.[152]

3.59 Os bydd lluniwr polisi yn Llywodraeth Cymru am greu llwybr apêl newydd, ac am weld y llwybr apêl hwnnw'n arwain at dribiwnlys datganoledig, rhaid iddo edrych yn ofalus ar dribiwnlysoedd presennol er mwyn canfod a yw eu gwaith yn ddigon tebyg i'r llwybr apêl newydd sy'n cael ei ystyried. Mae hyn yn golygu deall yr arbenigedd y mae tribiwnlysoedd penodol wedi'i feithrin eisoes. Mewn rhai achosion (er enghraifft, TG), gall fod yn gymharol hawdd canfod hyn. Fodd bynnag, gallai'r arbenigedd sydd gan dribiwnlysoedd eraill fod yn llai amlwg.

---

150 Gorchymyn Tribiwnlys yr Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys (Siambrau) 2010, erthygl 5 (1) (ni biau'r pwyslais).

151 Llywodraeth Cymru, *Evidence submitted by the Welsh Government to the Commission on Devolution in Wales*, WG17658 (Chwefror 2013) paragraff 20.

152 Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, *Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru* (Hydref 2019), argymhelliad 27.

3.60 Mewn achosion lle nad oes tribiwnlys presennol yn gwrando achosion sy'n ddigon tebyg i'r apeliadau newydd arfaethedig, yr opsiynau sydd ar gael i'r lluniwr polisi yw:

(1) sefydlu tribiwnlys newydd;

(2) cyfeirio apêl at y Tribiwnlys Haen Gyntaf presennol; neu

(3) cyfeirio apêl at y llysoedd yn lle hynny.

3.61 Mae anfanteision ynglŷn â phob un o'r opsiynau hyn. Mae sefydlu tribiwnlys yn waith sylweddol. Rhaid i'r lluniwr polisi ystyried y rhan fwyaf o'r cwestiynau a drafodir yn y Papur Ymgynghori hwn o leiaf. Hyd yn oed os oedd "templed" ar gael i greu tribiwnlys newydd, byddai'r broses o roi trefniadau ar waith yn un hir a chostus. Mae angen penodi paneli ac ysgrifennu rheolau gweithdrefnol. Bydd yn anodd rhag-weld a fydd cyfiawnhad dros yr holl waith, gan y bydd yn anodd proffwydo pa mor boblogaidd fydd y llwybr apêl.

3.62 Yn ogystal â hyn, nid yw creu tribiwnlysoedd newydd ar gyfer yr holl lwybrau apêl newydd yn ffordd gynaliadwy o weithredu yn y tymor hir. Mae'n arwain at y perygl o ddarnio'r strwythur tribiwnlysoedd ymhellach ac o gyfrannu at greu'r "jyngl" y cyfeiriodd Wade ati.

3.63 Mae cyfeirio apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf presennol yn ymddangos yn weddol gyffredin; mae'r Senedd wedi creu mwy nag ugain o lwybrau apêl newydd i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf. Yn benodol, gall hyn fod yn ateb da lle mae deddfwriaeth debyg yn cael ei phasio gan Senedd San Steffan a Senedd Cymru. Yn yr achos hwnnw, mae cyfeirio apeliadau at yr un corff, yn y lle cyntaf o leiaf, yn gallu caniatáu i un tribiwnlys feithrin arbenigedd mewn gwrando achosion. Ond os yw'r Senedd yn creu deddfwriaeth sydd heb ddim yn cyfateb iddi yn Lloegr, byddai system unedig o dribiwnlysoedd datganoledig yn gyrchfan posib i apeliadau.

3.64 Yr opsiwn olaf yw cyfeirio apeliadau i'r llysoedd. Gallai hyn fod yn addas ar gyfer rhai mathau o apêl, ond nid pob un o reidrwydd. Mae tribiwnlysoedd yn parhau i gynnig ffordd neilltuol i ddatrys anghydfodau. Fel arfer, byddant yn haws ac yn rhatach eu defnyddio gan ymgyfreithwyr drostynt eu hunain, gan fod eu gweithdrefnau'n llai ffurfiol. Yn aml, bydd arbenigedd penodol gan eu haelodau ym mhwnc yr apêl. Os gwneir apêl i'r llysoedd yn lle hynny, mae perygl o golli'r manteision hyn, a methu â gwneud iawn yn effeithiol i rai defnyddwyr.

### Lleoliad ar gyfer apeliadau rheoleiddio cyffredinol

3.65 Un gwahaniaeth arall rhwng y system dribiwnlysoedd ddatganoledig yng Nghymru a DTLIG 2007 a systemau'r Alban yw nad oes tribiwnlys yn y system dribiwnlysoedd ddatganoledig yng Nghymru i wrando apeliadau "rheoleiddio cyffredinol". Mae hyn yn gysylltiedig â'r pwynt uchod am y fantais o gael system sy'n darparu ar gyfer pob math o apêl. Gall tribiwnlys neu siambr rheoleiddio cyffredinol fod yn lle hwylus i wrando hawliadau sydd heb ffitio'n dwt i gategorïau eraill.

3.66 Meddai Mr Ustus Warren, wrth ysgrifennu yn Adroddiad Blynyddol yr Uwchlywydd Tribiwnlysoedd ar gyfer 2012:

Is the GRC [General Regulatory Chamber] anything more than an oddity – a place to park cases which do not seem to belong elsewhere? It certainly looks different from the great chambers of, for example, immigration and social entitlement. It must work differently too – and a rationale for its workings is beginning to emerge.

… it does make sense to have a place where new smaller jurisdictions can "start off". In the past, it has often been necessary to create a new tribunal when Parliament created a new right of appeal with that tribunal at risk of later isolation especially if work was less than predicted.

Now the GRC can offer an immediate home.[153]

3.67 Nid yn y system o dribiwnlysoedd a gedwir yn ôl yn unig y mae angen man cychwyn i awdurdodaethau llai. Fel yr eglurwyd uchod, mae'r twf yng nghymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ynghyd ag ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd yn debygol o arwain at gyflwyno mwy o reoliadau newydd gan y Senedd. Mae'n debygol y bydd y rheoliadau newydd hynny'n cynnwys mecanweithiau gorfodi yn ogystal ag apeliadau yn erbyn y mecanweithiau hynny a allai gael eu gwneud i'r tribiwnlysoedd datganoledig.

## OPSIYNAU AR GYFER Y DYFODOL

3.68 Mae nifer o wahanol opsiynau ar gyfer datblygu strwythur y tribiwnlysoedd datganoledig.

### Cadw system o dribiwnlysoedd unigol

3.69 Un posibilrwydd yw cadw'r system bresennol o dribiwnlysoedd ar wahân fel y mae. Gellid gwneud rhai newidiadau mewn meysydd penodol: er enghraifft, i safoni penodiadau, prosesau cwynion, apeliadau a disgyblaeth, fel y trafodir mewn lleoedd eraill yn y Papur Ymgynghori hwn. Er mwyn gwneud diwygiadau yn y meysydd hynny, byddai angen pasio Deddf gan y Senedd. Ond byddai Deddf o'r fath yn gallu ailsefydlu'r tribiwnlysoedd presennol ynghyd â'r awdurdodaethau sy'n perthyn iddynt. Byddai sail ddeddfwriaethol y tribiwnlysoedd wedi newid, ond byddent yn aros yn endidau cyfreithiol ar wahân.

3.70 Wrth weithredu felly, gellid ymestyn rhai o nodweddion presennol y system dribiwnlysoedd ddatganoledig i gynnwys tribiwnlysoedd nad ydynt yn rhan ohoni ar hyn o bryd; mae'r posibilrwydd o gymryd rhai camau i gyfuno apeliadau derbyn ac apeliadau gwahardd ysgolion yn cael ei drafod ymhellach isod.

3.71 Un o fanteision y dull hwn o weithredu yw na fyddai'n tarfu'n ormodol ar weithrediadau'r tribiwnlysoedd presennol. Gellid gwneud newidiadau i gysoni dulliau penodi, disgyblaeth a rheolau gweithdrefnol ar draws y tribiwnlysoedd ond, yn y pen draw, byddent yn parhau i weithio fel roeddent o'r blaen i raddau helaeth.

3.72 Y brif anfantais yw y byddai'r system yn un anghydlynol o hyd, ac y gallai fod yn rhy anhyblyg i ymateb i anghenion llunwyr polisi yn y dyfodol. Byddai llunwyr polisi yn

[153] Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd, *Annual Report (2012)*, t 39.

parhau i wynebu'r her o ganfod lle i gynnwys eu llwybr apêl newydd yn y system *ad hoc* bresennol.

3.73 Byddai rhesymoli gwahanol agweddau ar dribiwnlysoedd yn ei gwneud yn haws sefydlu tribiwnlys newydd, hyd yn oed o dan y model hwn oherwydd, drwy safoni materion fel rheolau gweithdrefnol, penodiadau a llwybrau apêl, gallai fod yn haws creu templed a fyddai ar gael i lunwyr polisi yn y dyfodol. Ond byddai sefydlu tribiwnlysoedd newydd ar gyfer pob math newydd o apêl yn gallu creu'r perygl o waethygu patrwm *ad hoc* presennol y tribiwnlysoedd yng Nghymru ac arwain yn y pen draw at y "jyngl" y rhybuddiodd Wade yn ei herbyn. Y perygl arall yw y byddai llunwyr polisi yn anwybyddu tribiwnlysoedd datganoledig ac yn cyfeirio apeliadau yn lle hynny i Dribiwnlys Haen Gyntaf..

### Cyflwyno system siambrau

3.74 Un dewis arall fyddai dilyn dull DTLIG 2007 a'r diwygiadau yn yr Alban, a chreu "Tribiwnlys haen gyntaf i Gymru". Byddai'n rhaid rhannu tribiwnlys o'r fath yn siambrau, er mwyn cynnwys a chadw arbenigedd barnwrol.

3.75 Un fantais o gynllunio system ar y patrwm hwn yw ei bod yn ceisio gwneud mwy na dim ond safoni tribiwnlysoedd presennol. Gellid ei chynllunio fel ei bod yn un gynhwysfawr lle gellid gwrando'r holl apeliadau o dribiwnlysoedd sy'n ymwneud â materion datganoledig yng Nghymru. Y gobaith yw y byddai hyn yn gwneud y system yn gliriach ym meddwl llunwyr polisi a defnyddwyr tribiwnlysoedd.

3.76 Y brif fantais arall mewn system o'r fath yw y byddai'n gallu addasu i ddatblygiadau yn y tribiwnlysoedd datganoledig yn y dyfodol. Byddai'n fodd i osgoi'r risg o barhau i sefydlu tribiwnlysoedd newydd, a gwneud y system yn fwy rhanedig byth, ac yn cynnig lle amlwg i swyddogion polisi ar gyfer lleoli apeliadau newydd.

3.77 Er mwyn cynnal y system hon, byddai angen rhywfaint o hyblygrwydd ynddi i sicrhau ei bod yn ymateb i newidiadau yn y galw. Byddai angen i'r system siambrau allu addasu'n raddol er mwyn cynnwys awdurdodaethau presennol, trosglwyddo awdurdodaethau rhwng siambrau, a chynnwys awdurdodaethau newydd. Yn ymarferol, byddai hynny'n golygu y gellid darparu ar gyfer siambrau mewn is-ddeddfwriaeth. Rydym yn cynnig dros dro y dylai Gweinidogion Cymru allu gwneud deddfwriaeth o'r fath, ar ôl cael cytundeb gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

3.78 Mae'n bosib, er hynny, fod anfanteision i'r system hon. Edrychir ar y rhain isod.

#### Maint y system dribiwnlysoedd

3.79 Gallai rhai amau a yw'r model siambrau'n briodol ar gyfer y tribiwnlysoedd datganoledig, gan eu bod yn gymharol fach. Er enghraifft, roedd awdurdodaeth Iechyd Meddwl y Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol yn Nhribiwnlys yr Haen Gyntaf wedi cael mwy na 33,000 o geisiadau yn y flwyddyn 2019 – 2020.[154] Mewn cyferbyniad â hyn, dim ond 2,267 o geisiadau a gafodd yr holl dribiwnlysoedd adran

[154] Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd, *Annual Report 2020*, t 31.

59 yn y flwyddyn honno.[155] Gellid meddwl bod y system siambrau yn fodel rhy gymhleth ar gyfer system lai fel hon.

3.80 Fodd bynnag, rydym yn nodi bod model tebyg wedi'i fabwysiadu ar gyfer y system dribiwnlysoedd Albanaidd, sy'n debycach o ran maint i'r tribiwnlysoedd Cymreig. Yn y flwyddyn 2018-19, cafodd Tribiwnlys Haen Gyntaf yr Alban 4,867 o geisiadau. Cafwyd y rhan fwyaf o'r rhain (3,782) yn y Siambr Tai ac Eiddo, ac roedd y siambr brysuraf nesaf, y Siambr Iechyd ac Addysg, wedi cael 113 o geisiadau.[156] (Fodd bynnag, nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys tribiwnlysoedd nad ydynt o fewn Tribiwnlys Haen Gyntaf yr Alban ar hyn o bryd, ond y disgwylir iddynt fod yn y dyfodol. Er enghraifft, cafodd Tribiwnlys Iechyd Meddwl yr Alban 4,631 o geisiadau yn 2019/2020.[157])

3.81 Mae'n bosib bod manteision hefyd o gael siambrau mewn system lai. Mae rhai o siambrau Tribiwnlys yr Haen Gyntaf yn fawr iawn. Gall hyn arwain at sefyllfa lle mae awdurdodaethau sy'n rhan o'r un siambr yn dechnegol yn ymwneud fawr ddim â'i gilydd wrth ymarfer. O gael siambrau llai yn y system Gymreig, mae'n bosib y byddai gwahanol awdurdodaethau'n elwa o brofiad ei gilydd wrth weithredu.

3.82 Yn olaf, nodwn fod gwaith y tribiwnlysoedd datganoledig yn debygol o gynyddu yn y dyfodol, oherwydd cynnydd yng nghymwyseddau deddfu'r Senedd o dan y setliad datganoli presennol a hefyd o ganlyniad i'r effaith o ymadael â'r UE ar weithgarwch rheoleiddio'r Senedd.[158]. A rhoi un enghraifft, mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn y Senedd wedi argymell yn ddiweddar y dylai'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ystyried a oes angen tribiwnlys tai pwrpasol yng Nghymru.[159]

### Cynyddu deddfoldeb

3.83 Mae rhai beirniaid wedi dadlau bod cyfuno tribiwnlysoedd yn golygu penderfyniad i ffafrio set benodol o werthoedd cyfreithiol a ffordd benodol o weithio. Mae Peter Cane wedi nodi:

> It is a matter of choice whether members of tribunals with relatively narrow jurisdiction will be lawyers or non-lawyers; and the choice turns on what are considered to be the appropriate decision-making values and criteria…. On the other hand, although it is also a matter of choice whether members of tribunals with

---

155 Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, *Adroddiad Blynyddol 2019-2020* t 4. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys Tribiwnlys Prisio Cymru. Cafodd TPC 4,183 o geisiadau ardrethi, 687 o achosion prisio'r dreth cyngor a 118 o fathau eraill o apeliadau eraill ( materion yn ymwneud ag atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor yn bennaf).

156 Llywydd Tribiwnlysoedd yr Alban, *Annual Report 2018-2019* (2019) t 52.

157 Tribiwnlys Iechyd Meddwl yr Alban, *Annual Report 2019 – 2020* t 4 https://www.mhtscotland.gov.uk/mhts/files/Annual_Report_2019_2020.pdf.

158 Bil Marchnad Fewnol y DU, Memorandwm oddi wrth yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol i'r Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio (2020) paragraff 4 https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/58-01/0177/UK%20Internal%20Market%20Bill%20-%20Final%20DPRRC%20Memo%2008092020.pdf

159 Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, *Adroddiad ar y Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru)* (Hydref 2020), t 29. Ar gael yn https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld13553/cr-ld13553-w.pdf.

> relatively broad jurisdiction will be lawyers or non-lawyers, we might hypothesise that replacement of a larger number of tribunals with relatively narrow jurisdiction by one or a small number of tribunals with relatively broad jurisdiction will favour one set of decision-making values and criteria. [160]

3.84 Felly mae creu siambrau o fewn tribiwnlys cyfunol mwy yn "attempt to prevent total legalisation of administrative adjudication and to leave room for application of non-legal values and criteria".[161]

### Taclusrwydd yn unig nod

3.85 Beirniadaeth arall ar rannu tribiwnlysoedd yn siambrau yw ei fod yn adlewyrchu pwyslais y twrnai ar daclusrwydd. Mae angen ymdrech weinyddol i gadw arbenigaeth ac, yn y pen draw, i gynnal y sefyllfa sydd ohoni, yng ngolwg nifer o dribiwnlysoedd a'u defnyddwyr. Cafwyd un enghraifft o feirniadaeth o'r math hwn yn ystod yr ymgynghori ar Ddeddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyfiawnder, nododd Tribiwnlys Tiroedd yr Alban:

> The tribunals in the list in Schedule 1 [to the Tribunals (Scotland) Bill] are all active and comparatively modern. Much work has gone into each to tailor the workings to the needs of their users. We think they work quite efficiently by that test. We are not persuaded that the approach of putting a number of tribunals into one and then seeking to discover how to preserve the characteristics of each is an efficient use of time and resources.

3.86 Cafwyd yr wrthddadl hon yn ymateb Llywodraeth yr Alban i adroddiad ysgrifenedig y Bwrdd Cyfiawnder ar y cam cyntaf:

> having a separate pillar outwith the structure is contrary to what the Bill is trying to achieve. The Bill seeks to provide coherence to the current disparate tribunals landscape. The structure will be flexible enough to cater for the many different tribunals and their varying specialisms. Having tribunals sitting outside the structure goes against the whole principle of the Bill.
>
> All tribunals are unique. Every tribunal that will come into the new structure is different and will have its own specialist subject supported by its specialist members and staff. However all of these complexities can be catered for within the proposed new structure.[162]

### Casgliad ar strwythur siambrau

3.87 Nid ydym yn gwneud yn fach o faint y gwaith sydd ei angen i greu Tribiwnlys haen gyntaf a'i rannu wedyn yn siambrau. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi dod i'r farn dros

---

160 P Cane, *Administrative tribunals and adjudication* (2009) tt 125 a 126.

161 P Cane, *Administrative tribunals and adjudication* (2009) t 126.

162 Pwyllgor Cyfiawnder, *Tribunals (Scotland) Bill, Response from the Scottish Government to the Committee's Stage 1 Report*, paragraffau 31 a 32. Ar hyn o bryd, mae Tribiwnlys Tiroedd yr Alban ar restr y tribiwnlysoedd yn Atodlen 1 i Ddeddf Tribiwnlysoedd Cymru (2014), sy'n golygu y gellir ei drosglwyddo i'r strwythur newydd yn yr Alban. Ymgynghorodd Llywodraeth yr Alban yn ddiweddar ynghylch a ddylid ei gyfuno â Llys Tir yr Alban ac, os dylid, a ddylai'r corff a geir o ganlyniad fod yn llys neu'n dribiwnlys. Gweler Llywodraeth yr Alban, *The Future of the Land Court and the Lands Tribunal: consultation* (Gorffennaf 2020).

dro fod hyn yn ddymunol er mwyn creu system hyblyg, gynaliadwy o dribiwnlysoedd Cymreig a fydd yn gallu datblygu i gwrdd â'r galw yn y dyfodol. Felly rydym yn cynnig dros dro y dylai'r tribiwnlysoedd adran 59 presennol gael eu disodli gan Dribiwnlys Haen Gyntaf i Gymru a fydd yn cael ei rannu'n siambrau.

3.88 Os na ffefrir ein cynnig dros dro ar gyfer Tribiwnlys Haen Gyntaf i Gymru, rydym yn cynnig, er hynny, y dylid gweithredu ar y diwygiadau eraill a gynigir yn y Papur Ymgynghori hwn.

**Cwestiwn Ymgynghori 4.**

3.89 Rydym yn cynnig dros dro y dylid cyfuno'r Tribiwnlysoedd Cymreig a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017 i ffurfio Tribiwnlys Haen Gyntaf i Gymru, wedi'i rannu'n siambrau.

Ydych chi'n cytuno?

**Cwestiwn Ymgynghori 5.**

3.90 Rydym yn cynnig dros dro y dylai Gweinidogion Cymru gael pŵer i ddarparu ar gyfer rhannu Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru yn siambrau, drwy is-ddeddfwriaeth a wneir ar ôl cael cydsyniad gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

## TRIBIWNLYSOEDD DATGANOLEDIG ERAILL

3.91 Yn yr adran hon o'r bennod, rydym yn ystyried a ddylid cynnwys y tribiwnlysoedd datganoledig eraill a nodwyd gennym dros dro o fewn y tribiwnlys unedig rydym yn ei gynnig.

### Tribiwnlys Prisio Cymru

3.92 Mae TPC yn wahanol ar sawl cyfrif i'r tribiwnlysoedd adran 59. Roedd ganddo gysylltiadau hanesyddol â llywodraeth leol, ac roedd tribiwnlysoedd prisio ar gyfer pob awdurdod lleol. Mae hefyd yn gwrando mwy o achosion o lawer na'r tribiwnlysoedd datganoledig eraill. Yn 2019 – 2020 roedd TPC wedi rhestru 4,183 o achosion ardrethi, 687 o achosion prisio treth gyngor a 118 o fathau eraill o apêl.[163] Mae'n dibynnu ar baneli o leygwyr, a gaiff eu cynghori gan glerc arbenigol, yn hytrach na gofyn am gymwysterau cyfreithiol gan aelodau paneli. Ceir rhagor o fanylion am ei gyfansoddiad a'i weithrediadau yn Atodiad 1.

163 Tribiwnlys Prisio Cymru, *Adroddiad Blynyddol 2019-2020* (2020) paragraff 2.1. Gweler https://www.valuationtribunal.wales/fileadmin/resources/docs/publications/cy/Adroddiad_Blynyddol_2019-2020.pdf.

## Tribiwnlysoedd prisio mewn rhannau eraill o'r DU

3.93 Crëwyd Tribiwnlys Prisio Lloegr ("TPLl") yn 2007, pan ddisodlodd 56 o dribiwnlysoedd rhanbarthol. Cafwyd trafodaeth yn y gorffennol ynghylch a ddylai TPLl fod yn rhan o strwythur DTLIG 2007. Ar argymhelliad Adroddiad Leggatt, ymchwiliodd Comisiwn y Gyfraith i'r posibiliad hwn ac argymell y canlynol:

> The current land, valuation and housing tribunals should be unified so as to create a generic Property and Valuation Tribunal (PVT) and a reformed Lands Tribunal.[164]

3.94 Ni weithredwyd yr argymhelliad, a phan sefydlwyd Siambr Eiddo Tribiwnlys yr Haen Gyntaf, nid oedd TPLl yn rhan ohoni.

3.95 Yn adroddiad "Administrative Justice and Tribunals: Final report of progress against the Strategic Work Programme 2013-2016" y Weinyddiaeth Gyfiawnder, nodir y canlynol:

> The VTE was identified for transfer into the Property Chamber in the First-tier Tribunal when it was established in 2013 and the [Valuation Tribunal Service] was listed for abolition in the Public Bodies Act 2011. However, after consideration of the scope for such a transfer, Ministers concluded that the transfer should not proceed and that, instead, both bodies should be subject to a Triennial Review, as set out in Cabinet Office guidelines.[165]

3.96 Dilynwyd llwybr gwahanol yn yr Alban. Disgwylir y bydd Pwyllgorau Apeliadau Prisio yn trosglwyddo i Dribiwnlys Haen Gyntaf yr Alban yn Ebrill 2022.[166]

## **Ymgorffori Tribiwnlys Prisio Cymru yn y tribiwnlys unedig**

3.97 Yn ein barn ni, byddai nifer o fanteision o gynnwys TPC yn y system dribiwnlysoedd datganoledig. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol.

(1) Cyfuno gweinyddiaeth. Mae'n debygol y byddai arbedion effeithlonrwydd i'w cael drwy weinyddu gan UTC ddiwygiedig, gan y byddai hyn yn osgoi dyblygu gwaith. Bydd yn galluogi TPC i fanteisio ar ddulliau technolegol a sicrheir gan UTC ddiwygiedig, fel mynediad i ystafelloedd rhithwir ar gyfer gwrandawiadau o bell. Byddai'r ddau sefydliad hefyd yn gallu cael budd o gyfuno cymorth gweinyddol mewn meysydd fel TG ac adnoddau dynol.

(2) Proffil uwch. Byddai cynnwys TPC yn nheulu'r tribiwnlysoedd datganoledig yn gallu codi ei broffil ymysg defnyddwyr tribiwnlysoedd a llunwyr polisi. Mae Llywydd a Phrif Weithredwr TPC wedi mynegi'r farn o'r blaen y byddai TPC wedi gallu chwarae rhan wrth wrando apeliadau sy'n ymwneud â threthi ar

---

164 Land, Valuation and Housing Tribunals: The Future (2002) Law Com No 218. Nid oedd yr Adroddiad wedi ymdrin â'r tribiwnlysoedd sy'n gweithredu yng Nghymru. Gweler paragraff 2.4 a throednodyn 6. https://s3-eu-west-2.amazonaws.com/lawcom-prod-storage-11jsxou24uy7q/uploads/2015/03/lc281_Land_Valuation_and_Housing_Tribunals_The_Future.pdf.

165 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Administrative Justice and Tribunals: Final report of progress against the Strategic Work Programme 2013–2016, paragraff 3.9.

166 Llywydd Tribiwnlysoedd yr Alban, *Annual Report 2018-2019* (2019) t 6.

dirlenwi a thrafodiadau tir a ddatganolwyd yn ddiweddar. Drwy gynnwys TPC yn strwythur ehangach y tribiwnlysoedd datganoledig, byddai llai o berygl o'i anghofio yn y dyfodol.[167]

(3) Arweinyddiaeth farnwrol. Fel aelod o deulu'r tribiwnlysoedd datganoledig, byddai TPC yn cael budd o arweinyddiaeth LITC. Gall LITC sefyll dros fuddiannau tribiwnlysoedd ar lefel uchel yn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ac yn y farnwriaeth. Yn ein barn ni, byddai TPC yn elwa o gael ei gynrychioli ganddo.

3.98 Rydym yn cynnig dros dro y dylai TPC gael ei gynnwys yn Nhribiwnlys Haen Gyntaf Cymru. Os na ffefrir ein cynnig dros dro i ffurfio tribiwnlys unedig, rydym yn cynnig, er hynny, y dylai TPC gael ei roi o dan oruchwyliaeth LITC ac y dylid gweithredu'r diwygiadau eraill a gynigir yn y Papur Ymgynghori hwn.

3.99 Yn y naill achos neu'r llall, rhaid cydnabod bod TPC yn gweithredu'n wahanol i'r tribiwnlysoedd eraill ar hyn o bryd mewn nifer o faterion. Lle mae'r rhain yn codi mewn cysylltiad â phynciau eraill a drafodir yn y Papur Ymgynghori hwn, mae sefyllfa neilltuol TPC yn cael ei thrafod yn y mannau hynny. Yn benodol, ar gyfer y pynciau canlynol, gweler:

(1) apeliadau, ym mharagraffau 4.66 i 4.68;

(2) penodiadau, ym mharagraffau 6.9 i 6.13;

(3) cwynion a disgyblaeth, ym mharagraffau 7.109 i 7.111;

(4) rôl LITC, ym mharagraffau 8.54 ac 8.55; a

(5) llywodraethu a rôl UTC, ym mharagraff 9.12.

3.100 Fel yr eglurwyd uchod, mae aelodau paneli TPC yn wirfoddolwyr di-dâl (tri fel arfer, er bod y panel yn gallu cynnwys dau aelod mewn rhai amgylchiadau).[168] Caiff aelodau eu cynghori gan glerc sydd â gwybodaeth arbenigol am sylwedd yr apeliadau a wrandewir yn ogystal â'r gyfraith berthnasol. Felly mae'r clerc yn chwarae rhan allweddol yng ngweithrediad y paneli. Mae clercod yn chwarae rhan hefyd wrth reoli achosion. Mae hyn mewn cyferbyniad â'r tribiwnlysoedd adran 59 presennol lle mae'r paneli gan amlaf yn cynnwys cadeirydd sydd â chymhwyster cyfreithiol ac aelodau sy'n rhan o broffesiynau penodol, a lle mae achosion yn cael eu rheoli gan UTC. Yn ein barn ni, mae diwygio model dyfarnu TPC yn fater sydd y tu allan i gwmpas y prosiect hwn.

3.101 Er hynny, ein barn dros dro yw y dylai TPC gael ei gynnwys yn y system ehangach a'i weinyddu gan UTC ddiwygiedig.

---

[167] Tribiwnlys Prisio Cymru, *Adroddiad Blynyddol 2015 – 2016,* paragraff 7.3.

[168] Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru OS 2010 Rhif 713 (Cy 69), rheoliad 37(2) a (2).

**Cwestiwn Ymgynghori 6.**

3.102 Rydym yn cynnig dros dro y dylai Tribiwnlys Prisio Cymru fod yn rhan o Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

## Paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion

3.103 Mae paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion yn anarferol ymysg y tribiwnlysoedd datganoledig am eu bod yn cael eu gweinyddu gan awdurdodau lleol, yn hytrach na'u rhedeg yn ganolog. O ran ymarfer, mae'n beth cyffredin iddynt gael eu rhedeg gyda'i gilydd a chael eu galw'n "banel apelio annibynnol". Mae rhagor o fanylion am eu swyddogaethau yn Atodiad 1.

### Lleoedd eraill yn y Deyrnas Unedig

3.104 Mae paneli tebyg i'r rheini a geir yng Nghymru yn bodoli yn Lloegr ac yn yr Alban. Fodd bynnag, yn y blynyddoedd diwethaf mae'r ddwy system hynny wedi mynd i gyfeiriadau gwahanol. Yn Lloegr, mae paneli apelio gwaharddiadau wedi'u disodli gan baneli adolygu gwaharddiadau, sydd â llai o bwerau. Yn yr Alban, mae pwyllgorau apelio addysg i gael eu cynnwys yn y strwythur tribiwnlysoedd ehangach yn Ebrill 2021.[169]

#### *Lloegr*

3.105 Mae paneli gwaharddiadau a derbyniadau yng Nghymru a Lloegr wedi'u seilio ar yr un eitemau o ddeddfwriaeth sylfaenol: yn achos paneli derbyniadau ysgolion, Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1988 ac, ar gyfer paneli gwaharddiadau, Deddf Addysg 2002. Mae paneli derbyniadau yn gweithredu mewn ffordd debyg o hyd yn y ddwy wlad, er bod rhai paneli derbyniadau yn Lloegr bellach yn cael eu rhedeg gan ymddiriedolaethau academïau o ganlyniad i gyflwyno academïau yn Lloegr.

3.106 Gwnaed newidiadau mwy sylweddol mewn paneli apelio gwaharddiadau yn Lloegr. Disodlwyd y rhain gan baneli adolygu gwaharddiadau yn 2012.[170] Mae pwerau paneli adolygu gwaharddiadau yn fwy cyfyngedig na'r rheini a oedd gan baneli apelio gwaharddiadau. Dim ond ar seiliau adolygiad barnwrol y gallant adolygu penderfyniadau (sef, fel arfer, anghyfreithlondeb, afresymoldeb, ac annhegwch gweithdrefnol). Yn wahanol i baneli apelio gwaharddiadau, nid yw'r paneli adolygu newydd yn gallu cyfarwyddo bod ysgol i dderbyn disgybl yn ôl. Gall y panel benderfynu un ai:

---

[169] Llywydd Tribiwnlysoedd yr Alban, *Annual report on Scottish Tribunals 2018 – 2019*, t 14. Ar gael yn https://www.judiciary.scot/docs/librariesprovider3/judiciarydocuments/scottish-tribunals-publications/scottish-tribunals-annual-report-2018-19.pdf?sfvrsn=3e64715a_2.

[170] Deddf Addysg 2002, a 51A (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 2011, a 4) Gweler hefyd Reoliadau Disgyblaeth Ysgolion (Gwaharddiadau ac Adolygiadau Disgyblion) (Lloegr), OS 2012 Rhif 1033.

(1) cadarnhau penderfyniad y bwrdd llywodraethu;

(2) argymell bod y bwrdd yn ailystyried derbyn disgybl yn ôl; neu

(3) dileu'r penderfyniad a chyfarwyddo bod y bwrdd i ailystyried derbyn disgybl yn ôl.[171]

3.107 Roedd diwygiadau 2012 hefyd yn darparu bod panel adolygu, mewn rhai amgylchiadau, yn gallu cael ei gynghori gan arbenigwr ar anghenion addysgol arbennig a fydd yn darparu cyngor diduedd ar y modd y gall anghenion addysgol arbennig fod yn berthnasol i'r penderfyniad i wahardd y disgybl yn barhaol.[172] Roedd y system paneli adolygu gwaharddiadau yn Lloegr yn destun dau adroddiad pwysig yn 2019. Cynhaliwyd yr adolygiad cyntaf gan Edward Timpson CBE AS, ac fe'i comisiynwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg. Gwnaeth nifer o argymhellion gyda'r bwriad o sicrhau bod gwaharddiadau'n cael eu defnyddio'n gyson ac yn briodol.[173] Roedd yr ail, gan JUSTICE, yn argymell bod y paneli'n cael eu trosglwyddo i'r Siambr Iechyd, Addysg a Nawdd Cymdeithasol yn Nhribiwnlys yr Haen Gyntaf.[174]

### *Yr Alban*

3.108 Yn yr Alban, mae apeliadau yn erbyn penderfyniadau i leoli disgyblion mewn ysgol benodol ("placing decisions") neu i wahardd disgybl yn cael eu gwrando gan bwyllgorau apelio addysg, a sefydlir gan awdurdodau addysg lleol.[175] Maent wedi'u cynnwys yn Atodlen 1 i Ddeddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014, ac maent i gael eu trosglwyddo i'r Siambr Iechyd ac Addysg yn Nhribiwnlys Haen Gyntaf yr Alban yn Ebrill 2021.

3.109 Penderfynwyd cynnwys pwyllgorau apelio addysg yn y system dribiwnlysoedd yn dilyn sawl beirniadaeth nad oeddent yn ddigon annibynnol. Byddai'r rhan fwyaf o aelodau tribiwnlys yn cael eu penodi gan bwyllgorau addysg awdurdodau lleol.[176] Mewn tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Cyfiawnder yn Senedd yr Alban yn ystod y broses o basio Deddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014, roedd Iain Nisbet, cyfreithiwr addysg, hefyd wedi mynegi'r farn ganlynol:

> tendency of the committees is to confirm authorities' decisions, although it varies between authorities. There are 32 different iterations and some authorities are better than others, but by and large there is a tendency to confirm decisions, in some cases without serious scrutiny of the case. The prospect of that jurisdiction being

---

171 Deddf Addysg 2002, s 51A(4).

172 Rheoliadau Disgyblaeth Ysgolion (Gwaharddiadau ac Adolygiadau Disgyblion) (Lloegr) 2012, OS 2012 Rhif 1033, rheoliad 16(1)(b).

173 E Timpson, *Timpson review of school exclusion* (Mai 2019) t 3. Ar gael yn https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/807862/Timpson_review.pdf.

174 JUSTICE, *Challenging school exclusions* (2019) paragraff 5.38. Ar gael yn https://justice.org.uk/wp-content/uploads/2019/12/Challenging-School-Exclusions.pdf.

175 Deddf Addysg (yr Alban) 1980, a 28D(1) ac Atodlen A1.

176 Gweler, er enghraifft, y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, Cyngor Albanaidd, *Options for tribunal reform in Scotland* (2010), paragraff 7.11.

brought within an independent tribunal service is therefore one of the most exciting and beneficial aspects of the bill.

3.110 Gwnaeth sylw hefyd am arbenigedd pwyllgorau apelio addysg, gan ddweud:

> The members of the education appeal committee are not specialist members but councillors and parents. There is an element of choosing, but when it comes to more complex issues such as exclusion or placements for children with additional support needs in mainstream or special schools, the expertise is not there. The proposed approach [locating education appeal committees in a chamber with the Additional Support Needs Tribunal] presents an opportunity to develop that.[177]

### Gwerthuso paneli apelio gwaharddiadau a derbyniadau ysgolion

3.111 Yn yr adran hon o'r Papur Ymgynghori, rydym yn ystyried ffyrdd posib i ddiwygio paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion.

#### *Annibyniaeth*

3.112 Cafwyd beirniadu ar baneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion ar sail canfyddiad o ddiffyg annibyniaeth. Maent yn cael eu trefnu gan y corff a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol. Cafodd y rhan fwyaf o dribiwnlysoedd eu sefydlu yn y ffordd hon yn wreiddiol ond, fel y disgrifiwyd uchod, y patrwm o ddiwygio a welwyd dros y trigain mlynedd diwethaf oedd datgysylltu gweinyddiaeth y tribiwnlysoedd oddi wrth y corff sy'n gyfrifol am y penderfyniad y gwneir apêl yn ei erbyn.

#### *Anghysondeb*

3.113 Mae pryderon hefyd fod y paneli'n gweithredu'n anghyson ledled Cymru. Er bod y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion yn cynnwys canllawiau, mae'n gadael nifer o benderfyniadau i awdurdodau derbyn. Er enghraifft, mater i'w benderfynu gan awdurdodau derbyn yw a fydd gofyniad bod clerc y panel wedi derbyn hyfforddiant cyfreithiol. Rydym yn deall bod hyn yn ofyniad safonol mewn rhai awdurdodau lleol (fel Caerdydd), ond bod awdurdodau eraill yn asesu pob achos ar wahân i bennu'r angen am bresenoldeb clerc â chymhwyster cyfreithiol.

3.114 Gellid dadlau bod y broblem o anghysondeb yn fwy difrifol i baneli apelio gwaharddiadau ysgolion sy'n gwrando nifer cymharol fach o achosion ar draws nifer mawr o awdurdodau addysg. Er nad yw data yn cael eu casglu'n ganolog am apeliadau gwaharddiadau ysgolion, un amcangyfrif yn 2016 gan PCGTC oedd bod llai na 60 y flwyddyn. Mae hynny'n awgrymu'r posibilrwydd mai dim ond llond llaw o hawliadau y flwyddyn a wrandewir gan bob panel.

#### *Arbenigedd*

3.115 Un o fanteision y paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion presennol yw y bydd gan y panel arbenigedd perthnasol mewn addysg ac, yn benodol, yng nghyd-destun addysgol yr ardal leol. Bydd rhai aelodau o'r paneli apelio derbyniadau wedi'u dethol am eu bod yn "gyfarwydd â chyflwr addysg yn ardal yr awdurdod" neu am eu

---

[177] SP OR JC 3 Medi 2013, col 3133.

bod yn rhieni i blant cofrestredig mewn ysgol.[178] Mae arbenigedd o'r math hwn wedi'i bennu ar gyfer paneli derbyniadau, ond nid ar gyfer paneli gwaharddiadau. Mae paneli gwaharddiadau hefyd yn cynnwys personau sydd â phrofiad o addysg, ond ymarferwyr addysg yw'r rhain (rhywun sy'n gweithio ym maes rheoli addysg ar y pryd) a llywodraethwyr ysgol.[179] Nid oes angen i'w profiad fod yn gysylltiedig â'r ardal leol.

3.116 Mae math arall o brofiad yn datblygu dim ond drwy wrando nifer sylweddol o achosion tebyg. Mewn achosion gwahardd, am fod nifer yr apeliadau'n gymharol fach, mae paneli'n llai tebygol o gael cyfle i feithrin profiad o'r fath. Gellir delio â hynny'n rhannol drwy gynnal hyfforddiant ychwanegol gan awdurdodau lleol i atgoffa aelodau paneli am y gyfraith berthnasol. Fodd bynnag, mae'r gwaith o drefnu i gynnwys yr hyfforddiant hwn yn cymryd amser sylweddol, yn enwedig o gofio bod y terfynau amser ar gyfer gwrando achosion gwahardd yn gymharol gyfyng. Ac nid yw hyn lawn cystal â meithrin y profiad a geir wrth wrando achosion o'r math hwn.

### *Lleoliad*

3.117 Un o'r manteision o drefnu apeliadau gwahardd a derbyn yn lleol yw eu bod fel arfer wedyn yn cael eu cynnal yn lleol, gan arbed amser a chostau teithio i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd. Y gofyniad yn y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion yw:

> rhaid defnyddio lleoliad niwtral i wrando'r apêl, ond gallai ALlau ddefnyddio'u hadeiladau eu hunain os nad ydynt yn gysylltiedig â gwaith staff derbyn. Rhaid i ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir drefnu lleoliad ar wahân i'r ysgol, ac anogir ALlau i helpu i ddarparu lleoliad addas, er mwyn helpu ysgolion a lleihau costau.[180]

### *Goruchwyliaeth farnwrol*

3.118 Yn olaf, cafwyd sawl beirniadaeth am ddiffyg goruchwyliaeth farnwrol dros y paneli. Fel yr eglurwyd uchod, nid oes llwybr apêl o benderfyniadau a wneir gan banel derbyniadau. Yn lle hynny, rhaid i geisydd un ai dod ag adolygiad barnwrol o'r penderfyniad yn yr Uchel Lys neu gwyno i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu Weinidogion Cymru (am drafodaeth bellach am apeliadau o'r paneli, gweler paragraffau 4.57 i 4.63).

3.119 Yn fwyaf diweddar, nododd y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru fod y paneli "yn gweithredu heb unrhyw fath o graffu barnwrol, ar wahân i'r achosion prin iawn hynny lle bydd gwaharddiad yn arwain at gais am adolygiad barnwrol".[181]

---

178 Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) OS 2005 Rhif 1398 (Cy 112), Atodlen 1, paragraffau 1(1)(b) ac (c), a 2(1)(b) ac (c).

179 Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) OS 2003 Rhif 3227 (Cy 308), Atodlen 1 paragraff 2(2)(b) ac (c), a Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) OS 2003 Rhif 3246 (Cy 321), Atodlen 1 paragraff 2(2)(b) ac (c).

180 Llywodraeth Cymru, *Y cod apelau derbyn i ysgolion* (2013), paragraff 4.19. Ar gael yn https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/y-cod-apelau-derbyn-i-ysgolion.pdf.

181 Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, *Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru* (Hydref 2019) paragraff 6.47.

### Diwygio paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion

3.120 Cynigiwyd nifer o argymhellion ar gyfer diwygio paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion. Yn Adroddiad 2016, daethpwyd i'r casgliad bod angen ateb "Cymru gyfan" a chafwyd yr argymhelliad canlynol:

> The Welsh Government should explore the merits of extending the jurisdiction of the Special Educational Needs Tribunal for Wales (suitably renamed as the Education Tribunal for Wales) to create a national tribunal for school admissions and exclusion appeals within the next 5 years.[182]

3.121 Credai y byddai defnyddio arbenigedd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn gallu sicrhau cnewyllyn proffesiynol ac annibynnol o gadeiryddion paneli, a hefyd yn peri i wybodaeth am apelio fod yn fwy hygyrch. Yn y gorffennol, mae Llywydd TAAAC wedi mynegi parodrwydd i gynnwys yr hawliadau hynny yn ei thribiwnlys, gan ddweud mewn cysylltiad â phaneli gwahardd:

> … they could be definitely looked at as if they're unfair. I'm sure they're not, but from an outside perspective, they certainly look as if they're not because they're basically part of the body that's excluded the child in the first place. I firmly believe that the tribunal is well placed to take on that sort of work as well in the future.[183]

3.122 Fe gynhaliwyd astudiaeth ddichonoldeb gan Lywodraeth Cymru yn 2013 ynghylch canoli gweinyddiaeth y tribiwnlysoedd (ond nid ynghylch cyfuno eu hawdurdodaeth â TAAAC). Un o'r heriau a drafodwyd oedd y cyfnod byr sydd ar gael pan fo'n rhaid gwrando apeliadau. Ceir nifer mawr o apeliadau derbyn rhwng Ebrill a Mai bob blwyddyn sy'n ymwneud â derbyn i ysgolion ym mis Medi. Rydym yn deall bod hyn yn rhan o'r sail i'r ymateb gan Lywodraeth Cymru i Adroddiad 2016, lle nodwyd yn syml:

> The feasibility of school admissions and exclusion has been explored in response to recommendations in previous reviews of the devolved tribunals. The Welsh Government has concluded that SENTW is not the appropriate vehicle for admissions and exclusions appeals.[184]

3.123 At ei gilydd, mae gwrandawiadau gwahardd yn cael eu cynnal yn fwy cyson drwy gydol y flwyddyn ond, er hynny, rhaid gwrando'r apêl o fewn cyfnod byr ar ôl y gwaharddiad. Un o ofynion y canllawiau ar wahardd yw bod "rhaid i banel apêl gwrdd i drafod apêl erbyn y pymthegfed diwrnod ysgol ar ôl y dyddiad y derbyniwyd hysbysiad o'r bwriad i apelio".[185]

---

182 Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru, *Administrative justice: a cornerstone of social justice in Wales* (2010), tt 7 a 12 ac argymhelliad 24.

183 Llywydd TAAAC, Tystiolaeth lafar i Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol (2 Mawrth 2018), paragraff 505. Ar gael yn https://business.senedd.wales/documents/s60383/2%20March%202017.pdf.

184 Llywodraeth Cymru, *Committee for Administrative Justice and Tribunals, Wales (CAJTW) Legacy Report, March 2016: Welsh Government Response* (Gorffennaf 2016), t 4.

185 Llywodraeth Cymru, *Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion* (Tachwedd 2019). Ar gael yn https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-11/gwahardd-o-ysgolion-unedau-cyfeirio-disgyblion.pdf, paragraff 4.2.

3.124 Rydym yn derbyn bod paneli apelio derbyniadau yn creu llawer o waith tymhorol. Byddai'n anodd cynnwys cymaint o waith yn UTC ar hyn o bryd (er y gallai fod yn bosib yn y dyfodol os bydd y system tribiwnlysoedd Cymreig yn tyfu). Rydym hefyd yn deall, yn achos apeliadau derbyn i ysgolion, fod dealltwriaeth a phrofiad y paneli o'r ddarpariaeth addysg yn yr ardal leol yn cael eu gweld yn bwysig. Gallai fod yn fwy anodd sicrhau'r un dealltwriaeth mewn tribiwnlys unedig a oedd yn gwrando apeliadau o bob rhan o Gymru (yn rhannol oherwydd y gofynion logistaidd wrth drefnu bod aelodau panel ar gael sydd â phrofiad o gyflwr addysg ym mhob rhan o Gymru, a rhestru achosion wedyn i'w gwrando gan yr aelodau hynny).

3.125 Yn ein barn ni, nid yw'r dadleuon hyn mor gryf wrth ystyried apeliadau gwahardd. Gwrandewir y rhain drwy gydol y flwyddyn, ac mae llai ohonynt. Maent yn llai dibynnol ar arbenigedd lleol. Yn wir, byddai rhywfaint o arbenigedd yr aelodau panel presennol yn TAAAC yn gallu bod yn berthnasol wrth wrando achosion gwahardd; rydym yn deall bod cyfran sylweddol o achosion ar waharddiadau parhaol yn ymwneud â disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.[186] Mae TAAAC eisoes yn gwrando hawliadau am wahaniaethu ar sail anabledd sy'n ymwneud â gwaharddiadau cyfnod penodol.[187]

3.126 Yn ein barn ni, byddai gwrando'r apeliadau hynny gan TAAAC yn fodd i sicrhau mwy o gysondeb wrth weithredu nag a geir ar hyn o bryd. Byddai ymgorffori paneli apelio gwaharddiadau ysgolion yn TAAAC yn golygu hefyd y byddai hawl apelio gan ddefnyddwyr a oedd yn llai drud, yn llai ffurfiol ac yn llai gwrthwynebol nag adolygiad barnwrol. Felly rydym yn cynnig dros dro y dylai awdurdodaeth paneli apelio gwaharddiadau ysgolion gael ei harfer gan Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. [188]

**Cwestiwn Ymgynghori 7.**

3.127 Rydym yn cynnig dros dro y dylid cyfuno awdurdodaeth y paneli apelio gwaharddiadau ysgolion ag awdurdodaeth Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

3.128 Ym Mhennod 4 rydym yn cynnig dros dro y dylid darparu hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau gan baneli apelio derbyniadau ysgolion i Siambr Addysg y Tribiwnlys Haen Gyntaf arfaethedig (neu, fel arall, i'r Tribiwnlys Addysg) (gweler paragraffau 4.57

---

186 Nid yw ystadegau ar gael am nifer y gwrandawiadau paneli apelio gwaharddiadau sy'n ymwneud â disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn Llywodraeth Cymru, *Gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol o ysgolion: Medi 2018 i Awst 2019* (Hydref 2020), t 2 dywedir bod "gan ddisgyblion gydag AAA raddau uwch o waharddiadau na disgyblion heb AAA".

187 Llywodraeth Cymru, *Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion* (Tachwedd 2019), paragraff 1.17.14.

188 Fel y trafodwyd ym mharagraff 3.50 uchod, bydd TAAAC yn cael ei ailenwi maes o law yn Dribiwnlys Addysg Cymru. Byddai'r newid enw hwn yn adlewyrchu'r awdurdodaeth ehangach rydym yn ei chynnig ar gyfer y tribiwnlys.

i 4.63). Rydym yn rhag-weld, os derbynnir y cynnig hwn, y bydd y Siambr neu Dribiwnlys Addysg yn dod yn gyfarwydd â gwaith apelio derbyniadau ysgolion heb orfod ysgwyddo'r holl waith a gyflawnir ar hyn o bryd gan y paneli apelio derbyniadau. Rydym yn awgrymu y dylid rhoi ystyriaeth yn y dyfodol, yng ngoleuni'r profiad a geir, i'r posibilrwydd o drosglwyddo awdurdodaeth y paneli i'r Siambr neu Dribiwnlys Addysg.

**Cwestiwn Ymgynghori 8.**

3.129 Rydym yn cynnig dros dro na ddylai awdurdodaeth y paneli apelio derbyniadau ysgolion gael ei chyfuno, am y tro, ag awdurdodaeth Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

## AD-DREFNU POSIB AR AWDURDODAETHAU GYDA'R TRIBIWNLYS UNEDIG

3.130 Mae'n amheus gennym a fyddai modd gwneud argymhellion cynhwysfawr ar hyn o bryd o ran ad-drefnu posib ar awdurdodaethau gyda'r tribiwnlys unedig sydd wedi'i gynnig yma. Mae profiad o weithredu DTLIG 2007 yn y Deyrnas Unedig yn dangos bod trosglwyddo awdurdodaethau i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys wedi bod yn broses raddol ac nad yw'r patrwm awdurdodaethau presennol yn cyfateb yn llwyr i'r argymhellion yn Adolygiad Leggatt.

3.131 Credwn mai'r cyfraniad mwyaf addas y gallwn ei wneud at ddatblygu system tribiwnlysoedd datganoledig i Gymru yw gwneud cynigion ar gyfer creu tribiwnlys unedig ac ar gyfer y gwahanol faterion ategol, fel penodiadau, disgyblaeth a rheolau gweithdrefnol a drafodir yn y Papur Ymgynghori hwn. Er hynny, rydym yn cyflwyno nifer o gynigion ar gyfer ad-drefnu y gwelwyd ei bod yn ddymunol eu gwneud ar hyn o bryd; gofynnwn am farn ynghylch ad-drefnu dichonol mwy helaeth.

3.132 Rydym wedi gwneud cynnig dros dro uchod y dylai awdurdodaeth paneli apelio gwaharddiadau ysgolion gael ei throsglwyddo i TAAAC. Yn ogystal â hyn, rydym yn cynnig dros dro y dylai awdurdodaeth y tribiwnlysoedd apeliadau arolygwyr cofrestredig ysgolion ac addysg feithrin gael ei chyfuno'n ffurfiol ag awdurdodaeth TAAAC. Mae adroddiad cyntaf LITC yn egluro nad yw'r tribiwnlysoedd hynny wedi'u penodi'n ddiweddar, ac nad oes ganddynt "arweinydd barnwrol a benodwyd drwy broses ffurfiol". Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn nodi bod "aelodau TAAAC yn gymwys i ddelio ag unrhyw achosion sy'n codi".[189]

3.133 Hefyd rydym yn cynnig dros dro y dylid cyfuno'r cyrff sy'n sail i TEPC i ffurfio un siambr eiddo preswyl. Fel yr eglurwyd uchod ym mharagraff 3.39, mae TEPC yn sefydliad mantell ar hyn o bryd sy'n gyfrifol am dribiwnlysoedd eiddo preswyl, tribiwnlysoedd prisio lesddaliadau, a phwyllgorau asesu rhenti.

[189] Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, *Adroddiad Blynyddol 2018 – 2019* (2019), t 5.

3.134 Yn ogystal â'r cynigion hyn, rydym yn gofyn am farn ynghylch nifer o faterion. Y cyntaf yw a ddylai un o siambrau'r tribiwnlys unedig newydd fod yn siambr rheoleiddio cyffredinol, er mwyn hwyluso datblygiad y gyfraith yng Nghymru yn y dyfodol. Mae cyfran helaeth o'r llwybrau apêl newydd a gyfeiriwyd i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf yn y blynyddoedd diwethaf wedi cael eu cyfeirio i'r Siambr Rheoleiddio Cyffredinol: mae hyn yn awgrymu ei bod yn debygol y bydd galw am siambr o'r fath. Byddai siambr o'r fath hefyd yn gallu cynnwys awdurdodaethau sy'n gwrando niferoedd bach o achosion ar hyn o bryd; er enghraifft, PDC. Nodwn fod Siambr Rheoleiddio Cyffredinol y Tribiwnlys Haen Gyntaf presennol wedi cynnwys, yn y gorffennol, yr hyn sy'n cyfateb yn Lloegr i PDC.

3.135 Rydym hefyd yn gofyn am farn ynghylch a ddylid sefydlu siambr eiddo sengl, a fyddai'n cynnwys awdurdodaethau TEPC a TTAC. Dilynwyd y llwybr hwn yn system DTLIG 2007. Mae Tribiwnlys Haen Gyntaf yr Alban hefyd yn cynnwys siambr tai ac eiddo. Byddai cyfuno TEPC a TTAC yn gallu gwneud synnwyr i'r graddau bod arbenigedd cyfreithiol cyffredin ar gael ynddynt. Fodd bynnag, gallai fod yn llai tebygol y byddai'r arbenigedd lleyg yn TTAC (ffermwyr, perchnogion tir, ac arbenigwyr draenio) yn trosglwyddo i waith TEPC.

3.136 Byddai siambr eiddo hefyd yn gallu cynnwys gwaith prisio TPC.[190] Mae elfennau eraill yng ngwaith TPC nad ydynt yn ymwneud yn benodol â phrisio, ond yn hytrach ag asesu atebolrwydd i dalu treth: gellid neilltuo'r rhain i siambr rheoleiddio cyffredinol (fel y trafodwyd uchod ym mharagraffau 3.65 i 3.67).

3.137 Mae Diagram 1 drosodd yn dangos y cynigion hyn a phosibiliadau eraill.

[190] Gwnaed awgrym tebyg gan Gomisiwn y Gyfraith ychydig cyn gwneud Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 ("DTLIG 2007"). Gweler Land, Valuation and Housing Tribunals: The Future (2003) Law Com No 281, paragraff 2.4. https://s3-eu-west-2.amazonaws.com/lawcom-prod-storage-11jsxou24uy7q/uploads/2015/03/lc281_Land_Valuation_and_Housing_Tribunals_The_Future.pdf.

**Diagram 1**


Tribiwnlysoedd presennol
Siambrau cyfatebol yn ein system unedig arfaethedig
Posibiliadau pellach i ad-drefnu siambrau?
TTAC
Siambr Amaeth
Siambr Eiddo?
TEPC
Siambr Eiddo Preswyl
TPC
Siambr Brisio
PDC
Siambr Safonau Llywodraeth Leol
Siambr Rheoleiddio Cyffredinol?
TAIMC
Siambr Iechyd Meddwl
TAACY a TAACAF
TAAAC
Siambr Addysg
Paneli apelio gwaharddiadau ysgolion
TG
Siambr yr Iaith Gymraeg

**Cwestiwn Ymgynghori 9.**

3.138 Rydym yn cynnig dros dro y dylai awdurdodaethau'r Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Ysgolion a'r Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Addysg Feithrin gael eu cyfuno ag awdurdodaeth Tribiwnlys Anghenion Addysg Arbennig Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

**Cwestiwn Ymgynghori 10.**

3.139 Rydym yn cynnig dros dro y dylid cyfuno'r tribiwnlysoedd sy'n rhan o Dribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru (tribiwnlysoedd eiddo preswyl, tribiwnlysoedd prisio lesddaliadau, a phwyllgorau asesu rhenti) i ffurfio un siambr.

Ydych chi'n cytuno?

**Cwestiwn Ymgynghori 11.**

3.140 Rydym yn gofyn am farn ynghylch:

(1) a ddylai Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru gynnwys siambr rheoleiddio cyffredinol ac, os dylai

(2) pa dribiwnlysoedd presennol a ddylai fod yn rhan o'r siambr honno.

**Cwestiwn Ymgynghori 12.**

3.141 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylid cyfuno Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru a Thribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru i ffurfio siambr eiddo.

**Cwestiwn Ymgynghori 13.**

3.142 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylid cyfuno tribiwnlysoedd datganoledig presennol eraill i ffurfio un siambr.

# Chapter 4: Apeliadau

4.1 Yn y bennod flaenorol, ystyriwyd yr angen am osod strwythur cadarnach ar y tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru. Ein casgliad dros dro oedd mai'r ffordd orau i gwrdd ag anghenion tribiwnlysoedd a'u defnyddwyr fyddai creu "Tribiwnlys Haen Gyntaf i Gymru". Un tribiwnlys cyfunol fyddai hwn, wedi'i rannu'n siambrau a fyddai'n gyfrifol am feysydd pwnc penodol. Byddai'r tribiwnlys ar ffurf a fyddai'n hyblyg ac ymatebol i alwadau ar y system cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru yn y dyfodol.

4.2 Fodd bynnag, mae'r cynnig i greu "Tribiwnlys Haen Gyntaf i Gymru" yn codi cwestiwn arall: a ddylid cael ail haen? Yn y bennod hon, rydym yn ystyried mater yr apeliadau ymlaen o'r tribiwnlysoedd datganoledig (a elwir yn "apeliadau" drwy gydol y bennod hon).

4.3 Ar hyn o bryd, cyflwynir apeliadau o'r tribiwnlysoedd datganoledig i'r Uwch Dribiwnlys a sefydlwyd gan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 ("DTLIG 2007"), a hynny'n adlewyrchu'r llwybr apêl ymlaen o'r tribiwnlysoedd cyfatebol yn Lloegr. Hyd yma, Tribiwnlys y Gymraeg ("TG") yw'r unig dribiwnlys a sefydlwyd drwy ddeddfwriaeth Gymreig ac, yn yr achos hwnnw, penderfynwyd cyfeirio apeliadau i'r Uchel Lys yn lle hynny. Mae apeliadau o Banel Dyfarnu Cymru ("PDC") hefyd yn cael eu cyflwyno i'r Uchel Lys. Yn achos paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion, nid oes llwybr apêl confensiynol o gwbl.

4.4 Byddai cynnwys y tribiwnlysoedd datganoledig presennol yng Nghymru mewn un strwythur yn peri i'r anghysonderau hyn fod yn fwy amlwg. Yn y bennod hon, rydym yn ystyried a ddylid rhesymoli'r llwybrau apêl presennol ac, os dylid, sut. Mae hyn yn golygu pwyso a mesur gwahanol rinweddau llysoedd a thribiwnlysoedd fel mannau i wrando apêl. Mae cwestiynau anodd yn codi, fel y graddau y dylai apeliadau o dribiwnlysoedd datganoledig fod yn rhan o system ehangach o dribiwnlysoedd a gedwir yn ôl yng Nghymru a Lloegr. At hynny, i ba raddau y mae creu system dribiwnlysoedd gydlynol i Gymru yn galw am greu tribiwnlys apêl i Gymru?

## APELIADAU O DRIBIWNLYSOEDD DATGANOLEDIG YNG NGHYMRU

4.5 Mae'r adran hon o'r bennod yn amlinellu'r llwybrau apêl presennol o'r tribiwnlysoedd datganoledig, ac yn dangos yn fras beth yw nifer yr apeliadau. Mae hefyd yn trafod anghysondeb yn y ffordd o drin apeliadau o'r Uwch Dribiwnlys i'r Llys Apêl, yn ôl a ydynt wedi dod o Dribiwnlys yr Haen Gyntaf neu o dribiwnlys datganoledig.

### Llwybrau apêl a niferoedd yr apeliadau

4.6 Mae’r tabl isod yn dangos llwybrau apêl o’r tribiwnlysoedd datganoledig presennol yng Nghymru.

| Tribiwnlys[191] | Corff apeliadol | Natur yr apêl |
|---|---|---|
| Paneli apelio annibynnol | Dim (mae adolygiad barnwrol ar gael; gall ceiswyr gwyno hefyd i Weinidogion Cymru neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru). | - |
| PDC | Apeliadau yn erbyn penderfyniad gan dribiwnlys achosion interim neu dribiwnlys achosion: Uchel Lys. Dim hawl i apelio yn erbyn penderfyniad gan dribiwnlys apeliadau a godwyd o PDC (adolygiad barnwrol ar gael). | Gellir dod ag apêl yn erbyn unrhyw ataliad dros dro, neu hyd cyfnod atal (nid ar sail pwynt cyfreithiol yn unig). |
| TAAAC | Yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Apeliadau Gweinyddol). | Pwynt cyfreithiol |
| TAACY a TAACAF | Dim (mae adolygiad barnwrol ar gael; hefyd gall y tribiwnlys adolygu ei benderfyniad ei hun). | - |
| TAIMC | Yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Apeliadau Gweinyddol). | Pwynt cyfreithiol |
| TEPC | Yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd). | Apêl o bwyllgor asesu rhenti ar sail pwynt cyfreithiol yn unig. Nid oes cyfyngiad o’r fath ar apeliadau o dribiwnlys eiddo preswyl neu dribiwnlys prisio lesddaliadau.[192] |
| TG | Yr Uchel Lys | Pwynt cyfreithiol |
| TPC | Gwneir apeliadau ar y dreth gyngor i’r Uchel Lys.<br><br>Gwneir apeliadau ar ardrethi annomestig i’r Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd). | Pwynt cyfreithiol<br><br>Pwyntiau ffeithiol a chyfreithiol |
| TTAC | Yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd) | Pwynt cyfreithiol |

191 Defnyddir y byrfoddau canlynol yn y tablau: Panel Dyfarnu Cymru (“PDC”), Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (“TAAAC”) Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (“TAIMC”), y Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Ysgolion a’r Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Addysg Feithrin (“TAACY” a “TAACAF”), Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru (“TEPC”), Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru (“TTAC”), a Thribiwnlys y Gymraeg (“TG”).

192 O dan Gyfarwyddiadau Ymarfer yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd) 2010 paragraff 4.2, mae’n ofynnol bod ceiswyr am ganiatâd i apelio yn pennu a yw eu rhesymau dros wneud y cais yn dod o fewn un o bedwar categori: (a) bod y tribiwnlys prisio lesddaliadau neu dribiwnlys eiddo preswyl wedi camddehongli neu gamgymhwyso’r gyfraith berthnasol; (b) ei fod wedi camgymhwyso, camddehongli neu anwybyddu egwyddor berthnasol mewn ymarfer prisio neu ymarfer proffesiynol arall; (c) ei fod wedi rhoi sylw i ystyriaethau amherthnasol, wedi methu â rhoi sylw i ystyriaeth neu dystiolaeth berthnasol, neu fod diffyg gweithdrefnol sylweddol; neu (d) bod goblygiad eang dichonol i’r pwynt neu bwyntiau mewn dadl.

4.7 Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer y ceisiadau i'r tribiwnlysoedd adran 59 am ganiatâd i apelio (lle y bo'n gymwys) a nifer y ceisiadau am ganiatâd i apelio i'r Uchel Lys neu'r Uwch Dribiwnlys yn y ddwy flynedd diwethaf. [193]

| Tribiwnlys | 2019/20 | | 2018/19 | |
|---|---|---|---|---|
| | Ceisiadau am ganiatâd a wnaed i dribiwnlys | Ceisiadau am ganiatâd a wnaed i'r UL neu'r UD | Ceisiadau am ganiatâd a wnaed i dribiwnlys | Ceisiadau am ganiatâd a wnaed i'r UL neu'r UD |
| PDC | 0 | - | 0 | - |
| TAAAC | 2 (y ddau wedi'u gwrthod). | 1 (wedi'i ganiatáu). | 9 (pob un wedi'i wrthod). | 5 (2 wedi'u caniatáu). |
| TAACY a TAACAF | - | - | - | - |
| TAIMC | 6 (1 wedi'i ganiatáu) | | 4 (2 wedi'u caniatáu) | 1 (wedi'i ganiatáu) |
| TEPC | 13 (pob un wedi'i wrthod) | 7 (6 wedi'u gwrthod, 1 yn aros y canlyniad) | 9 (pob un wedi'i wrthod). | 4 (pob un wedi'i wrthod) |
| TG | 0 | | 0 | |
| TTAC | 2 (1 wedi'i wrthod, 1 yn yr arfaeth) | - | 1 (yn yr arfaeth) | - |

4.8 Nid yw Tribiwnlys Prisio Cymru ("TPC") wedi'i gynnwys yn y tabl, gan nad yw'n ofynnol cael caniatâd i apelio yn erbyn ei benderfyniadau. Mae nifer yr apeliadau o TPC yn fach hefyd. Yn 2018/2019, dim ond un apêl a gafwyd, a honno i'r Uchel Lys.[194] Yn 2019/2020, cafwyd dwy apêl statudol ac un cais am ganiatâd ar gyfer adolygiad barnwrol gan un apelydd. Gwrthodwyd y cais am ganiatâd ar gyfer adolygiad barnwrol. Gwnaed un apêl yn erbyn penderfyniad ar ardrethi i'r Uwch Dribiwnlys.[195] Ni ellir apelio yn erbyn penderfyniadau gan baneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion; rydym yn trafod y rhain isod.

193 Darparwyd y data gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru.

194 Tribiwnlys Prisio Cymru, *Adroddiad blynyddol 2018-2019,* paragraff 2.5.

195 Tribiwnlys Prisio Cymru, *Adroddiad blynyddol 2019-2020*, paragraffau 2.6 a 2.7.

## Yr Uwch Dribiwnlys

4.9 Fel y dangoswyd uchod, gwneir apeliadau o nifer o'r tribiwnlysoedd datganoledig i'r Uwch Dribiwnlys: un ai i'r Siambr Apeliadau Gweinyddol, neu i'r Siambr Tiroedd.[196] Nodir y canlynol yng nghyfraniad Llywydd y Siambr Apeliadau Gweinyddol yn Adroddiad Blynyddol yr Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd:[197]

> Appeals to UTAAC from those devolved tribunals within its jurisdiction continue to be rare. In the reporting year, the Chamber dealt with three challenges to decisions of the SEN Tribunal for Wales and two cases involving the Mental Health Review Tribunal for Wales. The vast majority of hearings in Wales involve challenges to decisions of the First-tier Tribunal rather than to decisions of Welsh tribunals.

4.10 Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi bod y Siambr yn eistedd yn rheolaidd yng Nghymru, fel arfer yng Nghanolfan Cyfiawnder Sifil Caerdydd.[198] Rydym yn deall bod y Siambr Tiroedd hefyd yn arfer gwrando achosion o Gymru yng Nghymru (a'r rheini'n codi'n bennaf o'i hawdurdodaeth fel tribiwnlys gwrandawiad cyntaf). Mae hawl gan gyfranogwyr i gael gwrandawiad yn y Gymraeg ar gyfer gwrandawiadau a gynhelir yng Nghymru. Os gwneir cais am ddefnyddio'r Gymraeg mewn achos yn yr Uwch Dribiwnlys, bydd GLITEM yn gwneud darpariaeth yn y lle cyntaf i restru'r achos yng Nghymru.[199]

## Paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion

4.11 Mae penderfyniadau gan baneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion yn rhai rhwymol. Nid oes llwybr apêl, er bod rhieni'n gallu gwneud cais am adolygiad barnwrol o benderfyniad y panel. Un enghraifft ddiweddar yw achos *R (LB) v Independent Appeal Panel of Newport City Council*.[200] Yn yr achos hwnnw, roedd y ceisydd wedi sicrhau adolygiad barnwrol o benderfyniad y panel apelio i beidio â'i derbyn yn ôl i'r ysgol, gan ddadlau bod y panel apelio wedi methu â rhoi sylw i ystyriaeth berthnasol (sef a oedd y trais a gyflawnodd yn ddigon difrifol i gyfiawnhau ei gwahardd am un digwyddiad). Roedd y cais yn llwyddiannus, a gorchmynnodd y llys fod y panel i ailystyried y penderfyniad.

4.12 Fel arall, gall defnyddiwr gwyno i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("OGCC"). Dim ond yng nghyswllt camweinyddu neu fethiant mewn gwasanaeth y gall yr ombwdsmon adolygu penderfyniadau ac nid oes ganddo bŵer i adolygu rhinweddau penderfyniadau. Rydym yn deall mai tua 30 o gwynion y flwyddyn y bydd OGCC yn eu cael ynghylch paneli apelio derbyniadau ysgolion. O'r rhain, mae 80% i 90% nad yw'n ymchwilio iddynt, a hynny'n aml am nad ydynt yn ymwneud â

---

[196] Mae'r Siambr Tiroedd yn gwrando apeliadau o Dribiwnlys yr Haen Gyntaf (Siambr Eiddo) yn ogystal â TTAC a TEPC. Am resymau hanesyddol, mae hefyd yn gwrando achosion nifer o awdurdodaethau gwrandawiad cyntaf eraill. Mae'r rhain wedi'u rhestru yn https://www.gov.uk/courts-tribunals/upper-tribunal-lands-chamber.

[197] Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd, *Annual Report 2019-20*, t 13.

[198] Fel uchod, t 13.

[199] GLITEM, *2018-2021 Cynllun Iaith Gymraeg* (2019), paragraffau 5.48 i 5.50. Ar gael yn http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/20190131%20DG%20D%20Cynllun%20Iaith%20GLlaThEM.PDF.

[200] *R (LB) v Independent Appeal Panel of Newport City Council*, [2017] EWHC 2216 (Admin), [2017] 9 WLUK 6.

chamweinyddu. Mae OGCC yn cael llai o lawer o gwynion o ganlyniad i wahardd o ysgolion: dim ond un bob blwyddyn.

4.13 Gall defnyddwyr gwyno hefyd i Weinidogion Cymru. Mae'r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn nodi na all Gweinidogion Cymru adolygu na gwrthdroi penderfyniadau gan baneli apelio mewn achosion penodol, ond y gallant arfer eu pwerau ymyrryd:

(1) os oedd y panel wedi'i sefydlu'n anghywir gan yr awdurdod derbyn;

(2) os nad yw'r awdurdod derbyn wedi gweithredu'n rhesymol wrth arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â'r broses apelio; neu

(3) os yw'r awdurdod derbyn wedi methu â chyflawni unrhyw ddyletswydd gyfreithiol sy'n ymwneud â'r broses honno (yn cynnwys torri darpariaeth orfodol yn y Cod).[201]

4.14 Rydym yn deall bod nifer y cwynion i Weinidogion Cymru yn fach iawn.

### Yr Uwch Dribiwnlys ac ail apeliadau

4.15 Mae'r ffaith nad yw'r tribiwnlysoedd adran 59 yn rhan o Dribiwnlys yr Haen Gyntaf wedi arwain at anghysonder yn y ffordd o drin apeliadau o'r Uwch Dribiwnlys. Ystyriwyd y mater hwn gan y Llys Apêl yn achos *Clarise Properties Limited v Rees*.[202] Roedd yr achos yn ymwneud â phenderfyniad gan Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru ("TEPC"), y cafwyd apêl yn ei erbyn i'r Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd) yn gyntaf ac wedyn i'r Llys Apêl. Y cwestiwn i'r Llys Apêl oedd a ddylid trin yr apêl a oedd yn deillio o TEPC (tribiwnlys datganoledig) yn yr un ffordd ag apeliadau sy'n deillio o Dribiwnlys yr Haen Gyntaf.

4.16 Mae adran 13 o DTLIG 2007 yn darparu bod hawl gan unigolyn i apelio o'r Uwch Dribiwnlys i'r Llys Apêl. Mae hefyd yn galluogi'r Arglwydd Ganghellor i wneud gorchymyn i gyfyngu'r seiliau dros wneud apêl i achosion lle mae pwynt neu egwyddor neu arfer pwysig dan sylw, neu reswm cryf arall dros wrando'r apêl (y prawf ail apêl).[203] Ond mae'r pŵer hwnnw'n gyfyngedig i apeliadau sy'n dod o fewn adran 11 o DTLIG 2007, sy'n cyfeirio at yr hawl hon yn unig:

> to appeal to the Upper Tribunal on any point of law arising from a decision made by the **First-tier Tribunal**....[204]

4.17 Daliodd y Llys Apêl ei bod yn glir nad Tribiwnlys yr Haen Gyntaf yw TEPC ac, o ganlyniad, mai'r prawf arferol, llai beichus sy'n gymwys (a oes rhagolwg gwirioneddol o lwyddiant, neu ryw reswm cryf arall dros wrando'r apêl).[205] O ganlyniad i hyn, mae

---

201 Llywodraeth Cymru, *Y cod apelau derbyn i ysgolion* (2013), paragraff 6.14. Ar gael yn https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/y-cod-apelau-derbyn-i-ysgolion.pdf.

202 *Clarise Properties Limited v Rees* [2015] EWCA Civ 1118, [2015] 7 WLUK 904.

203 Y gorchymyn perthnasol yw Gorchymyn Apelau o'r Uwch Dribiwnlys i'r Llys Apêl 2008, OS 2008 Rhif 2834 erthygl 2.

204 Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, a 11(1) (ni biau'r pwyslais).

205 Rheolau Trefniadaeth Sifil, rheol 52.6 (1).

apeliadau o’r tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru yn wynebu llai o rwystr wrth wneud “ail apêl” o’r Uwch Dribiwnlys i’r Llys Apêl.

4.18 Mae hyn yn anghyson o’i gymharu â hawliau apelio a grëwyd gan ddeddfwriaeth Gymreig sy’n cael eu cyfeirio i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf (er enghraifft, apeliadau yn erbyn penderfyniadau gan Awdurdod Cyllid Cymru). Gan fod yr apeliadau hynny’n cael eu gwneud i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf, byddent yn wynebu’r prawf mwy llym ar gyfer ail apêl.

## LLEOEDD ERAILL YN Y DEYRNAS UNEDIG

4.19 Nid yng Nghymru’n unig y mae’r cwestiwn yn codi ynghylch ble i gyfeirio apeliadau o dribiwnlysoedd. Rydym yn trafod isod y llwybrau a ddilynwyd o ran y tribiwnlysoedd a gedwir yn ôl a thribiwnlysoedd yn yr Alban. Rydym hefyd yn trafod cynigion blaenorol ar gyfer diwygio’r system dribiwnlysoedd yng Ngogledd Iwerddon.

### Tribiwnlysoedd a gedwir yn ôl

4.20 Un o’r prif argymhellion yn adroddiad Syr Andrew Leggatt (“Adroddiad Leggatt”) yn dilyn ei adolygiad o dribiwnlysoedd oedd y dylid cael un llwybr ar gyfer apeliadau o’r holl dribiwnlysoedd. Bryd hynny, roedd cytundeb cyffredinol bod y llwybrau apêl yn anghyson ac afresymegol; yn ganlyniad i ddatblygiadau hanesyddol damweiniol yn hytrach na chynllunio. Roedd rhai apeliadau’n mynd i dribiwnlysoedd apeliadol sefydledig, ond eraill yn mynd i’r llysoedd (gan ddibynnu ar yr Uchel Lys yn ogystal â’r Llys Apêl). Ar gyfer eraill, nid oedd llwybr apêl o gwbl, a’r unig ddewis i geiswyr oedd troi at adolygiad barnwrol.

4.21 Casgliad ei adroddiad oedd:

> there should be a single route for all appeals from tribunals… The appeal body needs to be able to give genuine coherence to the development of the law, and promote consistency effectively both at its own level and in the first-tier tribunals. This points towards a single appellate Division.[206]

4.22 Fodd bynnag, nodwyd hefyd fod angen cadw’r arbenigedd sylweddol a geir eisoes yn y tribiwnlysoedd apeliadol, a darparu ar gyfer yr amrywiadau yn niferoedd yr apeliadau a greir gan dribiwnlysoedd yr haen gyntaf.

4.23 Yr ateb i hyn oedd creu’r Uwch Dribiwnlys gan DTLIG 2007. Er mai corff apeliadol sengl oedd hwn, fel Tribiwnlys yr Haen Gyntaf roedd wedi’i rannu’n siambrau. Yn yr ymgynghoriad dilynol a gynhaliwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, dywedwyd mai creu’r Uwch Dribiwnlys oedd “probably the most significant innovation in the tribunal system”.[207]

---

206 Syr Andrew Leggatt, *Tribunals for Users One System, One Service: Report of the Review of Tribunals* (Mawrth 2001) paragraff 6.10.

207 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, *Transforming Tribunals: Implementing Part 1 of the Tribunals, Courts and Enforcement Act 2007* (Rhagfyr 2007), paragraff 177.

4.24 Mae'r Uwch Dribiwnlys yn uwch lys cofnodion, fel yr Uchel Lys a'r Tribiwnlys Apelau Cyflogaeth.[208] Un o'r prif effeithiau o hynny yw bod ei benderfyniadau'n gyfreithiol rwymol ar dribiwnlysoedd is.[209] Mae bellach yn cynnwys pedair siambr: y Siambr Apeliadau Gweinyddol, y Siambr Mewnfudo a Lloches, y Siambr Treth a Siawnsri, a'r Siambr Tiroedd. Mae'r Uwch Dribiwnlys cyfan o dan lywyddiaeth yr Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd.

4.25 O dan DTLIG 2007, mae hawl apelio i'r Uwch Dribiwnlys ar unrhyw bwynt cyfreithiol sy'n codi o benderfyniad a wnaed gan Dribiwnlys yr Haen Gyntaf heblaw penderfyniad eithriedig. Gellir cael caniatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys un ai gan Dribiwnlys yr Haen Gyntaf neu gan yr Uwch Dribiwnlys ei hun.[210] Yn ogystal â'i awdurdodaeth apeliadol dros Dribiwnlys yr Haen Gyntaf, mae gan yr Uwch Dribiwnlys awdurdodaeth adolygu barnwrol hefyd.[211] O dan adran 18(6) o DTLIG 2007, mae'r Arglwydd Brif Ustus wedi dyroddi cyfarwyddyd ymarfer yn trosglwyddo dosbarthiadau penodol o achosion i'r Uwch Dribiwnlys (yn ymwneud â mewnfudo'n bennaf).[212] Gellir trosglwyddo achosion penodol hefyd os yw'r Llys Gweinyddol yn ystyried bod hynny'n briodol; er enghraifft, os yw'r achos yn galw am benderfyniadau ar gwestiynau ffeithiol neu dystiolaeth sydd wedi'i herio.

## Apeliadau o'r Uwch Dribiwnlys

4.26 Fel arfer, mae apeliadau o'r Uwch Dribiwnlys ar bwyntiau cyfreithiol yn mynd i'r Llys Apêl.[213] Fodd bynnag, os yw'r achos yn ymwneud â phwynt cyfreithiol sydd o ddiddordeb cyffredinol i'r cyhoedd, mewn rhai amgylchiadau mae DTLIG 2007 yn darparu y gall yr Uwch Dribiwnlys ganiatáu i ddarpar apelydd fynd yn syth at y Goruchaf Lys i ofyn am ganiatâd i'r apêl gael ei gwrando yn y fan honno (yr hyn a elwir yn "naid llyffant").[214]

4.27 Mae penderfyniadau'r Uwch Dribiwnlys hefyd yn agored i adolygu barnwrol, ond mewn amgylchiadau prin iawn. Penderfynodd y Goruchaf Lys yn achos *R (Cart) v The*

---

208 Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 ("DTLIG 2007"), a 3(5).

209 Gweler penderfyniad y Llys Adrannol yn achos *R (C, U, XC) v the Upper Tribunal, Special Immigration Appeals* Commission [2009] EWHC 3052 (Admin), [2010] 2 WLR 1012 yn [75]. Eglurodd Laws LJ mai "attribute of a superior court of record appears to be that its decisions have effect as precedents for lower tribunals. This is no doubt because of the record it keeps. (Originally, a court of record was one whose acts and proceedings were enrolled in parchment.)" Nodweddion eraill a grybwyllwyd gan Laws LJ oedd bod rhagdybiaeth bod uwch lys cofnodion yn gweithredu o fewn ei bwerau oni ddangosir fel arall, a bod ganddo bŵer i gosbi am ddirmyg llys. Apeliwyd ar yr achos i'r Goruchaf Lys yn achos *R (Cart) v the Upper Tribunal* [2011] UKSC 28, [2012] AC 663 yn [30]. Yn ei dyfarniad arweiniol, nid oedd yr Arglwyddes Hale wedi gweld bod angen ystyried y diffiniad o "superior court of record" ond dywedodd fod dyfarniad Laws LJ yn un "typically subtle and erudite".

210 DTLIG 2007, a 11(1) a (4).

211 Fel uchod, a 15.

212 Cyfarwyddyd yr Arglwydd Brif Ustus, yr Uwch Dribiwnlys: Awdurdodaeth Adolygu Barnwrol (2013).

213 DTLIG 2007, aa 13(1) a 13(11) i (13). Gwneir apêl i'r "relevant appellate court"; y Llys Apêl yng Nghymru a Lloegr, y Llys Apêl yng Ngogledd Iwerddon, neu Lys y Sesiwn, yn ôl pa un y mae'r Uwch Dribiwnlys yn ei ystyried yn fwyaf priodol.

214 Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, aa 14A a 14B. Defnyddiwyd y weithdrefn naid llyffant yn achos *RR v Secretary of State for Work and Pensions* [2019] UKSC 52, [2019] 1 WLR 6430.

*Upper Tribunal* ei bod yn bosib cael adolygiad barnwrol o wrthodiad gan yr Uwch Dribiwnlys i ganiatáu apêl o Dribiwnlys yr Haen Gyntaf.[215] Fodd bynnag, rhaid i'r ceisydd ddangos bod yr hawliad yn codi pwynt pwysig o egwyddor neu ymarfer, neu fod rheswm cryf arall dros ei wrando.[216]

### Yr Alban

4.28 Cyhoeddwyd adroddiad am ddiwygio tribiwnlysoedd yn yr Alban gan Bwyllgor Albanaidd y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yn 2011, lle'r oedd y pwyllgor yn argymell safoni'r llwybr apêl o dribiwnlysoedd Albanaidd a'i gyfeirio i un corff apeliadol. Y farn a fynegwyd yn yr adroddiad oedd y byddai hyn:

(1) yn hwyluso datblygiad arbenigedd ymysg barnwyr apeliadol;

(2) yn gwneud y broses apelio'n fwy hygyrch i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd;

(3) yn rhoi'r gallu i weinyddu cyfiawnder yn gyflymach na thrwy fynd ag apeliadau i Lys y Sesiwn;

(4) yn symleiddio prosesau ar gyfer trafod achosion, ac felly'n helpu i ddatblygu arbenigedd ymysg staff cymorth gweinyddol; a

(5) yn ei gwneud yn haws i sefydliadau cymorth ddarparu cyngor i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd sydd am apelio yn erbyn penderfyniad gan dribiwnlys.[217]

4.29 Roedd yr argymhellion hynny wedi arwain yn y pen draw at greu Uwch Dribiwnlys i'r Alban, y darparwyd ar ei gyfer gan Ddeddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014.[218] Mae'r tribiwnlys hwn yn gwrando apeliadau o Dribiwnlys Haen Gyntaf yr Alban yn ogystal â chynnal gwrandawiadau cyntaf mewn rhai achosion treth cymhleth.

4.30 Mae Deddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014 yn darparu y gellir trefnu gwaith yr Uwch Dribiwnlys yn adrannau gan Weinidogion yr Alban.[219] Hyd yma, fodd bynnag, nid yw nifer yr apeliadau wedi cyrraedd man lle teimlwyd bod angen cyflwyno adrannau yn yr Uwch Dribiwnlys.[220] Yn y flwyddyn 2018/2019, derbyniodd y tribiwnlys 35 o achosion,

---

215 *R (Cart) v the Upper Tribunal*, [2011] UKSC 28, [2012] AC 663. Gweler hefyd y Rheolau Trefniadaeth Sifil, rheolau 54.7A.

216 Rheolau Trefniadaeth Sifil, rheol 52.7.

217 Pwyllgor Albanaidd y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, *Tribunal reform in Scotland: a vision for the future* (2011) paragraffau 4.57 a 4.59. Ar gael yn https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20111013061652/http://www.justice.gov.uk/ajtc/docs/tribunal-reform-scotland.pdf.

218 Deddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014, a 1(b).

219 Fel uchod, a 23.

220 Llywydd Tribiwnlysoedd yr Alban, *Annual report on Scottish Tribunals 2018 – 2019*, t 7. Ar gael yn https://www.judiciary.scot/docs/librariesprovider3/judiciarydocuments/scottish-tribunals-publications/scottish-tribunals-annual-report-2018-19.pdf?sfvrsn=3e64715a_2.

gwnaeth 16 o benderfyniadau, a chynhaliodd wyth niwrnod gwrando.[221] Daeth mwyafrif yr achosion o'r Siambr Tai ac Eiddo.

### Gogledd Iwerddon

4.31 Rhwng 2011 a 2013, ymgymerodd yr Adran Gyfiawnder yng Ngogledd Iwerddon â rhywfaint o waith ar ddiwygio tribiwnlysoedd yng Ngogledd Iwerddon, a hynny'n cynnwys cyhoeddi papur trafod a dogfen ymgynghori. Ymgynghorodd yr adran ar greu tribiwnlys newydd gyda strwythur integredig a fyddai'n cwmpasu'r tribiwnlysoedd presennol.[222]

4.32 Rhoddodd ystyriaeth hefyd i'r posibilrwydd o greu Uwch Dribiwnlys i Ogledd Iwerddon ond, yn y diwedd, daeth i'r casgliad y byddai nifer yr achosion i'w gwrando yn rhy fach. Yn lle hynny, roedd y ddogfen ymgynghori yn cynnig symleiddio'r system apêl bresennol, drwy greu llwybr apêl o'r tribiwnlys newydd i'r Uchel Lys ar bwyntiau cyfreithiol.[223] Fodd bynnag, nid oedd yr awgrym hwnnw'n un poblogaidd; o'r 26 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwnnw, roedd 16 yn anghytuno. Roedd ymatebwyr yn gwrthwynebu cost a ffurfioldeb yr Uchel Lys. Roedd ymatebwyr hefyd yn bryderus y byddai gofyn i apelwyr fynd i'r Uchel Lys yn eu rhoi o dan anfantais o'u cymharu â'u cymheiriaid yng Nghymru a Lloegr. Roedd nifer wedi awgrymu creu uwch dribiwnlys, ar y sail y byddai ganddo well dealltwriaeth o waith y tribiwnlysoedd.[224]

## OPSIYNAU AR GYFER DIWYGIO

4.33 Nifer bach o apeliadau a geir bob blwyddyn o dribiwnlysoedd datganoledig, felly mae'n anodd dod i gasgliadau ynghylch pa mor dda y mae'r system yn gweithio. Yr hyn sy'n sicr yw bod y llwybrau apêl yn anghyson. Gwneir y rhan fwyaf o apeliadau i'r Uchel Lys neu'r Uwch Dribiwnlys ond, yn achos paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion, nid oes llwybr apêl gwirioneddol o gwbl. Fel y nodwyd gan Dr Sarah Nason a Dr Huw Pritchard:

> The only real consistency is that there are no devolved judicial bodies in Wales with the authority to set binding legal precedents.[225]

---

221 Llywydd Tribiwnlysoedd yr Alban, *Annual report on Scottish Tribunals 2018 – 2019*, t 52.

222 Yr Adran Gyfiawnder yng Ngogledd Iwerddon, *Future administration and structure of tribunals in Northern Ireland – consultative document* (2013) paragraff 3.2.

223 Fel uchod, paragraff 3.40.

224 Yr Adran Gyfiawnder yng Ngogledd Iwerddon, *Future administration and structure of tribunals in Northern Ireland – consultative document, summary of responses* (2013) paragraffau 4.59 i 4.67

225 S Nason a H Pritchard, *Administrative justice and the legacy of executive devolution: establishing a tribunals system for Wales* (2020) 26 Australian Journal of Administrative Law 233 t 242.

4.34 Mae'n ymddangos i ni fod pedwar opsiwn posib ar gyfer diwygio llwybrau apêl o'r tribiwnlysoedd datganoledig.

(1) Dim newid sylweddol.

(2) Cyfeirio apeliadau i'r Llys Gweinyddol yng Nghymru.

(3) Cyfeirio apeliadau i'r Uwch Dribiwnlys.

(4) Creu tribiwnlys apeliadol newydd: Tribiwnlys Apêl i Gymru.

4.35 Nid yr opsiynau hyn yw'r unig rai sydd ar gael o reidrwydd. Byddwn yn falch o gael barnau eraill ynghylch beth allai fod yn system orau ar gyfer apeliadau o'r tribiwnlysoedd datganoledig. Nid yw'r opsiynau hyn yn annibynnol ar ei gilydd ychwaith. Mae'n ddigon posib bod rhai llwybrau apêl presennol y dylid eu cadw neu eu newid, tra byddai modd cyfeirio eraill i Dribiwnlys Apêl newydd i Gymru.

4.36 Ar ôl trafod y pedwar opsiwn hynny, rydym yn trafod materion penodol sy'n codi yn achos tribiwnlysoedd penodol. Y rhain yw TEPC, paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion, a TPC. Rydym yn gwneud un cynnig dros dro; am y gweddill, gofynnwn am farn ymgyngoreion ynghylch apeliadau.

### Dim newid sylweddol

4.37 Un posibilrwydd yw gadael rhai neu'r cyfan o'r llwybrau apêl presennol fel y maent i raddau helaeth. Gallai hyn gynnwys rhywfaint o resymoli o fewn tribiwnlysoedd (er enghraifft, i sicrhau bod y gofynion ar gyfer caniatâd i apelio yn unffurf yn y tribiwnlysoedd sy'n rhan o TEPC). Gallai hefyd gynnwys cyflwyno llwybr apêl o baneli apelio derbyniadau ysgolion, neu gysoni apeliadau o TPC (sy'n cael ei drafod ar wahân isod). Ond byddai'n gadael y llwybrau apêl o'r tribiwnlysoedd adran 59 fel y maent gan mwyaf.

4.38 Byddai hyn yn cynnig y fantais o gadw system sy'n gweithio'n weddol dda i bob golwg ar gyfer y tribiwnlysoedd presennol. Mewn cyfarfodydd cyn ymgynghori a gynhaliwyd ag arweinwyr barnwrol, cawsom fod nifer ohonynt yn fodlon ar lwybrau apêl o'u tribiwnlysoedd. Lle'r oedd apeliadau'n mynd i'r Uwch Dribiwnlys, rhai o'r manteision a nodwyd oedd yr arbenigedd sydd ar gael am fod barnwyr yn gwrando nifer sylweddol o apeliadau ar faterion penodol, a datblygu cyson ar y gyfraith ledled Cymru a Lloegr. Canmolwyd yr Uchel Lys am allu technegol a hyblygrwydd ei farnwyr, sydd wedi arfer ymgynefino â chefndir cyfreithiol yr apêl a chymhwyso'r egwyddorion cyfreithiol perthnasol.

4.39 Un anfantais o adael llwybrau apêl heb eu newid yw y byddent yn parhau'n anghyson. Mae perygl bod yr anghysondeb hwn yn gwneud pethau'n fwy cymhleth i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd, sy'n gorfod sicrhau eu bod yn dilyn y llwybr apêl cywir ac yn wynebu gwahanol lefelau o gost a ffurfioldeb. Gallai hyn ddod yn fwy dyrys os mabwysiedir ein hawgrym ar gyfer tribiwnlys cyfunol sy'n cynnal gwrandawiadau cyntaf.

4.40 Ni fyddai'n fawr o gymorth ychwaith i ddatblygu awdurdodaethau newydd yn y dyfodol. Er mwyn lliniaru'r broblem hon ac osgoi'r posibilrwydd o weld mwy o anghysonderau'n codi yn y dyfodol, gallai fod yn ddymunol pennu opsiwn "diofyn" ar gyfer

tribiwnlysoedd newydd a ddylai gael ei fabwysiadu gan lunwyr polisi os nad oes rhesymau da dros ffafrio opsiwn arall.

### Y Llys Gweinyddol yng Nghymru

4.41 Ail bosibiliad yw cyfeirio'r holl apeliadau o dribiwnlysoedd datganoledig i'r Llys Gweinyddol (a elwir yn Llys Gweinyddol yng Nghymru pan fydd yn eistedd yng Nghymru). Llys arbenigol o fewn Adran Mainc y Frenhines yr Uchel Lys ydy'r Llys Gweinyddol. Ers cryn amser bellach, y rheol yw bod hawliadau a wneir yn y Llys Gweinyddol yng Nghymru yn cael eu gwrando yng Nghymru fel arfer.[226] Yn ogystal â hyn, o 1 Hydref 2020, os yw hawliad yn y Llys Gweinyddol yn un sy'n herio penderfyniad gan gorff cyhoeddus Cymreig, rhaid iddo gael ei gyhoeddi a'i wrando yng Nghymru.[227] Mae hawl gan gyfranogwyr mewn achosion cyfreithiol yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg.[228]

4.42 Ni fyddai hyn yn golygu unrhyw newid yn PDC, TG neu mewn apeliadau ar y dreth gyngor o TPC.[229] Fodd bynnag, fe fyddai'n golygu newid y llwybrau apêl o'r tribiwnlysoedd adran 59 eraill, ac apeliadau ar ardrethi annomestig o TPC.

4.43 Er y byddai hyn yn creu cysondeb, mae nifer o anfanteision. Mae cyfeirio apeliadau i'r Uchel Lys yn mynd â nhw allan o'r system dribiwnlysoedd yn gyfan gwbl, fel y collir yr hyn a alwodd Leggatt yn "distinctive enabling approach common to all tribunals".[230] Mae dull galluogol neilltuol o'r fath yn dibynnu ar symlrwydd y rheolau gweithdrefnol, gwybodaeth arbenigol y panel, a'r ffaith na chodir ffioedd ar ddefnyddwyr neu fod y ffioedd hynny'n isel. Drwy symud apeliadau i'r Uchel Lys, byddai perygl o golli'r manteision hyn, a rhoi defnyddwyr tribiwnlysoedd dan anfantais. Gallai hynny fod yn bris uchel i'w dalu am gysondeb.

4.44 Gellid ystyried bod newid o'r fath yn gam yn ôl hefyd. Cyn pasio DTLIG 2007, nid oedd llwybr apêl o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru ("TAIMC"), a'r unig ddewis i geiswyr oedd gwneud cais am adolygiad barnwrol o benderfyniadau. Daeth Adroddiad Leggatt i'r casgliad (wrth drafod Tribiwnlysoedd Adolygu Iechyd Meddwl yn Lloegr) nad oedd hyn yn foddhaol o ystyried bod y tribiwnlysoedd hyn yn delio ag achosion cymhleth a sensitif.[231]

---

226 Rheolau Trefniadaeth Sifil, Cyfarwyddyd Ymarfer 54D, paragraff 2.2.

227 Rheolau Trefniadaeth Sifil, rheol 7.1(A)

228 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, a 22(1) a GLITEM, *Cynllun Iaith Gymraeg 2018-2021* (2019), paragraffau 5.48 i 5.50.

229 Mae Cyfarwyddyd Ymarfer 54D yn darparu bod apeliadau o'r TG a PDC yn mynd i'r Llys Gweinyddol.

230 Syr Andrew Leggatt, *Tribunals for Users One System, One Service: Report of the Review of Tribunals* (Mawrth 2001), paragraff 6.30.

231 Fel uchod, Part 2, Mental Health Review Tribunals in England, paragraff 14.

## Yr Uwch Dribiwnlys

4.45 Dull posib arall o gysoni'r llwybrau apêl fyddai symud apeliadau o TG, PDC, ac apeliadau ar y dreth gyngor o TPC i'r Uwch Dribiwnlys. Byddai hyn yn cadw'r rhan fwyaf o'r llwybrau apêl presennol ac, yn ein barn ni, byddai'n dod â'r manteision canlynol.

(1) Byddai apeliadau'n cael eu gwrando, fel y maent nawr, gan farnwyr sydd â chryn arbenigedd yn y pynciau.

(2) Mae nifer o awdurdodaethau wedi'u seilio ar ddeddfwriaeth debyg iawn. Drwy gadw penderfyniadau gyda'i gilydd yng Nghymru a Lloegr ar y lefel apelio, sicrheir bod y gyfraith yn datblygu'n gyson. Mae hyn yn ddymunol iawn ym maes iechyd meddwl, gan fod defnyddwyr tribiwnlysoedd yn gallu symud rhwng Cymru a Lloegr yn ôl lle maent yn cael eu cadw.

(3) Parheir i wrando apeliadau o fewn y system dribiwnlysoedd, gan ddod â manteision i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd o ran hygyrchedd.

4.46 Un anfantais o gyfeirio'r holl apeliadau i'r Uwch Dribiwnlys yw y byddai hynny'n mynd yn groes i'r datganoli cynyddol o ran y tribiwnlysoedd datganoledig. Rydym hefyd yn nodi ei bod yn ddigon posib y bydd dadleuon (1) a (2) yn llai cryf yn y dyfodol. Wrth i'r Senedd barhau i basio deddfwriaeth newydd ac wrth i gyfraith Cymru a chyfraith Lloegr barhau i fynd yn fwyfwy ar wahân, mae'n bosib y bydd arbenigedd barnwyr presennol yn mynd yn llai perthnasol yng Nghymru.

4.47 Mae hefyd yn bosib bod yr Uwch Dribiwnlys yn lle llai priodol na'r Uchel Lys i wrando apeliadau o TG, PDC ac apeliadau yn erbyn penderfyniadau gan TPC ar y dreth gyngor. Rydym yn deall bod apeliadau o PDC yn benodol yn gallu ymwneud â chwestiynau anodd am ddiogelu rhyddid mynegiant ac mae'r Uchel Lys yn lle addas i asesu'r rhain.

## Tribiwnlys Apêl i Gymru?

4.48 Yn olaf, trown at yr opsiwn mwy mentrus ar gyfer diwygio, sef creu Tribiwnlys Apêl i Gymru a fyddai, i bob pwrpas, yn gorff yng Nghymru sy'n cyfateb i'w Uwch Dribiwnlys. Byddai tribiwnlys o'r fath yn gwrando nifer bach iawn o achosion; yng ngolwg y ffigurau a roddwyd ym mharagraff 4.7 uchod, mae'n bosib mai llond llaw o achosion y byddai'n eu trafod bob blwyddyn, ar y dechrau o leiaf.[232] Oherwydd hynny, byddai'n rhy fach i'w rannu.

4.49 Gan y byddai ei lwyth achosion mor fach ar y dechrau, gellid cymryd y byddai Tribiwnlys Apêl i Gymru yn penodi aelodau ag amrywiaeth o brofiad a gafwyd mewn llysoedd a thribiwnlysoedd eraill, yn ôl gofynion yr achos dan sylw. Un ateb posib fyddai neilltuo neu benodi barnwyr presennol yr Uchel Lys, neu aelodau'r Uwch Dribiwnlys. Byddai'n rhaid gwneud unrhyw benodiadau o'r fath yn unol â'r egwyddorion a drafodir ym Mhennod 6 a Phennod 10. Byddai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru hefyd yn gallu llywyddu'r Tribiwnlys Apêl a gwrando achosion priodol.

---

[232] Gallai'r nifer fod yn llai byth os bydd yr holl dribiwnlysoedd datganoledig yn cael pŵer i adolygu eu penderfyniadau eu hunain cyn gwneud apêl. Rydym yn trafod hyn ymhellach ym Mhennod 5.36 isod.

4.50 Byddai creu corff apeliadol newydd yn cynnig nifer o fanteision. Mae'r rhain yn cynnwys:

(1) Cysondeb. Gellid gwrando'r holl apeliadau o'r tribiwnlysoedd datganoledig mewn un lle. Byddai hyn yn ei dro yn gwneud y system yn haws ei defnyddio gan ddefnyddwyr tribiwnlysoedd a chynghorwyr.

(2) Cydlyniant â'r strwythur rydym yn ei gynnig ar gyfer tribiwnlysoedd datganoledig. Byddai Tribiwnlys Apêl i Gymru yn mynd law yn llaw â'n cynnig dros dro ar gyfer tribiwnlys cyfunol i Gymru sy'n cynnal gwrandawiadau cyntaf (gweler Pennod 3 ).

(3) Datblygu cyfraith achosion. Ar gyfer yr awdurdodaethau hynny sy'n seiliedig ar ddeddfwriaeth ddatganoledig ac sy'n neilltuol i Gymru, byddai cael un Tribiwnlys Apêl i Gymru yn gallu helpu i ddatblygu cyfraith achosion gyson a chydlynol ar y lefel apeliadol.

(4) Proffil cyhoeddus. Byddai cael un Tribiwnlys Apêl i Gymru yn rhoi lle mwy amlwg i benderfyniadau tribiwnlysoedd ar y lefel apeliadol. Gallai hynny hybu ymwybyddiaeth o'r system dribiwnlysoedd ymysg cynghorwyr a fyddai wedyn yn gallu darparu gwasanaeth gwell i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd.

(5) Ymatebolrwydd. Un pwynt a wnaed yw y byddai Tribiwnlys Apêl i Gymru yn eistedd yng Nghymru ac y byddai'n ymatebol i anghenion tribiwnlysoedd Cymru, yn cynnwys, os oedd angen, gwrando apeliadau'n brydlon neu fod yn ymwybodol o'r strwythur tribiwnlysoedd cyfan wrth ddyfarnu ar faterion ymarfer neu weithdrefn. Wrth gwrs, mae hyn yn dibynnu ar ddarparu adnoddau ar gyfer tribiwnlys newydd, a bod barnwyr arbenigol ar gael, yn enwedig os yw'r rhan fwyaf o'u gwaith yn yr Uchel Lys neu'r Uwch Dribiwnlys.

4.51 Er hynny, mae rhai anfanteision. Yr anfantais fwyaf yw na fydd digon o achosion o bosib i'w gwneud yn fuddiol sefydlu corff newydd. Os nad oes digon o achosion, nid yw'r buddion o ddatblygu cyfraith achosion gyson yn debygol o gael eu gwireddu.

4.52 Mae hefyd yn bosib y bydd yr ymarferiad yn ymddangos yn artiffisial, yn enwedig os gwrandewir achosion gan farnwyr sydd hefyd yn eistedd yn yr Uwch Dribiwnlys a/neu'r Uchel Lys, ond yn gweithio o dan deitl gwahanol. Gallai hyn fod yn arbennig o wir am apeliadau sy'n mynd i'r Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd) ar hyn o bryd. Mae bron y cyfan o waith y Siambr Tiroedd yng Nghymru yn ymwneud â'i hawdurdodaeth gwrandawiad cyntaf; anaml y ceir apeliadau iddo o TTAC a TEPC.

4.53 Byddwn yn falch o gael barn ymgyngoreion am y ddadl o blaid creu Tribiwnlys Apêl i Gymru fel lle i wrando apeliadau o dribiwnlysoedd Cymreig. Wrth asesu opsiynau ar gyfer llwybrau apêl, bydd rhywfaint o anhawster bob amser wrth gymharu mannau apelio sydd eisoes yn bod ag opsiwn hollol newydd. Mae'n ddigon posib bod amheuon yn codi ynghylch newid llwybrau apêl presennol ac y bydd angen amser ac adnoddau i ymateb i'r amheuon hynny. Os felly, bydd o ddiddordeb i ni gael barn ynghylch a welir unrhyw werth, er hynny, mewn creu Tribiwnlys Apêl i Gymru ar gyfer unrhyw dribiwnlysoedd y cyflwynir dadl o blaid newid eu llwybr apêl ar unwaith. Gallai hefyd fod yn ddewis cyntaf ar gyfer gwrando apeliadau o unrhyw dribiwnlys newydd a

sefydlir yn y dyfodol. A gallai ehangu ymhen amser i gynnwys apeliadau presennol nad ydynt yn addas i fod yn rhan o'i bortffolio ar hyn o bryd, am ba reswm bynnag.

**Cwestiwn Ymgynghori 14.**

4.54 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylai llwybrau apêl o'r tribiwnlysoedd datganoledig fod yn unffurf.

**Cwestiwn Ymgynghori 15.**

4.55 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylai llwybr apêl unffurf, os caiff ei fabwysiadu, fod yn un i:

(1) yr Uwch Dribiwnlys;

(2) y Llys Gweinyddol yng Nghymru; neu

(3) Tribiwnlys Apêl i Gymru a sefydlir o'r newydd.

**Cwestiwn Ymgynghori 16.**

4.56 Os na fabwysiedir llwybr apêl unffurf, rydym yn gofyn am farn ynghylch:

(1) a ddylid pennu un llwybr apêl diofyn, er hynny (er enghraifft ar gyfer tribiwnlysoedd sydd newydd eu creu);

(2) pa lwybr apêl diofyn y dylid ei bennu;

(3) pa dribiwnlysoedd y dylai'r apeliadau ohonynt gael eu gwrando drwy'r llwybr apêl diofyn hwnnw; a

(4) a fyddai modd ychwanegu tribiwnlysoedd yn raddol at y llwybr apêl diofyn.

## Paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion

4.57 Fel yr eglurwyd uchod, mae paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion yn anarferol i'r graddau nad oes llwybr apêl penodedig ar eu cyfer. Yn lle hynny, rhaid i geiswyr wneud cwyn i OGCC neu i Weinidogion Cymru, neu geisio adolygiad barnwrol.

4.58 Ein barn dros dro yw bod hyn yn anfoddhaol. Nid yw OGCC na Gweinidogion Cymru yn gallu ystyried rhinweddau penderfyniad penodol, ac mae adolygiad barnwrol yn broses ddrud, anhygyrch a chymharol araf. Mae hyn yn peri pryder neilltuol gan fod

rhai apeliadau yn erbyn gwaharddiadau a phenderfyniadau ar dderbyn yn cael eu dwyn gan bobl ifanc eu hunain.[233]

4.59 Ein cynnig dros dro ar gyfer paneli apelio gwaharddiadau ysgolion yw y dylid eu cyfuno â Thribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ("TAAAC"), fel y trafodwyd ym mharagraff 3.128 uchod. Felly byddai ceiswyr yn dilyn yr un llwybr apêl â hwnnw ar gyfer achosion presennol yn TAAAC (ar hyn o bryd, yr Uwch Dribiwnlys). Fodd bynnag, byddai defnyddwyr system yr apelau derbyn i ysgolion yn dal i fod heb lwybr apêl penodedig.

4.60 Yn ddelfrydol, byddai llwybr apêl o'r fath yn cynnig arbenigedd yn ogystal â gweithdrefn hygyrch. Byddai angen iddo allu penderfynu ar geisiadau'n gyflym, er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu derbyn lle mewn ysgol ac na tharfir ar eu haddysg. Rydym yn amau bod yr anghenion hyn yn golygu na fyddai llwybr apêl i'r Uwch Dribiwnlys yn un addas. Mae'r anghenion hyn yn mynd yn groes hefyd i'r syniad o greu llwybr apêl i'r Uwch Dribiwnlys gan nad oes ganddo brofiad o ddelio ag apeliadau ar dderbyn plant i ysgolion (er bod ganddo brofiad mwy cyffredinol ym maes addysg).

4.61 Os mai'r ateb a ddewisir ar gyfer tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru yn gyffredinol yw creu Tribiwnlys Apêl i Gymru, yna gallai hynny fod yn ateb yn yr achos hwn. Fel arall, rydym wedi dod i'r farn dros dro bod cyfeirio apeliadau o baneli apelio derbyniadau ysgolion i TAAAC yn un ateb posib.

4.62 Er y gallai ymddangos yn anarferol bod yr un corff yn cynnal gwrandawiadau cyntaf yn ogystal â gwrando achosion apeliadol, mae cynsail i hyn (er enghraifft, mae'r Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd) yn gwrando'r ddau fath o achos). Mae gan TAAAC nifer o rinweddau hefyd sy'n ei wneud yn opsiwn deniadol. Mae ganddo brofiad ymarferol o ysgolion ac addysg, ac mae wedi arfer ag eistedd yn lleol. Fel tribiwnlys, mae'n gymharol hygyrch i ddefnyddwyr. Mae hefyd wedi ystyried ffyrdd i'w gwneud yn haws i bobl ifanc wneud ceisiadau iddo eu hunain.

4.63 Ein barn dros dro yw y dylai TAAAC wrando apeliadau sy'n ymwneud â phwyntiau ffeithiol a chyfreithiol. Rhaid ystyried hefyd sut y dylid trin apeliadau yn erbyn penderfyniadau apeliadol TAAAC. Yn dechnegol, byddai'r rhain yn "ail apeliadau". Felly a ddylid cyfyngu arnynt drwy gymhwyso'r prawf ail apêl a ddisgrifiwyd uchod ym mharagraffau 4.16 i 4.19? Hynny yw, a ddylid eu caniatáu dim ond lle maent yn codi mater pwysig o ran egwyddor neu ymarfer? Rydym yn gofyn am farn ar y cwestiwn hwn.

233 Gall person ifanc herio penderfyniad ar ei dderbyn i chweched dosbarth: gweler Llywodraeth Cymru, *Y cod apelau derbyn i ysgolion* (2013). Ar gael yn https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/y-cod-apelau-derbyn-i-ysgolion.pdf, paragraff 3.8. Mae dysgwyr 11 mlwydd oed a hŷn hefyd yn gallu herio penderfyniad i'w gwahardd: gweler Llywodraeth Cymru, *Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion* (Tachwedd 2019). Ar gael yn https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-11/gwahardd-o-ysgolion-unedau-cyfeirio-disgyblion.pdf, tt 5 a 6.

**Cwestiwn Ymgynghori 17.**

4.64 Rydym yn gofyn am farn ynghylch

(1) a ddylid cyfeirio apeliadau o baneli apelio derbyniadau ysgolion i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru; a

(2) os dylid, ar ba seiliau y dylai ceiswyr allu apelio.

**Cwestiwn Ymgynghori 18.**

4.65 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylai apeliadau a gyfeirir ymlaen o Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru sy'n ymwneud â phenderfyniadau paneli apelio derbyniadau ysgolion fod yn gyfyngedig i achosion sy'n codi pwynt pwysig o egwyddor neu ymarfer, neu achosion lle mae rheswm cryf arall dros wrando'r apêl.

### Tribiwnlys Prisio Cymru

4.66 Fel yr eglurwyd uchod, gwneir apeliadau o TPC un ai i'r Uchel Lys, ar bwynt cyfreithiol (yn achos apeliadau ar y dreth gyngor) neu i'r Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd), ar gyfer apeliadau ar ardrethi annomestig.[234] Mae'r gwahaniaeth hwn mewn llwybrau apêl yn debyg i'r sefyllfa yn Lloegr, lle gwneir apeliadau yn erbyn penderfyniadau ar ardrethi busnes i'r Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd); gellir cael adolygiad barnwrol o benderfyniadau ar y dreth gyngor yn yr Uchel Lys.

4.67 Yn yr Alban, mae Pwyllgorau Apeliadau Prisio hefyd yn gwrando achosion ar ardrethi annomestig a'r dreth gyngor. Ar hyn o bryd, cyfeirir apeliadau i'r Llys Apêl Prisio Tiroedd (ar gyfer achosion ar ardrethi) ac i Lys y Sesiwn (ar gyfer apeliadau ar y dreth gyngor). Fodd bynnag, rhestrwyd y pwyllgorau hyn ar gyfer eu trosglwyddo i'r system unedig newydd yn Neddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014,[235] ac mae disgwyl iddynt gael eu trosglwyddo i'r tribiwnlys yn Ebrill 2022.[236]

4.68 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylid cael llwybr apêl unffurf o TPC.

---

234 Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru OS 2010 Rhif 713 (Cy 69), rheoliad 44(1) a Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Cymru) OS 2005 Rhif 758 (Cy 63), rheoliad 37.

235 Deddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014, Atodlen 1, rhan 1.

236 Llywydd Tribiwnlysoedd yr Alban, *Annual report on Scottish Tribunals 2018 – 2019*, t 14.

**Cwestiwn Ymgynghori 19.**

4.69 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylid cael un llwybr apêl o Dribiwnlys Prisio Cymru ar gyfer apeliadau ar ardrethi a'r dreth gyngor ac, os dylid, pa lwybr apêl y dylid ei bennu.

### Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru

4.70 Roedd y tabl cyntaf uchod yn dangos anghysonder o ran TEPC. Mae'n ofynnol cael caniatâd ar gyfer apeliadau o dribiwnlysoedd eiddo preswyl a thribiwnlysoedd prisio lesddaliadau, ond nid ar gyfer apeliadau o bwyllgorau asesu rhenti.[237] Mae'n bosib mai'r rheswm am hyn yw bod apeliadau o bwyllgorau asesu rhenti yn gyfyngedig i apeliadau ar bwynt cyfreithiol, yn wahanol i apeliadau o'r tribiwnlysoedd eiddo preswyl a'r tribiwnlysoedd prisio lesddaliadau. Rydym yn cynnig dros dro y dylai fod yn ofynnol cael caniatâd gan TEPC neu gan y corff apeliadol ar gyfer yr holl apeliadau.

**Cwestiwn Ymgynghori 20.**

4.71 Rydym yn cynnig dros dro y dylai apeliadau o bwyllgorau asesu rhenti ddod o dan yr un rheolau ar ganiatâd i apelio â'r rheini ar gyfer y tribiwnlysoedd eraill sy'n rhan o Dribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

[237] Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Gweithdrefn) (Cymru) OS 2004 Rhif 681 (Cy 69), rheoliad 20 a Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) OS 2016 Rhif 1110 (Cy 267), rheoliad 37.

# Chapter 5: Rheolau Gweithdrefnol

## CYFLWYNIAD

5.1 Mae'r rheolau gweithdrefnol ar gyfer y tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru yn rhai anghyson, cymhleth a hen ffasiwn. Mae nifer ohonynt yn seiliedig ar ddeddfwriaeth cyn datganoli, rhai ohonynt yn dyddio o'r 1970au a heb eu bwriadu ar gyfer Cymru nac ar gyfer arferion tribiwnlysoedd modern. Mae hyn yn peri problem i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd, sy'n ei chael yn anodd deall y rheolau. Mae hefyd yn broblem i aelodau tribiwnlysoedd. Nid oes pwerau modern gan farnwyr ar gyfer rheoli achosion, fel bod terfyn ar eu gallu i ymateb er mwyn llywio'r achosion sy'n dod o'u blaen. [238] Gellir cael apeliadau diangen hefyd oherwydd diffyg eglurder yn y rheolau.

5.2 Yn y bennod hon, rydym yn edrych ar rai o'r problemau cyffredin o ran y rheolau, sy'n dangos y diffygion a ddisgrifiwyd uchod. Rydym hefyd yn cynnig rhai awgrymiadau ar gyfer eu gwella. Trafodir y graddau y gallai fod yn bosib safoni'r rheolau rhwng y tribiwnlysoedd datganoledig, neu hyd yn oed eu cyfuno i wneud un set o reolau, ac edrychir ar y manteision a'r anfanteision o wneud hynny. Nid ydym yn cynnig un set o reolau, nac yn cynnig eu safoni'n llwyr, ond gwneir rhai cynigion ynghylch meysydd lle gallai safoni fod yn fuddiol.

5.3 Ar ddiwedd y bennod, ystyrir materion strwythurol pwysig. Yn gyntaf, pwy a ddylai fod yn gyfrifol am wneud y rheolau i dribiwnlysoedd? Ar hyn o bryd, mae Gweinidogion Cymru yn chwarae rhan bwysig wrth wneud y rheolau, ac ychydig o fewnbwn a geir gan farnwyr. Yn ail, ar ôl gwella'r rheolau, sut y gallwn sicrhau eu bod yn parhau i gael eu cynnal a'u bod yn ymateb i anghenion defnyddwyr tribiwnlysoedd wrth iddynt ddatblygu? Rydym yn dod i'r casgliad dros dro y byddai pwyllgor gweithdrefnau tribiwnlysoedd yn gallu chwarae rhan allweddol wrth gysoni a chynnal y rheolau gweithdrefnol.

5.4 Mae'r bennod yn nodi nifer o enghreifftiau sy'n dangos lle mae rheolau'n anghyson, wedi dyddio, neu'r ddau, gan nodi lle mae arweinwyr barnwrol a rhanddeiliaid eraill wedi tynnu sylw at faterion sydd wedi peri problemau iddynt wrth ymarfer. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith manwl o ddrafftio rheolau tribiwnlysoedd yn dod o fewn cwmpas y prosiect hwn; rydym yn gwneud nifer bach o gynigion dros dro yn unig ynghylch nodweddion penodol y gellid eu cael mewn rheolau diwygiedig.

## SUT Y GWNEIR RHEOLAU GWEITHDREFNOL?

5.5 Yn gyffredinol, mae'r pŵer i wneud rheolau gweithdrefnol i'r tribiwnlysoedd datganoledig yn perthyn i Weinidogion Cymru.[239] Y ddau eithriad yw Tribiwnlys y

---

238 Er enghraifft, nid yw rheolau gweithdrefnol Panel Dyfarnu Cymru yn cynnwys pŵer i wneud gorchmynion i gyfyngu gohebu a allai fod yn angenrheidiol i wahardd gohebu am wybodaeth sensitif, fel hunaniaeth y rheini sydd wedi dioddef oherwydd camymddwyn honedig.

239 O'r blaen, roedd y pŵer i wneud rheolau gweithdrefnol yn perthyn i'r Arglwydd Ganghellor. Fodd bynnag, mae'r swyddogaethau wedi cael eu datganoli'n raddol. Yn achos rhai tribiwnlysoedd, yn cynnwys paneli

Gymraeg ("TG") a thribiwnlysoedd apêl Panel Dyfarnu Cymru ("PDC"); mae pŵer gan Lywyddion y tribiwnlysoedd hynny i wneud rheolau gweithdrefnol, ar ôl cael cymeradwyaeth gan neu ymgynghoriad â Gweinidogion Cymru.[240]

5.6 Mae'r deddfau perthnasol yn cyfeirio mewn gwahanol dermau at y pŵer i wneud "rheolau",[241] "rheoliadau",[242] "darpariaeth ar gyfer y weithdrefn"[243] a "rheoliadau gweithdrefn".[244] Er gwaethaf y diffyg cysondeb yn y termau hyn, mae rheolau gweithdrefnol yn cael eu gwneud fel arfer ar ffurf is-ddeddfwriaeth, sy'n cynnwys rheoliadau, rheolau a gorchmynion. Mae pŵer hefyd gan Weinidogion Cymru i ddyroddi cod ymarfer ar dderbyn i ysgolion a chanllawiau ar wahardd o ysgolion. Mae dyletswydd statudol ar baneli apelio derbyniadau ysgolion i weithredu'n unol â'r cod, a rhaid i baneli apelio gwaharddiadau ysgolion roi sylw i'r canllawiau.[245]

5.7 Yn hanesyddol, roedd yn ofynnol bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu Weinidogion Cymru yn ymgynghori â'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd neu ei ragflaenydd, y Cyngor ar Dribiwnlysoedd (y ddau bellach wedi'u diddymu), cyn gwneud rheolau gweithdrefnol i'r tribiwnlysoedd datganoledig. Mae rhaglithiau'r rheolau gweithdrefnol a wnaed cyn diddymu'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yn 2013 yn dal i gynnwys cyfeiriadau at y corff a oedd yn bodoli ar adeg gwneud y rheolau.

### Cyfarwyddiadau ymarfer

5.8 Mae Deddf Cymru 2017 ("Deddf 2017") yn rhoi pŵer cyffredinol i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru ("LITC") i roi cyfarwyddiadau o ran yr arferion a'r gweithdrefnau

---

apelio derbyniadau ysgolion a Thribiwnlys Prisio Cymru, roedd y pŵer i wneud rheolau gweithdrefnol wedi'i drosglwyddo'n gyntaf i Gynlluniad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) OS 1999 Rhif 672 ("Gorchymyn 1999"), cyn ei drosglwyddo i Weinidogion Cymru yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 11, paragraff 30(d) ("DLlC 2006"). Ar gyfer tribiwnlysoedd eraill sef, yn benodol, Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru a'r Tribiwnlys Tir Amaethyddol, trosglwyddwyd y pŵer i wneud rheolau gweithdrefnol o'r Arglwydd Ganghellor i Weinidogion Cymru gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) 2018 Rhif 644. Roedd Atodlen 1, paragraff 5(a) i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 anaw 2, wedi dileu'r gofyniad i reolau gweithdrefnol Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru gael eu cymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

240 Mae gofyn am ymghyngoriad gyda thribiwnlysoedd apêl PDC, lle mai sêl bendith sydd angen ar TG. Gweler Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 NAWM 1, a 123 a Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) OS 2001 Rhif 2281 (Cy 171), rheoliad 11(5).

241 Ee, Deddf Iechyd Meddwl 1983, a 78 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 nawm 1, a 123.

242 Ee, Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, Atodlen 11, paragraff 8(1), Deddf Addysg 1996, a 336, a Deddf Llywodraeth Leol 2000, a 77(4).

243 Deddf Amaethyddiaeth 1947, a 73(3).

244 Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002, Atodlen 12.

245 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, a 84(3), Deddf Addysg 2002, a 52(4)(b) a Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) OS 2003 Rhif 3227 (Cy 308), rheoliad 8(2). O'r blaen, roedd y pŵer i ddyroddi cod ymarfer yn perthyn i'r Ysgrifennydd Gwladol, ond trosglwyddwyd y pŵer hwnnw i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Gorchymyn 1999, ac yn ddiweddarach i Weinidogion Cymru yn unol â DLlC 2006, Atodlen 11, paragraff 30(2)(d). Trosglwyddwyd y pŵer i wneud canllawiau yn Neddf Addysg 2002, a 54(2)(b) o'r Cynulliad Cenedlaethol i Weinidogion Cymru yn unol â DLlC 2006, Atodlen 11, paragraff 30(2)(d).

i’w dilyn gan y tribiwnlysoedd Cymreig a restrir yn adran 59(1) (“y tribiwnlysoedd adran 59”).[246] Cyn rhoi cyfarwyddiadau, rhaid i LITC ymgynghori ag arweinydd barnwrol y tribiwnlys y mae’r cyfarwyddyd yn ymwneud ag ef.[247]

5.9 Mae pŵer penodol hefyd gan gadeirydd neu lywydd tribiwnlys adran 59 i roi cyfarwyddiadau o ran arferion a gweithdrefnau yn ei dribiwnlys.[248] Cyn iddo roi cyfarwyddiadau, rhaid iddo ymgynghori â LITC.[249]

5.10 Rhaid i unrhyw gyfarwyddyd gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru, oni bai ei fod yn cynnwys canllawiau ynghylch cymhwyso neu ddehongli’r gyfraith neu wneud penderfyniadau gan aelodau’r tribiwnlysoedd, neu’n cynnwys meini prawf ar gyfer pennu pa aelodau o’r tribiwnlys y gellir eu dewis i benderfynu ar gategorïau pwnc penodol.[250]

5.11 Nid oes pŵer i wneud cyfarwyddiadau ymarfer yn rheolau gweithdrefnol Tribiwnlys Prisio Cymru (“TPC”), paneli apelio derbyniadau ysgolion a phaneli apelio gwaharddiadau ysgolion, sydd heb eu rhestru yn adran 59 o Ddeddf 2017.[251] Yn lle hynny, mae Tribiwnlys Prisio Cymru yn dyroddi protocolau arferion gorau.

## PROBLEMAU CYFFREDIN AR DRAWS Y TRIBIWNLYSOEDD DATGANOLEDIG

5.12 O ganlyniad i ddamweiniau hanesyddol a’r trefniadau datganoledig mwyfwy cymhleth, mae’r rheolau gweithdrefnol ar draws y tribiwnlysoedd datganoledig yn anghyson, ac, mewn llawer man, wedi dyddio. Mae cysylltiad rhwng y ddau fater hyn; mae anghysondeb wedi codi’n aml am fod rhai rheolau heb gael eu diweddaru ers cryn amser. Rydym yn trafod rhai enghreifftiau penodol isod. Yn yr adran hon, rydym yn gwneud cynigion dros dro ynghylch prif amcan, dyletswydd i gydweithredu â’r tribiwnlys, cyflwyno dogfennau a phŵer y tribiwnlys i adolygu ei benderfyniadau. Mae adran ar wahân wedyn ar wrandawiadau o bell.

### Materion penodol mewn rheolau gweithdrefnol

#### Prif amcan

5.13 Mae prif amcan wedi’i nodi yn rheolau gweithdrefnol Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (“TAIMC”), Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (“TAAAC”), tribiwnlysoedd eiddo preswyl sy’n rhan o Dribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru (“TEPC”) a TG. Er bod pob prif amcan yn wahanol o ran ei eiriad, mae gofyniad ym mhob un am ddelio ag apeliadau a hawliadau mewn ffordd deg a chyfiawn.[252] Yn

---

246 Deddf Cymru 2017, a 61(1).

247 Fel uchod, a 61(7).

248 Fel uchod, a 61(2).

249 Fel uchod, a 61(8).

250 Fel uchod, aa 61(5) a (6). Rhaid ymgynghori â Gweinidogion Cymru ynghylch meini prawf i bennu categorïau pwnc i’w penderfynu gan aelodau.

251 Gweler paragraffau 2.56 i 2.61 uchod.

252 Ceir un enghraifft o amrywiad yn Rheolau Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru OS 2008, rheol 3 sy’n datgan mai prif amcan y rheolau yw galluogi’r tribiwnlys i ddelio ag achosion fel a ganlyn: “fairly, justly, efficiently and expeditiously.”

gyffredinol, nid yw rheolau gweithdrefnol yn rhoi diffiniad cynhwysfawr o'r hyn y mae delio ag achosion yn deg a chyfiawn yn ei olygu. Rhai enghreifftiau yw:

(1) delio ag achosion mewn ffyrdd sy'n gymesur â phwysigrwydd yr achos, cymhlethdod y materion dan sylw a'r costau disgwyliedig ac adnoddau'r partïon a'r tribiwnlys;[253]

(2) osgoi ffurfioldeb diangen;[254]

(3) sicrhau bod partïon yn gallu cymryd rhan yn llawn yn yr achos;[255]

(4) sicrhau bod y tribiwnlys yn defnyddio ei arbenigedd yn effeithiol;[256] a

(5) trin ieithoedd y tribiwnlys yn gyfartal.[257]

5.14 Rhaid i'r tribiwnlysoedd (neu, yn achos TAAAC, y Llywydd neu banel tribiwnlys) geisio cyflawni'r prif amcan wrth arfer unrhyw swyddogaeth o dan y rheolau gweithdrefnol neu ddehongli unrhyw reol weithdrefnol.

5.15 Mae'r prif amcanion sydd yn rheolau gweithdrefnol y tribiwnlysoedd datganoledig yn benthyca agweddau ar y prif amcan a geir yn Rhan 1 o'r Rheolau Trefniadaeth Sifil, sy'n gymwys i lysoedd yng Nghymru a Lloegr.[258] Cyflwynwyd y prif amcan ym 1999, yn dilyn adroddiad yr Arglwydd Woolf "Access to Justice". Yn yr adroddiad, eglurodd yr Arglwydd Woolf fod y prif amcan yn ymgorffori "the principles of equality, economy, proportionality and expedition which are fundamental to an effective contemporary system of justice."[259]

5.16 Y rheolau gweithdrefnol nad ydynt yn cynnwys prif amcan yw'r rheini ar gyfer Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru ("TTAC"), PDC, TPC, paneli apelio derbyniadau ysgolion, paneli apelio gwaharddiadau ysgolion, tribiwnlysoedd prisio lesddaliadau a

---

253 Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru OS 2012 Rhif 322 (Cy 53) ("rheoliadau TAAAC"), rheoliad 6(2)(a); Rheolau Tribiwnlys y Gymraeg OS 2015 Rhif 1028 (Cy 76) ("rheolau TG"), rheol 3(2)(a); Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) OS 2016 Rhif 1110 (Cy 267) ("rheoliadau TEPC"), rheoliad 3(2)(a); a Rheolau Gweithdrefn y Tribiwnlys (Tribiwnlys yr Haen Gyntaf) (Siambr Hawliau Cymdeithasol) 2008 Rhif 2685, rheol 2(2)(a).

254 Rheolau TAIMC rheol 3(2)(a); Rheoliadau TAAAC, rheoliad 6(2)(b); a Rheolau TG rheol 3(2)(b). Mae Rheolau TAIMC yn datgan hefyd fod hyn yn cynnwys "seeking flexibility in the proceedings".

255 Rheolau TAIMC rheol 3(2)(b); Rheoliadau TAAAC rheoliad 6(2)(c); Rheolau TG rheol (2)(c); a Rheoliadau TEPC , rheoliad 3(2)(b).

256 Rheolau TAIMC, rheol 3(2)(c); Rheoliadau TAAAC rheoliad 6(2)(d); Rheolau Tribiwnlys y Gymraeg OS 2015 Rhif 1028 (Cy 76), rheol 3(2)(e); a Rheoliadau TEPC rheoliad 3(2)(d).

257 Rheolau TG rheol 3(2)(d).

258 Rheolau Trefniadaeth Sifil , rh 1.1.

259 Yr Arglwydd Woolf, *Access to Justice* (1996), adran 1 paragraff 8. Ar gael yn https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20060214041452/http://www.dca.gov.uk/civil/final/overview.htm.

phwyllgorau asesu rhenti (sy'n rhan o TEPC).[260] Diweddarwyd rheolau TTAC yn 2007, ond nid oes cyfeiriad ynddynt at brif amcan.

5.17 Fel y mae yr Athro Kris Gledhill wedi nodi:

> The inclusion of the overriding objective is an example of a trend in the way that statute law is structured, making use of statements of principle to guide exercises of discretion.[261]

5.18 Ein cynnig dros dro yw y dylid cynnwys prif amcan yn rheolau gweithdrefnol yr holl dribiwnlysoedd datganoledig. Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylid cynnwys enghreifftiau gyda'r prif amcan (fel yr enghreifftiau ym mharagraff 5.13 uchod), ac os dylid, pa enghreifftiau y dylid eu cynnwys.

**Cwestiwn Ymgynghori 21.**

5.19 Rydym yn cynnig dros dro y dylid cynnwys prif amcan yn rheolau gweithdrefnol y tribiwnlysoedd datganoledig.

Ydych chi'n cytuno?

**Cwestiwn Ymgynghori 22.**

5.20 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylid cynnwys rhestr o enghreifftiau esboniadol gyda phrif amcan newydd ac, os dylid, pa enghreifftiau y dylid eu cynnwys.

## Dyletswyddau i gydweithredu a chynorthwyo'r tribiwnlys

5.21 Mae'r rheolau gweithdrefnol sy'n cynnwys prif amcan, ar wahân i'r rheini ar gyfer TAIMC, hefyd yn darparu bod dyletswydd ar y partïon i gydweithredu â'i gilydd a'r tribiwnlys. Fodd bynnag, mae cyfarwyddyd ymarfer sy'n dyddio o Hydref 2019 yn darparu bod dyletswydd ar unrhyw berson sy'n darparu neu'n crybwyll tystiolaeth i TAIMC i gynorthwyo'r tribiwnlys i gyflawni'r prif amcan yn rheolau TAIMC.[262]

---

260 Fodd bynnag, mae paragraff 1.9 o'r Cod apelau derbyn i ysgolion, Llywodraeth Cymru, rhif dogfen Cod Statudol 007/2013 (Rhagfyr 2013) yn pennu "amcanion sylfaenol" paneli derbyn, sy'n cynnwys: darparu fforwm annibynnol, diduedd ond anffurfiol i'r rhieni ac i'r awdurdod derbyn dan sylw fel y gallant gyflwyno'u hachos ill dau gan deimlo'n hyderus y cânt wrandawiad teg; sicrhau bod y paneli apêl yn pwyso a mesur yn ofalus ac yn wrthrychol yr holl dystiolaeth a gyflwynir iddynt cyn penderfynu'n derfynol ynglŷn â'r apêl, a darparu system sy'n glir, yn gyson ac mor rhwydd i'w deall ag y bo modd i bawb sy'n ymwneud â hi.

261 K Gledhill, "Evolution Rather than Revolution" yn *Tribunals* (Autumn 2009), t 13. Ar gael yn https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/JCO/Documents/Training/jsb_tribunals_autumn_2009.pdf.

262 Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, Cyfarwyddyd Ymarfer (Hydref 2019). Ar gael yn https://mentalhealthreviewtribunal.gov.wales/sites/mentalhealthreview/files/2019-12/MHRT%20Practice%20Direction%20Oct%202019.pdf.

5.22 Gall parti wynebu canlyniadau anffafriol os na fydd yn cydymffurfio â'r ddyletswydd i gydweithredu. Er enghraifft, yn achos *Hertsmere Primary Care Trust v Rabindra-Anandh* nododd Mr Ustus Lightman:

> [Civil Procedure Rule] 1.4 provides that the court must further the overriding objective by actively case managing cases and active case management includes encouraging the parties to cooperate with each other in the conduct of the proceedings. In my view the Estate was duty bound to cooperate with the Claimants and this duty obliged the Estate to provide the information requested…. I should add that in any event the failure to do so must constitute conduct which can and should be taken into account in exercise of the court's discretion under CPR 44.5 whether to assess costs on an indemnity basis.[263]

5.23 Mae Edward Jacobs yn nodi ymhellach fod y ddyletswydd i gydweithredu'n effeithio ar y ffordd o bennu cyfrifoldeb y partïon dros ddangos tystiolaeth a'r ffordd y mae'r tribiwnlys yn delio â'r baich profi ar sail y dystiolaeth a ddangoswyd.[264] Er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y tribiwnlysoedd datganoledig a helpu barnwyr tribiwnlysoedd i hyrwyddo'r prif amcan, rydym wedi dod i'r farn dros dro y dylai rheolau tribiwnlysoedd datganoledig osod, lle y bo'n briodol, ddyletswydd i gydweithredu ar y partïon. Rydym yn gofyn am farn ynghylch a yw dyletswydd o'r fath yn briodol yn achos TAIMC.

**Cwestiwn Ymgynghori 23.**

5.24 Rydym yn cynnig dros dro y dylai rheolau tribiwnlysoedd datganoledig gynnwys, lle y bo'n briodol, ddyletswydd ar y partïon i gydweithredu â'i gilydd a'r tribiwnlys.

Ydych chi'n cytuno?

5.25 A yw dyletswydd o'r fath yn briodol yn achos Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru?

## Cyflwyno dogfennau

5.26 Ar draws y tribiwnlysoedd datganoledig, mae'r rheolau ar gyflwyno dogfennau yn anghyson ac wedi dyddio. Rydym yn deall bod problemau wedi codi lle nad oes darpariaeth ar gyfer cyflwyno "tybiedig", neu lle nad yw'n glir a yw dogfennau o'r tribiwnlys wedi'u derbyn yng nghyfeiriad cofrestredig cwmni.[265]

---

263 *Hertsmere Primary Care Trust v Rabindra-Anandh* [2005] EWHC 320 (Ch), [2005] 3 All ER 274 yn [11]. Mae'r rheolau gweithdrefnol ar gyfer TTAC, PDC, tribiwnlysoedd prisio lesddaliadau, tribiwnlys eiddo preswyl, TAAAC a TG yn darparu ar gyfer dyfarnu costau mewn gwahanol amgylchiadau.

264 E Jacobs, *Tribunal Practice and Procedure* (5ed argraffiad, 2019) paragraff 1.89.

265 Gweler Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru, *Evans v Bodorgan Properties (CI) Limited* ALT 06/2017.

5.27 Dim ond y rheolau ar gyfer TAAAC, TPC a thribiwnlysoedd eiddo preswyl sy'n datgan yn benodol y gellir anfon dogfennau drwy'r e-bost.[266] Ceir datganiadau amrywiol mewn rheolau eraill (wedi'u dangos mewn teip italaidd), sy'n ymddangos eu bod yn caniatáu anfon dogfennau drwy'r e-bost.

(1) Mae rheolau TAIMC yn darparu y gellir anfon dogfennau drwy'r post, drwy drosglwyddo ffacsimile ("ffacs") *neu unrhyw ddull arall y gall y Tribiwnlys ei ganiatáu*.[267]

(2) Mae rheolau PDC yn darparu y gellir anfon dogfennau drwy ffacs neu *unrhyw ddull arall sy'n cynhyrchu dogfen sy'n cynnwys testun y cyfathrebiad*.[268]

(3) Mae rheolau TTAC yn darparu y gellir anfon dogfennau drwy ffacs *neu ddull cyfathrebu electronig arall sy'n cynhyrchu testun a geir ar ffurf ddarllenadwy*.[269]

(4) Mae rheolau tribiwnlysoedd prisio lesddaliadau yn darparu y gellir cyflwyno dogfennau drwy ffacs neu *ddull cyfathrebu electronig arall sy'n cynhyrchu testun y ddogfen*.[270]

5.28 Nid yw'r rheolau ar gyfer pwyllgorau asesu rhenti, a gyflwynwyd ym 1971, yn cyfeirio at unrhyw ddull cyfathrebu electronig, fel y gellid disgwyl. Rhoddwyd cyfarwyddyd ymarfer gan TEPC yn ystod y pandemig COVID-19, sy'n rhoi caniatâd penodol i bartïon anfon dogfennau drwy'r e-bost.[271]

5.29 Nid oes sôn am y dull cyflwyno yn rheolau paneli apelio derbyniadau ysgolion a rheolau paneli apelio gwaharddiadau ysgolion. Er hynny, mae paragraff 4.22 o'r cod derbyn yn datgan bod awdurdod derbyn i ysgolion yn gallu anfon dogfennau drwy'r e-bost at glerc y panel apelio a'r apelydd os yw'r holl bartïon yn cytuno.

5.30 Yn ein barn ni, mae'r anghysonderau rhwng y rheolau ar gyflwyno dogfennau ac, mewn mannau, y diffygion sydd ynddynt, yn dangos bod angen i reolau gweithdrefnol y tribiwnlysoedd datganoledig gael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r pandemig COVID-19 a'r duedd gyffredinol at gynnal gwrandawiadau o bell hefyd wedi dangos mor bwysig yw diweddaru'r rheolau a galluogi partïon i gyflwyno dogfennau drwy ddulliau electronig.

---

266 Mae Rheoliadau TAAAC, rheoliad 79(2)(c); Rheoliadau TPC, rheoliad 46(5); Rheoliadau TPEC, rheoliad 39 yn darparu na ellir anfon dogfen heblaw drwy ffacs, e-bost neu gyfathrebiad electronig arall oni bai fod y person sy'n cael y ddogfen yn darparu cydsyniad ysgrifenedig.

267 Rheolau TAIMC, rheol 9(1).

268 Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) OS 2001 Rhif 2288 (Cy 176), rheoliad 24(b).

269 Gorchymyn Tribiwnlysoedd Tir Amaethyddol (Rheolau) OS 2007 Rhif 3105, rheol 49(b).

270 Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Gweithdrefn) (Cymru) OS 2004 Rhif 681 (Cy 69), rheoliad 23(c)(ii).

271 Cyfarwyddyd Ymarfer Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru, *Corona Virus (COVID-19)*, paragraff 6 (22 Mehefin 2020). Ar gael yn https://residentialpropertytribunal.gov.wales/sites/residentialproperty/files/2020-07/RPT-CV19-practice-direction_0.pdf.

**Cwestiwn Ymgynghori 24.**

5.31 Rydym yn cynnig dros dro y dylai rheolau gweithdrefnol y tribiwnlysoedd datganoledig ddarparu ar gyfer cyflwyno dogfennau drwy ddulliau electronig.

Ydych chi'n cytuno?

### Pŵer i adolygu neu gywiro llithriadau mewn penderfyniadau

5.32 Mae pŵer gan nifer o'r tribiwnlysoedd datganoledig i adolygu eu penderfyniadau, un ai ar gais gan barti neu ar eu menter eu hunain, ar sail benodedig. Er enghraifft, mae rheolau TAAAC yn darparu bod Llywydd y tribiwnlys neu banel tribiwnlys yn gallu adolygu penderfyniad, gosod penderfyniad o'r naill du neu amrywio penderfyniad:

(1) os cafodd y penderfyniad ei wneud ar gam o ganlyniad i wall sylweddol ar ran gweinyddiaeth y tribiwnlys;

(2) os oedd parti, a oedd â hawl i gael ei wrando yn y gwrandawiad ond a oedd wedi methu ag ymddangos neu gael ei gynrychioli, wedi bod â rheswm da a digonol dros fethu ag ymddangos;

(3) os oedd gwall amlwg a sylweddol yn y penderfyniad; neu

(4) os oes angen hynny er mwyn gwneud cyfiawnder.[272]

5.33 Mae anghysondeb hefyd rhwng rheolau gweithdrefnol y tribiwnlysoedd o ran y seiliau dros adolygu. Mae TTAC hefyd yn gallu adolygu, gosod o'r neilltu neu amrywio penderfyniad, ond ar seiliau gwahanol i'r rheini a ddarperir yn rheolau TAAAC. Gall TTAC adolygu, gosod o'r neilltu neu amrywio penderfyniad os yw wedi'i fodloni:

(1) bod y penderfyniad yn cynnwys camgymeriad neu wall clercio sy'n codi o lithriad neu hepgoriad damweiniol neu'n cynnwys amwysedd y dylid ei egluro neu ei ddileu;

(2) y dylai'r tribiwnlys wneud gorchymyn neu gyfarwyddyd ychwanegol sy'n ymwneud â mater a gyflwynwyd i'r tribiwnlys ond a oedd heb ei drafod yn ei benderfyniad neu sy'n ganlyniadol i'w benderfyniad;

(3) bod parti, a oedd â hawl i gael ei wrando yn y gwrandawiad ond a oedd wedi methu ag ymddangos neu gael ei gynrychioli, wedi bod â rheswm da a digonol dros fethu ag ymddangos; neu

---

272 Rheoliadau TAAAC, rheoliad 56 (1) (d).

(4) bod tystiolaeth newydd, sy’n ymwneud â’r penderfyniad, wedi dod i law ers diwedd yr achos ac na fuasai’n rhesymol rhag-weld neu wybod am ei bodolaeth cyn hynny.[273]

5.34 Mae rheolau TPC, rheolau TG a’r Cod apelau derbyn i ysgolion hefyd yn darparu y gall y tribiwnlys adolygu penderfyniad ar wahanol seiliau.[274]

5.35 Nid oes darpariaeth yn rheolau TAIMC, rheolau PDC, y tair set o reolau TEPC na rheolau paneli apelio gwaharddiadau ysgolion sy’n galluogi’r tribiwnlys i adolygu ei benderfyniadau. Cawsom ein hysbysu y byddai hyn yn gallu arwain at apeliadau diangen, mewn achosion lle mae’r tribiwnlys ei hun mewn gwell lle i gywiro’r penderfyniad.

**Cwestiwn Ymgynghori 25.**

5.36 Rydym yn cynnig dros dro y dylai tribiwnlysoedd datganoledig gael yr hawl i adolygu eu penderfyniadau.

Ydych chi’n cytuno?

## GWRANDAWIADAU O BELL

### Cyflwyniad

5.37 Mae’r pandemig COVID-19 wedi tarfu’n sylweddol ar wrandawiadau yn y tribiwnlysoedd datganoledig. Mae Uned Tribiwnlysoedd Cymru wedi gweithio’n galed i sicrhau bod modd symud gwrandawiadau ar-lein, gan gytuno â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (“GLITEM”) y gallai’r tribiwnlysoedd adran 59 ddefnyddio’r Cloud Video Platform (“CVP”) a ddefnyddir yn llysoedd a thribiwnlysoedd y DU.[275]

5.38 Mae’r adran hon yn canolbwyntio ar y modd y mae rheolau gweithdrefnol presennol y tribiwnlysoedd yn darparu (neu’n peidio â darparu) ar gyfer gwrandawiadau o bell, ac a ddylai rheolau gweithdrefnol ddarparu pŵer yn benodol i gynnal gwrandawiadau o bell. Mae ymchwil sylweddol i fanteision ac anfanteision gwrandawiadau o bell yn cael ei chynnal gan GLITEM a sefydliadau fel Sefydliad Nuffield, y Sefydliad Addysg

---

273 Gorchymyn Tribiwnlysoedd Tir Amaethyddol (Rheolau) OS 2007 Rhif 3105, rheol 32(1).

274 Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru OS 2010 Rhif 713 (Cy 69), rheoliad 42; Rheolau TG rheol 48; Llywodraeth Cymru, *Y cod apelau derbyn i ysgolion*, (Rhagfyr 2013), paragraff 6.9. Darpariaeth unigryw yw bod yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn gallu argymell bod panel apelio derbyniadau ysgolion yn adolygu ei benderfyniad. Nid yw’n glir pam nad oes darpariaeth debyg yn y canllawiau ar Wahardd.

275 Gellir cysylltu’n uniongyrchol â CVP drwy borwr rhyngrwyd ar gyfrifiadur personol, gliniadur, llechen neu ffôn clyfar. Gellir gweld a chlywed aelodau’r tribiwnlys, yn ogystal â phartïon, eiriolwyr a thystion drwy CVP.

Gyfreithiol a’r Prosiect Cyfraith Gyhoeddus.[276] At hynny, ym Mawrth 2020 roedd GLITEM, drwy gydweithio â Chymdeithas Cyfrifiaduron a’r Gyfraith a Phanel Darparu LawtechUK, wedi lansio Remote Court Worldwide. Pwrpas y gwasanaeth hwn yw darparu llwyfan i farnwyr, cyfreithwyr, swyddogion llys, ymgyfreithwyr a thechnolegwyr llys ledled y byd lle gallant rannu eu profiadau o ddatblygu dulliau gwrando amgen yn lle gwrandawiadau llys traddodiadol.[277]

5.39 Rhai o fanteision gwrandawiadau o bell yw eu bod yn lleihau’r angen i ddefnyddwyr deithio, cymryd amser o’r gwaith a gwneud trefniadau gofal plant. Mae rhai defnyddwyr hefyd yn hoffi’r diffyg ffurfioldeb cymharol, er bod eraill yn ffafrio difrifoldeb y gwrandawiad ffisegol. Ceir anfanteision, er hynny, yn cynnwys diffyg hygyrchedd i rai defnyddwyr, boed hynny oherwydd anabledd, diffyg sgiliau digidol, neu gyswllt band eang gwael. Mae darparu cyfieithu ar y pryd rhwng y Gymraeg a’r Saesneg yn gallu peri anawsterau hefyd.

5.40 Nid ydym yn credu bod asesu a yw gwrandawiadau o bell yn ddymunol at ei gilydd yn fater sydd o fewn cwmpas y prosiect hwn. Yn hytrach, rydym yn eu trafod ar y sail y bydd gwrandawiadau o bell neu rannol o bell yn parhau i gael eu defnyddio ar ôl y pandemig, ac yn ystyried sut y dylid darparu ar eu cyfer mewn rheolau gweithdrefnol presennol. At y dyfodol, mae’r Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd wedi rhag-weld y ceir ‘dulliau cymysg’ o wrandawiadau o bell a gwrandawiadau ffisegol. Yn ei adroddiad blynyddol diweddaraf, mae’n nodi y bydd y cyfnod adfer terfynol ar ôl y pandemig yn cynnwys:

> a new mixed methods approach to each of our jurisdictions, learning from our experiences during the emergency and from existing tribunal practices that have stood the test of time. From first principles, we will design a new tribunals justice system.[278]

5.41 Rydym yn disgrifio isod sut mae’r tribiwnlysoedd datganoledig wedi addasu i wrandawiadau o bell. Wedyn rydym yn cynnig dros dro y dylid cynnwys pŵer â geiriad cyson yn rheolau gweithdrefnol yr holl dribiwnlysoedd datganoledig ar gyfer cynnal gwrandawiadau o bell.

---

276 M Rossner ac M McCurdy, *Video Hearings Process Evaluation (Phase 2) Final Report* (HM Courts and Tribunals Service) (Gorffennaf 2020); Nuffield Family Justice Observatory, *Remote hearings in the family justice system: a rapid consultation* (Ebrill 2020); Nuffield Family Justice Observatory, *Remote hearings in the family justice system: follow-up consultation* (Medi 2020); y Prosiect Cyfraith Gyhoeddus, *Submission to the Justice Committee inquiry on the access to justice impacts of court and tribunal reforms* (Ionawr 2019).

277 Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn https://remotecourts.org/

278 Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd, *Annual Report 2019-2020*, t 7.

### Y ddarpariaeth bresennol ar gyfer gwrandawiadau o bell yn y tribiwnlysoedd datganoledig

#### Y gallu i gynnal gwrandawiadau o bell

5.42 Mae rheolau TAIMC, TAAAC, TG a phaneli apelio derbyniadau ysgolion yn darparu'n benodol y gellir cynnal gwrandawiad, neu ran o wrandawiad, drwy gyswllt fideo neu dros y ffôn. Mae'r rheolau'n mynegi'r ddarpariaeth i ganiatáu defnyddio cyswllt fideo neu ffôn mewn ffyrdd gwahanol:

(1) Mae rheolau TAIMC, TAAAC a TG yn darparu mai ystyr gwrandawiad yw gwrandawiad llafar a'i fod yn cynnwys gwrandawiad a gynhelir yn llwyr neu'n rhannol drwy gyswllt fideo, dros y ffôn neu drwy ddull arall o gyfathrebu electronig dwyffordd ebrwydd.[279]

(2) Mae rheolau TAAAC a TG yn darparu'n benodol fod Llywydd y tribiwnlys, neu'r tribiwnlys ei hun, yn gallu caniatáu i barti neu dyst roi tystiolaeth dros y ffôn, drwy gyswllt fideo neu drwy unrhyw ddull cyfathrebu arall, os yw wedi'i fodloni na fyddai hynny'n amharu ar y gallu i gyflawni prif amcan y Rheoliadau.[280]

(3) Mae'r rheolau ar gyfer tribiwnlysoedd eiddo preswyl yn darparu y gall y tribiwnlys ganiatáu defnyddio ffôn, cyswllt fideo neu unrhyw ddull cyfathrebu arall i gyflwyno sylwadau i'r tribiwnlys neu er mwyn cynnal cynhadledd rheoli achos neu wrandawiad.[281]

(4) Mae'r rheolau ar gyfer apelau derbyn i ysgolion, a ddiwygiwyd mewn ymateb i'r pandemig, yn darparu bod panel apelio yn gallu penderfynu cynnal gwrandawiad apêl drwy fynediad o bell ar yr amod (a) bod y partïon yn gallu cyflwyno eu hachos yn llawn; (b) bod mynediad gan bob cyfranogwr at y dull electronig fel y gall glywed a chael ei glywed ac (os defnyddir cyswllt fideo) gweld a chael ei weld, drwy gydol y gwrandawiad apêl, ac (c) bod y panel yn credu bod modd gwrando'r apêl mewn ffordd deg a thryloyw.[282]

5.43 Ar y llaw arall, yn rheolau gweithdrefnol nifer o'r tribiwnlysoedd datganoledig, nid yw gwrandawiadau o bell wedi'u rhagwahardd yn benodol, ond mae'n ymddangos bod y rheolau wedi'u drafftio gyda golwg ar wrandawiadau ffisegol. Er enghraifft, mae rheolau TTAC yn darparu fel a ganlyn:

---

279 Rheolau TAIMC, rheol 2; Rheoliadau TAAAC rheoliad 2; a Rheolau TG rheol 2. Yn ogystal â hyn, o dan Ddeddf Coronafeirws 2020 Atodlen 8, gall TAIMC benderfynu ar gais heb gynnal gwrandawiad os byddai cynnal gwrandawiad yn anymarferol neu'n achosi oedi annymunol.

280 Rheoliadau TAAAC rheoliad 49 a Rheolau Tribiwnlys y Gymraeg OS 2015 Rhif 1028 (Cy 76), rheol 42.

281 Rheoliadau TEPC, rheoliad 26(c).

282 Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) OS 2020 Rhif 479 (Cy 110), rheoliad 12, yn mewnosod Atodlen 3, paragraff 2 yn Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) OS 2005 Rhif 1398 (Cy 112). Mae rheoliad 6 yn Rheoliadau 2020 hefyd yn mewnosod rheoliad 6 newydd yn Rheoliadau 2005 sy'n darparu mai ystyr mynediad o bell yw "access to an appeal hearing to enable those who are not all present together at the same place to attend or participate simultaneously in the hearing by electronic means, including by live audio link and live video link".

> All hearings by the Tribunal must be in public unless the Tribunal is satisfied that, by reason of disclosure of confidential matters it is just and reasonable to hold the hearing or part of a hearing in private.[283]

5.44 Gwneir darpariaeth debyg yn nhair set reolau TEPC ac yn rheolau PDC.[284] Ym Mehefin 2020 rhoddwyd cyfarwyddyd ymarfer gan Lywydd TEPC a LITC sy'n cyfarwyddo: "where it is not possible to hold public in person hearings, hearings will be held remotely via CVP".[285] Os nad yw unigolyn yn gallu cael mynediad at y rhyngrwyd, gellir cynnal y gwrandawiad dros y ffôn.[286] Mae TTAC hefyd wedi cynnal gwrandawiadau o bell.

5.45 Mae rheolau TPC hefyd yn darparu:

> The hearing must take place in public unless the Appeal Panel otherwise orders on being satisfied that it is in the interests of justice to hold a hearing, or part of a hearing, in private.[287]

5.46 Rydym yn deall bod TPC wedi dehongli ystyr "take place in public" fel ei fod yn golygu bod rhaid i'r panel eistedd gyda'i gilydd yn gorfforol, ond gall partïon fod yn bresennol yn y gwrandawiad o bell drwy gyswllt fideo.

### Y newid i wrandawiadau o bell

5.47 Mae rheolau gweithdrefnol nifer o'r tribiwnlysoedd yn darparu ynghylch a oes rhaid cynnal gwrandawiadau'n gyhoeddus. Mae rheolau TTAC, PDC, TG, TEPC a TPC yn darparu bod rhaid cynnal gwrandawiadau'n gyhoeddus. Lle nad yw rheolau gweithdrefnol yn sôn am wrandawiadau drwy gyswllt fideo neu dros y ffôn, nid ydynt yn rhoi sylw, fel y gellid disgwyl o bosib, i'r ffordd y dylai'r tribiwnlys sicrhau mynediad at y gwrandawiad i'r cyhoedd, os yw'n cael ei gynnal o bell.

5.48 Er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad am wrandawiad cyhoeddus, mae cyfarwyddyd ymarfer TEPC yn darparu y bydd y gwrandawiadau cyhoeddus nesaf yn cael eu rhestru ar wefan TEPC, ac y bydd modd i aelodau'r cyhoedd wneud cais i reolwr busnes neu glerc TEPC i gael mynediad at y gwrandawiad.[288] Credwn fod yr ateb hwn yn un ymarferol. Fodd bynnag, lle i ddim ond 22 o ddefnyddwyr ar y tro sydd ar y CVP

---

283 Gorchymyn Tribiwnlysoedd Tir Amaethyddol (Rheolau) OS 2007 Rhif 3105, rheol 21(1).

284 Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) OS 2001 Rhif 2288 (Cy 176), rheoliad 16; Rheoliadau TPEC, rheoliad 30; Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Gweithdrefn) (Cymru) OS 2004 Rhif 684 (Cy 69), rheoliad 14(6); a Rheoliadau Pwyllgorau Asesu Rhenti (Cymru a Lloegr) OS 1971 Rhif 1065, rheoliad 3(1).

285 *Residential Property Tribunal for Wales Practice Direction; Corona Virus (COVID-19),* paragraff 13 (22 Mehefin 2020). Ar gael yn https://residentialpropertytribunal.gov.wales/sites/residentialproperty/files/2020-07/RPT-CV19-practice-direction_0.pdf.

286 Cyfarwyddyd Ymarfer Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru, *Corona Virus (COVID-19)*, paragraff 14 (22 Mehefin 2020). Ar gael yn https://residentialpropertytribunal.gov.wales/sites/residentialproperty/files/2020-07/RPT-CV19-practice-direction_0.pdf.

287 Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru OS 2010 Rhif 713 (Cy 69), rheoliad 37(3).

288 Cyfarwyddyd Ymarfer Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru, *Corona Virus (COVID-19)*, paragraff 15 (22 Mehefin 2020). Ar gael yn https://residentialpropertytribunal.gov.wales/sites/residentialproperty/files/2020-07/RPT-CV19-practice-direction_0.pdf.

a ddefnyddir yn y tribiwnlysoedd adran 59. Gallai hyn beri problemau os bydd achos o ddiddordeb mawr i'r cyhoedd.

5.49 Rydym hefyd yn derbyn y gall gwrandawiadau o bell fod yn amhriodol ar gyfer rhai tribiwnlysoedd. Er enghraifft, mae TAIMC yn arfer cynnal gwrandawiadau'n breifat mewn ysbytai, fel y gall cleifion fod yn bresennol a chymryd rhan. Mae rhai cleifion heb fynediad at y rhyngrwyd ac felly ni fyddent yn gallu defnyddio'r CVP. Yn achos tribiwnlysoedd eraill, mae'n bosib y bydd rhannau o weithrediadau'r tribiwnlys sy'n anodd eu hatgynhyrchu o bell. Er enghraifft, mae arolygiadau safle yn rhan o weithdrefnau TEPC a TTAC.

### Cynnwys gwrandawiadau o bell yn rheolau gweithdrefnol tribiwnlysoedd

5.50 Yng ngolwg y cynnydd yn y defnydd o wrandawiadau o bell o ganlyniad i'r pandemig COVID-19, credwn fod dadl gref o blaid diweddaru'r rheolau gweithdrefnol ar wrandawiadau o bell. Yn gyson â'n cynnig yng Nghwestiwn Ymgynghori 27 isod rydym yn awgrymu y dylid safoni'r rheolau ar wrandawiadau o bell ar draws y tribiwnlysoedd datganoledig.

**Cwestiwn Ymgynghori 26.**

5.51 Rydym yn cynnig dros dro y dylid safoni'r rheolau ar wrandawiadau o bell yn rheolau gweithdrefnol tribiwnlysoedd datganoledig.

Ydych chi'n cytuno?

## SAFONI RHEOLAU GWEITHDREFNOL TRIBIWNLYSOEDD

5.52 Un ffordd i ddelio ag anghysondeb yw safoni rheolau gweithdrefnol er mwyn lleihau gwahaniaethau diangen ar draws y system. Fodd bynnag, rhaid cydbwyso'r dymuniad am gysondeb ar draws y system â'r angen i sicrhau bod rheolau gweithdrefnol yn adlewyrchu'r gwahanol anghenion yn awdurdodaethau'r tribiwnlysoedd.

5.53 Yn yr adran hon, rydym yn amlinellu'r manteision ac anfanteision posib o safoni rheolau gweithdrefnol. Wedyn rydym yn trafod a ddylid cyfuno'r gwahanol reolau gweithdrefnol i wneud un set o reolau gweithdrefnol sy'n gymwysadwy i'r holl dribiwnlysoedd.

### Manteision safoni

#### Dileu anghysonderau diangen

5.54 O safbwynt technegol, mae anghysondeb diangen rhwng rheolau gweithdrefnol tribiwnlysoedd yn rhywbeth annymunol. Fel y trafodwyd uchod, mae'r rhan fwyaf o reolau gweithdrefnol yn caniatáu cyflwyno dogfennau drwy'r e-bost, ond mae hyn wedi'i fynegi'n wahanol ym mhob set o reolau. Byddai safoni rheolau tribiwnlysoedd yn cynnig cyfle i ddileu'r anghysonderau hynny.

### Hygyrchedd i ddefnyddwyr

5.55 Roedd Adroddiad y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yn 2010 yn argymell bod rheolau gweithdrefnol yn cael eu dyfeisio gan feddwl am anghenion defnyddwyr tribiwnlysoedd. Roedd hyn yn golygu y dylent fod mor fyr, mor glir, mor syml ac mor ddiweddar â phosib.[289]

5.56 Credwn mai un o'r sgil effeithiau posib o safoni fyddai mwy o hygyrchedd i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd. Wrth fynd ati i safoni, byddai angen dadansoddi'r gwahanol reolau gweithdrefnol presennol yn fanwl, gan asesu'r elfennau tebyg a gwahanol sydd ynddynt. Lle mae pwrpas cyffredin i'r gwahanol reolau ar hyn o bryd, ond eu bod wedi'u drafftio'n wahanol, gellid mabwysiadu'r geiriad symlaf.

### Symlrwydd i staff gweinyddol a barnwyr sy'n trosglwyddo rhwng tribiwnlysoedd

5.57 Drwy ddileu gwahaniaethau afresymegol rhwng rheolau gweithdrefnol, dylai fod yn haws gweinyddu achosion mewn gwahanol dribiwnlysoedd neu siambrau gan yr un staff gweinyddol. At hynny, mae nifer o farnwyr yn trosglwyddo rhwng nifer o'r tribiwnlysoedd adran 59. Dywedwyd wrthym, er enghraifft, fod un aelod yn eistedd ar TAIMC, TEPC a PDC. Mae nifer o aelodau eraill yn eistedd ar TEPC ac ar TTAC, neu ar TAIMC ac ar TAAAC. Yn ei Adroddiad Blynyddol cyntaf, eglurodd LITC:

> Mae'n amlwg mai un o brif amcanion [trosglwyddo rhwng tribiwnlysoedd] yw creu cohort o farnwyr ar gyfer Tribiwnlysoedd Cymru a fydd yn gallu defnyddio'u sgiliau barnwrol mewn amrywiol fathau o achosion, gan hybu hyblygrwydd ac effeithlonrwydd sylweddol yn y system.[290]

5.58 Mae'n bosib y byddai safoni rheolau gweithdrefnol yn ffordd i gymell unigolion i ymgeisio i eistedd mewn mwy nag un tribiwnlys datganoledig.

## Anfanteision safoni

### Colli rheolau penodol i dribiwnlysoedd

5.59 Mae'r rhestr o dribiwnlysoedd Cymreig yn Neddf 2017 yn cynnwys ystod eang o awdurdodaethau a phynciau, yn cynnwys iechyd meddwl, anghenion addysgol arbennig, eiddo amaethyddol, draenio tir, eiddo preswyl ac ymddygiad swyddogion etholedig. Mae gwahaniaethau mawr hefyd rhwng anghenion ceiswyr ar draws y tribiwnlysoedd.

---

[289] Cyngor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, *Adolygiad o Dribiwnlysoedd sy'n Gweithredu yng Nghymru* (2010), paragraff 84.

[290] Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, *Adroddiad blynyddol 2018-2019* (2019), t 6.

5.60 Ceir nifer o ddarpariaethau penodol i dribiwnlysoedd na fyddent yn briodol nac yn angenrheidiol yn yr holl dribiwnlysoedd. Er enghraifft:

(1) Mae tair set reolau TEPC a rheolau TTAC yn darparu ar gyfer archwilio'r eiddo y mae'r achos yn ymwneud ag ef, neu'r ardal o'i gwmpas, gan y tribiwnlys.[291]

(2) Mae rheolau TAIMC yn darparu bod rhaid i aelod meddygol y tribiwnlys archwilio'r claf cyn y gwrandawiad neu gymryd y camau sydd eu hangen i ffurfio barn am gyflwr meddyliol y claf.[292]

(3) Mae rheolau TAAAC yn darparu, os mai plentyn yw'r apelydd, fod rhaid iddo gael cyfaill achos i'w helpu i gymryd rhan yn yr achos a'i ddeall.[293]

(4) Mae rheolau PDC yn cynnwys nifer o reolau sy'n rheoleiddio'r berthynas rhwng y tribiwnlys ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.[294]

5.61 Mae'r perygl o safoni rheolau'n ormodol wedi'i nodi o'r blaen. Yn adroddiad Franks, a gyhoeddwyd ym 1957, daethpwyd i'r casgliad bod natur wahaniaethol y tribiwnlysoedd yn y DU yn golygu na ddylid cyfuno rheolau gweithdrefnol tribiwnlysoedd. Mae'r Adroddiad yn datgan:

> Because of the great variety of the purposes for which tribunals are established, however, we do not think it would be appropriate to rely upon either a single code or a small number of codes. We think that there is a case for greater procedural differentiation and prefer that the detailed procedure for each type of tribunal should be designed to meet its particular circumstances. This is not a task which we feel ourselves properly equipped to discharge…[295]

### Gwahaniaethau cynyddol rhwng rheolau tribiwnlysoedd datganoledig a rheolau gweithdrefnol Tribiwnlys yr Haen Gyntaf

5.62 Mae rhai rhanddeiliaid wedi ein hysbysu ei bod yn fanteisiol i reolau gweithdrefnol y tribiwnlysoedd datganoledig fod yn debyg i'r rheini yn Nhribiwnlys yr Haen Gyntaf. Rydym yn derbyn y byddai gwahaniaethau'n gallu dod â chanlyniadau annymunol mewn rhai meysydd. Yn benodol, byddai gwahaniaethau rhwng rheolau gweithdrefnol a fabwysiadwyd gan TAIMC a chan Dribiwnlys yr Haen Gyntaf (Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol) ("IAGC") yn gallu achosi trafferthion i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd. Cafwyd cyfeiriad at y prosiect hwn yn yr Adolygiad Annibynnol o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 a gynhaliwyd yn 2018 lle dywedwyd:

---

291 Rheoliadau TEPC, rheoliad 23; Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Gweithdrefn) (Cymru) OS 2004 Rhif 684 (Cy 69), rheoliad 17; Rheoliadau Pwyllgorau Asesu Rhenti (Cymru a Lloegr) OS 1971 Rhif 1065, rheoliad 7; a Gorchymyn Tribiwnlysoedd Tir Amaethyddol (Rheolau) OS 2007 Rhif 3105, rheol 25.

292 Rheolau TAIMC, rheol 20.

293 Rheoliadau TAAAC , rheoliadau 64 i 68.

294 Gweler, er enghraifft, Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) OS 2001 Rhif 2288 (Cy 176), rheoliadau 2, 8 a 9(1).

295 Report of the Committee on Administrative Tribunals and Enquiries ("Adroddiad Franks") (1957) Cmnd 218, paragraff 63.

> We hope this will lead to changes that enable any changes to the [Mental Health Act 1983] to be applied in the same way across England and Wales. This is important because we do not want patients in Wales, who are subject to the same [ Mental Health Act 1983] powers as patients in England, having different levels of access to the MHRTW. It is also important because, due to the types of beds required (for example medium secure forensic beds, many of which are in Wales) many of the patients in Welsh hospitals come from England, and vice versa.[296]

5.63 Mae Gledhill wedi nodi bod rhai anghysonderau rhwng rheolau TAIMC a rheolau IAGC. Nid oes sôn yn y prif amcan yn rheolau TAIMC am yr angen i ddelio ag achosion “in a manner proportionate to the importance of the case, complexity of the issues, costs and resources, although the express list is non-exclusive.”[297] Aeth yn ei flaen i nodi:

> There is, of course, no reason why the rules in Wales should be identical. The statutory basis for the rule-making power is different, being the Mental Health Act 1983 rather than the 2007 Act, which does introduce some additional powers. Having said that, there is no obvious reason why two bodies exercising the same statutory powers as to the merits of the decision should operate under different regimes.[298]

5.64 Nid i TAIMC yn unig y mae’r pwynt a wnaeth Gledhill yn berthnasol, gan fod nifer o’r tribiwnlysoedd datganoledig yn cymhwyso’r un gyfraith hawliau ag y mae siambrau yn nhribiwnlys y DU. O blith y tribiwnlysoedd datganoledig, yr eithriadau yw TG, a sefydlwyd gan ddeddfwriaeth Gymreig, a PDC, gan fod y corff cyfatebol ar gyfer Lloegr sydd wedi’i ddiddymu bellach.

### Cynigion dros dro ar safoni rheolau tribiwnlysoedd

5.65 Rydym wedi dod i’r farn dros dro bod rhywfaint o safoni ar y rheolau’n ddymunol, ac rydym yn gwneud cynnig dros dro i’r perwyl hwnnw. Mae’r manteision yn cynnwys hwylustod i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd, dileu anghysonderau diangen a helpu i ddatblygu strwythur unedig i’r tribiwnlysoedd datganoledig.

5.66 Fodd bynnag, rydym hefyd yn cytuno bod dadl o blaid gwahaniaethau rhwng gweithdrefnau ac rydym yn ymwybodol y byddai unrhyw safoni cyffredinol yn gallu arwain at golli rheolau penodol i dribiwnlysoedd. Gellid osgoi hyn drwy sicrhau ymgynghori eang ag arweinwyr barnwrol, aelodau tribiwnlysoedd, llunwyr polisi a defnyddwyr tribiwnlysoedd cyn safoni rheolau. Gellid drafftio’r rheolau safonol hynny fel eu bod yn cynnwys unrhyw reolau angenrheidiol ar gyfer tribiwnlysoedd penodol. Byddai cyfathrebu â’r Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd a sefydlwyd o dan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 (“DTLIG 2007’) yn gallu helpu i gyfyngu gwahaniaethau diangen rhwng rheolau Cymru a’r DU. [299]

---

[296] Independent Review of the Mental Health Act, *Modernising the Mental Health Act: increasing choice, reducing compulsion* (2018), t 221.

[297] K Gledhill, “Evolution Rather than Revolution” yn *Tribunal*s (Autumn 2009), t 13.

[298] Fel uchod.

[299] Rydym yn trafod y pwyllgor hwn, a’r posibilrwydd o sefydlu pwyllgor tebyg yng Nghymru, yn ddiweddarach yn y bennod hon.

5.67 Ein cynnig dros dro yw y dylid safoni rheolau gweithdrefnol i'r graddau mwyaf posib. Rydym wedi trafod uchod nifer o reolau y credwn fod modd eu safoni, fel y prif amcan, y dull cyflwyno dogfennau, a'r pŵer i adolygu penderfyniadau.

**Cwestiwn Ymgynghori 27.**

5.68 Rydym yn cynnig dros dro y dylid safoni rheolau gweithdrefnol tribiwnlysoedd datganoledig, lle y bo'n briodol.

Ydych chi'n cytuno?

**Cwestiwn Ymgynghori 28.**

5.69 Rydym yn gofyn am farn ynghylch:

(1) a oes enghreifftiau o wahaniaethau annymunol rhwng rheolau gweithdrefnol tribiwnlysoedd datganoledig a rheolau gweithdrefnol Tribiwnlys yr Haen Gyntaf; a

(2) sut y gellid rheoli'r risg o wahaniaethau.

## A DDYLID CYFUNO RHEOLAU TRIBIWNLYSOEDD I WNEUD UN SET O REOLAU?

5.70 Yn yr adran hon, rydym yn trafod strwythur rheolau gweithdrefnol safonol ac, yn benodol, a ddylid eu cyfuno (i wneud un set o reolau cyffredin). Rydym hefyd yn ystyried achos TEPC, sydd â gwahanol setiau o reolau gweithdrefnol ar gyfer pob un o'i awdurdodaethau.

### Cyfuno rheolau tribiwnlysoedd

5.71 Roedd Deddf 2017 wedi dod â nifer o dribiwnlysoedd gwahanol ynghyd o dan arweinyddiaeth LITC. Hon oedd y ddeddfwriaeth gyntaf a gyflwynwyd i geisio dod â'r tribiwnlysoedd datganoledig ynghyd. Fel y mae Dr Sarah Nason a Dr Huw Pritchard wedi nodi, gwelwyd hyn gan rai yn "nucleus containing the DNA … for a fully devolved Welsh tribunals system."[300]

5.72 Roedd cyfuno tribiwnlysoedd un agwedd allweddol ar ddiwygiadau Leggatt yn system dribiwnlysoedd y DU. Yn Adroddiad Blynyddol yr Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd ar gyfer 2012 nodir:

> The new First-tier and Upper Tribunals has provided a flexible two-tier structure which, since November 2008, have absorbed over 30 individual tribunals as well as taking on a number of new jurisdictions. A vital unifying element, as proposed by

[300] S Nason a H Pritchard, "Administrative Justice and the Legacy of Executive Devolution: Establishing a Tribunals System for Wales" (2000) 26(4) *Australian Journal of Administrative Law* t 233.

Leggatt, was the introduction of a common set of procedural rules across the whole system.[301]

5.73 Y cwestiwn sy'n codi, felly, yw os mabwysiedir ein cynnig dros dro ar gyfer tribiwnlys datganoledig unedig yn Cwestiwn Ymgynghori 4, a ddylid cael un set o reolau gweithdrefnol ar ei gyfer neu reolau ar wahân ar gyfer pob adran neu siambr. Rydym yn trafod yr opsiynau hynny isod.

### Opsiynau ar gyfer rheolau gweithdrefnol

#### Un set o reolau i'r holl dribiwnlysoedd

5.74 Un opsiwn ar gyfer strwythuro set gyffredin o reolau gweithdrefnol safonol yw un set o reolau gweithdrefnol sy'n gymwys i holl siambrau'r tribiwnlys. Fodd bynnag, ni ddilynwyd y llwybr hwn yn yr un o awdurdodaethau'r DU.

5.75 Mae dwy set o reolau gweithdrefnol ar gyfer Uwch Dribiwnlys y DU: Rheolau Gweithdrefn y Tribiwnlys (yr Uwch Dribiwnlys) 2008 ("Rheolau UD 2008") a Rheolau Gweithdrefn y Tribiwnlys (yr Uwch Dribiwnlys) (Siambr Tiroedd) 2010.[302]

5.76 Mae Rheolau UD 2008 yn cynnwys rheolau gweithdrefnol sy'n gymwys i achosion yn y Siambr Apeliadau Gweinyddol, y Siambr Mewnfudo a Lloches a'r Siambr Treth a Siawnsri. Ceir darpariaethau cyffredinol yn Rheolau UD 2008 sy'n gymwys i bob un o'r tair siambr; mae'r rheolau hynny'n cynnwys y prif amcan ac anfon a throsgludo dogfennau. Yn ogystal â hyn, mae nifer sylweddol o reolau penodol yn y Rheolau sy'n gymwys i fathau o achos.[303] Nid yw hyn yn syndod o ystyried y gwahanol awdurdodaethau sy'n dod o dan Reolau UD 2008. Mae tri math o reol benodol i achosion:

(1) Ategu rheolau cyffredinol – Er enghraifft, mae rheol 5 yn cynnwys pwerau cyffredinol ar gyfer rheoli achosion ac mae rheol 5A yn darparu pŵer penodol i reoli'r achos mewn achosion sancsiynau ariannol.

(2) Darparu eithriadau i reolau cyffredinol – Er enghraifft, mae rheol 7(d) yn darparu y gall y Tribiwnlys gyfyngu'r rhan y mae parti yn ei chymryd mewn achos os yw'r parti'n methu â chydymffurfio â'r rheolau neu gyfarwyddiadau ymarfer; fodd bynnag, nid yw'r rheol honno'n gymwys i achosion iechyd meddwl, lloches neu fewnfudo.

(3) Mewn atodlenni i Reolau UD 2008 – Er enghraifft, mae Atodlen 2 yn cynnwys rheolau gweithdrefnol ychwanegol sy'n gymwys mewn achosion ardystio diogelwch gwladol.

---

301 Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd, *Annual Report* 2011 – 2012 (2012) tt 5 i 6.

302 Mae set benodol o reolau hefyd gan y Tribiwnlys Apelau Cyflogaeth, nad yw'n rhan o Uwch Dribiwnlys y DU, sef Rheolau'r Tribiwnlys Apelau Cyflogaeth OS 1993 rhif 2854.

303 Mae Rheolau Gweithdrefn y Tribiwnlys (yr Uwch Dribiwnlys) OS 2008 Rhif 2698, rheol 1 yn diffinio gwahanol fathau o achosion, yn cynnwys achosion lloches, achosion gwahaniaethu ar sail anabledd yn yr ysgol ac achosion sancsiynau ariannol.

5.77 Mae dwy set o reolau gweithdrefnol gan Uwch Dribiwnlys yr Alban: Rheoliadau Uwch Dribiwnlys yr Alban (Rheolau Gweithdrefnol) 2016 a Rheoliadau Uwch Dribiwnlys yr Alban (Rheolau Gweithdrefnol Nawdd Cymdeithasol) 2018.[304] Yn wahanol i Reolau UD 2008, mae Rheoliadau 2016 yr Alban yn cynnwys rheolau gweithdrefnol cyffredinol yn unig.

## Setiau gwahanol o reolau gweithdrefnol sy'n anghyson

5.78 Mae set o reolau gweithdrefnol ar wahân ar gyfer pob siambr yn Nhribiwnlysoedd Haen Gyntaf y DU a'r Alban. Mae'r saith set o reolau gweithdrefnol ar gyfer Tribiwnlys Haen Gyntaf y DU yn cynnwys yr un prif amcan a dyletswydd ar bartïon i gydweithredu â'r tribiwnlys. Mae chwe set o reolau gweithdrefnol y tribiwnlys hefyd yn rhoi'r un pwerau i'r tribiwnlys i reoli achosion.[305]

## Trafodaeth

5.79 Nid ydym yn credu bod un set o reolau gweithdrefnol cyfunol ar gyfer y tribiwnlysoedd datganoledig yn opsiwn dymunol. Mae Rheolau UD 2008 yn fwy na 90 o dudalennau o hyd ac maent wedi'u drafftio mewn ffordd gymhleth i ddarparu ar gyfer rheolau i fathau penodol o achosion. Credwn fod hyn yn ganlyniad anochel i gyfuno gwahanol awdurdodaethau tribiwnlys mewn un set o reolau gweithdrefnol. Ar sail y dadansoddiad uchod, nid ydym yn hyderus bod Rheolau UD 2008 yn rhai hwylus i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd.

5.80 Felly, rydym yn cynnig dros dro y dylai pob tribiwnlys barhau â'i set ar wahân o reolau gweithdrefnol, pa un a gaiff ei gynnwys mewn system unedig {fel y cynigiwyd yn Cwestiwn Ymgynghori 4 ai peidio. Fodd bynnag, yn unol â'n cynnig dros dro ym mharagraffau 5.65 i 5.68 uchod, credwn y gellid ac y dylid safoni'r gwahanol setiau rheolau tribiwnlys hynny lle bo'n briodol.

5.81 Fel y trafodwyd uchod, gellid dechrau drwy safoni'r prif amcan, y dulliau cyflwyno dogfennau a'r pŵer i adolygu penderfyniadau. Rydym yn cynnig dros dro y dylid cadw rheolau'r tribiwnlysoedd datganoledig ar wahân i'w gilydd, ond eu cysoni i'r graddau mwyaf posib.

---

304 Mae Rheoliadau Uwch Dribiwnlys yr Alban (Rheolau Gweithdrefnol Nawdd Cymdeithasol) SSI 2018 Rhif 274, rheoliad 2 yn darparu nad yw Rheoliadau Uwch Dribiwnlys yr Alban (Rheolau Gweithdrefnol) SSI 2016 Rhif 232 yn gymwys i achosion sy'n dod o flaen Uwch Dribiwnlys yr Alban sy'n ymwneud ag arfer swyddogaethau Gweinidogion yr Alban o dan Ddeddf Nawdd Cymdeithasol (yr Alban) 2018 neu reoliadau a wneir o dani.

305 Yr eithriad yw Rheolau Gweithdrefn y Tribiwnlys (Tribiwnlys yr Haen Gyntaf) (Siambr Eiddo) OS 2013 Rhif 1169. Y pwerau ychwanegol a roddwyd i'r Tribiwnlys yw: y pŵer i gyfarwyddo bod ymholiadau'n cael eu gwneud ynghylch unrhyw berson; y pŵer i fynnu bod unrhyw barti'n datgan a yw'n bwriadu dod i'r gwrandawiad, cael ei gynrychioli neu alw tystion, a'r pŵer i fynnu bod unrhyw barti'n rhoi amcangyfrif o hyd y gwrandawiad.

**Cwestiwn Ymgynghori 29.**

5.82 Rydym yn cynnig dros dro y dylid parhau â set o reolau ar wahân ar gyfer pob tribiwnlys neu siambr.

Ydych chi'n cytuno?

## Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru

5.83 Fel y nodwyd uchod, mae TEPC yn cynnwys tribiwnlysoedd eiddo preswyl, tribiwnlysoedd prisio lesddaliadau a phwyllgorau asesu rhenti. Mae rheolau gweithdrefnol penodol gan bob un o awdurdodaethau TEPC, ac mae'r pŵer i wneud rheolau gweithdrefnol i'w gael mewn nifer o wahanol ddeddfau sylfaenol i'r DU.

5.84 Mae gwahanol fathau o anghysonderau rhwng y tair set o reolau gweithdrefnol. Gan gyfeirio at yr enghreifftiau a drafodwyd uchod: dim ond rheolau'r tribiwnlysoedd eiddo preswyl sy'n cynnwys prif amcan a dyletswydd i gydweithredu, dim ond rheolau'r pwyllgorau asesu rhenti sydd heb gyfeiriad at gyflwyno dogfennau drwy ddulliau electronig a dim ond rheolau'r pwyllgorau asesu rhenti sy'n cynnwys pŵer i'r tribiwnlys gywiro hepgoriadau damweiniol.[306] Ni allwn weld unrhyw reswm egwyddorol dros yr anghysonderau hynny.

5.85 Credwn fod y fframwaith presennol yn gymhleth heb fod angen i aelodau tribiwnlysoedd, ymarferwyr a defnyddwyr tribiwnlysoedd, yn enwedig i'r rheini sy'n dod ag achos mewn mwy nag un adran o'r tribiwnlys. Oherwydd hynny, rydym yn cynnig dros dro y dylid cyfuno'r tair set o reolau.

**Cwestiwn Ymgynghori 30.**

5.86 Rydym yn cynnig dros dro y dylid cyfuno rheolau gweithdrefnol Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru i wneud un set o reolau.

Ydych chi'n cytuno?

306 Rheoliadau Pwyllgorau Asesu Rhenti (Cymru a Lloegr) OS 1971 Rhif 1065, rheoliad 10(2).

## GWNEUD A CHYNNAL Y RHEOLAU GWEITHDREFNOL

5.87 Yn yr adran hon rydym yn trafod y manteision o sefydlu Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd i safoni a chynnal rheolau gweithdrefnol y tribiwnlysoedd datganoledig. Wedyn rydym yn ystyried pwy a ddylai eistedd ar bwyllgor o'r fath a sut y dylid penodi aelodau. Ar ddiwedd yr adran, rydym yn cyflwyno ein cynigion dros dro.

### Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd

5.88 Mae rheolau gweithdrefnol Tribiwnlys yr Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys yn cael eu harolygu gan y Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd. Sefydlwyd y Pwyllgor gan DTLIG 2007, mewn darpariaethau a oedd wedi'u seilio'n fras ar Ddeddf Trefniadaeth Sifil 1997.[307] Mewn papur ymgynghori a gyhoeddwyd yn fuan wedi i DTLIG 2007 ddod i rym, nododd y llywodraeth fod:

> historical tendency to over-prescribe procedure in primary legislation and rules contributed to unnecessary legalism and the inaccessibility of tribunals identified by Sir Andrew Leggatt.[308]

5.89 Credai hefyd mai'r duedd honno oedd yn gyfrifol am yr anghysonderau rhwng rheolau. Daeth i'r casgliad fod lle i gael mwy o gysondeb yn rheolau gweithdrefnau tribiwnlysoedd, gan barhau i roi ystyriaeth i anghenion awdurdodaethau penodol.[309]

5.90 Rhagwelwyd yn y papur ymgynghori mai tasg gyntaf y Pwyllgor fyddai gwneud y rheolau a oedd eu hangen i roi DTLIG 2007 mewn grym, a chynnal deialog â barnwyr, aelodau, staff a defnyddwyr i weld pa newidiadau eraill a oedd yn angenrheidiol. Roedd hyn i'w ddilyn gan raglen gynhwysfawr o gysoni.[310]

5.91 Mae pŵer y Pwyllgor i wneud rheolau gweithdrefnol yn cael ei arfer er mwyn sicrhau:

(a) mewn achosion sy'n dod o flaen Tribiwnlys yr Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys, fod cyfiawnder yn cael ei wneud,

(b) bod y system dribiwnlysoedd yn hygyrch a theg,

(c) bod achosion sy'n dod o flaen Tribiwnlys yr Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys yn cael eu trafod yn gyflym ac effeithlon,

(d) bod y rheolau'n syml a'u bod yn cael eu mynegi'n syml, ac

---

[307] Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, a 22(2) ac Atodlen 5.

[308] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, *Transforming Tribunals: Implementing Part 1 of the Tribunals, Courts and Enforcement Act 2007* (2007), paragraff 244. Ar gael yn http://data.parliament.uk/DepositedPapers/Files/DEP2008-1295/DEP2008-1295.pdf.

[309] Fel uchod, paragraff 243.

[310] Fel uchod, paragraffau 245 i 247.

(e) bod y rheolau lle y bo'n briodol yn rhoi cyfrifoldeb i aelodau Tribiwnlys yr Haen Gyntaf, neu'r Uwch Dribiwnlys, dros sicrhau bod achosion sydd gerbron y tribiwnlys yn cael eu trafod yn gyflym ac effeithlon.[311]

5.92 Mae'r Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd yn cynnwys:

(1) yr Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd, neu berson a enwebir ganddo;

(2) tri pherson a benodir gan yr Arglwydd Ganghellor, y bydd profiad gan bob un ohonynt un ai o ymarfer yn y tribiwnlysoedd neu o gynghori pobl sy'n cymryd rhan mewn achosion tribiwnlys;

(3) tri pherson a benodir gan yr Arglwydd Brif Ustus, yn cynnwys un barnwr o Dribiwnlys yr Haen Gyntaf, un barnwr o'r Uwch Dribiwnlys, ac un aelod o'r naill dribiwnlys neu'r llall (nad yw'n farnwr);

(4) un person a benodir gan Arglwydd Lywydd Llys y Sesiwn, sydd â phrofiad yn system gyfreithiol yr Alban a gwybodaeth amdani; a

(5) pedwar person ar y mwyaf sydd â phrofiad o bwnc neu faes penodol, a benodir gan Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr, Arglwydd Lywydd Llys y Sesiwn, neu Arglwydd Brif Ustus Gogledd Iwerddon, ar wahoddiad yr Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd. Gellir penodi'r personau hyn i'r Pwyllgor dim ond mewn perthynas â'r materion y maent yn arbenigo ynddynt.[312]

5.93 Cyn gwneud eu priod benodiadau, rhaid i'r Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus ymgynghori â'i gilydd.

5.94 Gwneir rheolau gan y pwyllgor, ar ôl ymgynghori â'r personau hynny y maent yn credu sy'n briodol (yn cynnwys Llywyddion Siambrau). Cyflwynir rheolau drafft i'r Arglwydd Ganghellor, a gaiff eu caniatáu neu eu gwrthod. Os caniateir y rheolau, fe'u gwneir gan y Pwyllgor drwy offeryn statudol.

5.95 Fel arfer bydd y pwyllgor yn cwrdd tua naw gwaith y flwyddyn. Mae'n ymgynghori'n rheolaidd ar newidiadau yn y rheolau.

### Gwneud rheolau tribiwnlys ar gyfer tribiwnlysoedd datganoledig yr Alban

5.96 Roedd Deddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014 yn rhag-weld y byddai rheolau gweithdrefnol i'r tribiwnlysoedd yn cael eu gwneud yn y pen draw gan bwyllgor o Gyngor Cyfiawnder Sifil yr Alban ("CCSA"). Sefydlwyd y corff hwnnw yn 2013, ac mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol dros gynghori a gwneud argymhellion ar y system cyfiawnder sifil yn yr Alban. Wedi iddo baratoi rheolau, fe'u cyflwynir i Lys y Sesiwn a'u rhoi mewn grym wedyn drwy is-ddeddfwriaeth Llys y Sesiwn.

5.97 Roedd Deddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014 wedi diwygio Deddf Cyngor Cyfiawnder Sifil yr Alban a Chymorth Cyfreithiol Troseddol 2013 i ddarparu ar gyfer sefydlu is-

---

311 Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, a 22(4).

312 Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, Atodlen 5 paragraffau 20 i 24.

bwyllgor o CCSA i fod yn gyfrifol am reolau gweithdrefnol y tribiwnlysoedd Albanaidd. Nid yw'r diwygiad wedi dod i rym eto. Mae'n rhag-weld y byddai'r pwyllgor tribiwnlysoedd yn cael ei gadeirio gan Lywydd Tribiwnlysoedd yr Alban a'i aelodau panel yn cael eu dethol ganddo.[313] Mae'r memorandwm polisi sydd gyda Deddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014 yn egluro mai pwrpas y diwygiad yw:

> ensure that the distinctiveness and ethos of tribunals is protected in the new structure and the person with the most knowledge of the tribunals within their charge was responsible for ensuring representation from the right people in each case.[314]

5.98 Mae'r memorandwm polisi yn egluro na fyddai'r cyfrifoldeb dros wneud rheolau tribiwnlysoedd yn cael ei drosglwyddo ar unwaith am mai newydd gael ei sefydlu roedd CCSA. Yn y cyfamser, mae Gweinidogion yr Alban yn gallu gwneud rheolau i'r tribiwnlysoedd Albanaidd.

### Gwneud rheolau tribiwnlys ar gyfer tribiwnlysoedd yng Ngogledd Iwerddon

5.99 Mae'r Adran Gyfiawnder yng Ngogledd Iwerddon wedi ymgynghori yn y gorffennol ar y manteision o resymoli rheolau gweithdrefnol tribiwnlysoedd yng Ngogledd Iwerddon. Nodwyd mewn papur trafod yn 2011:

> a generic procedural platform could enhance accessibility and increase coherence in the system. It is also recognised that harmonisation may be particularly beneficial to those tribunals where a number of different sets of rules already apply and that standardisation would assist in the training of new members, particularly in the event that a tribunal with generic jurisdiction were established.[315]

5.100 Arweiniodd y papur trafod at gyhoeddi dogfen ymgynghori yn 2013. Awgrymodd y byddai'r Adran Gyfiawnder yn parhau i wneud rheolau gweithdrefnol. Byddai'r rheolau hynny'n cael eu gwneud ar ôl ymgynghori â chorff cynghorol newydd, a fyddai'n gyfrifol am ddal y system dribiwnlysoedd arfaethedig dan sylw. Byddai'r rheolau tribiwnlys yn cynnwys y prif amcan o ddelio ag achosion yn gyfiawn. Byddai'r Adran Gyfiawnder yn dilyn amcan statudol i sicrhau bod rheolau wedi'u mynegi'n syml, i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol.[316] Gwaetha'r modd, ni chymerwyd camau pellach i ddiwygio tribiwnlysoedd yng Ngogledd Iwerddon.

### Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd i Gymru

5.101 Rydym yn gweld budd mewn sefydlu pwyllgor gweithdrefnau tribiwnlysoedd i Gymru, fel yr awgrymwyd o'r blaen gan Dr Huw Pritchard.[317] Byddai hyn yn rhoi'r gallu i

---

313 Deddf Cyngor Cyfiawnder Sifil yr Alban a Chymorth Cyfreithiol Troseddol 2013 a 13A, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014 Atodlen 9, paragraff 13.

314 Deddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014, memorandwm polisi, paragraff 72. Gweler https://www.parliament.scot/S4_Bills/Tribunals%20(Scotland)%20Bill/b30s4-introd-pm.pdf.

315 Adran Gyfiawnder Gogledd Iwerddon, *Tribunal Reform: Discussion Paper on the Future Administration and Structure of Tribunals in Northern Ireland* (Hydref 2011) paragraffau 4.5 i 4.8.

316 Adran Gyfiawnder Gogledd Iwerddon, *Future Administration and Structure of Tribunals in Northern Ireland – consultative document* (Ionawr 2013) paragraff 3.43.

317 H Pritchard, "Building a Welsh jurisdiction through administrative justice" yn *Administrative Justice in Wales and Comparative Perspectives*, S Nason (gol) (2017) 218 ar dudalen 239.

adolygu'r rheolau'n rheolaidd, fel na fyddant wedi dyddio. Gellid gwneud gwelliannau i'r rheolau yr un pryd ar gyfer yr holl dribiwnlysoedd, i atal anghysonderau rhag codi rhwng tribiwnlysoedd. Rydym yn credu hefyd y byddai pwyllgor yn gallu cyfrannu at fonitro gwahaniaethau rhwng rheolau gweithdrefnol yn y tribiwnlysoedd a gedwir yn ôl a'r tribiwnlysoedd datganoledig.

5.102 Rydym yn rhag-weld y byddai'r pwyllgor yn gyfrifol ar y dechrau am safoni rheolau tribiwnlysoedd, hyd y gellir. Byddai'n gyfrifol yn barhaus wedyn am gynnal y rheolau. Gallai hyn gynnwys cyfrifoldeb dros sicrhau bod rheolau'n hyrwyddo system dribiwnlysoedd sy'n deg a hygyrch a bod y rheolau eu hunain (a mabwysiadu ymadrodd o adran 22(4) o DTLIG 2007) yn syml ac wedi'u mynegi'n syml.

5.103 Mae DTLIG 2007 yn darparu yn adran 22 ar gyfer "rules, to be called 'tribunal procedure rules', governing the practice and procedure" i'w dilyn yn Nhribiwnlys yr Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys.[318] Yn wir, gwnaed setiau rheolau unigol ar gyfer pob Siambr Haen Gyntaf, ac mae rhai o Siambrau'r Uwch Dribiwnlys yn rhannu set o reolau. Rydym yn rhag-weld trefniant hyblyg tebyg yng Nghymru. Yn gyson â'n cynnig dros dro yng Nghwestiwn Ymgynghori 29 uchod, rydym yn rhag-weld y bydd setiau sengl o reolau gweithdrefnol ar gyfer y Tribiwnlys haen gyntaf i Gymru a gynigir.

### Cyfansoddiad a gweithrediad Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd i Gymru

5.104 Yn ein barn ni, y dewis naturiol ar gyfer cadeirydd ar bwyllgor o'r fath fyddai LITC. O dan Ddeddf 2017 mae LITC eisoes o dan ddyletswydd i roi sylw i'r angen i sicrhau bod achosion sydd gerbron y tribiwnlysoedd adran 59 yn cael eu trafod yn deg, yn gyflym ac effeithlon.[319] Mae'r ddyletswydd sydd ar LITC i roi sylw i ddulliau arloesol o ddatrys anghydfodau yn berthnasol hefyd i'r dasg o gynnal y rheolau gweithdrefnol.

5.105 Nid ydym yn gweld bod angen i'r ddeddfwriaeth newydd osod cynifer o amodau ar aelodaeth y tribiwnlys ag y mae'r darpariaethau yn DTLIG 2007, a oedd wedi'u bwriadu ar gyfer strwythur tribiwnlysoedd mwy. Rhagwelwn y byddai'r pwyllgor yn cynnwys LITC yn gadeirydd, o leiaf un neu ddau o arweinwyr barnwrol y tribiwnlysoedd datganoledig, un neu ragor o aelodau cyfreithiol ac un neu ragor o aelodau lleyg, ynghyd â chynrychiolwyr ymarferwyr a defnyddwyr.

5.106 Ein barn dros dro yw y gellir gadael i LITC ffurfio barn am yr arbenigedd sydd ei angen ar y pwyllgor a gwneud y penodiadau angenrheidiol, gan ddilyn egwyddorion mewn deddfwriaeth ar arfer y pŵer penodi. Er enghraifft, gallai fod yn ofynnol i LITC roi sylw i'r angen i'r pwyllgor elwa o ystod eang o arbenigedd, yn cynnwys arbenigedd y rheini sy'n gweithio yn y tribiwnlysoedd neu'n cynghori pobl sy'n cymryd rhan mewn achosion tribiwnlys.

5.107 Unwaith y bydd y pwyllgor wedi cytuno ar set newydd o reolau, neu newidiadau yn y rheolau, sut y dylid gwneud y rheolau hyn? O dan DTLIG 2007, y pwyllgor ei hun fydd yn gwneud y rheolau. Rhaid i reolau gael eu llofnodi gan fwyafrif aelodau'r pwyllgor, a'u cyflwyno wedyn i'r Arglwydd Ganghellor.[320] Mae'r dull mwyafrifol yn golygu na fydd

---

318 Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, a 22(1)(a).

319 Deddf Cymru 2017, a 60(4)(b).

320 Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, Atodlen 5(3) paragraff 28(2).

un aelod o’r pwyllgor yn gallu rhoi feto ar reolau. Dewis arall posib yw bod LITC, fel cadeirydd y pwyllgor, yn gwneud y rheolau. Rydym yn gofyn am farn ynghylch y dewisiadau hyn isod. Yn y naill achos neu’r llall, ein barn dros dro yw y dylai’r rheolau gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru cyn eu gwneud.

**Cwestiwn Ymgynghori 31.**

5.108 Rydym yn cynnig dros dro y dylid cael Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd i Gymru.

Ydych chi’n cytuno?

**Cwestiwn Ymgynghori 32.**

5.109 Rydym yn cynnig dros dro y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fod yn gyfrifol am gadeirio’r Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd i Gymru ac am benodi ei aelodau.

Ydych chi’n cytuno?

**Cwestiwn Ymgynghori 33.**

5.110 Rydym yn cynnig dros dro y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael ei arwain wrth arfer ei allu i benodi aelodau Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd i Gymru gan ffactorau sydd wedi’u nodi mewn deddfwriaeth, yn cynnwys yr angen i amrywiaeth o arbenigedd fod ar gael i’r Pwyllgor.

Ydych chi’n cytuno?

**Cwestiwn Ymgynghori 34.**

5.111 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylai rheolau gael eu gwneud, ar ôl eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru, gan fwyafrif o Bwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru, neu gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

# Chapter 6: Penodiadau

6.1 Mae penodiadau i'r tribiwnlysoedd datganoledig yn allweddol o ran dangos i'r cyhoedd fod y tribiwnlysoedd yn annibynnol a diduedd. Dylai'r gweithdrefnau a ddefnyddir fod yn rhai teg, agored ac wedi'u seilio ar deilyngdod. Mae'r system bresennol yn cyrraedd y safonau hynny. Er hynny, mae'r cyfrifoldebau dros benodi'n anghyson, yn bennaf oherwydd datblygiad digyswllt y tribiwnlysoedd. Mae rheolau diweddarach yn adlewyrchu'r cynnydd ar ddatganoli, yn wahanol i weithdrefnau a ddatblygwyd yn gynharach.

6.2 Yn gyffredinol, mae swyddogaethau penodi wedi'u rhannu rhwng yr Arglwydd Ganghellor a Gweinidogion Cymru. Mae rhai eithriadau, fodd bynnag; etholir Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru ("TPC") gan ei aelodau, ac mewn rhai achosion mae cyrff llywodraethu ysgolion yn gyfrifol am benodi aelodau i'r paneli sy'n gwrando apeliadau ynghylch derbyn i ysgolion. Yn y bennod hon, ystyrir a ddylai'r corff sy'n gyfrifol am benodiadau (yr "awdurdod penodi") fod yr un fath ar gyfer yr holl dribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru.

6.3 Mae prosesau dethol hefyd yn cael eu hystyried yn y bennod hon. Yn ymarferol, mae'r holl benodiadau i'r tribiwnlysoedd Cymreig a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017 (y "tribiwnlysoedd adran 59") yn dilyn proses dethol sy'n cael ei rhedeg gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol ("CPB"). Fodd bynnag, yn y cyswllt hwn hefyd, nid yw'r CPB yn ymwneud â phenodiadau i TPC neu baneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion.

### PENODIADAU O FEWN Y TRIBIWNLYSOEDD DATGANOLEDIG YNG NGHYMRU

6.4 Ar gyfer y rhan fwyaf o dribiwnlysoedd datganoledig, mae penodiadau'n gyfrifoldeb un ai i'r Arglwydd Ganghellor neu i Weinidogion Cymru; mewn rhai achosion, mae rôl i'r Arglwydd Brif Ustus. Mae'r rhan a gymerir gan yr Arglwydd Ganghellor yn adlewyrchu dewis bwriadol a wnaed o'r 1950au ymlaen i wneud tribiwnlysoedd yn fwy annibynnol, drwy symud cyfrifoldeb dros benodiadau oddi wrth adrannau sy'n eu noddi. Roedd y newid hwn yn ymwneud yn bennaf ag aelodau uwch y tribiwnlysoedd, fel llywyddion a chadeiryddion. Roedd y broses o benodi aelodau tribiwnlysoedd yn cael ei gweld yn un fwy beichus i'w gweinyddu ac yn cael ei gadael yn aml i'r adran noddi.

6.5 Gwelir yr un patrwm i ryw raddau yn y tribiwnlysoedd adran 59 heddiw. Gan mwyaf, mae'r Arglwydd Ganghellor yn gyfrifol o hyd am benodi arweinwyr barnwrol, a Gweinidogion Cymru yn gyfrifol gan amlaf am benodi aelodau. Mae'r rhan fwyaf o brosesau penodi'r tribiwnlysoedd yn gwahaniaethu rhwng aelodau cyfreithiol a lleyg; mae'n fwy tebygol y bydd yr Arglwydd Ganghellor yn gyfrifol am benodi aelodau cyfreithiol.

6.6 Er hynny, gellir sylwi bod penodiadau i dribiwnlysoedd a sefydlwyd yn fwy diweddar, ers cychwyn y broses datganoli, yn gyfrifoldeb i Weinidogion Cymru gan mwyaf. Nhw sy'n gyfrifol am benodi holl aelodau a Llywyddion Panel Dyfarnu Cymru ("PDC") a Thribiwnlys y Gymraeg ("TG"). Mae hyn yn awgrymu awydd i ddefnyddio sefydliadau a phrosesau Cymreig.

6.7 Mae'r tabl isod yn dangos pwy sy'n gyfrifol am benodi aelodau'r tribiwnlysoedd adran 59. Fel arfer, mae penodiadau gan Weinidogion Cymru yn cael eu gwneud gan Brif Weinidog Cymru.

| **Tribiwnlys**[321] | **Penodi aelodau** | **Penodi arweinwyr barnwrol** |
|---|---|---|
| PDC | Gweinidogion Cymru. | Mae Gweinidogion Cymru yn penodi'r Llywydd a Dirprwy Lywydd. |
| TAAAC[322] | Penodir cadeiryddion cyfreithiol gan yr Arglwydd Ganghellor.<br>Penodir aelodau anghyfreithiol gan Weinidogion Cymru, gyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol. | Mae'r Arglwydd Ganghellor yn penodi'r Llywydd. |
| TAACY a TAACAF | Penodir dau aelod heblaw'r Cadeirydd gan Weinidogion Cymru. | Penodir y Cadeirydd gan yr Arglwydd Brif Ustus, ar ôl ymgynghori â'r Arglwydd Ganghellor. |
| TAIMC | Mae'r Arglwydd Ganghellor yn penodi aelodau cyfreithiol, meddygol a lleyg.<br>Mae'r Arglwydd Brif Ustus, ar ôl ymgynghori â'r Arglwydd Ganghellor, yn penodi aelodau cyfreithiol y panel cleifion dan gyfyngiadau (y pŵer wedi'i ddirprwyo ar hyn o bryd i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru). | Penodir y Llywydd gan yr Arglwydd Ganghellor o blith aelodau cyfreithiol. |
| TEPC | Penodir aelodau cyfreithiol gan yr Arglwydd Ganghellor. Penodir aelodau proffesiynol a lleyg gan Weinidogion Cymru. | Mae Gweinidogion Cymru yn penodi'r Llywydd ac Is-lywydd o blith aelodau. |
| TG | Gweinidogion Cymru. | Gweinidogion Cymru. |
| TTAC | Gwneir mwyafrif y penodiadau gan yr Arglwydd Ganghellor. | Mae'r Arglwydd Ganghellor yn penodi'r Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd. |

321 Defnyddir y byrfoddau canlynol yn y tabl: Panel Dyfarnu Cymru ("PDC"), Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru ("TAIMC"), Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ("TAAAC"), y Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Ysgolion a'r Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Addysg Feithrin ("TAACY" a "TAACAF"), Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru ("TEPC"), Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru ("TTAC") a Thribiwnlys y Gymraeg ("TG").

322 Bydd TAAAC yn cael ei ailenwi maes o law yn Dribiwnlys Addysg Cymru ("TAC") pan ddaw'r darpariaethau perthnasol yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 i rym. Rheolir penodiadau i TAC gan aa 91 (3) a (4) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae'r darpariaethau, fel y'u diwygiwyd gan reoliad 2 o Reoliadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Darpariaethau Atodol) OS 2019 Rhif 794, yr un fath gan mwyaf â'r rheini ar gyfer TAAAC. Bydd y cyfrifoldeb dros benodi aelodau lleyg yn aros gyda Gweinidogion Cymru, yn amodol ar gytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol, ond bydd gofyniad ychwanegol hefyd am gael cytundeb gan Lywydd y tribiwnlys. Nid oes newid yn y trefniadau ar gyfer penodi Llywydd y tribiwnlys a chadeiryddion cyfreithiol.

6.8 Nid yw'r tabl yn cynnwys yr holl dribiwnlysoedd. Mae rhai o'r tribiwnlysoedd datganoledig (y rheini nad ydynt yn cael eu gweinyddu'n ganolog, yn arbennig) yn dilyn patrwm gwahanol i'r un uchod. Trafodir y rhain isod.

### Tribiwnlys Prisio Cymru

6.9 Mae TPC yn dilyn ei system ei hun, gyda rhywfaint o ymwneud gan Weinidogion Cymru. Fe'i rheolir gan Gyngor Llywodraethu sy'n cynnwys y Llywydd, cynrychiolwyr cenedlaethol, a hyd at dri unigolyn a benodir gan Weinidogion Cymru.[323]

6.10 Gwneir penodiadau i'r gwahanol rolau yn TPC fel a ganlyn.

(1) Penodir aelodau (sy'n ddi-dâl) gan banel penodi.

(2) Penodir cadeiryddion hefyd gan y panel penodi.

(3) Etholir Llywydd TPC gan ei aelodau (er bod rhaid i Weinidogion Cymru benodi Llywydd os bydd aelodau'n methu â'i ethol).[324]

(4) Mae tri chynrychiolydd cenedlaethol sydd hefyd yn cael eu hethol gan aelodau.[325] Mae'r sefyllfa hon yn unigryw; y cynrychiolwyr cenedlaethol yw olynwyr y cynrychiolwyr rhanbarthol. Roedd angen cynrychiolwyr rhanbarthol pan oedd pedwar tribiwnlys prisio ledled Cymru, cyn eu cyfuno i ffurfio TPC yn 2010. Rhaid codi cynrychiolwyr cenedlaethol o blith aelodau a chadeiryddion.

6.11 Mae'r panel penodi yn cynnwys tri aelod o'r Cyngor Llywodraethu. Pan fydd y panel penodi yn penodi cadeiryddion, bydd Gweinidogion Cymru yn cael eu cau allan o'r panel.

6.12 Mae'r arfer o ethol gan aelodau yn TPC yn dyddio o system flaenorol y tribiwnlysoedd prisio yng Nghymru a Lloegr. Cyn 2017, roedd cadeiryddion y tribiwnlys ac aelodau'r Cyngor Llywodraethu hefyd yn cael eu hethol. Yn adroddiad Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru a gyhoeddwyd yn 2016 ("Adroddiad 2016") nodwyd:

> The system of election of valuation tribunal chairs, the tribunal presidents and members of the Governing Council is an anachronism and, as far as we are aware, unique in tribunals in England and Wales.[326]

6.13 Cafwyd beirniadu hefyd yn Adroddiad 2016 ar y weithdrefn ar gyfer penodi aelodau. Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad, roedd aelodau'n cael eu penodi ar y cyd gan y Llywydd a chynghorau lleol.[327] Roedd Adroddiad 2016 yn argymell dileu unrhyw ymwneud gan

---

323 Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru OS 2010 Rhif 713 (Cy 69), rheoliadau 8A a 9.

324 Fel uchod, rheoliad 11 ac Atodlen 2, rhan 1.

325 Fel uchod, rheoliad 13 ac Atodlen 2, rhan 1.

326 Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru, *Administrative Justice: a Cornerstone of Social Justice in Wales* (2016) paragraff 45.

327 Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru OS 2010 Rhif 713 (Cy 69), rheoliad 9 (fel y'i deddfwyd yn wreiddiol).

awdurdodau lleol â phenodi aelodau.[328] O ganlyniad i'r argymhelliad hwn, diwygiwyd y rheoliadau yn 2017. Diddymwyd y gofyniad i ethol cadeiryddion, a alwyd yn un beichus ym mhapur ymgynghori Llywodraeth Cymru ar y pwnc .[329] Yn ogystal â hyn, dilëwyd y rhan a oedd gan awdurdodau lleol mewn dethol aelodau.

### Paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion

6.14 Mae paneli apelio derbyniadau ysgolion hefyd yn dilyn patrwm gwahanol. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yr awdurdod lleol yn penodi aelodau'r panel. Yn achos ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, y corff llywodraethu sy'n gyfrifol am benodiadau.[330] Gellir gwneud trefniadau ar y cyd rhwng ysgolion sefydledig neu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir sy'n cael eu cynnal gan yr un awdurdod lleol,[331] neu rhwng awdurdod lleol ac ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a gynorthwyir.[332]

6.15 Mae'r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn nodi:

> Mewn rhai ardaloedd, bydd ALlau (gyda chytundeb awdurdodau derbyn eraill) yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros recriwtio, hyfforddi a phenodi holl aelodau'r paneli apêl. Mae hon yn ffordd gost-effeithiol o sicrhau cysondeb ar hyd ac ar led ardal.[333]

6.16 Nid yw'n glir i ba raddau y gweithredir fel hyn mewn gwirionedd.

6.17 Mae awdurdodau lleol hefyd yn penodi aelodau paneli apelio gwaharddiadau ysgolion. Mae'r pŵer penodi hwn yn cwmpasu paneli sy'n gwrando apeliadau am wahardd o ysgolion a gynhelir, fel ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig.[334] Mae rheoliadau'n darparu ar gyfer cyfansoddiad paneli apelio.[335] O dan y rhain, mae'n ofynnol bod y panel yn cynnwys tri neu bum aelod. Penodir aelodau gan yr awdurdod lleol o blith aelodau lleyg, pobl sy'n gweithio ym maes addysg, a llywodraethwyr ysgolion a gynhelir, neu bobl a fu'n llywodraethwyr yn y gorffennol.

---

328 Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru, *Administrative Justice: a Cornerstone of Social Justice in Wales* (2016) paragraff 47.

329 Llywodraeth Cymru, *Diwygio Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010* (2017) paragraff 56.

330 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, a 94. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn ysgolion ffydd. Yng Nghymru mae'r rhain yn cael eu rhedeg fel arfer gan yr Eglwys Gatholig neu'r Eglwys yng Nghymru. Gweler https://law.gov.wales/publicservices/education/school-and-other-education-for-children/Schools-maintained-by-local-authorities/?lang=cy#/publicservices/education/school-and-other-education-for-children/Schools-maintained-by-local-authorities/?tab=overview&lang=cy.

331 Fel uchod, a 94(3).

332 Fel uchod, a 94(4).

333 Cod statudol yw hwn a wnaed o dan adran 84 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi cod ar gyfer derbyn i ysgolion. Gweler Llywodraeth Cymru, *Y cod apelau derbyn i ysgolion* (2013), paragraff 2.7 https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/y-cod-apelau-derbyn-i-ysgolion.pdf.

334 Deddf Addysg 2002, a 52(3)(c).

335 Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) OS 2003 Rhif 3227 (Cy 308), Atodlen 1 (2).

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi darparu canllawiau ar y camau y dylai awdurdodau lleol eu cymryd wrth benodi aelodau o baneli apelio.[336]

6.18 Yn ymarferol, bydd nifer mawr o awdurdodau lleol yn penodi “panel apeliadau annibynnol”, sy’n gwrando apeliadau ar dderbyn a gwahardd. Rydym yn gwybod am o leiaf un enghraifft lle mae tri awdurdod lleol yn cydweithio i recriwtio aelodau. Cyhoeddwyd hysbyseb ar y cyd gan gynghorau sir Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych ar gyfer aelodau paneli apeliadau annibynnol yn 2018.[337]

6.19 Nid ydy gweinyddiaeth y paneli hyn wedi’i chanoli, o ganlyniad, mae’n anodd dod o hyd i wybodaeth gywir am weithrediad y paneli hyn. Rydym yn gofyn am dystiolaeth gan ymgyngoreion am y ffordd y mae’r paneli hyn yn gweithio, ac am y graddau y mae awdurdodau lleol yn cydweithio.

### Tribiwnlys y Gymraeg

6.20 TG oedd y tribiwnlys cyntaf a sefydlwyd gan y Cynulliad ac nid oes corff cyfatebol iddo yn Lloegr. Gwneir yr holl benodiadau iddo gan Weinidogion Cymru. Cyflwynwyd mesurau diogelu ychwanegol ar gyfer gwneud y penodiadau hyn. Wrth benodi, mae’n ofynnol o dan y rheoliadau fod Gweinidogion Cymru yn rhoi sylw i’r angen i gynnal egwyddorion

(1) annibyniaeth y tribiwnlys; a

(2) rheolaeth cyfraith.[338]

6.21 Mae’r rheoliadau hefyd yn cynnwys dyletswyddau tebyg i ddyletswyddau statudol y Comisiwn Penodiadau Barnwrol; rhaid gwneud penodiadau ar sail teilyngdod, a rhaid i’r rheini a benodir fod o gymeriad da. Rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw hefyd i’r angen i annog amrywiaeth yn yr ystod o bersonau a benodir i’r tribiwnlys.[339]

6.22 Yn y gorffennol, gwnaed penodiadau i Dribiwnlys y Gymraeg o dan bolisi ar wahân.[340] Fodd bynnag, mae’r holl benodiadau i’r holl dribiwnlysoedd Cymreig yn cael eu gwneud bellach gan y CPB ac yn unol â’i weithdrefnau. Trafodir ei rôl ymhellach isod.

### Trosglwyddo rhwng tribiwnlysoedd

6.23 Mae trosglwyddo rhwng tribiwnlysoedd yn rhan bwysig bellach o’r system benodi i dribiwnlysoedd Cymreig. Enw arall ar yr arfer hwn yw “trawsleoli”, ac fe’i cyflwynwyd gan Ddeddf Cymru 2017. Mae’n galluogi aelod o un o’r tribiwnlysoedd Cymreig i eistedd yn aelod o un arall, ar ôl cael cymeradwyaeth gan Lywydd Tribiwnlysoedd

---

336 *Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion* (2009). https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-11/gwahardd-o-ysgolion-unedau-cyfeirio-disgyblion.pdf.

337 Gweler http://old.wrexham.gov.uk/english/education/appeal_panel.htm.

338 Rheoliadau Tribiwnlys y Gymraeg (Penodi) OS 2013 Rhif 3139 (Cy 312), rheoliad 3.

339 Rheoliadau Tribiwnlys y Gymraeg (Penodi) OS 2013 Rhif 3139 (Cy 312), rheoliadau 2 a 5. Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, aa 63 a 64.

340 Llywodraeth Cymru, “*Penodi Llywydd ac aelodau eraill Tribiwnlys y Gymraeg: Datganiad o’r polisi a’r weithdrefn benodi”* (2013).

Cymru ac, yn y rhan fwyaf o achosion, cytundeb gan arweinydd barnwrol yr ail dribiwnlys.[341] Mae Deddf Cymru 2017 hefyd yn caniatáu i aelodau tribiwnlysoedd Cymreig eistedd yn Nhribiwnlys yr Haen Gyntaf, ac i aelodau a barnwyr Tribiwnlys yr Haen Gyntaf eistedd yn y tribiwnlysoedd Cymreig.[342]

6.24 Nododd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2019 ei fod wedi dechrau'r broses trosglwyddo rhwng tribiwnlysoedd.[343] Rhoddwyd y diweddariad canlynol yn ei adroddiad ar gyfer 2020.

> Mae'r broses o benodi aelodau presennol o Dribiwnlys yng Nghymru i wasanaethu fel aelodau o Dribiwnlys arall wedi parhau. Mae tri aelod cyfreithiol o Dribiwnlysoedd Cymru wedi'u nodi fel rhai a fyddai'n addas i wasanaethu fel aelodau o TAIM Cymru er mai dim ond dau sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol ac wedi cael eu penodi. Mae dau aelod cyfreithiol o Dribiwnlysoedd Cymru wedi cael eu penodi i wasanaethu fel aelodau o TEP Cymru ac mae un aelod cyfreithiol o'r Tribiwnlys Eiddo Haen Gyntaf yn Lloegr wedi cael ei benodi i wasanaethu fel aelod o TEP Cymru. Mae dau aelod lleyg o Dribiwnlysoedd Cymru wedi cael eu penodi i wasanaethu fel aelodau o TyG ac mae un aelod lleyg wedi cael ei benodi i wasanaethu fel aelod o PDC.[344]

6.25 Gall trosglwyddo fod yn ffordd fuddiol i aelodau ennill mwy o brofiad o wrando achosion, yn enwedig mewn tribiwnlysoedd sy'n cael nifer bach o geisiadau. Nid yw'r CPB yn ymwneud â dethol neu gymeradwyo ceisiadau i drosglwyddo; yn lle hynny, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fydd yn ystyried ceisiadau. Yn ein barn ni, mae'r defnydd cynyddol o drosglwyddo rhwng tribiwnlysoedd yn cryfhau'r ddadl o blaid cysoni gweithdrefnau penodi rhwng y tribiwnlysoedd datganoledig.

### Rôl y Comisiwn Penodiadau Barnwrol

6.26 Mae'r CPB yn gorff statudol annibynnol a grëwyd gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005.[345] Er gwaethaf ei enw, nid yw'n penodi ymgeiswyr i swyddi barnwrol. Yn hytrach, bydd yn dethol ymgeiswyr ar gyfer eu penodi i lysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr, ac i rai tribiwnlysoedd sydd ag awdurdodaeth sy'n cwmpasu'r DU. Mae'n ofynnol iddo ddethol ymgeiswyr ar sail teilyngdod, ond gall ffafrio un ymgeisydd yn lle un arall er mwyn cynyddu amrywiaeth ymysg y grŵp o bersonau sy'n farnwyr.[346]

---

341 Deddf Cymru 2017, a 62.

342 Fel uchod, a 63.

343 Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, *Adroddiad blynyddol 2018 – 2019* (2019) t 7.

344 Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, *Adroddiad blynyddol – 2019-2020* (2020) paragraff 2.5.

345 Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, a 61 ac Atodlen 12.

346 Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, a 27(5) a (5A).

6.27 Mae'r ymgeiswyr a ddetholir yn cael eu penodi fel arfer. Mae Graham Gee, Robert Hazell, Kate Malleson a Patrick O'Brien yn nodi:

> In practice, Lord Chancellors almost always accepted the recommendation [of the JAC], with only five occasions from nearly 3,500 recommendations between 2006 and 2013 when this was not so.[347]

6.28 Mae'r CPB yn cynnwys nifer o Gomisiynwyr, yn eu plith Comisiynwyr sy'n dal swyddi barnwrol, ymarferwyr cyfreithiol, a rhai nad ydynt yn gyfreithwyr (a elwir yn aelodau lleyg). Mae pŵer gan yr Arglwydd Ganghellor i wneud rheoliadau ynghylch sut mae'r Comisiynwyr hynny i gael eu penodi. O dan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, mae'n ofynnol bod y pwerau hynny'n cael eu harfer er mwyn sicrhau:

> so far as may be practicable, that the Commissioners who are lay members include at any time at least one person who appears to have special knowledge of Wales.[348]

6.29 Cafodd y Gwir Barchedig Ddr Barry Morgan ei benodi'n Gomisiynydd "lleyg" gyda chyfrifoldeb arbennig dros Gymru ym mis Gorffennaf 2020.[349]

### Prosesau dethol ar gyfer y tribiwnlysoedd datganoledig

6.30 Mae'r CPB yn rhedeg prosesau dethol ar gyfer yr holl dribiwnlysoedd datganoledig, ac eithrio Tribiwnlys Prisio Cymru a phaneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion. Mae ei ran mewn penodiadau a wneir gan yr Arglwydd Ganghellor yn cael ei rheoleiddio gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005. Gall yr Arglwydd Ganghellor ofyn i'r CPB gynnal prosesau dethol ar gyfer unrhyw un o'r swyddi a restrir o dan Atodlen 14 i'r Ddeddf honno.[350] Mae'r rhain yn cynnwys y penodiadau y nodir eu bod yn gyfrifoldeb i'r Arglwydd Ganghellor yn y tabl uchod ym mharagraff 6.7.[351]

6.31 Yn ogystal â rhedeg y broses ddethol ar gyfer penodiadau gan yr Arglwydd Ganghellor, mae'r CPB hefyd yn delio â phrosesau dethol ar ran Gweinidogion Cymru yn unol â chytundeb o dan adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru drefnu i'w swyddogaethau gael eu harfer gan awdurdodau eraill. Er bod Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn fwy tebygol o ddarparu cymorth gweinyddol i'r CPB pan fydd yn delio â phenodiadau gan Weinidogion Cymru, mae prosesau'r CPB yr un fath â'r rheini a ddefnyddir ar gyfer penodiadau gan yr Arglwydd Ganghellor.

---

347 G Gee, R Hazell, K Malleson a P O'Brien, *The politics of judicial independence in the UK's changing constitution* (2015) t 163.

348 Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, Atodlen 12 paragraff 6B.

349 https://www.gov.uk/government/news/appointment-of-3-commissioners-and-the-reappointment-of-5-commissioners-to-the-judicial-appointments-commission.

350 Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, aa 87(1) a 85(1)(c).

351 Mae penodiadau y mae'r Arglwydd Ganghellor yn gyfrifol amdanynt wedi'u rhestru gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, Atodlen 14 rhan 3 tabl 1.

## LLEOEDD ERAILL YN Y DEYRNAS UNEDIG

6.32 Gellir tynnu cymariaethau buddiol rhwng tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru a thribiwnlysoedd yng ngweddill y DU. Mae trafodaeth fer isod am y sefyllfa o ran rhai o'r tribiwnlysoedd a gedwir yn ôl (yn bennaf y rheini sy'n rhan o system Tribiwnlys yr Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys), a thribiwnlysoedd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

### Tribiwnlysoedd a gedwir yn ôl

6.33 Roedd Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 wedi creu system ddwy haen ar gyfer y tribiwnlysoedd a gedwir yn ôl: Tribiwnlys yr Haen Gyntaf, a'r Uwch Dribiwnlys, sy'n gorff apeliadol. Penodir barnwyr ac aelodau (anfarnwrol) Tribiwnlys yr Haen Gyntaf gan yr Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd.[352]

6.34 Yn achos yr Uwch Dribiwnlys, penodir barnwyr gan Ei Mawrhydi, ar argymhelliad yr Arglwydd Ganghellor.[353] Penodir aelodau anfarnwrol gan yr Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd.[354] Mae Llywyddion Siambrau Tribiwnlys yr Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys hefyd yn cael eu penodi gan yr Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd.[355]

6.35 Gwneir yr holl benodiadau yn dilyn proses ddethol sy'n cael ei rhedeg gan y CPB.

### Yr Alban

6.36 Roedd Deddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014 wedi trefnu tribiwnlysoedd datganoledig yr Alban yn ddwy haen: Tribiwnlys Haen Gyntaf yr Alban ("THGA") ac Uwch Dribiwnlys yr Alban ("UDA"). Mae tribiwnlysoedd yn yr Alban yn cael eu goruchwylio gan Lywydd Tribiwnlysoedd yr Alban, a benodir gan yr Arglwydd Lywydd.[356]

6.37 Mae pob un o siambrau THGA yn cael ei harwain gan un neu ddau Lywydd Siambr.[357] Penodir Llywyddion Siambr gan Weinidogion yr Alban, ar ôl ymgynghori â'r Arglwydd Lywydd.[358] Os gofynnir iddynt wneud hynny gan y Llywydd Tribiwnlysoedd, gall Gweinidogion yr Alban benodi Dirprwy Lywydd Siambr i siambr benodol yn THGA.[359] Cyn gwneud cais o'r fath, rhaid i'r Llywydd Tribiwnlysoedd ymgynghori â Llywydd Siambr y siambr berthnasol.[360]

6.38 Llywyddir adrannau UDA gan un neu ddau Is-lywydd.[361] Gall y Llywydd Tribiwnlysoedd benodi unrhyw aelod barnwrol o UDA i rôl Is-lywydd, ar ôl cael

352 Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, Atodlen 2 paragraffau 1 a 2.

353 Fel uchod, Atodlen 3 paragraff 1.

354 Fel uchod, Atodlen 3 paragraff 2.

355 Fel uchod, a 7(6) a (7).

356 Deddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014 a 4(1) a (2).

357 Fel uchod, a 21.

358 Fel uchod, a 21.

359 Fel uchod, Atodlen 4 paragraff 1.

360 Fel uchod, Atodlen 4 paragraff 4.

361 Deddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014 a 24(1).

cytundeb gan yr Arglwydd Lywydd. Gall y Llywydd Tribiwnlysoedd ei benodi ei hun yn Is-lywydd, i lywyddu dros un neu ragor o adrannau.[362] Gall Gweinidogion yr Alban hefyd benodi Is-lywydd, os gofynnir iddynt wneud hynny gan y Llywydd Tribiwnlysoedd.[363]

6.39 Penodir aelodau cyffredin ac aelodau cyfreithiol THGA gan Weinidogion yr Alban.[364] Mae Gweinidogion yr Alban hefyd yn penodi aelodau cyffredin ac aelodau cyfreithiol UDA.[365]

### Rôl Bwrdd Penodiadau Barnwrol yr Alban

6.40 Roedd Deddf Barnwriaeth a Llysoedd (yr Alban) 2008 wedi sefydlu Bwrdd Penodiadau Barnwrol yr Alban. Mae'n gorff cyhoeddus anadrannol (yn hytrach na chorff corfforaethol).[366] Ei rôl yw argymell penodi unigolion i swyddi barnwrol penodol, a chynghori ynghylch y penodiadau hynny. Darperir yr argymhellion a'r cyngor i weinyddiaeth yr Alban.

6.41 Mae Bwrdd Penodiadau Barnwrol yr Alban yn gyfrifol am weithdrefnau penodi ar gyfer y rolau canlynol mewn tribiwnlysoedd:

(1) Is-lywydd UDA, os caiff ei benodi gan Weinidogion yr Alban;

(2) Llywydd Siambr yn THGA;

(3) Dirprwy Lywydd Siambr yn THGA, os caiff ei benodi gan Weinidogion yr Alban; a

(4) aelodau cyffredin a chyfreithiol THGA neu UDA.[367]

6.42 Ni chaiff Gweinidogion yr Alban benodi unrhyw berson i'r rolau hyn oni bai fod ei benodiad wedi'i argymell gan Fwrdd Penodiadau Barnwrol yr Alban.[368]

## Gogledd Iwerddon

6.43 Mae Comisiwn Penodiadau Barnwrol Gogledd Iwerddon ("CPBGI") yn gorff corfforaethol.[369] Mae'n cynnwys 13 aelod: pum aelod barnwrol, dau aelod cyfreithiol, pump aelod lleyg a'r cadeirydd (Arglwydd Brif Ustus Gogledd Iwerddon).[370] Enwebir aelodau barnwrol gan yr Arglwydd Brif Ustus, a'u penodi gan Brif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog Gogledd Iwerddon drwy weithredu ar y cyd. Maent hefyd yn penodi'r

---

362 Fel uchod, a 25.

363 Fel uchod, a 26.

364 Fel uchod, 2.43(1)(a) a (b) ac Atodlen 3, paragraffau 1(1) a 4(1).

365 Fel uchod, Atodlen 5 paragraffau 1(1) a 4(1).

366 Deddf Barnwriaeth a Llysoedd (yr Alban) 2008, a 9(1).

367 Fel uchod, a 10(2A).

368 Fel uchod, a 11(1).

369 Deddf Cyfiawnder (Gogledd Iwerddon) 2002, a 3.

370 Fel uchod, a 3(4).

aelodau lleyg. Mae un aelod cyfreithiol yn gyfreithiwr ac yn cael ei enwebu gan Gymdeithas Cyfreithwyr Gogledd Iwerddon. Mae'r llall yn fargyfreithiwr ac yn cael ei enwebu gan Gyngor Bar Gogledd Iwerddon.[371]

6.44 Mae ei ddyletswyddau statudol yn cynnwys dethol personau i'w penodi, neu argymell eu penodi i swyddi barnwrol penodol. Rhaid dethol ar sail teilyngdod yn unig. Yn amodol ar hynny, gall ymgymryd â rhaglen weithredu i sicrhau bod deiliaid swyddi barnwrol yn adlewyrchu'r gymuned yng Ngogledd Iwerddon.[372]

6.45 Ceir y rhestr o gyrff y mae'n gyfrifol amdanynt yn Atodlen 1 i Ddeddf Cyfiawnder (Gogledd Iwerddon) 2002 (fel y'i diwygiwyd). Mae'r rhestr yn cynnwys rhai, ond nid y cyfan, o'r swyddi yn y tribiwnlysoedd yng Ngogledd Iwerddon. Er enghraifft, mae'n cynnwys Llywydd, Dirprwy Lywydd ac aelodau eraill Tribiwnlys Tiroedd Gogledd Iwerddon; Llywydd a rhai o aelodau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd Gogledd Iwerddon, ac aelodau Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Gogledd Iwerddon. Roedd adroddiad Gráinne McKeever a Brian Thompson am ddiwygio tribiwnlysoedd yng Ngogledd Iwerddon yn argymell y dylai CPBGI benodi holl aelodau tribiwnlysoedd Gogledd Iwerddon.[373]

6.46 Gwneir rhai penodiadau i swyddi barnwrol yn ffurfiol gan Ei Mawrhydi. Gwneir penodiadau ar argymhelliad yr Arglwydd Ganghellor dros Ogledd Iwerddon. Pan fydd CPBGI wedi dethol person i'w benodi, rhaid iddo hysbysu'r Arglwydd Ganghellor. Wedyn rhaid i'r Arglwydd Ganghellor argymell penodi'r person hwnnw cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.[374]

6.47 Yn achos swyddi barnwrol eraill, mae CPBGI yn gyfrifol am ddethol ac am benodi personau i'r swyddi hynny.[375] Mewn rhai achosion, gwneir hyn ar ôl cytuno â'r adran berthnasol. Er enghraifft, penodir Llywydd Tribiwnlys Tiroedd Gogledd Iwerddon yn dilyn cytundeb rhwng y Weinyddiaeth Gyllid a CPBGI.[376]

## DIWYGIO PENODIADAU YNG NGHYMRU

### Safoni'r awdurdod penodi

6.48 Mae gwaith blaenorol ar benodiadau yng Nghymru wedi canolbwyntio ar sicrhau mai'r awdurdod penodi oedd un ai Gweinidogion Cymru neu'r Arglwydd Ganghellor. Er enghraifft, yn adroddiad y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yn 2010, nodwyd nad oedd y rheolau ar ddethol aelodau "yn unffurf nac yn gyson" a bod y prosesau penodi ar gyfer aelodau tribiwnlysoedd:

---

371 Deddf Cyfiawnder (Gogledd Iwerddon) 2002, a 3(5).

372 Fel uchod, Atodlen 3 paragraff 6.

373 G McKeever a B Thompson, *Redressing Users' Disadvantage: Proposals for Tribunal Reform in Northern Ireland* (2010) t 14.

374 Fel uchod, Atodlen 3 rhan 1, paragraff 2.

375 Fel uchod, Atodlen 3 rhan 2.

376 Deddf Tribiwnlys Tiroedd a Digolledu (Gogledd Iwerddon) 1964, a 1(2).

yn amrywio, ond maent yn aml yn cael eu gweinyddu gan adrannau'r llywodraeth neu'r Awdurdodau Lleol y mae eu penderfyniadau yn cael eu hadolygu ac mewn rhai achosion ni ddefnyddir proses ddewis ar sail teilyngdod.[377]

6.49 Roedd yr adroddiad yn argymell bod yr holl benodiadau i gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru neu'r Arglwydd Ganghellor.[378] Mae hyn yn wir bellach am y rhan fwyaf o benodiadau i'r tribiwnlysoedd Cymreig. Fodd bynnag, fel y trafodwyd uchod, mae eithriadau o hyd ar gyfer tribiwnlysoedd datganoledig (yn ogystal â chyrff eraill) nad ydynt yn cael eu gweinyddu gan UTC: yn benodol, TPC a phaneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion.

6.50 Parhau y mae'r galw am safoni. Mae Dr Sarah Nason wedi awgrymu:

> there needs to be greater clarity and uniformity in the system, and it is suggested that in the longer-term Welsh Ministers should take responsibility for all appointments to Devolved Welsh Tribunals.[379]

6.51 Rydym yn cytuno dros dro â'r egwyddor y dylid safoni'r awdurdodau penodi ar gyfer y tribiwnlysoedd datganoledig. Mae'r sefyllfa gymysg bresennol yn ganlyniad i ddatblygiadau hanesyddol, yn hytrach nag unrhyw ddewis polisi sy'n adlewyrchu gwahaniaethau rhwng y tribiwnlysoedd. Mae'r gwahaniaethau'n creu problemau ymarferol: mae penodiadau'r Arglwydd Ganghellor yn dod o dan delerau ac amodau gwahanol i benodiadau gan Weinidogion Cymru. Gan fod yr arfer o drosglwyddo rhwng y tribiwnlysoedd Cymreig ar gynnydd, mae'n anodd cyfiawnhau'r gwahaniaethau hyn.

**Cwestiwn Ymgynghori 35.**

6.52 Rydym yn cynnig dros dro y dylai'r un awdurdod (neu awdurdodau) penodi wneud penodiadau i'r holl dribiwnlysoedd datganoledig.

Ydych chi'n cytuno?

## Pwy ddylai fod yn awdurdod penodi?

6.53 Mae'n ymddangos i ni fod nifer o atebion posib i'r cwestiwn hwn:

(1) yr Arglwydd Ganghellor;

(2) Gweinidogion Cymru; neu

(3) Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

---

377 Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, *Adolygiad o Dribiwnlysoedd sy'n Gweithredu yng Nghymru* (2010), paragraff 71.

378 Fel uchod, argymhelliad 3, t 28.

379 S Nason, *Understanding Administrative Justice in Wales* (2015), paragraff 7.13.

6.54 Mae'n bosib y gallai mwy nag un o'r rhain gymryd rhan gyda'i gilydd mewn penodiadau. Mae hefyd yn bosib y gallai awdurdodau penodi gwahanol fod yn gyfrifol am benodi arweinyddion barnwrol (a'u dirprwyon) ac aelodau cyfreithiol ac anghyfreithiol eraill.

6.55 Gellir ystyried nifer o egwyddorion wrth benderfynu pwy ddylai wneud penodiadau. Mae'r rhain yn cynnwys:

(1) diogelu annibyniaeth tribiwnlysoedd;

(2) dangos pwysigrwydd penodiadau drwy sicrhau bod statws yr awdurdod neu swyddfa benodi yn ddigon uchel; a

(3) sicrhau bod yr awdurdod penodi mewn lle i allu arfarnu'r argymhellion a wneir iddo.

6.56 Rydym yn ystyried pob un o'r rhain yn ei dro.

### Annibyniaeth

6.57 Yr egwyddor gyntaf yw diogelu annibyniaeth farnwrol (a drafodir ymhellach ym Mhennod 10 ). Mae wedi'i hen gydnabod na ddylai'r adrannau sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau apeliadwy fod â rhan yn y broses benodi ar gyfer tribiwnlysoedd sy'n adolygu'r penderfyniadau hynny. Hyd yn oed os nad yw adrannau'n rhoi pwysau amhriodol ar dribiwnlysoedd yn ymarferol drwy'r broses benodi, mae'r posibilrwydd iddynt wneud hynny'n gallu amharu ar ganfyddiad defnyddwyr o annibyniaeth y tribiwnlys.

6.58 Un ffordd i greu mwy o raniad rhwng yr awdurdod penderfynu a'r tribiwnlys yw trosglwyddo'r cyfrifoldeb o ddwylo'r weithrediaeth i ddwylo'r farnwriaeth. Mae'n bosib mai hynny oedd y rheswm yn rhannol dros fynnu bod penodiadau'n cael eu gwneud gan yr Arglwydd Ganghellor yn y gorffennol; cyn gwneud Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, roedd yr Arglwydd Ganghellor hefyd yn ben ar y farnwriaeth yng Nghymru a Lloegr. Mae'r rôl honno'n cael ei chyflawni heddiw gan yr Arglwydd Brif Ustus, ond mae rhwymedigaethau penodol o hyd ar yr Arglwydd Ganghellor i barchu rheolaeth y gyfraith ac amddiffyn annibyniaeth y farnwriaeth.[380]

6.59 Gwelsom mai un ffordd y mae'r tribiwnlysoedd Cymreig wedi ceisio atgynhyrchu'r dyletswyddau hyn yw drwy ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw i annibyniaeth y Tribiwnlys wrth benodi aelodau i TG.[381] Ym Mhennod 10 rydym yn gwneud cynnig dros dro y dylai pawb sy'n gyfrifol am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru, yn cynnwys Gweinidogion Cymru, fod â chyfrifoldeb statudol dros gynnal annibyniaeth y farnwriaeth.

---

380 Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, a 1(b) ac a 3(6)(a).

381 Rheoliadau Tribiwnlys y Gymraeg (Penodi) OS 2013 Rhif 3139 (Cy 312), rheoliad 3.

## Statws uchel

6.60 Un egwyddor arall sydd weithiau'n cael ei hystyried yn y cyd-destun hwn yw statws yr awdurdod penodi. Drwy gynnwys ffigwr pwysig mewn llywodraeth yn y broses benodi, amlygir pwysigrwydd y swydd ei hun. Roedd hyn wedi'i gydnabod mor bell yn ôl ag adroddiad Franks, a oedd yn cydnabod y posibilrwydd bod y gofyniad am wneud penodiadau gan yr Arglwydd Ganghellor "by reason of the esteem in which the office of Lord Chancellor is held, enhance [chairmen's and members'] status".[382] Mae hyn yn helpu i egluro pam y mae Gweinidogion Cymru a'r Arglwydd Ganghellor yn rhannu'r cyfrifoldebau hyn ar hyn o bryd.

## Y gallu i asesu ymgeiswyr

6.61 Yr egwyddor olaf, sy'n tueddu i fynd yn groes i'r ail, yw y dylai'r awdurdod penodi fod mewn lle i allu asesu rhinweddau'r argymhelliad a wnaed gan yr awdurdod dethol. Mae'n fuddiol tynnu cymhariaeth yma â'r system ar gyfer penodiadau i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys. Yn wreiddiol, yr Arglwydd Ganghellor oedd yn gyfrifol am benodi aelodau i'r tribiwnlysoedd hynny, yn cynnwys Llywyddion Siambr. Fodd bynnag, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb hwnnw i'r Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd gan Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013, drwy ddiwygio Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 a Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007.[383]

6.62 Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb hwn yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Daeth yr ymgynghoriad i'r casgliad canlynol:

> In relation to judicial appointments below the High Court, we do not consider that it is necessary for the Executive to have a role in relation to individual appointments. In effect this is often a rubber-stamping process as it is not feasible for the Lord Chancellor to have personal knowledge of the applicants across the range of courts and tribunals for which he has to make appointments. We consider that such appointments should be made by the judiciary themselves....[384]

6.63 Yn ymarferol, mae nifer o'r dadleuon hyn yn gymwys hefyd i benodiadau i'r tribiwnlysoedd datganoledig. Mae penodiadau gan Weinidogion Cymru yn cael eu gwneud fel arfer gan y Prif Weinidog, sy'n annhebygol o fod â gwybodaeth am ymgeiswyr i'r tribiwnlysoedd. Mae ganddo gyfrifoldebau helaeth eraill hefyd. Mae'r broblem hon yn debygol o ddwysáu wrth i fwy o dribiwnlysoedd ddod yn rhan o system dribiwnlysoedd Cymru.

## Casgliad

6.64 Ein barn dros dro yw mai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yw'r person mwyaf priodol i benodi aelodau'r tribiwnlysoedd datganoledig. Mae'r Llywydd yn fwy tebygol o fod yn gyfarwydd ag anghenion tribiwnlysoedd penodol nag y mae Gweinidogion Cymru, ac ymgynghorir ag ef eisoes ynghylch penodi aelodau cyfreithiol panel cleifion dan gyfyngiadau TAIMC (o dan reolau TAIMC rhaid ymgynghori â'r Arglwydd Brif Ustus ar

---

382 Report of the Committee on Administrative Tribunals and Enquiries (1957) Cmnd 218, paragraff 46.

383 Deddf Troseddu a'r Llysoedd 2013, Atodlen 13 rhan 4.

384 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Appointments and Diversity, "A judiciary for the 21st Century", ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus (2012), paragraff 121.

benodi'r aelodau hynny gan yr Arglwydd Ganghellor, ond gall yr Arglwydd Brif Ustus ddirprwyo'r swyddogaeth honno; mae wedi gwneud hynny i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru).[385] Mae'n eglur hefyd fod y Llywydd yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

6.65 Gyda golwg ar arweinwyr barnwrol, ein barn dros dro yw y dylent hefyd gael eu penodi gan Weinidogion Cymru, ond gyda chytundeb Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Mae hyn yn bodloni'r maen prawf "statws uchel" a ddisgrifiwyd uchod, ond yn ei gydbwyso hefyd â'r arbenigedd ac annibyniaeth farnwrol sy'n rhan hanfodol o swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

6.66 Ein barn dros dro yw y byddai gofyniad i'r Arglwydd Ganghellor fod yn gyfrifol am benodiadau yn mynd yn groes i'r duedd fwy diweddar mewn deddfwriaeth i'w gwneud yn ofynnol i benodiadau gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru. Mae'n ymddangos i ni fod hyn yn adlewyrchiad priodol o'r penderfyniad gwleidyddol i ddatganoli pwerau deddfu dros y tribiwnlysoedd datganoledig i'r Senedd. Byddai gofyniad i'r Arglwydd Ganghellor fod yn gyfrifol am benodiadau hefyd yn anghyson â'r arfer penodi presennol yn Lloegr, lle mae'r Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd yn penodi Llywyddion Siambr.

6.67 Mae ein cynigion yn cwmpasu'r tribiwnlysoedd adran 59, boed y rheini fel y maent wedi'u cyfansoddi ar hyn o bryd neu fel siambrau mewn tribiwnlys unedig. Rydym yn trafod y tribiwnlysoedd datganoledig eraill ar wahân.

**Cwestiwn Ymgynghori 36.**

6.68 Rydym yn cynnig dros dro y dylai aelodau'r tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017 gael eu penodi gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

**Cwestiwn Ymgynghori 37.**

6.69 Rydym yn cynnig dros dro y dylai arweinyddion barnwrol (a'u dirprwyon) y tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017 gael eu penodi gan Weinidogion Cymru, gyda chytundeb Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

## Tribiwnlys Prisio Cymru

6.70 Rydym wedi egluro uchod fod y dull o benodi Llywydd TPC yn anarferol, i'r graddau bod ymgeiswyr yn cael eu hethol gan aelodau, yn hytrach na'u penodi. Mae

385 Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr, Delegation of Statutory Functions – Issue 1, 2020, t 194. Mae Rheolau Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru OS 2008 Rhif 2075, rheol 11(3) yn darparu y gall yr Arglwydd Brif Ustus enwebu deiliad swydd farnwrol (fel y mae wedi'i ddiffinio yn adran 109(4) o Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005(1)) i arfer y swyddogaethau o'i eiddo y cyfeirir atynt yn rheol 11(2).

cynrychiolwyr cenedlaethol, y ceir tri ohonynt, yn cael eu hethol gan aelodau hefyd. Penodir aelodau a chadeiryddion gan banel penodi.

6.71 Mae'r arfer o ethol yn hirsefydlog, yn dyddio'n ôl i'r cyfnod cyn cyfuno'r tribiwnlysoedd prisio. Diddymwyd yr arfer yn Lloegr, lle mae'r Arglwydd Ganghellor wedi bod yn gyfrifol am benodi Llywydd Tribiwnlys Prisio Lloegr ers gwneud Deddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007. Mae'r Arglwydd Ganghellor hefyd yn penodi Is-lywyddion, cadeiryddion ac aelodau eraill i Dribiwnlys Prisio Lloegr.[386]

6.72 Mae trefniadau penodi TPC yn anghyson â thribiwnlysoedd datganoledig eraill. Fel yr eglurwyd uchod, credwn y dylai'r gweithdrefnau ar gyfer yr holl dribiwnlysoedd datganoledig fod yn gyson, oni bai fod rheswm polisi da dros y gwahaniaeth.

6.73 Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod y rheoliadau ar gyfer gweithdrefnau penodi TPC wedi'u hadolygu mor ddiweddar â 2017. Bryd hynny, penderfynwyd cadw'r system ethol ar gyfer y Llywydd a chynrychiolwyr cenedlaethol (ond nid ar gyfer cadeiryddion). Mae'n ddigon posib bod rhesymau penodol dros ethol y Llywydd a chynrychiolwyr TPC gan aelodau, yn hytrach na'u penodi. Felly, nid ydym yn gwneud unrhyw gynigion dros dro, ond yn gofyn am farn ynghylch gweithdrefnau penodi TPC.

**Cwestiwn Ymgynghori 38.**

6.74 Rydym yn gofyn am farn ynghylch sut y dylai Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru gael ei benodi.

**Cwestiwn Ymgynghori 39.**

6.75 Rydym yn gofyn am farn ynghylch sut y dylai aelodau a chadeiryddion Tribiwnlys Prisio Cymru gael eu penodi.

### Paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion

6.76 Rydym yn cynnig ym mharagraffau 3.125 i 3.127 uchod y dylid trosglwyddo swyddogaethau paneli apelio gwaharddiadau ysgolion i TAAAC. Pe byddai hynny'n digwydd, byddai penodiadau'n cael eu rheoli gan y gweithdrefnau penodi ar gyfer TAAAC, sydd wedi'u trafod uchod.

6.77 Felly rydym yn canolbwyntio yma ar benodiadau i baneli apelio derbyniadau ysgolion a phaneli apelio gwaharddiadau ysgolion os cedwir eu hawdurdodaeth. Mae'n glir bod y prosesau penodi ar eu cyfer yn llai annibynnol na'r rheini sy'n gymwys i dribiwnlysoedd adran 59; mae'r cyrff sy'n gwneud y penderfyniad gwreiddiol yn ymwneud hefyd â phenodi aelodau paneli apelio. Byddai symud y cyfrifoldeb hwn i le arall yn cynyddu'r canfyddiad o annibyniaeth y paneli hyn.

386 Deddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007, Atodlen 15 paragraff A7.

6.78 Nid yw'n glir pa mor hawdd fyddai gwneud hyn o ran ymarfer. Mae rhywfaint o wybodaeth ar gael ar lefel yr awdurdodau lleol am weithrediad paneli apelio derbyniadau ysgolion, ond nid yw'n gyson. Ychydig o ddata canolog sydd ar gael.

6.79 Yn sgil hynny, nid ydym yn gwneud cynnig dros dro ynghylch penodiadau i baneli derbyn neu wahardd. Yn lle hynny, rydym yn gofyn a ddylai penodiadau i baneli apelio derbyniadau ysgolion a phaneli apelio gwaharddiadau ysgolion (os cedwir nhw) fod yr un fath â'r hyn a gynigiwn ar gyfer aelodau'r tribiwnlysoedd adran 59. Os derbynnir ein cynigion dros dro ar y penodiadau hynny, byddai hyn yn golygu mai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fyddai'n gyfrifol am benodi aelodau'r paneli hyn.

**Cwestiwn Ymgynghori 40.**

6.80 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylai aelodau paneli apelio derbyniadau ysgolion ac, os cedwir nhw, paneli apelio gwaharddiadau ysgolion gael eu penodi gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

## Rôl y Comisiwn Penodiadau Barnwrol

6.81 Byddai mantais bendant o gael un corff sy'n dilyn prosesau dethol safonol ar gyfer yr holl dribiwnlysoedd datganoledig, ac mae hyn wedi'i gydnabod gan adolygiadau blaenorol o'r system dribiwnlysoedd.[387] Mae cysondeb yn neilltuol o bwysig gan fod trosglwyddo rhwng tribiwnlysoedd yn galluogi aelodau o dribiwnlysoedd adran 59 i eistedd mewn tribiwnlysoedd adran 59 eraill, ac yn Nhribiwnlys yr Haen Gyntaf. Drwy ddefnyddio'r CPB i ddethol penodeion, sicrheir bod pob un yn cael ei asesu at yr un safon gan yr un corff.

### Corff penodiadau ar wahân i Gymru?

6.82 Cafwyd awgrymiadau y byddai'n fuddiol i Gymru gael ei chorff penodiadau ei hun, yn dilyn yr enghreifftiau yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban, neu o leiaf gael panel penodedig yn y CPB.[388] Yn yr adroddiad am adolygiad Llywodraeth Cymru o dribiwnlysoedd datganoledig yn 2014, y cyngor oedd: "consideration needs to be given to designing purpose-built machinery for Wales" (gan gyfeirio at y CPB, ond hefyd at gyrff barnwrol eraill yn y DU: y Swyddfa Farnwrol, y Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol a'r Coleg Barnwrol).

6.83 Mae eraill wedi dod i'r casgliad bod y system bresennol yn cwrdd, am y tro o leiaf, ag anghenion y tribiwnlysoedd datganoledig. Mae Dr Huw Pritchard wedi nodi:

> … recent arrangements between Welsh Ministers and JAC show that the system can adapt to accommodate the differences in Wales. It can be argued that this sort of collaboration is in line with the Welsh Government's notion of a distinct jurisdiction

387 Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru, *Administrative Justice: a Cornerstone of Social Justice in Wales* (2016) argymhelliad 9.

388 Pill LJ, *Speech to the Legal Wales Conference* (2009) t 5 http://legalwales.org/downloads/legal-wales-conference-cardiff.pdf.

where much of the administration of the justice system would initially remain across England and Wales. Establishing a separate JAC may be an ambition in the longer term, especially if a separate jurisdiction was created.[389]

6.84 Yn ei hadroddiad “Understanding administrative justice”, adroddodd Dr Sarah Nason ar y farn ganlynol a fynegwyd mewn un o weithdai’r prosiect:

> whilst there is some merit to having Welsh badged solutions to Welsh problems, it could be more efficient to replicate the broader England and Wales approach to judicial appointments, utilising the JAC and confirmation by Welsh Ministers.[390]

6.85 Rydym yn cytuno â’r farn hon dros dro. Oherwydd nifer cymharol fach y penodiadau i’r tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru, rydym yn amau nad oes cyfiawnhad ar hyn o bryd dros lefel y buddsoddi a’r ymdrech weinyddol y byddai eu hangen i sefydlu corff penodiadau ar wahân i Gymru.

**Cwestiwn Ymgynghori 41.**

6.86 Rydym yn cynnig dros dro na ddylid newid trefniadau dethol y Comisiwn Penodiadau Barnwrol ar gyfer penodi yn rhan o’n diwygiadau.

Ydych chi’n cytuno?

6.87 Cwestiwn pellach yw sut y dylid dethol ymgeiswyr i’w penodi i Dribiwnlys Prisio Cymru ac i baneli apelio derbyniadau ysgolion ac (os cedwir nhw) paneli apelio gwaharddiadau ysgolion.

6.88 Byddai gofyn i’r CPB wneud y penodiadau hyn yn sicrhau bod gweithdrefn gadarn yn cael ei defnyddio. Mae gan y CPB brofiad helaeth o weinyddu prosesau penodi ac mae’n ddigon posib y byddai hynny’n gwella ansawdd y prosesau hynny. Gan ei fod yn gweinyddu nifer o weithdrefnau penodi, mae ganddo fwy o allu i ddysgu gwersi o’r gweithdrefnau hynny, ac mae’n debygol o weithredu’n gynt i adlewyrchu’r arferion gorau mewn penodiadau cyhoeddus a barnwrol. Mantais arall yw ei annibyniaeth. Mae ei ran yn y prosesau dethol yn cadarnhau didueddrwydd yr ymgeiswyr a benodir. Mae gan y CPB brofiad hefyd o benodi Llywyddion, aelodau a chadeiryddion Tribiwnlys Prisio Lloegr . Byddai’r profiad hwnnw’n gallu ei gwneud yn haws i’r CPB ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol o ran TPC.

6.89 Fodd bynnag, mae’n bosib y byddai gofyn am broses mor gymhleth yn profi’n wrthgynhyrchiol mewn rhai achosion. Mae aelodau TPC a phaneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion yn wirfoddolwyr di-dâl. Mae perygl y byddai gorfod mynd drwy weithdrefnau’r CPB yn rhwystr i ddarpar ymgeiswyr.

---

389 H Pritchard, “Building a Welsh jurisdiction through administrative justice” yn *Administrative justice in Wales and Comparative Perspectives,* S Nason (gol) (2017) t 236.

390 S Nason, *Understanding Administrative Justice in Wales* (2015), paragraff 7.12.

6.90 Mae gweithdrefnau'r CPB hefyd yn gymharol ddrud. Ar hyn o bryd, mae gan TPC 85 o aelodau, sy'n nifer tebyg i'r tribiwnlysoedd datganoledig eraill (mae 110 o aelodau gan TAIMC, er enghraifft).[391] Nid oes gwybodaeth am nifer aelodau'r paneli apelio annibynnol.

6.91 Felly rydym yn gofyn am farn ynghylch sut y dylid dethol ymgeiswyr i'w penodi i Dribiwnlys Prisio Cymru ac i baneli apelio derbyniadau ysgolion ac (os cedwir nhw) paneli apelio gwaharddiadau ysgolion.

**Cwestiwn Ymgynghori 42.**

6.92 Rydym yn gofyn am farn ynghylch sut y dylid dethol Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru.

**Cwestiwn Ymgynghori 43.**

6.93 Rydym yn gofyn am farn ynghylch sut y dylid dethol aelodau Tribiwnlys Prisio Cymru, yn cynnwys cadeiryddion.

**Cwestiwn Ymgynghori 44.**

6.94 Rydym yn gofyn am farn ynghylch sut y dylid dethol aelodau o baneli apelio derbyniadau ysgolion ac (os cedwir nhw) paneli apelio gwaharddiadau ysgolion.

391 Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, *Adroddiad Blynyddol 2019 – 2020* (2020) t 5.

# Chapter 7: Cwynion a disgyblaeth

7.1 Mae'r fframwaith statudol ar gyfer cwyno am ymddygiad aelodau'r tribiwnlysoedd datganoledig yn un cymhleth ac anghyson ac nid yw'n hygyrch i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd. Mae'n ymddangos bod y darlun cymhleth hwn yn ganlyniad i nifer o ffactorau cydgysylltiedig: datblygiad *ad hoc* y tribiwnlysoedd, y newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 a diwygiadau cyfansoddiadol diweddarach o dan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005. Cafwyd y datblygiadau hyn wrth i'r setliad datganoli ehangu, gan ychwanegu haen o gymhlethdod.

7.2 O ganlyniad i hyn, mae cyfrifoldeb dros agweddau ar weinyddu tribiwnlysoedd datganoledig wedi'i rannu bellach rhwng yr Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus a Gweinidogion Cymru a Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Mae hyn wedi arwain at ddiffyg cydlyniant yn y system tribiwnlysoedd datganoledig drwyddi draw. Mewn rhai achosion, mae aelodau o'r tribiwnlysoedd datganoledig a benodir bellach gan Weinidogion Cymru yn parhau i gael eu disgyblu gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus.

7.3 Ar y cyfan, mae'r tribiwnlysoedd a sefydlwyd yn fwy diweddar, wrth i'r setliad datganoli symud ymlaen, yn fwy annibynnol ar y system ar gyfer tribiwnlysoedd a gedwir yn ôl. Er enghraifft, mae trefniadau penodol ar gyfer Panel Dyfarnu Cymru ("PDC") a Thribiwnlys y Gymraeg ("TG").

7.4 Mae'n ymddangos i ni fod fframwaith tryloyw a chyson ar gyfer cwynion a disgyblaeth farnwrol yn nodwedd ddymunol mewn system ddiwygiedig o dribiwnlysoedd datganoledig. Mae'r ymagwedd at ddisgyblu, yn benodol, yn codi cwestiynau o ran gwahanu, oddi wrth lywodraeth (na ddylai allu "cosbi" barnwyr am benderfyniadau nad yw'n eu hoffi) ac oddi wrth farnwyr eraill (y gellid eu gweld yn rhy gydymdeimladol tuag at gyd-farnwyr). Rydym yn edrych ar y tensiynau hyn isod.

7.5 Ar ddechrau'r bennod hon, rydym yn disgrifio'r fframwaith statudol ar gyfer y DU gyfan sy'n rheoli cwynion. Mae'r fframwaith hwnnw'n gymwys hefyd i nifer o'r tribiwnlysoedd datganoledig. Rydym wedyn yn edrych ar y fframwaith statudol ar gyfer cwynion am ymddygiad a gweithdrefnau disgyblu yn y tribiwnlysoedd datganoledig, ac wedyn yn disgrifio sut mae awdurdodaethau eraill yn y DU yn delio â'r materion hyn. Yn olaf, rydym yn trafod ein cynigion ar gyfer diwygio.

## PROSESAU CWYNION A DISGYBLU YMYSG Y TRIBIWNLYSOEDD A GEDWIR YN ÔL

### I bwy y gwneir cwynion?

7.6 Mae Atodlen 14 i Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 ("Deddf 2005") yn cynnwys rhestr o ddeiliaid swyddi barnwrol a benodir gan yr Arglwydd Ganghellor. Mae Rheoliadau Disgyblaeth Farnwrol (Gweithdrefnau Rhagnodedig) 2014 ("Rheoliadau 2014") yn darparu bod rhaid i gwynion am ddeiliad swydd gael eu gwneud i'r Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol ("y SYYB"). Nid oes diffiniad o ddeiliad swydd yn y rheoliadau hynny, ond mae'n cynnwys unigolyn sy'n dal swydd farnwrol, sef y term a

ddefnyddir yn Atodlen 14 i Ddeddf 2005.[392] Felly, yn achos cwynion sy'n ymwneud â'r swyddi barnwrol hynny a restrir yn Atodlen 14 i Ddeddf 2005, mae'n ymddangos bod rhaid eu gwneud i'r SYYB, heblaw am un eithriad a drafodir isod.

7.7 Mae'r SYYB yn gorff sy'n cynorthwyo'r Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus i gyflawni eu cyfrifoldeb ar y cyd dros ddisgyblaeth farnwrol.[393] Mae'n gweithredu o dan Reoliadau 2014, sy'n darparu bod rheidrwydd ar yr Arglwydd Ganghellor (ar ôl cael cytundeb gan yr Arglwydd Brif Ustus, Arglwydd Lywydd Llys y Sesiwn, ac Arglwydd Brif Ustus Gogledd Iwerddon) i ddynodi swyddogion i gyflawni swyddogaethau o dan Reoliadau 2014. Yr enw ar y swyddogion ar y cyd yw'r SYYB. Mae'n cyflogi 16 o aelodau staff llawn amser.[394]

7.8 Mae un eithriad i'r rheol gyffredinol yn Rheoliadau 2014. Mae Rheolau Ymddygiad Barnwrol (Tribiwnlysoedd) 2014 ("Rheolau Tribiwnlysoedd 2014") yn darparu bod rhaid i gwynion am ddeiliaid swyddi a restrir yn aelodau tribiwnlys ("tribunal members") gael eu gwneud i'r Llywydd perthnasol ("relevant President"). Ceir y rhestr o aelodau tribiwnlys a Llywyddion perthnasol yn yr atodlen i Reolau Tribiwnlysoedd 2014.

7.9 Gall y Llywydd perthnasol ddirprwyo ei rôl gwrando cwynion i aelod tribiwnlys o'i dribiwnlys ei hun, ar yr amod bod profiad addas gan yr aelod tribiwnlys hwnnw. Mewn rhai achosion, os nad oes aelod tribiwnlys sydd ar gael ac sydd â phrofiad addas, gall y Llywydd perthnasol ddirprwyo ei rôl i aelod tribiwnlys arall neu i Lywydd perthnasol sydd ar y rhestr.[395]

### Pwerau disgyblu a diswyddo

7.10 Fel y nodwyd uchod, mae'r Arglwydd Ganghellor ac (yng Nghymru a Lloegr) yr Arglwydd Brif Ustus[396] yn gydgyfrifol am ddiswyddo a disgyblu'r deiliaid swyddi barnwrol a restrir yn Atodlen 14 i Ddeddf 2005.[397] Mae Deddf 2005 yn rhoi iddynt y pwerau canlynol.[398]

(1) Gall yr Arglwydd Ganghellor ddiswyddo person ar yr amod bod y gweithdrefnau rhagnodedig wedi'u dilyn.

(2) Mae'r Arglwydd Brif Ustus, gyda chytundeb yr Arglwydd Ganghellor, yn gallu cynnig cyngor ffurfiol, neu rybudd neu gerydd ffurfiol i ddeiliad swydd farnwrol.

---

[392] Rheoliadau Disgyblaeth Farnwrol (Gweithdrefnau Rhagnodedig) OS 2014 Rhif 919, rheoliad 3(1).

[393] Gweler https://judicialconduct.judiciary.gov.uk/about-us/. Mae'r SYYB wedi'i chyfansoddi o dan Reoliadau Disgyblaeth Farnwrol (Gweithdrefnau Rhagnodedig) OS 2014 Rhif 919 , rheoliad 4.

[394] Y Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol, *Annual Report 2018/2019*, t 6. Ar gael yn https://s3-eu-west-2.amazonaws.com/jcio-prod-storage-1xuw6pgd2b1rf/uploads/2019/11/JCIO-Annual-Report-2018-19.pdf.

[395] Rheolau Ymddygiad Barnwrol (Tribiwnlysoedd) 2014, rheolau 8 a 13.

[396] Yn achos deiliaid swyddi barnwrol sy'n arfer swyddogaethau yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon yn unig neu'n bennaf, cyflawnir y rôl farnwrol gan Arglwydd Lywydd Llys y Sesiwn neu Arglwydd Brif Ustus Gogledd Iwerddon, yn y drefn honno; gweler Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, a 120(1) a 121(1).

[397] Mewn rhai achosion ceir pŵer diswyddo hefyd yn y ddeddfwriaeth a greodd y tribiwnlys perthnasol.

[398] Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, a 108.

(3) Mae’r Arglwydd Brif Ustus, gyda chytundeb yr Arglwydd Ganghellor, yn gallu atal person o swydd farnwrol os yw achos troseddol wedi’i ddwyn yn erbyn y person neu os cafwyd ef yn euog o drosedd.

(4) Mae’r Arglwydd Brif Ustus, gyda chytundeb yr Arglwydd Ganghellor, yn gallu atal uwch farnwr (sy’n cynnwys Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru)[399] dros y cyfnod y mae achos yn cael ei ddwyn yn erbyn y barnwr am Anerchiad gan ddau Dŷ’r Senedd yn gofyn am ddiswyddo’r barnwr.[400]

7.11 Mae papur y Bwrdd Gweithredol Barnwrol am atebolrwydd y farnwriaeth yn nodi bod y gofyniad mewn nifer o achosion am gytundeb rhwng yr Arglwydd Ganghellor a’r Arglwydd Brif Ustus yn hanfodol bwysig. Mae’n nodi wedyn:

> The fact that both have a role ensures that the independence of an individual judge is not improperly infringed, either by the executive, or internally by another member of the judiciary.[401]

## Prosesau cwynion

7.12 Yn yr adran hon, disgrifir y prosesau cwynion ar gyfer aelodau tribiwnlysoedd a deiliaid swyddi eraill. Yn ogystal â hynny, amlinellir rôl yr Ombwdsmon Penodiadau ac Ymddygiad Barnwrol (“yr OPYB”).

### Cwynion am aelodau tribiwnlysoedd

7.13 Mae Rheolau Tribiwnlysoedd 2014 yn pennu’r weithdrefn ar gyfer cwynion ynghylch ymddygiad aelodau tribiwnlysoedd. Rhaid i’r cwynion gynnwys honiad am gamymddwyn,[402] a rhaid eu gwneud o fewn tri mis ar ôl y digwyddiad neu fater diweddaraf y cwynir amdano.[403]

7.14 Rhaid i’r Llywydd perthnasol wneud asesiad cychwynnol o’r gŵyn a’i gwrthod os, ymysg rhesymau eraill, nad yw’n nodi’r mater y cwynir amdano yn ddigon manwl, os yw’n ymwneud â phenderfyniad barnwrol neu reolaeth ar achosion gan farnwr, os nad yw’n codi cwestiwn o ran camymddwyn neu os nad oes sylwedd iddi.[404]

7.15 Os na fydd y Llywydd perthnasol yn gwrthod y gŵyn, rhaid iddo ddilyn un ai’r broses ddiannod neu’r weithdrefn a ddarperir yn Rhan 4 o Rheolau Tribiwnlysoedd 2014. Mae’r broses ddiannod yn darparu nifer o seiliau y gall y Llywydd perthnasol ddibynnu

---

[399] Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, a 109 (5)(db).

[400] Mae Deddf Cymry 2017, Atodlen 5 para 10, Atodlen 3 yn darparu y bydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn dal y swydd honno tra bydd o ymddygiad da, yn amodol ar bŵer i’w ddiswyddo gan Ei Mawrhydi ar ôl Anerchiad a gyflwynir i’w Mawrhydi gan ddau Dŷ’r Senedd. Mae paragraff 10(3) yn darparu mai mater i’r Arglwydd Ganghellor yw argymell i’w Mawrhydi ei bod yn arfer y pŵer diswyddo.

[401] Y Bwrdd Gweithredol Barnwrol, *Accountability of the judiciary* (Hydref 2007), t 6. Ar gael yn https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/JCO/Documents/Consultations/accountability.pdf.

[402] Rheolau Ymddygiad Barnwrol (Tribiwnlysoedd) 2014, rheol 17.

[403] Fel uchod, rheol 22. Yn unol â rheol 25, gall y Llywydd Tribiwnlys ymestyn y terfyn amser mewn amgylchiadau eithriadol.

[404] Fel uchod, rheol 34.

arnynt i hysbysu'r Arglwydd Ganghellor a'r Prif Ustus perthnasol y dylid diswyddo'r aelod tribiwnlys heb ymchwilio ymhellach (er enghraifft, os yw'r aelod tribiwnlys wedi cyflawni trosedd, neu os yw achos am fethdaliad wedi'i ddwyn yn ei erbyn).[405]

7.16 Mae'r weithdrefn yn Rhan 4 yn gymwys lle nad yw'r Llywydd perthnasol wedi gwrthod y gŵyn yn dilyn asesiad cychwynnol ac nad yw wedi defnyddio'r broses ddiannod.[406] Bryd hynny, rhaid i'r Llywydd perthnasol benderfynu ynghylch ffeithiau'r achos ac a ydynt yn gyfystyr â chamymddwyn.[407] Gall y Llywydd perthnasol wrthod y gŵyn, delio â'r gŵyn yn anffurfiol, argymell cymryd camau disgyblu neu ofyn i'r Prif Ustus perthnasol gyfeirio'r gŵyn at farnwr ymchwilio.[408] Rhaid i'r Llywydd gyflwyno ei gasgliadau mewn adroddiad a anfonir wedyn gan y SYYB at yr Arglwydd Ganghellor a'r Prif Ustus perthnasol.[409]

7.17 Os bydd y Llywydd yn argymell diswyddo aelod tribiwnlys neu ei atal o'i swydd, gall yr aelod tribiwnlys ofyn am alw panel disgyblu i ystyried y gŵyn.[410] Mae'r SYYB yn gyfrifol am alw'r panel disgyblu ac am anfon unrhyw sylwadau a wneir gan yr aelod tribiwnlys at y panel disgyblu.

### Cwynion am ddeiliaid swyddi barnwrol eraill

7.18 Mae'r weithdrefn ar gyfer cwynion ynghylch deiliaid swyddi barnwrol wedi'i phennu yn Rheolau Ymddygiad Barnwrol (Deiliaid Swyddi Barnwrol a Swyddi Eraill) 2014 ("Rheolau Swyddi Barnwrol 2014"). O dan y rheolau, rhaid i'r SYYB wneud asesiad cychwynnol o'r gŵyn, a elwir yn broses ymchwilio ("investigation process").[411]

7.19 Gall y SYYB wrthod y gŵyn ar yr un seiliau â'r rheini a restrir yn Rheolau Tribiwnlysoedd 2014. Os na fydd y SYYB yn gwrthod y gŵyn ar ôl y broses ymchwilio gychwynnol, rhaid iddi un ai delio â'r gŵyn o dan y broses ddiannod neu gyfeirio'r gŵyn at farnwr a enwebir.[412]

7.20 Os bydd y SYYB yn cyfeirio'r gŵyn at farnwr a enwebir, bydd y barnwr a enwebir yn cynnal camau nesaf y weithdrefn gwynion. Mae hyn yn cynnwys penderfynu ynghylch ffeithiau'r achos ac a yw'r ffeithiau'n gyfystyr â chamymddwyn.[413]

---

405 Rheolau Ymddygiad Barnwrol (Tribiwnlysoedd) 2014, rhan 3. Y Prif Ustus perthnasol yw Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr neu Ogledd Iwerddon neu Arglwydd Lywydd Llys y Sesiwn.

406 Fel uchod, rheol 50.

407 Fel uchod, rheol 51(a)-(b).

408 Fel uchod, rheol 54. Mae'r weithdrefn sydd i'w dilyn gan farnwr ymchwilio wedi'i phennu yn rhan 5.

409 Fel uchod, rheol 64.

410 Rheolau Ymddygiad Barnwrol (Tribiwnlysoedd) 2014, rheol 72. Mae gweithdrefn y panel disgyblu wedi'i phennu yn rhan 6.

411 Rheolau Ymddygiad Barnwrol (Deiliaid Swyddi Barnwrol a Swyddi Eraill), rheol 20.

412 Rheolau Ymddygiad Barnwrol (Deiliaid Swyddi Barnwrol a Swyddi Eraill), rheol 24. Ystyr barnwr a enwebir yw deiliad swydd a gaiff ei enwebu gan yr Arglwydd Brif Ustus yn unol â Rheoliadau Disgyblaeth Farnwrol (Gweithdrefnau Rhagnodedig) OS 2014 Rhif 919, rheoliad 7.

413 Rheolau Ymddygiad Barnwrol (Deiliaid Swyddi Barnwrol a Swyddi Eraill), rheol 38(a)-(b).

7.21 Mae'r barnwr a enwebir yn gallu gwrthod y gŵyn, delio â hi'n anffurfiol, argymell cymryd camau disgyblu neu gyfeirio'r gŵyn at farnwr ymchwilio.[414] Os bydd y barnwr a enwebir yn argymell gwrthod y gŵyn neu'n argymell cymryd camau disgyblu, rhaid iddo baratoi adroddiad.[415]

7.22 Rhaid i'r barnwr a enwebir anfon yr adroddiad i'r SYYB. Os bydd yr adroddiad yn argymell diswyddo neu atal deiliad swydd, rhaid i'r SYYB ofyn i'r deiliad swydd dan sylw a yw'n dymuno i banel disgyblu ystyried y gŵyn.[416] Yn yr un modd â Rheolau Tribiwnlysoedd 2014, mae'r SYYB yn gyfrifol am gyfeirio'r gŵyn at y panel disgyblu a darparu adroddiad y barnwr a enwebir i'r panel.[417]

7.23 Yn y flwyddyn 2018/2019 cafodd y SYYB gyfanswm o 1,672 o gwynion. O'r rhain, roedd 1,173 yn ymwneud â phenderfyniadau barnwrol a rheoli achosion ac felly wedi cael eu gwrthod. Y categori ail fwyaf o gwynion (293) oedd honiadau am ymddygiad a sylwadau amhriodol. Roedd gweddill y cwynion (206) yn ymwneud â materion fel oedi gan farnwyr, gwrthdaro buddiannau, a methiant i gwrdd ag anghenion eistedd. Nid yw'r ystadegau'n dangos pa nifer o'r cwynion hynny a oedd yn ymwneud ag aelodau tribiwnlysoedd. Roedd 55 o gwynion wedi arwain at gamau disgyblu.[418]

### Yr Ombwdsmon Penodiadau ac Ymddygiad Barnwrol

7.24 Mae rôl yr OPYB wedi'i phennu yn adran 62 o Ddeddf 2005 ac yn Atodlen 13 i'r ddeddf honno. Penodir yr OPYB gan Ei Mawrhydi ar argymhelliad yr Arglwydd Ganghellor.[419]

7.25 Mae'r OPYB yn ymchwilio i bryderon ynghylch y ffordd o drafod cwynion gan y SYYB, llywyddion tribiwnlysoedd a phwyllgorau cynghorol ynadon. Gellir dod â chwynion i'r OPYB gan unigolion sydd wedi cwyno am ddeiliad swydd farnwrol a chan ddeiliaid swyddi barnwrol sydd wedi bod yn destun cwyn ynghylch ymddygiad.[420] Gall yr OPYB adolygu'r arfer ar bwerau disgyblu gan yr Arglwydd Ganghellor a chan yr Arglwydd Brif Ustus (neu Arglwydd Lywydd, neu Arglwydd Brif Ustus Gogledd Iwerddon, fel y bo'n briodol).[421]

7.26 Ar ôl cael cwyn, bydd yr OPYB yn gwneud gwiriad cychwynnol yn gyntaf i benderfynu a yw'r gŵyn y tu allan i'w gylch gwaith. Y cam nesaf yw gwerthusiad cychwynnol

---

414 Ceir y weithdrefn sydd i'w dilyn gan farnwr ymchwilio yn Rheolau Ymddygiad Barnwrol (Deiliaid Swyddi Barnwrol a Swyddi Eraill), rhan 5.

415 Rheolau Ymddygiad Barnwrol (Deiliaid Swyddi Barnwrol a Swyddi Eraill), rheol 46.

416 Fel uchod, rheol 52.

417 Fel uchod, rheol 55.

418 Y Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol, *Annual Report 2018/2019*, t 14.

419 Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005,a 62.

420 Ombwdsmon Penodiadau ac Ymddygiad Barnwrol, *How to complain about the Judicial Conduct Investigation Process*, t.5. Ar gael yn https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/759413/jaco-investigation-booklet.pdf

421 Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, aa 110, 120(5)(b), 121(5)(b) a Rheoliadau Disgyblaeth Farnwrol (Gweithdrefnau Rhagnodedig) OS 2014 Rhif 919, rheoliad 22.

manwl, a elwir yn “gam gwirio cylch gwaith”, i benderfynu a oes angen cynnal ymchwiliad llawn. Cynhelir ymchwiliadau llawn gan swyddog ymchwilio, a fydd yn adrodd yn ôl wedyn i’r OPYB. Rhaid i’r OPYB baratoi adroddiad i’r Arglwydd Ganghellor a’r Arglwydd Brif Ustus a gall argymell bod yr achwynydd yn cael ei ddigolledu am y golled a gafodd o ganlyniad i gamweinyddu gan y SYYB neu lywydd tribiwnlys.[422] Gall yr OPYB hefyd wrthod penderfyniad y SYYB neu lywydd tribiwnlys.[423]

7.27 Yn y flwyddyn 2019/2020 cafodd yr OPYB 991 o gwynion ac ymholiadau ac, o’r rhain, roedd 562 yn ymwneud ag ymddygiad. O’r cwynion am ymddygiad, roedd 365 yn ymwneud â’r SYYB, 169 yn ymwneud â chwynion am ymddygiad a oedd yn destun ymchwiliad gan Lywyddion Tribiwnlys, a 28 yn ymwneud â phwyllgorau cynghorol ynadon. O’r cwynion am ymddygiad, roedd 418 wedi’u gwrthod ar y sail eu bod y tu allan i gylch gwaith yr OPYB a dim ond 84 a oedd wedi cyrraedd cam yr ymchwiliad llawn: 30 yn ymwneud â’r SYYB, 25 yn ymwneud â thribiwnlysoedd, wyth yn ymwneud â phwyllgorau cynghorol ynadon ac un yn ymwneud â phwyllgorau cynghorol ynadon a’r SYYB.[424]

## PROSESAU CWYNION O FEWN Y TRIBIWNLYSOEDD DATGANOLEDIG YNG NGHYMRU

7.28 Yn yr adran hon rydym yn amlinellu’r prosesau cwynion yn y tribiwnlysoedd datganoledig, gan wneud defnydd o’r dadansoddiad o gwynion yn system dribiwnlysoedd y DU lle mae gorgyffwrdd yn y fframwaith statudol. Rydym hefyd yn amlinellu’r sefyllfa yn y tribiwnlysoedd datganoledig sydd y tu allan i fframwaith statudol y DU, yn cynnwys Tribiwnlys Prisio Cymru (“TPC”), paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion a Phanel Dyfarnu Cymru (“PDC”).

7.29 Ar y dechrau, rydym yn nodi mai ychydig o gwynion a wneir yn erbyn aelodau o dribiwnlysoedd datganoledig. Mae’r tabl isod yn dangos nifer y cwynion a gafodd y tribiwnlysoedd adran 59 a TPC yn 2017/2018, y flwyddyn ddiweddaraf y mae data cyflawn ar gael ar ei chyfer:

| Tribiwnlys[425] | Nifer y cwynion 2017/18 |
|---|---|
| PDC | 0 |
| TAAAC | 1 |
| TAIMC | 5 |
| TEPC | 0 |
| TG | 0 |
| TPC | 1 |
| TTAC | 0 |

422 Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, aa 111(2) i (4).

423 Fel uchod, a 111(5).

424 Yr Ombwdsmon Penodiadau ac Ymddygiad Barnwrol, *Annual Report 2019/2020*, tt 37 i 38.

425 Defnyddir y byrfoddau canlynol yn y tabl: Panel Dyfarnu Cymru (“PDC”), Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (“TAIMC”), Tribiwnlys Anghenion Addysg Arbennig Cymru (“TAAAC”), Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru (“TEPC”), Tribiwnlys Prisio Cymru (“TPC”), Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru (“TTAC”) a Thribiwnlys y Gymraeg (“TG”).

### I bwy y gwneir cwynion?

7.30 Mae nifer o'r tribiwnlysoedd datganoledig yn dilyn y patrwm ar gyfer cwynion a disgyblaeth a ddefnyddir gan y tribiwnlysoedd a gedwir yn ôl ac sydd wedi'i amlinellu yn Rheolau Tribiwnlysoedd 2014 a Rheoliadau 2014.

#### Cwynion ynghylch "aelodau tribiwnlys"

7.31 Mae'r Atodlen i Reolau Tribiwnlysoedd 2014 yn rhestru'r aelodau tribiwnlys canlynol a'r Llywydd perthnasol cyfatebol y mae'n rhaid dod â chwynion ato.[426]

| Colofn 1 – Aelod tribiwnlys | Colofn 2 – Llywydd |
|---|---|
| Aelod o banel o ddirprwy gadeiryddion y Tribiwnlys Tir Amaethyddol a benodwyd o dan baragraff 14(1) o Atodlen 9 i Ddeddf Amaethyddiaeth 1947 | Yr uchaf o blith Cadeiryddion y Tribiwnlys Tir Amaethyddol fel y penderfynwyd gan Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr |
| Aelod o banel a benodwyd o dan baragraff 15(1) o Atodlen 9 i Ddeddf Amaethyddiaeth 1947 | Yr uchaf o blith Cadeiryddion y Tribiwnlys Tir Amaethyddol fel y penderfynwyd gan Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr |
| Aelod o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru a benodwyd o dan baragraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 | Barnwr Cyswllt ar gyfer Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru a ddynodwyd gan Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr |
| Aelod o banel cadeiryddion Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru a benodwyd o dan adran 333(2) o Ddeddf Addysg 1996[427] | Llywydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru a benodwyd o dan adran 333(2) o Ddeddf Addysg 1996 |

7.32 Y patrwm cyffredinol a fabwysiadwyd yn yr Atodlen yw bod cwynion am aelodau tribiwnlys yn cael eu gwrando gan y barnwr uchaf yn y tribiwnlys hwnnw. Felly rhaid mynd â chwynion am ymddygiad cadeiryddion Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ("TAAAC") a phaneli o ddirprwy gadeiryddion, ffermwyr a pherchnogion tir amaethyddol yn Nhribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru ("TTAC") at y

426 O'r blaen roedd cofnod yn yr Atodlen ar gyfer "Chairman of the Mental Health Review Tribunal for Wales appointed under paragraph 3 of Schedule 2 of the Mental Health Act 1983", a'r Llywydd cyfatebol a restrwyd oedd "Liaison Judge for the Mental Health Review Tribunal for Wales, designated by the Lord Chief Justice of England and Wales". Dilëwyd y cofnod hwn gan Reolau Ymddygiad Barnwrol (Tribiwnlysoedd) (Diwygio Swyddi) 2017, rheol 2(2).

427 Nid oedd y cofnod hwn yn yr atodlen wreiddiol ond cafodd ei ychwanegu gan Reolau Ymddygiad Barnwrol (Tribiwnlysoedd) (Diwygio Swyddi) 2017, rheol 2(3).

Llywydd perthnasol.[428] Yn rhyfedd, nid yw aelodau panel draenio tir TTAC wedi'u cynnwys yn y rhestr.

7.33 Mae sefyllfa TAIMC yn anghyson. Yn wahanol i'r tribiwnlysoedd eraill, nid Llywydd y tribiwnlys yw'r 'Llywydd perthnasol'. Yn hytrach, am resymau sy'n ymddangos yn rhai hanesyddol, y gofyniad yn yr Atodlen yw bod cwynion yn cael eu gwneud i 'farnwr cyswllt'.[429] Fel y mae wedi digwydd, nid yw barnwr cyswllt wedi'i benodi, ac nid yw'n hawdd pennu rôl cyswllt. Mae hyn wedi gadael bwlch yn y system gwynion bresennol.

### Cwynion ynghylch "deiliaid swydd"

7.34 Mae nifer o aelodau'r tribiwnlysoedd datganoledig sydd heb eu rhestru'n aelodau tribiwnlys yn Rheolau Tribiwnlysoedd 2014 ond sydd wedi'u rhestru yn Atodlen 14 i Ddeddf 2005 ac sydd felly'n 'ddeiliaid swydd' i ddibenion Rheoliadau 2014, sef:

(1) un sy'n Gadeirydd TTAC;

(2) aelodau pwyllgorau asesu rhenti Cymru;[430]

(3) Llywydd TAIMC;

(4) aelodau panel draenio tir TTAC; a

(5) Llywydd TAAAC.

7.35 Effaith y darpariaethau hynny yw bod rhaid gwneud cwynion i'r SYYB ynghylch y deiliaid swydd a restrwyd uchod.

### Aelodau'r tribiwnlysoedd datganoledig sydd y tu allan i'r fframwaith statudol

7.36 Mae nifer o aelodau'r tribiwnlysoedd datganoledig sydd heb eu rhestru'n 'aelodau tribiwnlys' nac yn 'ddeiliaid swydd'. Nid yw'r diffiniadau hynny'n cynnwys Llywydd ac aelodau TPC, Llywydd ac aelodau Tribiwnlys y Gymraeg ("TG"), aelodau PDC, neu aelodau paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion.

7.37 O'r pum tribiwnlys hynny, dim ond TPC sydd wedi cyhoeddi polisi cwynion ar ei wefan. Prif bwrpas y polisi hwnnw yw delio â chwynion gweinyddol, yn hytrach na chwynion am aelodau panel. Mae'n datgan:

---

[428] Bydd TAAAC yn cael ei ailenwi'n Dribiwnlys Addysg Cymru gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("DADYTA"). Bydd Rheoliadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Darpariaethau Atodol) OS 2019 Rhif 794, rheoliad 3, pan ddeuant i rym, yn gwneud diwygiadau cyfatebol i Atodlen 14 i Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005.

[429] Cyn trosglwyddo awdurdodaeth tribiwnlysoedd adolygu iechyd meddwl yn Lloegr i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf, roedd barnwr cyswllt ar gyfer tribiwnlysoedd Lloegr, a oedd wedi'u trefnu ar sail ranbarthol bryd hynny.

[430] Pwyllgorau asesu rhenti yw un o'r tri math o dribiwnlys sydd gyda'i gilydd yn ffurfio TEPC. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n sail i'r ddau arall, y tribiwnlysoedd eiddo preswyl a'r tribiwnlysoedd prisio lesddaliadau, yn datgan bod pwyllgor asesu rhenti yn gallu arfer yr awdurdodaethau hynny. Felly mewn rhai achosion gellir darllen cyfeiriadau at bwyllgorau asesu rhenti fel eu bod yn gyfeiriad cyffredinol at aelodau TEPC.

Mae'r polisi hwn yn cwmpasu materion lle'r ydych chi o'r farn nad ydym ni wedi trin ein trafodion gyda chi yn gywir neu'n dda ar lefel weinyddol. Gallai'r problemau gynnwys ein bod ni wedi bod yn anghwrtais, neu roi gwybodaeth gamarweiniol neu anghywir i chi, neu fethu â gwneud rhywbeth y dylem ni fod wedi ei wneud wrth ymdrin â'ch ymholiad neu wrth brosesu eich apêl.[431]

7.38 Mae'r polisi cwynion a gyhoeddwyd yn datgan hefyd y bydd unigolyn sy'n anfodlon ar y ffordd y deliwyd â'i gŵyn gan y Tribiwnlys yn gallu gwneud cwyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("OGCC"). Trafodir rôl OGCC isod.

7.39 Mae polisi cwynion TG yn darparu y bydd cwynion am ymddygiad personol aelod tribiwnlys yn cael eu trafod gan arweinydd barnwrol y tribiwnlys dan sylw. Os yw'r gŵyn yn ymwneud ag ymddygiad yr arweinydd barnwrol, mae'n ofynnol o dan y polisi fod pennaeth Uned Tribiwnlysoedd Cymru ("UTC") yn anfon y gŵyn ymlaen i'r SYYB.

7.40 Mae polisi cwynion PDC ar gael ar ffurf drafft. Yn yr un modd â pholisi TG, mae'n darparu ar gyfer delio â chwynion am aelodau gan yr arweinydd barnwrol. Fodd bynnag, mae'r polisi'n unigryw o ran darparu y bydd cwynion am yr arweinydd barnwrol yn cael eu hanfon ymlaen un ai i'r SYYB neu at Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

### Cwynion yn erbyn aelodau paneli apelio derbyniadau ysgolion a phaneli apelio gwaharddiadau ysgolion

7.41 Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am weinyddu paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion. Nid oes gweithdrefn benodol y gellir ei defnyddio i ddod â chwynion am aelodau'r paneli hynny i'r paneli eu hunain, neu i'r awdurdod lleol, a phrin yw'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd. Yn lle hynny, gall defnyddwyr gwyno i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("OGCC") neu i Weinidogion Cymru.

7.42 Mae Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 yn darparu y gall OGCC ymchwilio i achosion o gamweinyddu, methiant i ddarparu gwasanaeth neu fethiant mewn gwasanaeth perthnasol a ddarperir.[432] Mae canllawiau ychwanegol a gyhoeddwyd gan OGCC yn awgrymu ei fod yn canolbwyntio ar ymddygiad y panel yn gyffredinol, yn hytrach na chwynion am ymddygiad aelodau unigol o'r panel. Er enghraifft, mae'r canllawiau ar dderbyn disgyblion i ysgolion yn datgan bod OGCC yn gallu:

(1) edrych ar gwynion am weithdrefnau derbyn i ysgolion yng Nghymru a'r broses apeliadau derbyn;

(2) edrych ar gwynion gan rieni sy'n credu bod awdurdod lleol wedi gweithredu ei weithdrefn derbyn i ysgolion yn annheg; a

---

431 Tribiwnlys Prisio Cymru, *Polisi a Gweithdrefn Cwynion,* paragraff 3.3. Ar gael yn https://www.valuationtribunal.wales/fileadmin/resources/docs/guidance-notes/cy/2019/Polisi_Cwynion.pdf

432 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, a 11(1) ac Atodlen 3.

(3) edrych ar gwynion gan rieni sy'n credu bod panel apelio derbyniadau wedi gweithredu'n amhriodol.[433]

7.43 Mae canllawiau ar wahardd o ysgolion yn datgan bod OGCC yn gallu ystyried a oedd y panel wedi dilyn y gweithdrefnau cywir ai peidio,[434] ac a oedd y gwrandawiad wedi'i gynnal yn deg ai peidio.[435]

7.44 Rydym yn deall bod OGCC wedi cael 27 o gwynion yn ymwneud â phaneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion yn 2018-2019 a 30 y flwyddyn wedyn. Ym mwyafrif yr achosion hyn (mwy nag 80% yn y ddau fath o achos), ni chafwyd ymchwiliad am nad oedd tystiolaeth o gamweinyddu neu fethiant mewn gwasanaeth.

7.45 Mae ceiswyr i'r paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion hefyd yn gallu cwyno i Weinidogion Cymru, hefyd ar seiliau cyfyngedig.[436]

## Rolau Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

7.46 Mae'r prosesau cwynion ar gyfer 'aelodau tribiwnlys' a 'deiliaid swydd', fel y rheini ar gyfer y tribiwnlysoedd a gedwir yn ôl, wedi'u pennu yn Rheolau Tribiwnlysoedd 2014 ac yn Rheolau Swyddi Barnwrol 2014 ac wedi'u disgrifio ym mharagraffau 7.12 i 7.23 uchod. Fodd bynnag, yn y system tribiwnlysoedd datganoledig mae Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ac OGCC ill dau'n chwarae rhan mewn delio â chwynion. Trafodir hyn isod.

### Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru

7.47 Mae dyletswyddau a chyfrifoldebau Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru wedi'u pennu yn Neddf Cymru 2017 ("Deddf 2017").[437] Nid yw Deddf 2017 yn darparu'n benodol mai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fydd yn dyfarnu ar gwynion a wneir ynghylch aelodau tribiwnlys. Fodd bynnag, yn ei adroddiad blynyddol cyntaf, mae'r Llywydd yn datgan:

> Nid yw Deddf Cymru 2017 yn ceisio rhoi diffiniad cynhwysfawr o ddyletswyddau a phwerau'r Llywydd. Deallir a derbynnir fel arfer mai'r Llywydd yw'r barnwr uchaf ei safle yn y system tribiwnlysoedd datganoledig, ac yn unol â hynny, fod ganddo rôl yn goruchwylio pob un o Dribiwnlysoedd Cymru. Mae hyn yn ategu'r dyletswyddau y cyfeirir atynt yn benodol yn y Ddeddf. Rwyf wedi cyflawni'r rôl honno mewn

---

433 Gweler https://www.ombwdsmon.cymru/fact-sheets/addysg-derbyn-i-ysgolion-ac-apeliadau/.

434 Rhai o'r enghreifftiau a roddwyd yn y canllawiau yw: bod y panel yn annibynnol ac wedi'i gyfansoddi'n briodol, a bod y dystiolaeth y dibynnwyd arni yn y gwrandawiad wedi cael ei darparu mewn da bryd cyn y gwrandawiad. Gweler https://www.ombwdsmon.cymru/fact-sheets/addysg-apeliadau-gwahardd-plant-or-ysgol/.

435 Rhai o'r enghreifftiau a roddwyd yn y canllawiau yw: a ganiatawyd i'r achwynydd alw tystion, ac a oedd y panel wedi'i fodloni ei hun: (a) bod y digwyddiadau a arweiniodd at y gwaharddiad wedi digwydd ac, os oeddent, (b) mai gwahardd oedd y cam gweithredu priodol.

436 Llywodraeth Cymru, *Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion* (Tachwedd 2019) paragraff 4.13.2. Ar gael yn https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-11/gwahardd-o-ysgolion-unedau-cyfeirio-disgyblion.pdf. Llywodraeth Cymru, *Y cod apelau derbyn i ysgolion* (2013) paragraffau 6.14 a 6.15. Ar gael yn https://llyw.cymru/y-cod-apelau-derbyn-i-ysgolion.

437 Deddf Cymru 2017, aa 60 i 63.

perthynas â'r ychydig iawn o gwynion a ddaeth i law am brosesau gwneud penderfyniadau mewn achosion unigol. Ym mhob achos y cefais wybod amdano, cymerais gamau priodol i benderfynu a ymchwiliwyd i'r cwynion yn rhesymol ac yn gymesur, yn unol â'r drefn gwyno berthnasol… .[438]

### Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

7.48 Crëwyd swydd OGCC yn 2005 gan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, Deddf Senedd y DU. Y ddeddfwriaeth sydd bellach yn berthnasol yw Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2019 ("Deddf 2019"), Deddf Senedd Cymru. Rydym yn trafod rôl yr OGCC mewn cysylltiad â phaneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion uchod.

7.49 Mae Deddf 2019 yn darparu y gall OGCC ymchwilio i faterion ar ei fenter ei hun neu i gwynion gan aelodau o'r cyhoedd yn ymwneud ag:

(1) camweinyddu honedig gan awdurdod rhestredig mewn cysylltiad â gweithred berthnasol;

(2) methiant honedig mewn gwasanaeth perthnasol a ddarparwyd gan awdurdod rhestredig; neu

(3) methiant honedig gan awdurdod rhestredig i ddarparu gwasanaeth perthnasol.

7.50 Mae Atodlen 3 i Ddeddf 2019 yn pennu awdurdodau rhestredig, yn cynnwys Llywodraeth Cymru (y cymerwn ei bod yn cynnwys UTC). Yr unig dribiwnlysoedd datganoledig sydd wedi'u rhestru'n benodol yw paneli apelio derbyniadau ysgolion a phaneli apelio gwaharddiadau ysgolion.

7.51 Mae Deddf 2019 yn pennu nifer o faterion a eithrir, nad yw OGCC yn gallu ymchwilio iddynt. Mae'r rhain yn cynnwys cam a gymerwyd gan aelod o staff gweinyddol tribiwnlys perthnasol i'r graddau ei fod wedi'i gymryd o dan gyfarwyddyd, neu ar awdurdod (boed yn ddatganedig neu'n oblygedig), person sy'n gweithredu yn rhinwedd swydd aelod o'r tribiwnlys.[439] Y diffiniad o "dribiwnlys perthnasol" yw un a bennwyd gan reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru. Ni wnaed rheoliadau o'r fath eto.[440] Materion eraill a eithrir yw camau yn ymwneud â rhoi hyfforddiant neu â disgyblaeth mewn ysgol a gymerwyd gan banel apelio derbyniadau, corff llywodraethu neu banel apelio gwaharddiadau.[441]

---

438 Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, *Adroddiad blynyddol 2018 – 2019* (Mawrth 2019) t 3.

439 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2019, a 14(1) ac Atodlen 2, paragraff 3.

440 Fel uchod, a 78(1).

441 Fel uchod, a 14(1) ac Atodlen 2, paragraff 6.

## PWERAU DISGYBLU O FEWN Y TRIBIWNLYSOEDD DATGANOLEDIG YNG NGHYMRU

### Disgyblu a diswyddo deiliaid swyddi barnwrol

7.52 Fel y nodwyd ym mharagraffau 7.10 a 7.11 uchod, mae'r Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus yn arfer pwerau disgyblu dros aelodau'r tribiwnlysoedd datganoledig a restrir yn Atodlen 14 i Ddeddf 2005.

### Disgyblu a diswyddo aelodau eraill o dribiwnlysoedd datganoledig

7.53 Mae nifer o aelodau'r tribiwnlysoedd datganoledig sydd heb eu rhestru'n ddeiliaid swyddi yn Atodlen 14 i Ddeddf 2005. Gwneir darpariaeth benodol ar gyfer TPC a TG yn y ddeddfwriaeth sy'n rheoli'r tribiwnlysoedd hynny, ac rydym yn trafod y rheini isod. O ran TEPC, dim ond aelodau o bwyllgorau asesu rhenti sydd wedi'u rhestru yn Atodlen 14 i Ddeddf 2005. Fodd bynnag, gan fod y ddeddfwriaeth sy'n sail i dribiwnlysoedd eiddo preswyl a thribiwnlysoedd prisio lesddaliadau yn darparu bod pwyllgor asesu rhenti yn gallu arfer yr awdurdodaethau hynny, mae'n ymddangos i ni fod Deddf 2005 yn cwmpasu holl aelodau TEPC mewn gwirionedd.[442]

7.54 Yn achos personau eraill sydd heb eu rhestru yn Atodlen 14 i Ddeddf 2005, nid yw'n glir pwy, os rhywun, sydd â'r pŵer i ddiswyddo a disgyblu aelodau'r tribiwnlys neu'r arweinydd barnwrol yn dilyn honiadau o gamymddwyn. Er enghraifft, nid ydym wedi gallu canfod pwerau sy'n rhoi caniatâd yn benodol i ddiswyddo aelodau neu Lywyddion PDC neu aelodau o baneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion.

#### Tribiwnlys Prisio Cymru

7.55 Mae Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010 yn darparu bod Gweinidogion Cymru, ar ôl ymgynghori â'r Panel Penodiadau, yn gallu terfynu penodiad aelod.[443] Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn gallu terfynu penodiad y Llywydd yn dilyn ymgynghori ag aelodau TPC.[444]

7.56 Gall Llywydd y tribiwnlys ddiswyddo cadeirydd yn dilyn ymgynghori â'r Cyngor Llywodraethu, a rhaid iddo ddiswyddo cadeirydd o dan gyfarwyddyd Gweinidogion Cymru.[445] Nid yw'n ymddangos bod unrhyw ddarpariaethau statudol ar gyfer disgyblu aelodau tribiwnlys neu'r Llywydd (heb fynd mor bell â diswyddo).

#### Tribiwnlys y Gymraeg

7.57 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn darparu bod Gweinidogion Cymru yn gallu diswyddo aelod o TG os ydynt wedi'u bodloni bod yr aelod yn anaddas i barhau yn y swydd neu'n analluog neu'n amharod i gyflawni ei ddyletswyddau. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Llywydd y tribiwnlys cyn diswyddo unrhyw aelod o'r tribiwnlys.[446] Nid yw'r Mesur yn darparu ar gyfer sancsiynau disgyblu llai na diswyddo.

---

442 Am fwy o fanylder ar natur y TEPC, gweler (appendix) 1, paragraffau 1.110 i 1.113 isod.

443 Fel uchod, rheoliad 10(3).

444 Fel uchod, rheoliad 11(6).

445 Fel uchod, rheoliad 13(6).

446 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 nawm 1, Atodlen 11, paragraff 12.

## PROSESAU CWYNION A DISGYBLU YN YR ALBAN A GOGLEDD IWERDDON

### Yr Alban

7.58 Roedd Deddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014 wedi trefnu tribiwnlysoedd datganoledig yr Alban yn ddwy haen: Tribiwnlys Haen Gyntaf yr Alban ("THGA") ac Uwch Dribiwnlys yr Alban ("UDA"). Mae tribiwnlysoedd yn yr Alban o dan oruchwyliaeth Llywydd Tribiwnlysoedd yr Alban a benodir gan yr Arglwydd Lywydd.[447] Mae tribiwnlysoedd yr Alban yn cynnwys aelodau cyffredin, cyfreithiol a barnwrol.[448]

#### Cwynion yn erbyn aelodau cyffredin a chyfreithiol

7.59 Mae'r weithdrefn ar gyfer dyfarnu ar gwynion ynghylch aelodau cyffredin a chyfreithiol wedi'i phennu yn Rheolau Cwynion am Aelodau o Dribiwnlysoedd yr Alban 2018 ("Rheolau 2018"). Mae'r Rheolau'n gymwys i aelodau cyffredin a chyfreithiol THGA ac UDA.[449]

7.60 Gwneir cwynion o dan Reolau 2018 i Swyddfa Farnwrol yr Alban (rhan o Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban, a sefydlwyd i gynorthwyo'r Arglwydd Lywydd yn ei rôl yn bennaeth barnwriaeth yr Alban).[450] Bydd y Swyddfa Farnwrol yn gwneud asesiad cychwynnol o'r gŵyn ac wedyn un ai'n ei gwrthod neu'n ei chyfeirio i Lywydd Tribiwnlysoedd yr Alban.[451]

7.61 Os bydd Llywydd Tribiwnlysoedd yr Alban yn credu y byddai'r honiad, os caiff ei brofi, yn codi cwestiwn posib o ran cymhwyster i gyflawni'r swydd, yna rhaid i'r Swyddfa Farnwrol hysbysu'r Arglwydd Lywydd. Bydd yr Arglwydd Lywydd yn penderfynu wedyn a fydd yn gofyn am sefydlu tribiwnlys asesu cymhwyster. Gall Prif Weinidog yr Alban ddiswyddo aelod cyffredin neu gyfreithiol o Dribiwnlysoedd yr Alban os yw tribiwnlys asesu cymhwyster wedi dod i'r casgliad bod yr aelod yn anghymwys i ddal ei swydd.[452]

7.62 Os na sefydlir tribiwnlys asesu cymhwyster, rhaid i'r Swyddfa Farnwrol gyfeirio'r honiad i berson a enwebir gan Lywydd Tribiwnlysoedd yr Alban i ymchwilio iddo (a elwir yn ddeiliad swydd farnwrol enwebedig).[453] Rhaid i'r deiliad swydd farnwrol

---

447 Deddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014 asp 10, a 4(1) a (2).

448 Deddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014, a 13(1). Aelodau cyffredin yw'r rheini sy'n bodloni meini prawf, os oes rhai, a ragnodwyd gan Weinidogion yr Alban ac mae aelodau cyfreithiol, at ei gilydd, yn ymarferwyr cyfreithiol: Deddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014, Atodlen 3. Mae aelod barnwrol wedi'i ddiffinio yn Neddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014, a 19 ac mae'n cynnwys: 1) siryfion a awdurdodwyd i weithredu'n aelod o THGA; 2) yr Arglwydd Lywydd neu Lywydd tribiwnlysoedd a 3) siryf, barnwr yn Llys y Sesiwn neu Gadeirydd Llys Tir yr Alban a awdurdodwyd i weithredu'n aelod o UDA.

449 Rheolau Cwynion am Aelodau o Dribiwnlysoedd yr Alban 2018, rheol 2(1). Mae Llywydd Tribiwnlys Iechyd Meddwl yr Alban hefyd wedi penodi Swyddfa Farnwrol yr Alban i drafod cwynion a wneir yn erbyn aelodau'r tribiwnlys. Mae'r polisi ar gael yn https://www.mhtscotland.gov.uk/mhts/files/Complaints_Procedure_for_MHTS_2016.pdf.

450 Rheolau Cwynion am Aelodau o Dribiwnlysoedd yr Alban 2018, rheol 5(1).

451 Fel uchod, rheol 11.

452 Deddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014, Atodlen 8, paragraff 23.

453 Rheolau Cwynion am Aelodau o Dribiwnlysoedd yr Alban 2018, rheol 12(2).

enwebedig lunio adroddiad sy'n penderfynu ffeithiau'r mater, a yw'r honiad wedi'i brofi ac, os yw wedi'i brofi, a ddylai'r Arglwydd Lywydd roi cyngor ffurfiol, rhybudd ffurfiol, neu gerydd i'r aelod tribiwnlys.[454] Bydd yr Arglwydd Lywydd yn ystyried yr adroddiad wedyn ac yn penderfynu'r sancsiwn priodol.[455]

7.63 Mae'n ymddangos mai ychydig iawn o gwynion a wneir yn erbyn aelodau tribiwnlys cyffredin a chyfreithiol. Rhwng 1 Medi 2018 a 31 Awst 2019, dim ond dwy gŵyn a gafodd y Swyddfa Farnwrol ynghylch ymddygiad aelodau tribiwnlys.[456]

### Cwynion yn erbyn aelodau barnwrol

7.64 Mae'r weithdrefn ar gyfer dyfarnu ar gwynion ynghylch aelodau barnwrol tribiwnlysoedd yr Alban wedi'i phennu yn Rheolau Cwynion am Aelodau o Farnwriaeth yr Alban 2017 ("Rheolau 2017").

7.65 Mae'r weithdrefn yn debyg i honno sydd yn Rheolau 2018. Fodd bynnag, o dan Reolau 2017 cyflawnir swyddogaethau Llywydd Tribiwnlysoedd yr Alban gan y barnwr disgyblu. Penodir y barnwr disgyblu gan yr Arglwydd Lywydd ac mae'n farnwr yn Llys Mewnol Llys y Sesiwn.[457] Mae'r barnwr disgyblu yn goruchwylio gweithrediad Rheolau 2017 ac yn adrodd i'r Arglwydd Lywydd fel y bo'n briodol.

7.66 Fel y gwneir o dan Reolau 2018, cyflwynir adroddiad y deiliad swydd farnwrol enwebedig i'r Arglwydd Lywydd a rhaid iddo ef benderfynu wedyn a fydd yn rhoi cyngor ffurfiol, rhybudd ffurfiol neu gerydd i'r deiliad swydd farnwrol.[458]

### Yr Adolygydd Cwynion Barnwrol

7.67 Crëwyd rôl yr Adolygydd Cwynion Barnwrol ("yr ACB") gan Ddeddf Barnwriaeth a Llysoedd (yr Alban) 2008.[459] Ar y dechrau, roedd y rôl yn ymwneud â deiliaid swyddi barnwrol ond ehangwyd ei gylch gwaith gan Ddeddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014 i gynnwys tribiwnlysoedd yr Alban.[460] Mae dwy agwedd ar rôl yr ACB:

(1) Mae'n adolygu ymchwiliadau i gwynion yn erbyn deiliaid swyddi barnwrol a gynhelir gan Swyddfa Farnwrol yr Alban er mwyn gwirio eu bod wedi'u cyflawni'n unol â Rheolau 2017 a 2018. Os bydd yr ACB o'r farn nad yw

---

454 Rheolau Cwynion am Aelodau o Dribiwnlysoedd yr Alban 2018, rheol 13(2). Mae rheol 13(2)(b) yn cyfeirio at y pwerau disgyblu a roddwyd i'r Arglwydd Lywydd yn Neddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014 asp 10.

455 Fel uchod, rheolau 13(3)(c) ac 16(2).

456 Roedd hyn yn bedwar yn llai nag yn yr un cyfnod yn 2017/2018. Yr Adolygydd Cwynion Barnwrol, *Annual Report 2018/2019*, t 7. Ar gael yn https://www.judicialcomplaintsreviewer.org.uk/sites/default/files/publications/JCR%20Annual%20Report%202018-19.pdf.

457 Rheolau Cwynion am Aelodau Barnwriaeth yr Alban 2017, rheol 3(1).

458 Ceir pwerau disgyblu'r Arglwydd Lywydd o ran deiliaid swyddi barnwrol yn Neddf Barnwriaeth a Llysoedd (yr Alban) 2008 asp 6, adran 29(1).

459 Deddf Barnwriaeth a Llysoedd (yr Alban) 2008 asp 6, adran 30.

460 Deddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014, a s 9(d).

ymchwiliad wedi'i gynnal yn unol â'r Rheolau, yna rhaid iddo gyfeirio'r achos at yr Arglwydd Lywydd.[461]

(2) Mae'n cyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r Arglwydd Lywydd ynghylch gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i ymddygiad deiliaid swyddi barnwrol. Rhaid i'r Arglwydd Lywydd roi sylw i sylwadau'r ACB.[462]

7.68 Mae cylch gwaith yr ACB yn un cyfyng. Ni all ystyried rhinweddau cwyn, na mynnu ail ymchwiliad i gŵyn, na gwrthdroi penderfyniad. Nid yw ychwaith yn gallu gwneud gorchymyn i dalu digolledIad, ymddiheuro neu wneud iawn mewn ffordd arall.

7.69 Rhwng 1 Medi 2018 a 31 Awst 2019, cafodd yr ACB saith o geisiadau am adolygiad. Gwnaed pob un o'r ceisiadau hynny mewn cysylltiad â deiliaid swyddi barnwrol, yn hytrach nag aelodau tribiwnlys. Mae'n ymddangos bod y nifer hwn yn gostwng yn raddol. Yn yr un cyfnod yn 2017/18 cafwyd 17 o geisiadau am adolygiad ac yn 2015/16 cafwyd 37.

### Gogledd Iwerddon

7.70 O dan Ddeddf Cyfiawnder (Gogledd Iwerddon) 2002, mae'n ofynnol i Arglwydd Brif Ustus Gogledd Iwerddon baratoi cod ymarfer yn ymwneud ag unrhyw gwynion yn erbyn person sy'n dal swydd farnwrol warchodedig.[463] Mae adran 16(2) yn darparu bod rhaid i'r Cod gynnwys darpariaeth ar gyfer cyfeirio cwynion i dribiwnlys os ydynt:

(1) yn ymwneud â honiad o gamymddwyn difrifol neu analluu i gyflawni swyddogaethau swydd, a

(2) os oes rhagolwg rhesymol o'u profi.

7.71 Ar 3 Ebrill 2006 dyroddwyd Cod Ymarfer gan Arglwydd Brif Ustus Gogledd Iwerddon o'r enw *Complaints about the Conduct of Judicial Office Holders.* Mae'r Cod wedi'i adolygu'n rheolaidd, yn fwyaf diweddar yn Chwefror 2013.

7.72 Mae'r Cod yn darparu bod rhaid gwneud unrhyw gŵyn yn ddioed, a heblaw mewn amgylchiadau eithriadol, o fewn tri mis ar ôl yr ymddygiad y cwynir amdano.[464] Mae'r

---

461 Fel uchod, adran 30(2)(b).

462 Yr Adolygydd Cwynion Barnwrol, *Annual Report 2018/2019*, t 5.

463 Deddf Cyfiawnder (Gogledd Iwerddon) 2002, a 16(1). Y diffiniad o swydd farnwrol warchodedig yn a 2(5) yw swydd Arglwydd Brif Ustus Gogledd Iwerddon, swydd Arglwydd Ustus Apêl neu swydd farnwrol restredig. Mae rhestr o swyddi barnwrol yn Atodlen 1 ac mae'n cynnwys barnwyr, Llywyddion Tribiwnlys ac aelodau tribiwnlys.

464 *Code of Practice issued by the Lord Chief Justice under Section 16 of the Justice (Northern Ireland) Act 2002*, paragraff 2.6. Ar gael yn https://judiciaryni.uk/sites/judiciary/files/media-files/14G.%20CODE%20OF%20PRACTICE%20Judicial%20~%2028%20Feb%2013%20%28Final%29%20updated%20with%20new%20comp..__1.pdf

Cod yn cynnwys gweithdrefn ar gyfer cwynion 'difrifol',[465] a gweithdrefn ar wahân ar gyfer cwynion 'llai difrifol'.[466]

7.73 Mae'r Cod yn darparu y dylai cwynion gael eu hanfon i'r swyddfa cwynion yn Swyddfa Arglwydd Brif Ustus Gogledd Iwerddon. Gellir gwneud cwynion am aelodau tribiwnlys i Swyddfa Llywydd y Tribiwnlys.[467] Bydd y swyddog cwynion perthnasol yn penderfynu a yw'r gŵyn yn ymwneud â deiliad swydd farnwrol perthnasol ac ymddygiad barnwrol perthnasol.

7.74 Cedwir unrhyw gwynion difrifol gan Swyddfa Arglwydd Brif Ustus Gogledd Iwerddon ac fe'u cyfeirir i dribiwnlys cwynion.[468] Mae'r tribiwnlys cwynion yn darparu cyngor ynghylch sut i ddelio â'r cwynion. Yn dilyn gwrandawiad, rhaid i'r tribiwnlys lunio adroddiad a bydd unrhyw argymhellion a wneir yn cael eu hystyried gan Arglwydd Brif Ustus Gogledd Iwerddon. Gall Arglwydd Brif Ustus Gogledd Iwerddon roi cyngor, argymell hyfforddiant, rhoi rhybuddion ffurfiol ac anffurfiol neu gyfeirio'r achos i dribiwnlys statudol er mwyn ystyried diswyddo'r unigolyn.[469]

7.75 Ymchwilir i gwynion llai difrifol gan swyddog cwynion yn Swyddfa Arglwydd Brif Ustus Gogledd Iwerddon (yn achos aelodau barnwrol) neu gan swyddog cwynion yn Swyddfa Llywydd y Tribiwnlys (y achos aelodau tribiwnlys). Bydd y swyddog cwynion yn cyflwyno adroddiad a bydd Arglwydd Brif Ustus Gogledd Iwerddon neu Lywydd Tribiwnlys yn penderfynu pa gamau y dylid eu cymryd.

## DIWYGIO PROSESAU CWYNION YN Y TRIBIWNLYSOEDD DATGANOLEDIG

7.76 Yn yr adran hon, rydym yn trafod diwygiadau posib i brosesau cwynion yn y tribiwnlysoedd Cymreig. Mae hyn yn cynnwys cwynion sy'n ymwneud â gweinyddu'r tribiwnlys a chwynion am ymddygiad aelodau. Er nad ydym yn gweld unrhyw reswm dros beidio â chynnwys y polisïau hyn mewn un ddogfen (ac, yn wir, mae rhesymau da dros wneud hynny), mae'r ddau fath o gŵyn yn cyflawni rolau gwahanol. Mae cwynion am ymddygiad aelodau a llywyddion tribiwnlys yn gallu arwain at ddisgyblu aelodau tribiwnlys. Trafodir y prosesau disgyblu hynny ar wahân isod o baragraff 7.114 ymlaen.

---

465 Y diffiniad o gŵyn o'r fath yw un sy'n cyflawni dau gymal Deddf Cyfiawnder (Gogledd Iwerddon) 2002, a 16(2).

466 *Code of Practice issued by the Lord Chief Justice under Section 16 of the Justice (Northern Ireland) Act 2002*, paragraff 2.7.

467 *Code of Practice issued by the Lord Chief Justice under Section 16 of the Justice (Northern Ireland) Act 2002*, paragraff 4(1).

468 Mae *Code of Practice issued by the Lord Chief Justice under Section 16 of the Justice (Northern Ireland) Act 2002*, Atodiad C yn rhoi arweiniad ar y math o gŵyn sy'n debygol o gael ei ystyried yn ddifrifol. Rhai o'r enghreifftiau yw gwneud sylwadau eithriadol o amhriodol, fel sylwadau am grefydd neu gefndir hiliol rhywun, a methu â datgelu gwrthdaro buddiannau difrifol a sylfaenol.

469 Mae *Code of Practice issued by the Lord Chief Justice under Section 16 of the Justice (Northern Ireland) Act 2002*, paragraff 8.2 yn cyfeirio at dribiwnlys statudol wedi'i gynnull yn unol ag a 9 o Ddeddf Cyfiawnder (Gogledd Iwerddon) 2002. Nid yw a 9 mewn grym eto.

### Polisi a gweithdrefn cwynion unffurf

7.77 Mae gwaith blaenorol ar dribiwnlysoedd Cymreig wedi galw am weithdrefn cwynion fwy cyson rhwng y tribiwnlysoedd Cymreig. Yn ei adroddiad yn 2010 roedd y CCGT wedi argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru ac arweinwyr barnwrol y tribiwnlysoedd Cymreig yn sefydlu polisi a gweithdrefn cwynion i'r holl dribiwnlysoedd Cymreig, wedi'u seilio ar ganllawiau gan OGCC.[470]

7.78 Nid yw'r argymhelliad hwn wedi'i weithredu'n llawn ac mae gweithdrefnau cwynion ar gyfer tribiwnlysoedd Cymreig yn parhau'n anghyson ac wedi'u seilio ar nifer o wahanol ddeddfiadau. Mae rhai tribiwnlysoedd hefyd yn sefyll y tu allan i'r system statudol a amlinellwyd ym mharagraffau 7.12 i 7.22 uchod. Mae hyn yn golygu bod rhai o'r tribiwnlysoedd hynny, sef yn benodol TG a PDC (y mae ei bolisi ar ffurf drafft yn unig), wedi datblygu eu trefniadau eu hunain. Mae tribiwnlysoedd eraill sydd y tu allan i'r system statudol heb fabwysiadu unrhyw bolisïau cwynion o gwbl yn ymwneud ag ymddygiad aelodau tribiwnlys, yn benodol TPC a phaneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion.

7.79 Oherwydd y cymhlethdod hwn, mae'n anodd i'r cyhoedd ganfod pa weithdrefnau cwynion sy'n gymwys i dribiwnlysoedd penodol. Clywsom gan rai aelodau o'r tribiwnlysoedd datganoledig nad ydyn nhw'n sicr ychwaith pa weithdrefnau sy'n gymwys i'w tribiwnlysoedd. Mae hyn yn destun pryder. Os nad yw aelodau tribiwnlys yn gwybod pa reolau sy'n gymwys, yna mae'r gweithdrefnau'n annhebygol o fod yn hygyrch i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd.

7.80 Mae'n bosib bod y ffaith nad oes polisi cyson ar hyn o bryd yn ganlyniad i wahaniaeth barn am gynnwys y polisi. Wrth roi tystiolaeth i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, nododd Llywydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, y Barnwr Kirby:

> There has been pressure to standardise complaints procedures across the devolved Welsh tribunals, based on the procedure developed by the President of the Welsh Language Tribunal, which involves an initial triage by WTU. I have resisted that. Our complaints system works for MHRTW and, from a perspective of judicial independence, I think our procedure is more appropriate.[471]

7.81 Gellid lliniaru'r pryderon hyn os caiff UTC ei throi'n asiantaeth weithredol neu'n adran anweinidogol.[472] Rydym yn trafod y posibilrwydd o gyfeirio cwynion gweinyddol i UTC ym mharagraff 7.96} isod.

---

470 Gweler argymhelliad 11 yn Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, *Adolygiad o Dribiwnlysoedd sy'n Gweithredu yng Nghymru* (2010), t 33.

471 Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru: Sesiwn Tystiolaeth Lafar (22 Mawrth 2019). Trawsysgrifiad ar gael yn https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/Oral%20evidence%20to%20the%20Justice%20Commission%20on%20Tribunals%20in%20Wales_0.pdf .

472 Trafodir egwyddor annibyniaeth yn fanwl ym Mhennod 10.

7.82 O ystyried graddau'r cymhlethdod ar hyn o bryd, rydym wedi dod i'r farn ragarweiniol y byddai polisi cwynion cyson yn gwella hygyrchedd i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd ac y byddai hefyd yn haws ei ddefnyddio gan aelodau tribiwnlys ac arweinwyr barnwrol.

7.83 Yn ogystal â bod yn gyson, mae'n bwysig bod polisïau cwynion yn hygyrch. Yn ystod ein hymchwil, cawsom nad oedd polisïau cwynion nifer o'r tribiwnlysoedd datganoledig ar gael yn rhwydd ar-lein. Fel y nododd y Cyngor Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yn ei adroddiad yn 2010, mae hygyrchedd i ddefnyddwyr yn egwyddor allweddol ym mhob system dribiwnlysoedd. [473] Rydym yn cytuno ac yn credu y byddai modd gwella hygyrchedd drwy gyhoeddi polisïau cwynion yr holl dribiwnlysoedd datganoledig ar-lein, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer defnyddwyr sydd am weld y polisïau ar ddyfais symudol, a thrwy drefnu iddynt fod ar gael ar ffurf copi caled ar gais.

### Paneli apelio derbyniadau ysgolion a phaneli apelio gwaharddiadau ysgolion

7.84 Ein safbwynt cyffredinol, sydd wedi'i amlinellu uchod, yw y dylai defnyddwyr tribiwnlysoedd allu cwyno am weinyddiad panel ac am ymddygiad ei aelodau. Rydym hefyd wedi amlinellu uchod y rôl sydd gan OGCC o ran dyfarnu ar gwynion ynghylch paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion. Fodd bynnag, nid ydym yn sicr a yw rôl OGCC yn ddigonol yn hyn o beth, neu a oes angen am bolisi cwynion gwahanol. Mae'n ymddangos ar hyn o bryd fod OGCC yn gallu ymchwilio i faterion sy'n ymwneud â gweinyddu'r paneli, yn ogystal ag ymddygiad aelodau, i'r graddau y mae hynny'n ymwneud ag ymddygiad amhriodol gan y panel. Byddem yn falch o gael barn ymgyngoreion am y pwynt hwn.

### Tribiwnlys Prisio Cymru

7.85 Nid yw'r polisi cwynion a gyhoeddwyd gan TPC yn ei gwneud yn glir bod unigolyn yn gallu cwyno'n ffurfiol am ymddygiad aelod. Unwaith eto, credwn fod hyn yn anfoddhaol. Rydym yn cynnig dros dro ym mharagraffau 3.97 i 3.102 y dylid cynnwys TPC yn y system tribiwnlysoedd Cymreig. Drwy wneud hynny, byddai TPC yn dod o dan y cynigion cyffredinol ar gyfer yr holl dribiwnlysoedd a drafodir isod. Fodd bynnag, pa un a dderbynnir ein cynnig dros dro yng Nghwestiwn Ymgynghori 6 neu beidio, rydym yn cynnig dros dro y dylai TPC fabwysiadu polisi cwynion yn ymwneud ag ymddygiad aelodau a Llywydd TPC. Rydym yn gwneud y cynnig dros dro hwnnw isod.

**Cwestiwn Ymgynghori 45.**

7.86 Rydym yn cynnig dros dro y dylid cael polisïau a gweithdrefnau cwynion safonol sy'n gymwys i'r holl dribiwnlysoedd datganoledig.

Ydych chi'n cytuno?

[473] Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, *Adolygiad o Dribiwnlysoedd sy'n Gweithredu yng Nghymru* (2010), paragraff 61.

**Cwestiwn Ymgynghori 46.**

7.87 Rydym yn cynnig dros dro y dylid trefnu i'r polisïau cwynion fod ar gael ar-lein a hefyd ar ffurf copi caled drwy wneud cais.

Ydych chi'n cytuno?

**Cwestiwn Ymgynghori 47.**

7.88 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a oes angen polisi cwynion ar gyfer paneli apelio derbyniadau ysgolion ac (os cedwir nhw) paneli apelio gwaharddiadau ysgolion, yn ychwanegol i'r rôl a gyflawnir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar hyn o bryd.

**Cwestiwn Ymgynghori 48.**

7.89 Rydym yn cynnig dros dro y dylid darparu ar gyfer cwynion ynghylch ymddygiad aelodau Tribiwnlys Prisio Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

### Pwy ddylai ymchwilio i gwynion?

#### Y tribiwnlysoedd Cymreig: cwynion am ymddygiad

7.90 Fel yr eglurwyd uchod, ar hyn o bryd mae cwynion yn ymwneud ag ymddygiad y rheini sydd wedi'u diffinio'n 'aelodau tribiwnlys' yn cael eu gwneud i bersonau sydd wedi'u rhestru'n 'Llywydd perthnasol' yn Rheolau Tribiwnlysoedd 2014 a gwneir cwynion yn erbyn eraill a ddiffiniwyd yn 'ddeiliaid swyddi barnwrol' i'r SYYB. Mae hyn yn golygu, yn gyffredinol, fod cwynion am lywyddion neu gadeiryddion tribiwnlys (a elwir gyda'i gilydd isod yn "arweinwyr barnwrol") yn cael eu gwneud i'r SYYB, sy'n goruchwylio'r ymchwiliad iddynt, tra ymchwilir i gwynion am aelodau gan yr arweinwyr barnwrol hynny. Mae'n debyg mai'r sail resymegol i hyn yw mai llywyddion tribiwnlys sydd yn y lle gorau i ddelio â'r rhan fwyaf o gwynion am faterion sy'n ymwneud â'u tribiwnlys. Fodd bynnag, byddai'n amhriodol iddynt wrando cwynion sy'n ymwneud â'u hymddygiad eu hunain.

7.91 Mae eithriadau i'r patrwm hwn. Rydym yn tynnu sylw uchod ym mharagraff 7.33 at achos TAIMC: y diffiniad o 'Lywydd perthnasol' yn yr achos hwnnw yw 'barnwr cyswllt', yn hytrach na Llywydd y tribiwnlys. Anghysondeb pellach yw nad yw aelodau paneli draenio tir TTAC ac aelodau pwyllgorau asesu rhenti wedi'u rhestru'n aelodau tribiwnlys, fel bod Rheolau Swyddi Barnwrol 2014 yn ei gwneud yn ofynnol bod cwynion yn mynd i'r SYYB yn hytrach na'r arweinydd barnwrol perthnasol.

7.92 At hynny, mae rhai aelodau o'r tribiwnlysoedd adran 59 sydd heb eu cynnwys yn y diffiniad o aelod tribiwnlys neu ddeiliad swydd farnwrol. Mae hyn yn cynnwys aelodau o TG a PDC. Oherwydd hyn, mae'r tribiwnlysoedd hynny wedi gorfod drafftio eu polisi cwynion eu hunain. Rydym yn deall bod TG yn destun cytundeb â'r SYYB sy'n caniatáu i'r SYYB drafod cwynion a wneir yn erbyn aelodau neu'r Llywydd (mae pwerau disgyblu, a drafodir ymhellach isod, yn aros gyda Gweinidogion Cymru).

7.93 Credwn fod y sefyllfa bresennol o ran cwynion yn rhy gymhleth, ac y gallai ddrysu defnyddwyr tribiwnlysoedd. Rydym wedi dod i'r farn dros dro mai opsiwn gwell fyddai gweithdrefn cwynion unffurf i'r holl dribiwnlysoedd datganoledig ac:

(1) y dylai'r arweinydd barnwrol perthnasol ymchwilio i gwynion ynghylch ymddygiad aelodau tribiwnlys; a

(2) y dylai'r broses o ymchwilio i gwynion ynghylch arweinwyr barnwrol gael ei threfnu gan y SYYB, neu gorff cyfatebol.

7.94 Ein barn dros dro (a drafodir isod) yw y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fod â rôl ffurfiol mewn disgyblu aelodau tribiwnlys ac arweinwyr barnwrol. Credwn y byddai'n annymunol iddo arfer y pwerau hynny wrth gymryd rhan hefyd yn y broses o adolygu neu ymchwilio i gwynion, felly rydym yn awgrymu y dylai cwynion am arweinwyr barnwrol gael eu cyfeirio i'r SYYB, neu gorff cyfatebol.

7.95 Rydym yn ymwybodol, yn achos rhai o'r tribiwnlysoedd Cymreig llai, ei bod yn bosib na fydd arweinwyr barnwrol y tribiwnlysoedd hynny'n teimlo bod digon o bellter rhyngddynt ac aelodau i ymchwilio i gwynion yn eu herbyn. Yn yr achosion hynny, rydym yn awgrymu y byddai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, yn lle hynny, yn gallu enwebu arweinydd barnwrol arall i gynnal ymchwiliad i'r gŵyn. Gellid gweithredu fel hyn hefyd lle mae cwyn yn erbyn aelod tribiwnlys wedi'i gwneud gan yr arweinydd barnwrol cysylltiedig, lle byddai'n amhriodol i'r arweinydd barnwrol ymchwilio i'r gŵyn.

### Y tribiwnlysoedd Cymreig: cwynion am weinyddu

7.96 Ein barn dros dro yw mai adran ysgrifenyddol y tribiwnlys a ddylai ddelio â chwynion am weinyddiaeth tribiwnlysoedd. Yn y rhan fwyaf o achosion, yr UTC bresennol fyddai'r ysgrifenyddiaeth honno. Mae UTC ddiwygiedig, sydd wedi'i thrafod ym Mhennod 9 , yn debygol o fod â chorff llywodraethu gyda phrif weithredwr, a allai fod yn ganolwr terfynol wrth drafod cwynion am weinyddu (gweithdrefn debyg i'r un a ddefnyddir gan TPC ar hyn o bryd).

## Rôl y SYYB

7.97 Os gweithredir ein cynigion dros dro, byddent yn dileu rôl yr Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus yn y prosesau disgyblu ar gyfer aelodau'r tribiwnlysoedd datganoledig (gweler isod ym mharagraffau 7.121 i 7.133 isod).

7.98 Fel y nodwyd uchod, mae'r SYYB yn helpu'r Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus i gyflawni eu cyfrifoldeb ar y cyd dros ddisgyblaeth farnwrol. Credwn fod dileu rôl yr Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus mewn disgyblaeth yn galw am droi oddi wrth y sefyllfa bresennol lle mae gofyniad awtomatig i'r SYYB wrando cwynion am ddeiliaid swyddi barnwrol. Er hynny, ni fyddai ein cynigion dros dro yn atal

Llywodraeth Cymru rhag dod i gytundeb adran 83 â'r SYYB i fabwysiadu gweithdrefn debyg i'r un sydd wedi'i hamlinellu yn Rheolau Tribiwnlysoedd 2014 .[474]

**Cwestiwn Ymgynghori 49.**

7.99 Rydym yn cynnig dros dro y dylid cael gweithdrefn unffurf ar gyfer cwynion ynghylch gweinyddu'r tribiwnlysoedd datganoledig.

Ydych chi'n cytuno?

**Cwestiwn Ymgynghori 50.**

7.100 Rydym yn cynnig dros dro y dylid cael gweithdrefn unffurf ar gyfer cwynion am ymddygiad aelodau ac arweinwyr barnwrol y tribiwnlysoedd datganoledig.

Ydych chi'n cytuno?

**Cwestiwn Ymgynghori 51.**

7.101 Rydym yn cynnig dros dro mai'r arweinydd barnwrol perthnasol a ddylai ymchwilio i gwynion ynghylch aelodau'r tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017.

Ydych chi'n cytuno?

**Cwestiwn Ymgynghori 52.**

7.102 Rydym yn cynnig dros dro y dylai'r broses o ymchwilio i gwynion am arweinwyr barnwrol tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017 gael ei threfnu gan y Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol, neu gan gorff cyfatebol.

Ydych chi'n cytuno?

## Paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion

7.103 Rydym yn trafod uchod a oes angen gweithdrefn cwynion unffurf ar gyfer paneli apelio derbyniadau ysgolion ac (os cedwir nhw) paneli apelio gwaharddiadau ysgolion. Os

474 Mae hyn yn cyfeirio at gytundeb yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006, a 83 sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ddod i gytundebau ag asiantaethau sy'n gallu helpu Gweinidogion Cymru i gyflawni eu swyddogaethau.

rhoddir ateb cadarnhaol i'r cwestiwn hwn, pwy ddylai ymchwilio i'r cwynion hynny? Ni fyddai'n bosib cymhwyso'r strwythur cwynion a amlinellwyd uchod at baneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion, gan nad oes arweinydd barnwrol iddynt. Rydym yn cynnig ym Mhennod 3 y dylai awdurdodaeth paneli apelio gwaharddiadau ysgolion gael ei throsglwyddo i TAAAC, fel y byddai cwynion yn ymwneud ag achosion gwahardd o ysgolion yn cael eu trin yn yr un ffordd ag a wneir mewn tribiwnlysoedd eraill.

7.104 Fodd bynnag, nid ydym yn cynnig cyfuno paneli apelio derbyniadau ysgolion â TAAAC, felly byddent heb arweinydd barnwrol o hyd. Pwy wedyn a ddylai ymchwilio i gwynion am aelodau paneli? Ein barn dros dro yw na fyddai gweithdrefn cwynion sy'n cyfeirio cwynion am aelodau at awdurdodau lleol yn un a fyddai'n gwneud digon i gynnal egwyddor annibyniaeth. Mae awdurdodau lleol yn bartïon i'r apeliadau yn ogystal â bod yn gyfrifol am ariannu'r paneli. Ni fyddem am wneud cynnig sy'n amharu ar annibyniaeth farnwrol nac ar y canfyddiad ohoni.

7.105 Un o'r posibiliadau eraill yw ehangu cylch gwaith OGCC i gynnwys mwy na gweinyddu (os teimlir nad yw hwnnw'n ddigonol). Fel arall, byddai modd i gwynion gael eu hystyried gan:

(1) awdurdodau lleol eraill;

(2) Llywydd TAAAC; neu

(3) Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

7.106 O fewn y strwythur gwasgaredig presennol, un posibiliad yw cyfeirio cwynion am ymddygiad aelodau panel at awdurdod lleol gwahanol nad yw'n gyfrifol am gynnull y panel. Byddai hyn yn sicrhau rhywfaint o annibyniaeth. Er hynny, rydym wedi dod i'r farn dros dro ei bod yn well bod cwynion am aelodau'r holl dribiwnlysoedd datganoledig yn dod o dan weithdrefn unffurf i'r graddau mwyaf posib.

7.107 Os penderfynir y dylid cyfeirio apeliadau o baneli apelio derbyniadau ysgolion i TAAAC (fel y trafodwyd ym mharagraffau 4.59 i 4.65 uchod ), yna gallai fod yn briodol bod Llywydd TAAAC yn ymchwilio i gwynion. Fel arall, gallai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fod yn gyfrifol am ymchwilio i gwynion am ymddygiad. Fodd bynnag, mi fyddai rhai yn ystyried fod Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn chwarae rôl o ormod o bwys i ystyried cwynion am aelodau paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion. Byddai hefyd yn anodd iddo ymchwilio i gwynion a hefyd arfer pwerau disgyblu, fel y trafodir yn ddiweddarach yn y Bennod ym mharagraff 7.94 uchod. Byddwn yn falch o gael barn ymgyngoreion am y mater hwn.

**Cwestiwn Ymgynghori 53.**

7.108 Rydym yn gofyn am farn ynghylch pwy a ddylai ymchwilio i gwynion a wneir am ymddygiad aelodau o baneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion.

### Tribiwnlys Prisio Cymru

7.109 Mae'r weithdrefn cwynion a gyhoeddwyd ar gyfer TPC yn darparu bod rhaid gwneud cwynion am weinyddu i'r Rheolwr Gweithredol. Os na fydd yr achwynydd wedi'i fodloni gan ymchwiliad y Rheolwr Gweithredol, yna gellir uwchgyfeirio'r gŵyn at y Prif Weithredwr.[475] Os bydd yr unigolyn yn parhau'n anfodlon, gall wneud cwyn i OGCC.

7.110 Nid ydym yn credu y byddai'r weithdrefn cwynion hon yn addas ar gyfer cwynion ynghylch ymddygiad aelodau o TPC, gan fod y Prif Weithredwr yn aelod o'r staff gweinyddol. Credwn ei bod yn well, yn yr un modd â thribiwnlysoedd datganoledig eraill, mai'r Llywydd fyddai'n ymchwilio i gwynion am aelodau barnwrol. Rydym yn awgrymu y dylid darparu mewn unrhyw bolisi cwynion newydd ar gyfer ymchwilio i gwynion am ymddygiad aelodau gan Lywydd TPC. Byddai hyn yn cysoni'r sefyllfa rhwng yr holl dribiwnlysoedd datganoledig.

7.111 Er nad yw TPC wedi'i restru'n dribiwnlys Cymreig ar hyn o bryd yn Neddf Cymru 2017, rydym wedi dod i'r farn dros dro ym mharagraffau 3.97 i 3.102 uchod (ynghylch strwythur) y dylid ei gynnwys yn yr un strwythur â'r tribiwnlysoedd adran 59 presennol. Er mwyn sicrhau bod y sefyllfa'n gyson rhwng y tribiwnlysoedd datganoledig, rydym yn cynnig dros dro, fel y gwnaethom o ran y tribiwnlysoedd adran 59, mai'r SYYB neu gorff cyfatebol a ddylai ymchwilio i gwynion ynghylch Llywydd TPC. Byddwn yn falch o gael barn ymgyngoreion am y mater hwn.

**Cwestiwn Ymgynghori 54.**

7.112 Rydym yn cynnig dros dro mai Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru a ddylai ymchwilio i gwynion am ymddygiad aelodau o'r tribiwnlys hwnnw.

Ydych chi'n cytuno?

**Cwestiwn Ymgynghori 55.**

7.113 Rydym yn cynnig dros dro mai'r Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol neu gorff cyfatebol a ddylai ymchwilio i gwynion ynghylch ymddygiad Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

## DIWYGIO PWERAU DISGYBLU YN Y TRIBIWNLYSOEDD DATGANOLEDIG

7.114 Ar hyn o bryd, mae pŵer gan yr Arglwydd Ganghellor i ddiswyddo aelodau o'r tribiwnlysoedd datganoledig a restrir yn Atodlen 14 i Ddeddf 2005. Hefyd mae'r Arglwydd Brif Ustus, ar ôl cael cytundeb gan yr Arglwydd Ganghellor, yn gallu rhoi cyngor ffurfiol, rhybuddion ffurfiol a cheryddon. Mae'r broses yn amrywio mewn

---

[475] Tribiwnlys Prisio Cymru, *Polisi a Gweithdrefn Cwynion,* paragraff 4.

perthynas ag aelodau ac arweinwyr barnwrol tribiwnlysoedd datganoledig eraill. Yn achos Tribiwnlys y Gymraeg, gall Gweinidogion Cymru ddiswyddo aelodau, ond nid y Llywydd.[476]

7.115 Yn yr un modd â phrosesau cwynion, credwn y dylid cael cysondeb o ran pwy sy'n arfer y pŵer i ddisgyblu ac, yn y pen draw, i ddiswyddo aelodau'r tribiwnlysoedd datganoledig a'u harweinwyr barnwrol. Credwn hefyd y dylid cael cysondeb o ran y prosesau disgyblu y dibynnir arnynt.

## Y weithdrefn ar gyfer ymchwilio i gwynion yn erbyn aelodau tribiwnlys ac arweinwyr barnwrol

### Aelodau tribiwnlys

7.116 Ein barn dros dro yw bod Rheolau Tribiwnlysoedd 2014 yn cynnig model defnyddiol ar gyfer gweithdrefnau disgyblu y gellid ei fabwysiadu fel ymarfer unffurf yn yr holl dribiwnlysoedd datganoledig gweler paragraffau 7.12 i 7.133   uchod.

7.117 Ar gyfer cwynion sydd heb eu gwrthod ar unwaith, byddai hynny'n golygu bod yr arweinydd barnwrol yn gorfod penderfynu a fyddai'n dilyn proses ddiannod (er enghraifft, os yw aelod tribiwnlys wedi cyflawni trosedd), neu'n cynnal ymchwiliad mwy trwyadl. Yn yr ymchwiliad hwnnw, byddai gofyn i'r arweinydd barnwrol benderfynu ffeithiau'r achos ac a ydynt yn gyfystyr â chamymddwyn. Byddai canfyddiadau'r ymchwiliad hwnnw'n cael eu cynnwys mewn adroddiad i'w gyflwyno i'r deiliad pwerau disgyblu (trafodir isod pwy a ddylai fod).

7.118 Os bydd yr arweinydd barnwrol wedi penderfynu rhoi gwybod y dylid diswyddo aelod tribiwnlys neu ei atal o'i swydd, yna byddai'r aelod tribiwnlys yn gallu gofyn am gynnull panel disgyblu i ystyried y gŵyn.

### Arweinwyr barnwrol

7.119 Ar gyfer arweinwyr barnwrol, gellid mabwysiadu proses debyg i'r un sy'n gymwys ar hyn o bryd i ddeiliaid swyddi o dan Reolau Swyddi Barnwrol 2014 (gweler paragraffau 7.18 i 7.23 uchod). Byddai hynny'n golygu bod y SYYB (neu gorff cyfatebol) yn cyfeirio'r mater at farnwr a enwebir. Os deuai'r barnwr a enwebir i'r casgliad bod angen cymryd camau disgyblu, yna gallai'r SYYB gynnig i'r arweinydd barnwrol yr opsiwn o gynnal panel disgyblu i ystyried y gŵyn. Wedyn byddai casgliadau'r panel yn cael eu darparu i'r deiliad pwerau disgyblu.

7.120 Mae anhawster yn codi wrth geisio cymhwyso'r weithdrefn yn Rheolau Swyddi Barnwrol 2014 at y tribiwnlysoedd datganoledig, oherwydd y nifer bach o uwch farnwyr o fewn y system sy'n gallu gweithredu fel "barnwr a enwebir". Yn lle hynny, gellid dethol barnwr a enwebir o leoedd eraill yn y farnwriaeth.

## Pwy a ddylai ddal y pwerau disgyblu?

7.121 Fel yr eglurwyd uchod, credwn mai'r egwyddor bwysicaf yw bod pwerau disgyblu i gael eu harfer mewn ffordd gyson. Y cwestiwn nesaf yw pwy a ddylai eu harfer. Mae'n

---

476 Mesur y Gymraeg 2011, (nawm 1), Atodlen 11 paragraff 12..

ymddangos i ni mai'r personau neu swyddi canlynol (neu gyfuniad ohonynt) yw'r rheini y gellid eu gwneud yn gyfrifol am ddisgyblaeth:

(1) yr Arglwydd Brif Ustus a/neu'r Arglwydd Ganghellor;

(2) Gweinidogion Cymru;

(3) Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru; neu

(4) y Cwnsler Cyffredinol.

### Aelodau tribiwnlys

7.122 Rydym wedi dod i'r farn dros dro bod y pŵer i ddiswyddo a disgyblu aelodau o'r tribiwnlysoedd datganoledig, nad ydynt yn arweinwyr barnwrol, yn un a ddylai gael ei arfer gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Dylai hyn gynnwys rhai sy'n aelodau o TG, PDC a TPC. Gellid ymestyn y pwerau hyn hefyd i gynnwys paneli apelio derbyniadau ysgolion ac (os cedwir nhw) paneli apelio gwaharddiadau ysgolion.

7.123 Rydym hefyd wedi ystyried ai opsiwn gwell fyddai gwneud yr Arglwydd Ganghellor a/neu'r Arglwydd Brif Ustus yn gyfrifol am ddisgyblaeth yn yr holl dribiwnlysoedd datganoledig. Nid ydym yn sicr y byddai'n briodol rhoi rôl i'r Arglwydd Ganghellor sy'n un o Weinidogion y DU. I'r un graddau, fodd bynnag, credwn y byddai gwneud Gweinidogion Cymru yn llwyr gyfrifol am ddisgyblu aelodau tribiwnlys yn codi pryderon dilys ynghylch annibyniaeth farnwrol.

7.124 Y ddadl o blaid cynnwys yr Arglwydd Brif Ustus yw mai'r ABU yw pennaeth y farnwriaeth yng Nghymru a Lloegr. Er hynny, ym mharagraffau 6.64 i 6.69 uchod rydym wedi cynnig dros dro y dylid trosglwyddo rôl bresennol yr Arglwydd Brif Ustus o ran penodi i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Er cydnabod bod angen amddiffyniadau cadarnach rhag pwerau disgyblu a diswyddo nag ar gyfer pwerau penodi, oherwydd y sgil-effeithiau ar enw da, rydym wedi dod i'r farn dros dro bod statws digonol ynglŷn â rôl Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru iddo ddisgyblu neu ddiswyddo aelodau'r tribiwnlysoedd datganoledig ar sail camymddwyn. Yn ogystal â hyn, mae'r Llywydd yn ddigon pell o waith pob dydd y tribiwnlysoedd a'r aelodau tribiwnlys i allu cyflawni'r rôl gydag uniondeb, gan ddilyn y broses rydym wedi'i chynnig ym mharagraffau 7.116 i 7.118 uchod.

**Cwestiwn Ymgynghori 56.**

7.125 Rydym yn cynnig dros dro y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael y pŵer i ddisgyblu a diswyddo aelodau'r tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017.

Ydych chi'n cytuno?

**Cwestiwn Ymgynghori 57.**

7.126 Rydym yn cynnig dros dro y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael y pŵer i ddisgyblu a diswyddo aelodau Tribiwnlys Prisio Cymru.

Ydych chi’n cytuno?

**Cwestiwn Ymgynghori 58.**

7.127 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael y pŵer i ddisgyblu a diswyddo aelodau paneli apelio derbyniadau ysgolion ac (os cedwir nhw) paneli apelio gwaharddiadau ysgolion.

## Arweinwyr barnwrol

7.128 Ein barn ragarweiniol yw na ddylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fod yn llwyr gyfrifol am arfer pwerau disgyblu dros arweinwyr barnwrol. Hyd yn oed o gael cymorth gan banel disgyblu (fel y disgrifiwyd uchod), mae’n debygol bod Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn cydweithio’n rhy agos ag arweinwyr barnwrol o ddydd i ddydd i fod ar bellter priodol i fod yn llwyr gyfrifol am eu diswyddo. Gallai hyn amharu ar y canfyddiad o annibyniaeth y broses.

7.129 Posibiliad arall yw gwneud Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn gyfrifol am ddisgyblaeth ar y cyd â’r Cwnsler Cyffredinol. Fel swyddog cyfraith Llywodraeth Cymru, mae’r Cwnsler Cyffredinol yn ffigwr cyfreithiol uchel ei statws yng Nghymru. Er ei fod yn aelod o Lywodraeth Cymru, mae’r Cwnsler Cyffredinol yn arfer rhai swyddogaethau statudol yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, ac er budd y cyhoedd.[477] Byddai’n hollol gyfarwydd â’r angen i barchu annibyniaeth y farnwriaeth. Mae perygl, er hynny, oherwydd rôl y Cwnsler Cyffredinol fel prif gynghorydd cyfreithiol Llywodraeth Cymru, a’r posibilrwydd y bydd yn ymwneud ag achosion cyfreithiol, na fyddai’r rôl yn cydweddu â rhan mewn disgyblaeth farnwrol.

7.130 Yn lle hynny, rydym yn cynnig dros dro y dylai arweinwyr barnwrol gael eu disgyblu a’u diswyddo gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru, ond gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru. Byddai’r weithdrefn hon yn debyg mewn rhai ffyrdd i’r sefyllfa yn y DU, lle mae’r Arglwydd Ganghellor a’r Arglwydd Brif Ustus yn gydgyfrifol am arfer pwerau disgyblu. Mae’r wefan Courts and Tribunals Judiciary yn disgrifio’r manteision sydd mewn dull o weithredu ar y cyd:

---

[477] Gweler *Ffurff a Hygyrchedd y Gyfraith sy’n gymwys yng Nghymru* (Law Com No 366), paragraff 3.41. https://s3-eu-west-2.amazonaws.com/lawcom-prod-storage-11jsxou24uy7q/uploads/2016/10/lc366_form_accessibility_wales_Welsh.pdf

> For a government minister to be involved in this way in judicial discipline may appear to strain the principle of judicial independence. However, the procedure helps to dispel any suspicion that judges would not wish to take action against a fellow judge, and also provides a safeguard. Equally, making the responsibility for discipline a joint responsibility of the Lord Chief Justice and the Lord Chancellor ensures that the suspicion cannot arise that judges can be disciplined on political grounds: a further safeguard of judicial independence and the rule of law.[478]

7.131 Rydym yn derbyn mai un o hanfodion rheolaeth y gyfraith yw na ellir disgyblu barnwyr ar sail wleidyddol, ac yn gwerthfawrogi bod unrhyw ran sydd gan Weinidogion Cymru mewn disgyblu barnwyr yn codi pryderon ynghylch amddiffyn annibyniaeth y farnwriaeth. Rydym wedi dod i'r farn dros dro bod y pryderon hyn yn cael eu lleddfu drwy gyfyngu'r pŵer i un ar gyfer cydsynio â phenderfyniad gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru ac y byddai'r pryderon yn cael eu lleddfu ymhellach drwy osod dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i barchu annibyniaeth farnwrol (trafodir hyn ymhellach ym Mhennod 10 ).

7.132 Byddwn yn falch o gael barn ymgyngoreion am y mater hwn.

**Cwestiwn Ymgynghori 59.**

7.133 Rydym yn cynnig dros dro y dylai arweinwyr barnwrol y tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017 gael eu disgyblu a'u diswyddo gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

**Cwestiwn Ymgynghori 60.**

7.134 Rydym yn cynnig dros dro y dylai Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru gael ei ddisgyblu a'i ddiswyddo gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

478 Gweler https://www.judiciary.uk/about-the-judiciary/the-judiciary-the-government-and-the-constitution/jud-acc-ind/jud-conduct/.

**Cwestiwn Ymgynghori 61.**

7.135 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a oes angen cysylltu unrhyw amddiffyniadau pellach â’r arfer ar bwerau disgyblu er mwyn gwarchod annibyniaeth y farnwriaeth.

# Chapter 8: Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru

8.1 Cafwyd effaith sylweddol ar dribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru drwy greu swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ("LITC") yn 2017. Drwy gasglu rhai o'r tribiwnlysoedd o dan arweinyddiaeth LITC, cawsant arweinydd a hunaniaeth gyffredin. Yn y ddwy flynedd diwethaf, mae rôl LITC, o ran hwyluso cyfathrebu ymysg y tribiwnlysoedd a chyda Llywodraeth Cymru, a chyfleu buddiannau'r tribiwnlysoedd i'r Senedd, wedi bod yn gyfrwng i adeiladu a datblygu system dribiwnlysoedd gyffredin. Mae'r swydd yn bwysig hefyd i gyfiawnder yng Nghymru yn gyffredinol, gan mai hwn yw'r penodiad barnwrol uwch cyntaf sy'n ymwneud â Chymru'n unig er 1830.

8.2 Byddai'r cynigion dros dro yn y Papur Ymgynghori hwn, os caent eu gweithredu, yn golygu creu tribiwnlys unedig i ddisodli'r tribiwnlysoedd unigol presennol. Byddai LITC yn chwarae rhan bwysig wrth lywio tribiwnlysoedd drwy'r broses hon, gan sicrhau'r manteision o'u cyfuno a gofalu hefyd fod profiad ymarferol a ffyrdd gwerthfawr o weithio yn cael eu cadw.

8.3 Ystyrir rhai agweddau penodol ar rôl LITC mewn mannau eraill yn y Papur Ymgynhori hwn. Er enghraifft, rydym yn gwneud cynnig dros dro ym Mhennod 3 mai'r Llywydd, ynghyd â Gweinidogion Cymru, a ddylai benderfynu'r strwythur siambrau ar gyfer tribiwnlys haen gyntaf unedig, ac ym Mhennod 5 rydym yn trafod creu Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd o dan gadeiryddiaeth y Llywydd. Rydym yn gwneud cynigion dros dro ym Mhennod 6 y dylai'r Llywydd benodi aelodau tribiwnlys a chymryd rhan mewn penodi arweinwyr barnwrol. Ym Mhennod 7 rydym yn ystyried y rôl y gallai'r Llywydd ei chyflawni wrth ddelio â disgyblaeth a chwynion. Rydym hefyd yn ystyried rôl ehangach i'r Llywydd mewn Uned Tribiwnlysoedd Cymru ddiwygiedig ym Mhennod 9.

8.4 Yn y bennod hon, rydym yn edrych yn gyffredinol ar rôl LITC, ac yn gwneud rhai awgrymiadau ar gyfer diwygio'r rôl sydd heb eu trafod mewn penodau eraill.

### RÔL LLYWYDD TRIBIWNLYSOEDD CYMRU

8.5 Crëwyd swydd LITC gan adran 60 o Ddeddf Cymru 2017. Mae'n cael ei dal ar hyn o bryd gan Syr Wyn Williams (Mr Ustus Wyn Williams cynt). Mae'r ddeddf yn rhoi dau gyfrifoldeb i'r Llywydd yng nghyd – destun y tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017 (y "tribiwnlysoedd adran 59", cyfeirir atynt yn y ddeddf fel y "tribiwnlysoedd Cymreig"). Mae'r cyntaf yn un "mewnol", ac yn gwneud y Llywydd yn gyfrifol am:

> the maintenance of appropriate arrangements for the training, guidance and welfare of members of the Welsh tribunals within the resources made available by the Welsh Ministers.[479]

---

[479] Deddf Cymru 2017, a 60(5)(a). Y "tribiwnlysoedd Cymreig" yw'r rheini a restrir yn a 59(1) o'r Ddeddf (er bod modd ychwanegu eraill drwy wneud Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor).

8.6 Mae ail gyfrifoldeb LITC yn un allanol, sef cyfleu barn aelodau'r tribiwnlysoedd Cymreig i Weinidogion Cymru ac aelodau eraill o'r Senedd.[480] Gwneir hyn fel arfer drwy gyfarfodydd blynyddol â'r Prif Weinidog ac adroddiad blynyddol, a gyflwynir i'r Prif Weinidog a Llywydd y Senedd. Mae LITC hefyd wedi rhoi tystiolaeth lafar yn ddiweddar i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn y Senedd.[481]

8.7 Gall y Llywydd roi cyfarwyddiadau hefyd ynghylch yr ymarfer a'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn gan y tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59 o'r Ddeddf (y "tribiwnlysoedd adran 59"), ar ôl ymgynghori â'r arweinydd barnwrol perthnasol.[482] Yn fwyaf diweddar, defnyddiwyd y pŵer hwn i ddyroddi cyfarwyddyd ymarfer ar y cyd â Llywydd TAIMC mewn ymateb i'r pandemig COVID-19.[483]

8.8 Wrth arfer y swyddogaethau a roddwyd iddo gan Ddeddf Cymru 2017, rhaid i'r Llywydd roi sylw i nifer o ystyriaethau statudol, sef:

(a) yr angen i'r tribiwnlysoedd Cymreig fod yn hygyrch;

(b) yr angen i achosion sy'n dod o flaen y tribiwnlysoedd hynny—

(i) bod yn deg, a

(ii) cael eu trafod yn gyflym ac effeithlon;

(c) yr angen i aelodau'r tribiwnlysoedd hynny fod yn arbenigwyr ym mhwnc yr achosion lle maent yn penderfynu materion, neu yn y gyfraith a gymhwysir atynt;

(d) yr angen i ddatblygu dulliau arloesol o ddatrys anghydfodau sydd o fath y gellir ei ddwyn gerbron y tribiwnlysoedd hynny.[484]

8.9 Yn ogystal â'r dyletswyddau hynny, yn ei adroddiad blynyddol cyntaf, eglurodd y Llywydd:

> … Nid yw Deddf Cymru 2017 yn ceisio rhoi diffiniad cynhwysfawr o ddyletswyddau a phwerau'r Llywydd. Deallir a derbynnir fel arfer mai'r Llywydd yw'r barnwr uchaf ei safle yn y system tribiwnlysoedd datganoledig, ac yn unol â hynny, fod ganddo rôl yn goruchwylio pob un o Dribiwnlysoedd Cymru. Mae hyn yn ategu'r dyletswyddau y cyfeirir atynt yn benodol yn y Ddeddf. Rwyf wedi cyflawni'r rôl honno mewn

---

480 Deddf Cymru 2017, a 60(5)(b).

481 Tystiolaeth lafar Syr Wyn Williams a Rhian Davies Rees i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 13 Gorffennaf 2020 https://record.assembly.wales/Committee/6414.

482 Deddf Cymru 2017, a 61(1).

483 Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, Cyfarwyddyd Ymarfer, Coronafeirws COVID-19, https://mentalhealthreviewtribunal.gov.wales/sites/mentalhealthreview/files/2020-04/Practice%20Direction%20COVID-19.pdf

484 Deddf Cymru 2017, a 60(4).

perthynas â'r ychydig iawn o gwynion a ddaeth i law am brosesau gwneud penderfyniadau mewn achosion unigol ….[485]

8.10 Roedd y Llywydd hefyd o'r farn "fod gan y Llywydd, fel uwch farnwr, hawl i eistedd fel cadeirydd cyfreithiol pob un o Dribiwnlysoedd Cymru". Fodd bynnag, dylai'r Llywydd ond wneud hynny pe bai'r Llywydd ac arweinydd barnwrol y tribiwnlys wedi cytuno y byddai'n amhriodol i'r arweinydd barnwrol eistedd mewn achos penodol.[486]

8.11 Nid oes perthynas ffurfiol rhwng y Llywydd ac Uned Tribiwnlysoedd Cymru. Fodd bynnag, mae Syr Wyn Williams yn cydweithio'n agos â phennaeth Uned Tribiwnlysoedd Cymru a hefyd ag arweinwyr barnwrol y tribiwnlysoedd adran 59.

8.12 Penodir y Llywydd gan yr Arglwydd Brif Ustus. Mae dau lwybr at ddethol ymgeiswyr. Mae'r cyntaf yn gofyn bod yr ymgeisydd yn un sydd neu sydd wedi bod yn farnwr Uchel Lys neu'n farnwr yn y Llys Apêl. Os bydd yr Arglwydd Brif Ustus, yr Arglwydd Ganghellor a Gweinidogion Cymru oll yn gytûn ar benodi ymgeisydd o'r fath, yna rhaid ei benodi.

8.13 Fodd bynnag, os na fydd y broses hon yn cynhyrchu ymgeisydd llwyddiannus, bydd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn gyfrifol am ddethol ymgeisydd. Er mwyn bod yn gymwys i'w hystyried gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol, rhaid i ymgeiswyr fod wedi dal cymhwyster fel cyfreithiwr neu fargyfreithiwr, neu gymhwyster cyfreithiol perthnasol arall am saith mlynedd (yr hyn a elwir yn fodloni "judicial-appointment eligibility condition on a 7-year basis").[487] Mae rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf 2017 yn amlinellu'r broses dethol ar gyfer y swydd yn fwy manwl, yn cynnwys cyfansoddiad panel dethol.[488]

8.14 Mae Carwyn Jones AS wedi egluro mai cyfaddawd ("compromise position") oedd ei gwneud yn ofynnol i'r Arglwydd Brif Ustus wneud y penodiad, er mwyn osgoi sefyllfa anghyson ("incongruous") lle'r oedd y Llywydd yn cael ei benodi gan yr Arglwydd Ganghellor.[489]

8.15 Mae LITC yn awdurdod a gedwir yn ôl o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n golygu bod angen cael cydsyniad gan y Gweinidog perthnasol (yr Ysgrifennydd Gwladol yn yr achos hwn) i newid swyddogaethau'r swydd.[490]

## LLEOEDD ERAILL YN Y DU

8.16 Mae rhywfaint o debygrwydd rhwng rôl LITC a rôl yr Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd a Llywydd Tribiwnlysoedd yr Alban. Roedd creu'r rolau hyn dros y degawdau diwethaf

485 Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, *Adroddiad Blynyddol Cyntaf 2018 - 2019* (Mawrth 2019), t 3.

486 Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, *Adroddiad Blynyddol Cyntaf 2018 - 2019* (Mawrth 2019), t 3.

487 Deddf Cymru 2017, Atodlen 5 rhan 2 paragraff 3.

488 Rheoliadau Dethol Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru OS 2017 Rhif 1282.

489 Cwestiwn Carwyn Jones AS yn sesiwn dystiolaeth lafar Syr Wyn Williams a Rhian Davies Rees i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 13 Gorffennaf 2020, paragraff 31, https://record.assembly.wales/Committee/6414.

490 Deddf Cymru 2017, a 60(2).

yn rhan o batrwm o gynyddu'r ymwneud gan y farnwriaeth yng ngweinyddiaeth cyfiawnder. Mae Gee,Hazell, Malleson ac O'Brien yn egluro:

> In the last ten years or so, the judiciary has assumed increasing influence over judicial appointments, deployment and discipline, and the management of the courts service. This has led to increasingly prominent roles for senior judges, such as the Lord Chief Justice and the Senior President of Tribunals.[491]
>
> There is less reliance on the single channel of the Lord Chancellor as the buckle between the judiciary and the government, with a much wider range of people involved in negotiating the parameters of independence and accountability.[492]

### Yr Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd

8.17 Crëwyd swydd yr Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd ("ULT") gan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 ("DTLIG 2007"), yn rhan o ddiwygiadau ehangach i'r system dribiwnlysoedd. Gwelwyd bod llywio'r system drwy'r diwygiad hwnnw'n rhan bwysig o'r rôl. Yn y Papur Gwyn a ddaeth o flaen Deddf 2007, nodwyd:

> Without a clear single voice able to speak for the tribunal judiciary collectively there is a danger that proposals for the reform of the administration of tribunals will be developed in isolation or without taking on board the needs of all the disparate jurisdictions in the new organisation….
>
> In the immediate future the role of a Senior President is strategic, co-ordinating and directing judicial input into the development of the Tribunals Service. When the new system is operational the Senior President will have a major role in setting its direction, developing new services and balancing the judicial needs of the individual jurisdictions.[493]

8.18 Mewn Papur Gwyn diweddarach a gyhoeddwyd yn dilyn pasio DTLIG 2007, rhoddwyd pwyslais ar rôl yr ULT o ran "[ensuring] the needs of the various jurisdictions are met, there is cohesion and continuity across both tiers, and the unified tribunal system has a strong identify within the justice system as a whole".[494]

8.19 Heddiw yr ULT yw arweinydd barnwriaeth y tribiwnlysoedd. Mae cyfrifoldebau'r ULT yn cwmpasu tribiwnlysoedd sydd heb eu datganoli yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Maent hefyd yn ymestyn yn ehangach na'r strwythur tribiwnlysoedd yn DTLIG 2007; mae'r Uwch Lywydd yn darparu arweinyddiaeth hefyd ar gyfer y tribiwnlysoedd cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apelau Cyflogaeth.[495]

---

491 G Gee, R Hazell, K Malleson a P O'Brien, *The politics of judicial independence in the UK's changing constitution*, tt 25 a 26.

492 Fel uchod, t 29.

493 Yr Adran Materion Cyfansoddiadol, *Transforming public services: complaints, redress and tribunals* (2004) Cm 6243 paragraffau 6.59 a 6.60.

494 Papur ymgynghori'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, *Transforming tribunals: implementing part 1 of the Tribunals, Courts and Enforcement Act 2007* (2007) paragraff 136.

495 Deddf Tribiwnlysoedd Cyflogaeth 1996, aa 1 a 20 a DTLIG 2007, a 2.

8.20 Roedd cyfrifoldebau'r ULT wedi'u modelu'n wreiddiol ar y rheini sydd gan Lywydd Llysoedd Cymru a Lloegr (swydd a ddelir gan yr Arglwydd Brif Ustus) o dan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005.[496] Mae gan yr ULT gyfrifoldebau tebyg dros ofalu am hyfforddiant, arweiniad a lles barnwriaeth y tribiwnlysoedd ac am gyfleu eu buddiannau i'r Senedd, yr Arglwydd Ganghellor a Gweinidogion y Goron.[497] Gall yr ULT wneud cyfarwyddiadau ymarfer hefyd ar gyfer yr Uwch Dribiwnlys a Thribiwnlys yr Haen Gyntaf.[498] Mae'r Arglwydd Ganghellor a'r ULT yn rhannu'r pŵer i wneud, neu gydsynio i wneud, darpariaeth drwy offeryn statudol ar gyfer trefnu Tribiwnlys yr Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys yn siambrau a dyrannu swyddogaethau i siambrau.[499] Mae'n glir bod yr ystyriaethau y mae'r rhaid i'r ULT roi sylw iddynt yn batrwm ar gyfer cyfrifoldebau LITC o dan adran 60 Deddf 2017; mae hefyd yn ofynnol i'r ULT sicrhau, er enghraifft, fod y tribiwnlysoedd yn hygyrch, a bod achosion yn cael eu trafod yn gyflym ac effeithlon.[500]

8.21 Mae'n set o gyfrifoldebau ymestynnol. Fel y mae Gee, Hazell, Malleson ac O'Brien yn egluro:

> The position of SPT is a burdensome administrative role and also one that demands considerable political skill. It has required the SPT not only to radically transform the internal structures of the tribunal system, but also to maintain good relations with the heads of the judiciaries in England and Wales, Northern Ireland and Scotland, given that the jurisdiction of some tribunals extends across the UK. It is also a critical role for disseminating cultural changes, as the emphasis placed by tribunal judges on user-focus, cost-effectiveness and training percolates through the wider judicial family.[501]

8.22 Penodir yr ULT gan Ei Mawrhydi, ar argymhelliad yr Arglwydd Ganghellor fel arfer.[502] Mae DTLIG 2007 yn rhag-weld y bydd yr ULT fel arfer yn farnwr yn y Llys Apêl, yn aelod o Adran Gyntaf neu Ail Adran Llys Mewnol Llys y Sesiwn, neu'n Arglwydd Ustus Apêl yng Ngogledd Iwerddon.[503] Yn rhinwedd y penodiad, mae'r ULT yn farnwr yn Nhribiwnlys yr Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys.[504]

---

496 Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, a 7(2).

497 Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 ("DTLIG 2007"), Atodlen 1 paragraff 14, Atodlen 2 paragraff 8 ac Atodlen 3 paragraff 9.

498 DTLIG 2007, a 23(1).

499 Fel uchod, a 7.

500 Fel uchod, a 2(3).

501 G Gee, R Hazell, K Malleson a P O'Brien, *The politics of judicial independence in the UK's changing constitution*, t 140.

502 Fel uchod, a 2(1) ac Atodlen 1.

503 Fel uchod, Atodlen 1, rhan 1, paragraff 2(2)(a).

504 Fel uchod, aa 4(1)(c) a 5(1)(a).

## Llywydd Tribiwnlysoedd yr Alban

8.23 Crëwyd rôl Llywydd Tribiwnlysoedd yr Alban ("LITA") ar ôl creu rôl yr ULT a chyn creu rôl LITC. Mae'r ddarpariaeth ar ei chyfer yn Neddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014,[505] a oedd hefyd wedi diwygio system tribiwnlysoedd datganoledig yr Alban i greu strwythur dwy haen unedig, yn debyg i'r un a geir yn DTLIG 2007.

8.24 Mae rôl LITA yn wahanol mewn rhai ffyrdd i rôl yr ULT neu LITC. Y rheswm am hynny yw mai'r Arglwydd Lywydd yw pennaeth tribiwnlysoedd yr Alban, yn hytrach na LITA (sy'n cael ei alw, yn lle hynny, yn uwch aelod tribiwnlysoedd yr Alban yn y Ddeddf).[506] Mae'r Arglwydd Lywydd yn gyfrifol am neilltuo barnwr yn Llys y Sesiwn i swydd LITA.[507] Mae'r Arglwydd Lywydd a LITA ill dau'n aelodau o Uwch Dribiwnlys yr Alban.[508]

8.25 Fel pennaeth tribiwnlysoedd yr Alban, yr Arglwydd Lywydd sy'n gyfrifol am sicrhau bod trefniadau priodol wedi'u gwneud ar gyfer lles, hyfforddiant ac arweiniad aelodau,[509] ac am gyfleu barn aelodau Tribiwnlysoedd yr Alban i Weinidogion yr Alban a Senedd yr Alban.[510] Mae'r Arglwydd Lywydd yn gyfrifol hefyd am gyhoeddi polisi neilltuo, sy'n sicrhau bod defnydd priodol yn cael ei wneud o wybodaeth a phrofiad aelodau o dribiwnlysoedd yr Alban wrth eu neilltuo i siambrau penodol.[511]

8.26 Fodd bynnag, mae'r Arglwydd Lywydd yn gallu dirprwyo dyletswyddau "mewnol" y swydd o ran lles, hyfforddiant ac arweiniad i LITA (ond nid y ddyletswydd "allanol" o gynrychioli). Yn y memorandwm polisi a oedd gyda Bil Tribiwnlysoedd (yr Alban), eglurwyd "it is anticipated that the Lord President will delegate the responsibility for the efficient disposal of business of the Scottish Tribunals to the President of Tribunals".[512]

8.27 Mae gan Weinidogion yr Alban wahanol bwerau i wneud rheoliadau ar gyfer trefniadaeth a busnes Tribiwnlysoedd yr Alban a gallant ddirprwyo'r rhain i'r Arglwydd Lywydd neu LITA.[513] Wrth wneud rheoliadau o dan Ddeddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014, rhaid i'r Arglwydd Lywydd neu LITA roi sylw i'r egwyddor bod achosion i fod yn hygyrch a theg, a chael eu trafod yn gyflym ac effeithlon. Rhaid i Weinidogion yr Alban hefyd roi sylw i'r egwyddor honno wrth wneud rheoliadau o dan y Ddeddf.[514]

---

505 Deddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014, a 4.

506 Fel uchod, aa 2 a 5.

507 Deddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014, aa 4(2) a (5).

508 Fel uchod, a 17(5).

509 Fel uchod, aa 7(2) a 34(1).

510 Fel uchod, a 6.

511 Fel uchod, a 33.

512 Bil Tribiwnlysoedd (yr Alban, memorandwm polisi, paragraff 17, https://www.parliament.scot/S4_Bills/Tribunals%20(Scotland)%20Bill/b30s4-introd-pm.pdf.

513 Deddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014, a 12.

514 Fel uchod, a 12.

8.28 Yn yr un modd â DTLIG 2007, rhagwelwyd y byddai angen arweinyddiaeth farnwrol i helpu i sefydlu system dribiwnlysoedd unedig newydd. Fodd bynnag, roedd y rôl hon wedi'i rhag-weld ar gyfer yr Arglwydd Lywydd. Eglurwyd yn y memorandwm polisi:

> In providing leadership, the Lord President will be able to ensure, amongst other things, that specialism, ethos and desirable distinctiveness are retained, in addition to supporting coherence across the new structure where this is required.[515]

## Y CEFNDIR I SWYDD LLYWYDD TRIBIWNLYSOEDD CYMRU

8.29 Yn Adroddiad 2016 gan Bwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru, mynegwyd y farn bod y diwygio ar y tribiwnlysoedd datganoledig wedi'i arafu gan dri phrif fater. Un o'r rhain oedd "the absence of a judicial leader in the devolved tribunals able to represent all the devolved jurisdictions with whom the Welsh Government needs to engage on practical justice administration issues".[516]

8.30 Arweiniodd y feirniadaeth honno yn y pen draw at greu swydd LITC. Roedd Syr Wyn Williams, deiliad cyntaf y swydd, hefyd wedi bod â rhan mewn creu a diffinio'r swydd. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn y Senedd, eglurodd ei fod yn credu bod y rôl yn angenrheidiol am ddau brif reswm:

> … one, because each of the tribunals appeared to me to be operating properly and efficiently within their own sphere, but without really having much relationship to each other, and that didn't seem to me to be a very good thing. Secondly, there was a need for a clear point of contact between the tribunals themselves and the administration that supported them.[517]

## DIWYGIADAU POSIB

8.31 Er mai'n gymharol ddiweddar y crëwyd swydd LITC, cafwyd galwadau am ei diwygio gan y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru ("Comisiwn Thomas") a LITC ei hun. Rydym yn egluro'r rhain isod ac wedyn yn gwneud cynigion dros dro.

### Galwadau am ddiwygio gan LITC

8.32 Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn y Senedd, ac yn ei adroddiadau blynyddol, mae Syr Wyn Williams wedi'i gwneud yn glir ei fod yn credu bod angen diwygiadau i'r rôl. Yn benodol, mae wedi pwysleisio y dylai'r rôl fod fel a ganlyn:

> much easier for the public to understand, much more specific so that there's no doubt that he or she is a judge, as well as a kind of administrator.[518]

---

[515] Memorandwm polisi, paragraff 14.

[516] Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru, *Administrative Justice: A Cornerstone of Social Justice in Wales* (2016) paragraff 24.

[517] Tystiolaeth lafar Syr Wyn Williams a Rhian Davies Rees i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 13 Gorffennaf 2020, paragraff 10.

[518] Tystiolaeth lafar Syr Wyn Williams a Rhian Davies Rees i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 13 Gorffennaf 2020, paragraff 17.

8.33 Wrth ddweud hyn, roedd yn dychwelyd at bwnc a gafodd ei ystyried yn ofalus yn ail adroddiad blynyddol y Llywydd, y mae'n werth dyfynnu'n hir ohono.

> Er y derbynnir yn gyffredinol bod gan y Llywydd yr hawl i eistedd fel barnwr ar Dribiwnlysoedd Cymru, nid oes sail statudol glir sy'n cefnogi'r casgliad hwn ac, yn ymarferol, nid oes unrhyw reswm bod y Llywydd (ac eithrio ar un achlysur pan na wnaeth ddwyn ffrwyth) yn eistedd ar dribiwnlys. Yn fy marn i, mae posibilrwydd o leiaf y bydd diffyg rôl farnwrol ffurfiol a phenodol ar gyfer y Llywydd yn gwneud i ddarpar ymgeiswyr ar gyfer y swydd yn y dyfodol beidio â mynd amdani. Yn unol â hynny, byddwn yn argymell y dylid ystyried yn ofalus y syniad o greu rôl farnwrol benodol i'r Llywydd. Mae gennyf amheuon ynghylch y Llywydd yn eistedd ar Dribiwnlysoedd Cymru ac eithrio pan fo Arweinydd Barnwrol Tribiwnlys penodol a'r Llywydd yn cytuno bod amgylchiadau achos penodol yn golygu y byddai'n amhriodol i'r Arweinydd Barnwrol eistedd fel cadeirydd y Tribiwnlys. Fodd bynnag, os ystyrir bod angen cael strwythur apeliadol newydd ar gyfer Tribiwnlysoedd Cymru, gellid rhoi rôl benodol i'r Llywydd o fewn y strwythur hwnnw. At hynny, a/neu fel arall, gellid awdurdodi'r Llywydd i eistedd ar y Llys Gweinyddol yng Nghymru. Er, yn ymarferol, y gallai Barnwr Uchel Lys sydd mewn swydd neu sydd wedi ymddeol eistedd yn y Llys Gweinyddol yng Nghymru o bryd i'w gilydd, nid yw hyn wedi'i warantu. Yn fy marn i, byddai'n cyfoethogi rôl y Llywydd petai'n cael ei enwebu i eistedd yn y Llys Gweinyddol yng Nghymru am mai ef yw'r Llywydd.[519]

### Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru ("Comisiwn Thomas")

8.34 Mae Comisiwn Thomas hefyd wedi ystyried rôl LITC, ac wedi argymell:

> Dylai pob corff cyhoeddus, ombwdsmon a thribiwnlys arall a sefydlwyd o dan gyfraith Cymru neu gan Lywodraeth Cymru sy'n gwneud penderfyniadau barnwrol neu led-farnwrol, ac nad yw'n cael ei oruchwylio gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru ar hyn o bryd, gael ei ddwyn o dan oruchwyliaeth y Llywydd.[520]

8.35 Mae ein prosiect yn ymwneud â thribiwnlysoedd datganoledig yn unig, felly nid ydym yn ystyried yma a ddylid ymestyn rôl goruchwylio LITC i gynnwys cyrff cyhoeddus eraill neu ombwdsmyn. Er hynny, rydym yn ystyried isod a ddylid rhoi rôl i'r Llywydd o ran paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion a Thribiwnlys Prisio Cymru ("TPC").

## Rôl farnwrol

8.36 Nid yw Deddf 2017 yn darparu'n benodol ar gyfer rhoi rôl farnwrol i LITC mewn unrhyw un o'r tribiwnlysoedd adran 59. Mae hyn yn groes i sefyllfa'r Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd (sy'n farnwr yn Nhribiwnlys yr Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys) a sefyllfa Llywydd Tribiwnlysoedd yr Alban (sy'n farnwr yn Uwch Dribiwnlys yr Alban).

8.37 Rydym wedi dod i'r farn dros dro bod gwerth mewn pennu rôl farnwrol i LITC o fewn y tribiwnlysoedd. Nid yn unig y bydd hynny'n gwneud y rôl yn fwy deniadol i ymgeiswyr, ond byddai hefyd yn gallu helpu i sicrhau bod LITC yn parhau i gael dealltwriaeth o

---

519 Llywydd Tribiwnlys Cymru, *Adroddiad Blynyddol 2019 – 2020* (2020) paragraff 3.10.

520 Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, *Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru* (Hydref 2019), argymhelliad 25 t 21.

waith y tribiwnlysoedd o ddydd i ddydd. Nodwyd mantais debyg wrth gyfeirio at yr Arglwydd Brif Ustus gan Gee, Hazell, Malleson ac O'Brien. Ar ôl cyf-weld nifer o aelodau'r farnwriaeth, roeddent wedi nodi'r canlynol:

> Many of our judicial interviewees emphasised that the LCJ must be viewed as the chief judge, not merely as chief administrator, and must set an example to others by taking a lead on the judicial duty to decide cases. For this reason, the LCJ sits not only on high-profile cases, but on more routine appeals as well. This is felt by judges to underscore the LCJ's ability to speak authoritatively on the development of the law as and when necessary.[521]

8.38 Felly rydym yn cynnig dros dro y dylai LITC fod yn farnwr ym mhob un o'r tribiwnlysoedd yn y tribiwnlys haen gyntaf unedig newydd a gynigir yn Cwestiwn Ymgynghori 4. Nodwn fod amheuon gan y LITC presennol ynghylch trefn lle byddai LITC yn eistedd mewn unrhyw achos, heblaw i newid lle ag arweinydd barnwrol lle mae LITC a'r arweinydd barnwrol yn cytuno y byddai'n amhriodol i'r arweinydd barnwrol eistedd yn yr achos. Fodd bynnag, gallwn rag-weld achosion lle gallai fod yn briodol i LITC eistedd, ochr yn ochr â'r arweinydd barnwrol o bosib, i ddelio â phwyntiau o egwyddor neu ymarfer sy'n effeithio ar fwy nag un awdurdodaeth. Rydym wedi dod i'r farn dros dro y gellid darparu, drwy ganllawiau a roddir gan LITC, ar gyfer amgylchiadau lle gallai LITC eistedd yn aelod o dribiwnlys unedig newydd.

8.39 Mae mater y llwybrau apêl o'r tribiwnlys unedig hwnnw yn un cymhleth, ac yn cael ei drafod ym Mhennod 4 . Yn y bennod honno, roeddem wedi ystyried y posibilrwydd o greu Uwch Dribiwnlys i Gymru. Os dilynir yr opsiwn hwnnw, rydym yn cynnig dros dro y dylai LITC fod yn un o'i farnwyr.

8.40 Nodwn yr awgrym olaf gan LITC, sef y dylid awdurdodi LITC i eistedd yn y Llys Gweinyddol yng Nghymru. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd LITC yn farnwr Uchel Lys eisoes neu wedi ymddeol o'r swydd honno, felly bydd ganddo'r profiad sydd ei angen i eistedd yn yr Uchel Lys. Fodd bynnag, mae'n bosib i rywun gael ei benodi i swydd LITC heb fod yn farnwr Uchel Lys, os dilynir yr "ail lwybr" ar gyfer penodiadau (trafodir hyn uchod ym mharagraff 8.13). A hyd yn oed os yw LITC eisoes yn farnwr Uchel Lys, nid oes sicrwydd y byddai'n cael ei neilltuo i eistedd yn y Llys Gweinyddol yng Nghymru.

8.41 Nid yw gwneud argymhellion ynghylch y graddau y dylai LITC gymryd rhan yng ngwaith y Llys Gweinyddol yng Nghymru yn dod o fewn cwmpas ein hadolygiad. Er mwyn ystyried y mater hwn mewn modd priodol, byddai angen cynnal adolygiad cyffredinol o weithdrefnau rhestru yn y Llys Gweinyddol, ac nid yw'r rhain o fewn ein cylch gwaith.

---

521 G Gee, R Hazell, K Malleson a P O'Brien, (2015) *The politics of judicial independence in the UK's changing constitution*, t 137.

**Cwestiwn Ymgynghori 62.**

8.42 Rydym yn cynnig dros dro y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fod yn farnwr yn y tribiwnlys neu dribiwnlysoedd y mae'r Llywydd yn llywyddu arnynt.

Ydych chi'n cytuno?

## Ehangu rôl goruchwylio Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru

8.43 Fel y nodwyd uchod, roedd Comisiwn Thomas wedi argymell ehangu rôl goruchwylio LITC i gynnwys tribiwnlysoedd eraill a sefydlwyd o dan gyfraith Cymru neu gan Lywodraeth Cymru. Isod rydym yn ystyried achosion penodol y paneli apelio ysgolion a Thribiwnlys Prisio Cymru.

### Paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion

8.44 O dan ein cynigion dros dro 3.125 i 3.127 uchod , byddai swyddogaethau paneli apelio gwaharddiadau ysgolion yn cael eu trosglwyddo i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ("TAAAC"), ac felly'n dod o dan awdurdodaeth LITC. Yn yr adran hon o'r Papur Ymgynghori, rydym yn ystyried a ddylid ehangu cylch gwaith LITC o ran paneli apelio derbyniadau ysgolion, ac o ran paneli apelio gwaharddiadau ysgolion os cedwir nhw.

8.45 Cyn ei ddiddymu yn 2013, roedd paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion yn cael eu goruchwylio gan y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd. Roedd dyletswydd statudol ar y Cyngor i ddal sylw ar gyfansoddiad a gwaith tribiwnlysoedd ac adrodd arnynt. Roedd yr oruchwyliaeth hon yn cynnwys arsylwi gwrandawiadau a chyhoeddi canllawiau ar godau statudol. Ers ei ddiddymu, nid oes corff annibynnol penodol sy'n gyfrifol am gadw system gyfan y paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion o dan sylw. Er bod rôl LITC yn wahanol iawn i rôl y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, byddai goruchwyliaeth ar baneli apelio ysgolion gan LITC yn gallu cynnig rhai manteision tebyg.

8.46 Un o'r heriau i'w hwynebu wrth ystyried unrhyw ran i LITC mewn paneli apelio yw bod y paneli'n cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol. Nid oes unrhyw ffigwr amlwg yn y strwythur presennol a allai gyfleu buddiannau'r paneli i'r Llywydd, yn y ffordd y mae arweinwyr barnwrol y tribiwnlysoedd adran 59 presennol yn gwneud ar hyn o bryd.

8.47 Os gellid pennu cynrychiolydd o bob awdurdod lleol, byddai hynny'n golygu dynodi mwy nag 20 o gynrychiolwyr i gydgysylltu â LITC. Yn ymarferol, mae'n bosib y byddai angen i awdurdodau gytuno ar gynrychiolwyr rhanbarthol i gydgysylltu â'r Llywydd. Er bod hyn yn her drefniadol, gellid dweud hefyd ei fod yn arwydd o ddiffyg arweinyddiaeth farnwrol sy'n ei gwneud yn beth dymunol iawn i LITC gymryd rhan.

8.48 Fel y trafodwyd uchod, mae dwy elfen yn rôl y Llywydd. Mae'r gyntaf yn un fewnol, yn cynnwys cyfrifoldeb dros hyfforddiant, arweiniad a lles aelodau. Mae'r ail yn un allanol: cyfleu buddiannau'r cyrff dan oruchwyliaeth LITC i Weinidogion Cymru a'r Senedd. Rydym yn ystyried y rhain yn eu tro.

8.49 Gan ddechrau ag elfen gyntaf y rôl, a fyddai defnyddwyr ac aelodau paneli apelio yn elwa o ymwneud gan LITC yn hyfforddiant, arweiniad a lles aelodau? Ar hyn o bryd, mae hyfforddi aelodau paneli apelio derbyniadau ysgolion yn gyfrifoldeb i bob awdurdod lleol. Mae gofyniad yn y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion (y "Cod Derbyniadau") i aelodau panel gael hyfforddiant priodol,[522] ac mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar wahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion hefyd yn pwysleisio y dylai aelodau panel gael hyfforddiant addas.[523] Byddai gwneud LITC yn gyfrifol am hyfforddiant yn gallu helpu i sicrhau cysondeb rhwng paneli apelio yng Nghymru.

8.50 Gallai'r Llywydd fod â rhan hefyd mewn darparu canllawiau i aelodau panel. Wrth gyflawni'r swyddogaeth hon yng nghyswllt y tribiwnlysoedd adran 59, rhaid i'r Llywydd roi sylw i'r angen i dribiwnlysoedd fod yn hygyrch ac i achosion fod yn deg, a chael eu trafod yn gyflym ac effeithlon. Ystyriwyd rôl debyg i'r Llywydd yng nghyswllt paneli apelio gan Dr Sarah Nason, Ann Sherlock, Dr Huw Pritchard a Dr Helen Taylor wrth drafod argymhelliad Comisiwn Thomas ar swyddogaeth goruchwylio'r Llywydd. Yn adroddiad Prifysgol Bangor, *Public Administration and a Just Wales*, barn yr awduron oedd ei bod yn debygol bod yr argymhelliad yn cyfeirio at:

> … the need to review whether such ad hoc processes are complying with standards of fairness, independence, transparency, accessibility and so on in their proceedings; in short whether they are complying with relevant parts of CAJTW's Administrative Justice Principles.[524]

8.51 Mae ail elfen y rôl yn un allanol. Ar hyn o bryd, mae LITC yn cyfleu barn aelodau'r tribiwnlysoedd adran 59 i Weinidogion Cymru ac i'r Senedd. Mae adroddiadau blynyddol LITC a'i ymddangosiadau gerbron y Senedd yn galluogi'r tribiwnlysoedd i siarad ag un llais a hefyd yn gwneud y system dribiwnlysoedd yn fwy tryloyw. A fyddai paneli apelio ysgolion yn gallu elwa o drefniant tebyg? Fel y trafodwyd uchod, nid oes gan y paneli lais ar y cyd ar hyn o bryd. Drwy roi rôl gynrychiadol i LITC, byddai modd iddynt dynnu sylw at bryderon cyffredin.

8.52 Un fantais bosib arall o oruchwyliaeth gan LITC fyddai cryfhau annibyniaeth paneli apelio ysgolion. Ar y funud, mae paneli apelio yn cael eu gweinyddu gan yr awdurdod y mae ei benderfyniad yn cael ei adolygu. Mae hyn yn gyfleus o ran gweinyddu, ond mae'n golygu nad yw strwythur y paneli'n annibynnol ar awdurdodau lleol. Mae'r Cod Derbyniadau yn ceisio cywiro hyn drwy bwysleisio bod paneli apelio annibynnol yn gweithredu, ac yn cael eu gweld yn gweithredu, yn annibynnol ar yr awdurdod lleol neu gorff llywodraethu.[525] Mae gofyniad hefyd yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru

---

522 Llywodraeth Cymru, *Y cod apelau derbyn i ysgolion* (2013), paragraff 2.8, https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/y-cod-apelau-derbyn-i-ysgolion.pdf.

523 Llywodraeth Cymru, *Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion* (Ebrill 2015), paragraff 4.4.7, https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/gwahardd-o-ysgolion-ac-unedau-cyfeirio-disgyblion.pdf.

524 S Nason, A Sherlock, H Pritchard a H Taylor, *Public administration and a just Wales – full report* (Mawrth 2020) paragraff 13.7. Gweler http://adminjustice.bangor.ac.uk/documents/Public_Administration_and_a_Just_Wales_(Final_Full).pdf.

525 Llywodraeth Cymru, *Y cod apelau derbyn i ysgolion* (2013), paragraff 3.7.

ar waharddiadau i gadeiryddion paneli egluro i ddefnyddwyr bod y panel yn annibynnol.[526] Byddai goruchwyliaeth gan LITC yn gallu rhoi rhywfaint o amddiffyniad i baneli apelio rhag unrhyw awgrym o bosibilrwydd eu bod dan bwysau gan awdurdodau lleol.

**Cwestiwn Ymgynghori 63.**

8.53 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylai paneli apelio derbyniadau ysgolion ac (os cedwir nhw) paneli apelio gwaharddiadau ysgolion gael eu goruchwylio gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

### Tribiwnlys Prisio Cymru

8.54 Rydym yn cynnig dros dro ym Mhennod 3 y dylid cynnwys TPC mewn system haen gyntaf unedig ar gyfer tribiwnlysoedd datganoledig. Byddai hynny'n golygu ei fod yn dod o dan oruchwyliaeth LITC.

8.55 Hyd yn oed os na ddilynir y cynnig hwn, a bod TPC yn aros ar wahân i strwythur tribiwnlysoedd datganoledig eraill, rydym wedi dod i'r farn dros dro y byddai goruchwyliaeth gan y Llywydd yn dod â nifer o fanteision. Drwy roi cyfrifoldeb dros hyfforddiant i LITC, mae'n bosib y gellid trefnu bod yr hyfforddiant cyffredinol sydd eisoes ar gael i'r holl dribiwnlysoedd adran 59 (er enghraifft, ar "grefft y barnwr") yn cael ei rannu rhwng tribiwnlysoedd. Byddai TPC hefyd yn gallu elwa o gyfleu ei fuddiannau gan LITC i'r Senedd ac i Weinidogion Cymru.

**Cwestiwn Ymgynghori 64.**

8.56 Rydym yn cynnig dros dro y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru oruchwylio Tribiwnlys Prisio Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

[526] Llywodraeth Cymru, *Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion* (Ebrill 2015), paragraff 4.7.2, https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/gwahardd-o-ysgolion-ac-unedau-cyfeirio-disgyblion.pdf.

# Chapter 9: Uned Tribiwnlysoedd Cymru

9.1 Yn y bennod hon rydym yn ystyried Uned Tribiwnlysoedd Cymru ("UTC"). UTC yw'r corff sy'n gyfrifol am ddarparu cymorth gweinyddol i'r tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017 ("y tribiwnlysoedd adran 59"). Mae wedi cyfrannu dros y blynyddoedd diwethaf at feithrin ymdeimlad o gydlyniant yn y tribiwnlysoedd datganoledig presennol. Rydym yn disgwyl y bydd yn chwarae rhan hanfodol hefyd yn llwyddiant unrhyw system a geir yn y dyfodol.

9.2 Mae UTC yn wahanol i gyrff eraill sy'n gweinyddu tribiwnlysoedd yn y DU. Yn wahanol i'r cyrff cyfatebol yng Nghymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, nid yw'n asiantaeth weithredol nac yn adran anweinidogol. Yn hytrach, mae'n "uned" yn Llywodraeth Cymru. Yn y gorffennol, mae hyn wedi arwain at gwestiynau ynghylch a yw'n ddigon annibynnol. Er bod pwysigrwydd yr uned a'i hannibyniaeth yn cael eu deall a'u parchu gan Lywodraeth Cymru, byddai mwy o annibyniaeth strwythurol yn gallu sicrhau canfyddiad clir o hynny.

9.3 Nodwedd anarferol arall i UTC yw nad yw'r farnwriaeth yn cyflawni rôl ffurfiol yn ei rheoli. Mae gweinyddiaeth llysoedd a thribiwnlysoedd yn codi problem bosib o ran gwahanu pwerau: mae'r llywodraeth yn gyfrifol am weithrediad effeithlon y sefydliadau hyn, felly mae'r gweision sifil sy'n rhedeg tribiwnlysoedd yn adrodd i'r llywodraeth. Fodd bynnag, nid yw barnwyr yn atebol i lywodraeth, ac mae angen iddyn nhw hefyd gymryd rhan i sicrhau bod llysoedd a thribiwnlysoedd yn gweithio fel y dylent.

9.4 Yn ymarferol, ceir mewnbwn barnwrol drwy gydweithredu agos rhwng UTC a Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Ond mewn systemau eraill mae'r mewnbwn hwn yn fwy ffurfiol, ac mae barnwyr yn aelodau o fwrdd llywodraethu.

9.5 Ar ddechrau'r bennod hon, rydym yn amlinellu datblygiad UTC ac wedyn yn egluro ei chyfansoddiad a strwythur presennol. Wedyn rydym yn trafod enghreifftiau tebyg ym mhob rhan o system dribiwnlysoedd y DU: Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi ("GLITEM"), Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban ("GLITA"), a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Gogledd Iwerddon ("GLITGI"). Yn yr adran olaf, rydym yn ystyried opsiynau posib ar gyfer diwygio, a manteision ac anfanteision yr opsiynau hynny. Rydym yn cynnig dros dro y dylai UTC fod yn adran anweinidogol.

## DATBLYGIAD UNED TRIBIWNLYSOEDD CYMRU

### Yr Uned Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd

9.6 Yn 2010 cyhoeddodd Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd ( "Pwyllgor Cymreig y CCGT") ei adolygiad o weithrediad tribiwnlysoedd yng Nghymru.[527] Bryd hynny, roedd y cymorth gweinyddol i nifer o

[527] Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, *Adolygiad o Dribiwnlysoedd sy'n Gweithredu yng Nghymru* (Ionawr 2010). Roedd yr adolygiad yn cwmpasu'r holl dribiwnlysoedd sydd wedi'u rhestru'n awr yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017, ac yn cynnwys nifer o gyrff penderfynu eraill, yn cynnwys

dribiwnlysoedd sy’n gweithredu yng Nghymru yn cael ei ddarparu gan yr adran lywodraeth a oedd yn wynebu her i’w phenderfyniadau.[528] Nododd Pwyllgor Cymreig y CCGT fod hyn yn creu:

> diffyg annibyniaeth ymddangosiadol tribiwnlysoedd yng Nghymru, gyda’r cyfrifoldeb am dribiwnlysoedd a’r ffordd y’u gweinyddir yn nwylo’r rhai y mae dyletswydd ar y tribiwnlysoedd i ystyried eu penderfyniadau.[529]

9.7 Ar ôl nodi’r anghysondeb o ran strwythur, gweithdrefnau a phenodiadau rhwng y tribiwnlysoedd Cymreig, yr argymhelliad gan Bwyllgor Cymreig y CCGT oedd y dylid trosglwyddo’r cyfrifoldeb dros bolisi a gweinyddiaeth y tribiwnlysoedd Cymreig i ganolbwynt cyfiawnder gweinyddol, i’w leoli yn Adran y Prif Weinidog a’r Cabinet fel yr oedd ar y pryd. Arweiniodd yr argymhelliad hwnnw at greu’r Uned Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd (“UCGT”) ym Mawrth 2010.[530]

9.8 Roedd dwy brif swyddogaeth gan yr UCGT: cynnal gweithrediadau’r tribiwnlysoedd Cymreig roedd yn gyfrifol amdanynt, a bod yn ganolbwynt ar gyfer datblygu polisi a chynorthwyo Gweinidogion ym mhob mater sy’n ymwneud â chyfiawnder gweinyddol a thribiwnlysoedd yng Nghymru .[531] Trosglwyddwyd cyfrifoldeb dros ddarparu cymorth gweinyddol i dribiwnlysoedd datganoledig yn raddol i’r UCGT, fel a ganlyn.

(1) Ebrill 2011: Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru.[532]

(2) Ebrill 2012: Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru.

(3) Mai 2012: Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru.

(4) Awst 2012: Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru.

(5) Ebrill 2013: Panel Dyfarnu Cymru.[533]

---

Pwyllgorau Coedwigaeth Cymru, paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion yng Nghymru, Dyfarnwyr Parcio yng Nghymru a’r Tribiwnlys Cosbau Traffig.

528 Tynnwyd sylw at hyn hefyd gan Syr Andrew Leggatt yn *Tribunals for Users One System, One Service: Report of the Review of Tribunals* (Mawrth 2001) paragraff 1.19. Ar gael yn https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20070815230000/http://www.tribunals-review.org.uk/leggatthtm/leg-01.htm#1.19

529 Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru, *Administrative Justice: A Cornerstone of Social Justice in Wales* (2016), paragraff 2.

530 Yn dilyn ad-drefnu Adran y Prif Weinidog a’r Cabinet, trosglwyddwyd yr UCGT i Adran Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru yn Awst 2011. Gweler Llywodraeth Cymru, *Review of Devolved Tribunals in Wales* (2014), paragraff 49.

531 Llywodraeth Cymru, *Review of Devolved Tribunals Operating in Wales* (2014), paragraff 49.

532 Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, *Adroddiad Blynyddol 2010-2011* (Tachwedd 2011), t 6.

533 Llywodraeth Cymru, *Review of Devolved Tribunals Operating in Wales* (2014), paragraff 52. Rhoddir dyddiadau TAIMC, TEPC a PDC yn yr un paragraff.

(6) 2014: Tribiwnlys y Gymraeg.[534]

9.9 Yn dilyn adolygiad pellach o weithrediad tribiwnlysoedd datganoledig a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd 2013, trosglwyddwyd swyddogaethau polisi'r UCGT i dîm Polisi Cyfiawnder a oedd newydd ei greu yn Llywodraeth Cymru. Yr amcan wrth wahanu swyddogaethau fel hyn oedd caniatáu i'r tîm Polisi Cyfiawnder ganolbwyntio ar nodau strategol tymor hwy ar gyfer cyfiawnder gweinyddol. Roedd gweinyddiaeth y tribiwnlysoedd yn parhau'n rhan o gylch gwaith yr UCGT a gafodd ei hailenwi'n Uned Tribiwnlysoedd Cymru.

## Strwythur a chyfansoddiad Uned Tribiwnlysoedd Cymru

9.10 Mae UTC yn rhan o Lywodraeth Cymru, yn rhan ffurfiol o Is-adran Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, ac nid oes ganddi statws cyfansoddiadol ar wahân.[535] Mae UTC yn cydweithio'n agos â Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ("LITC"), ond nid yw'n atebol yn ffurfiol i LITC.[536] Mae'n cynnwys tîm o 34 o weision sifil Llywodraeth Cymru sy'n cael ei arwain gan Ms Rhian Davies Rees. Mae'r tîm wedi'i rannu rhwng Parc Cathays yng Nghaerdydd, Parc Cleppa ar gyrion Casnewydd, Llandrindod a Chyffordd Llandudno.[537]

9.11 Mae'r gyllideb i UTC yn cael ei gosod gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n cynnwys costau rhedeg yr uned a'r tribiwnlysoedd y mae'n eu gweinyddu. Ym mlwyddyn ariannol 2018-2019, y gyllideb a ddyrannwyd oedd tua £4.068 miliwn.[538] Rydym yn deall bod nifer o'i gorbenion, fel cost ei safleoedd, yn cael eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru.

## Tribiwnlys Prisio Cymru

9.12 Nid yw UTC yn gyfrifol am weinyddu Tribiwnlys Prisio Cymru ("TPC"), na phaneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion, sy'n cael eu gweinyddu gan awdurdodau lleol. TPC yw'r unig dribiwnlys datganoledig yn gweithredu yng Nghymru sy'n gyfrifol am ei weinyddiaeth ei hun. Yn ogystal â Llywydd, mae gan TPC ei Brif Weithredwr ei hun. Rheolir TPC gan Gyngor Llywodraethu, sy'n cynnwys Llywydd TPC, tri chynrychiolydd cenedlaethol, a hyd at dri aelod a benodir i'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru.[539] Mae'r Cyngor Llywodraethu yn cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn.

---

534 Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru, *Administrative Justice: A Cornerstone of Social Justice in Wales* (2016), paragraff 20. Crëwyd Tribiwnlys y Gymraeg yn 2014 a dechreuodd weithredu yn 2015.

535 S Nason, *Understanding Administrative Justice in Wales* (2015), t 7.

536 Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, *Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru* (Hydref 2019), paragraff 2.83.

537 Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, *Adroddiad Blynyddol Cyntaf 2018 - 2019* (Mawrth 2019), t 8 ac *Ail Adroddiad Blynyddol 2019 - 2020* (Ebrill 2020), paragraff 2.7.

538 Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, *Adroddiad Blynyddol Cyntaf 2018 - 2019* (Mawrth 2019), t 8.

539 Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru (2010) OS 2010 Rhif 713 (Cy 69), rheoliad 6.

## GWEINYDDU TRIBIWNLYSOEDD MEWN LLEOEDD ERAILL YN Y DU

9.13 Yn yr adran hon rydym yn ystyried datblygiad a strwythur GLITEM, GLITA a GLITGI. Rydym yn trafod yr enghraifft o GLITA yn fanwl gan fod nifer o sylwebwyr wedi awgrymu y gallai fod yn batrwm i UTC.

### Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi

9.14 Crëwyd GLITEM yn 2011 drwy gyfuno Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi a'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd. Y disgrifiad arferol ohono yw asiantaeth weithredol o dan nawdd y Weinyddiaeth Gyfiawnder.[540] Mae GLITEM yn darparu'r system cynnal, yn cynnwys seilwaith ac adnoddau, ar gyfer llysoedd yng Nghymru a Lloegr, ar gyfer tribiwnlysoedd yn Lloegr ac ar gyfer tribiwnlysoedd ag awdurdodaeth sydd heb ei datganoli yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mewn cyferbyniad â hyn, mae gan Oruchaf Lys y DU gorff o staff ar wahân, a Phrif Weithredwr sy'n rheoli (drwy gytundeb â Llywydd y Goruchaf Lys) adnoddau, seilwaith a chymorth ar gyfer y Goruchaf Lys.[541]

#### Beth yw asiantaeth weithredol?

9.15 Mae canllaw a roddwyd gan Swyddfa'r Cabinet ("y Canllaw") yn diffinio asiantaethau gweithredol fel a ganlyn:

> clearly designated units of a central government department, administratively distinct, but remaining legally part of it.[542]

9.16 Amlhaodd yr asiantaethau gweithredol yn dilyn adroddiad a gyhoeddwyd ym 1988 am strwythur y gwasanaeth sifil.[543] Mae'r Canllaw yn egluro mai'r bwriad wrth eu sefydlu yw "allow the delivery of executive functions of government to be carried out separately from – but within a policy and resources framework set by – a primarily policy-focused department".[544] Mae gan asiantaethau gweithredol adran sy'n eu noddi ac, yn y pen draw, mae Gweinidog yr adran sy'n eu noddi ("y Gweinidog noddi") yn atebol i'r Senedd am yr holl faterion sy'n ymwneud â'r asiantaeth weithredol. Fel arfer bydd y berthynas rhwng yr asiantaeth weithredol a'r adran noddi yn cael ei hamlinellu mewn dogfen fframwaith sy'n sefydlu'r asiantaeth weithredol.

9.17 Mae'r Canllaw yn egluro bod asiantaethau gweithredol yn cael eu harwain fel arfer gan Brif Weithredwr. Mae'r Prif Weithredwr yn uniongyrchol atebol i'r gweinidog adran perthnasol am gyflawni swyddogaethau ac am weithgareddau o ddydd i ddydd, ac i Ysgrifennydd Parhaol yr adran noddi am ddefnyddio arian y cyhoedd yn gyfrifol. Mae staff asiantaethau gweithredol yn weision sifil.

---

540 Yn cynnwys ar ei wefan. Gweler https://www.gov.uk/government/organisations/hm-courts-and-tribunals-service. Am farn wahanol, gweler isod ym mharagraff 9.20.

541 Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 aa 48 i 51.

542 Swyddfa'r Cabinet, *Executive Agencies: A Guide for Departments* (2018), t 4. Ar gael yn https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/690636/Executive_Agencies_Guidance.PDF.

543 Syr Robin Ibbs, *Improving management in government: next steps* (1988).

544 Swyddfa'r Cabinet, Executive Agencies: A Guide for Departments (2018), t 4

9.18 Mae'r Canllaw yn disgrifio dau fodel posib ar gyfer asiantaethau gweithredol:

(1) Model 1 – Lle mae asiantaeth weithredol yn gweithredu'n agosach i'r adran noddi, neu lle mae'n rhy fach i gyfiawnhau bwrdd rheoli llawn, dylai swyddogaethau sicrhau ansawdd gael eu darparu gan bwyllgor archwilio a risg yr adran noddi.

(2) Model 2 – Lle mae angen i'r asiantaeth weithredol fod yn fwy annibynnol ar ei hadran noddi er mwyn cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol, neu os yw'n ddigon mawr neu'n ddigon pwysig i fod ag angen sicrhau ansawdd yn annibynnol, dylai'r asiantaeth gael ei harwain gan fwrdd rheoli o dan Gadeirydd Anweithredol, gydag aelodau bwrdd gweithredol ac anweithredol.

### Statws GLITEM

9.19 Fel y nodwyd uchod, mae GLITEM fel arfer yn cael ei alw'n asiantaeth weithredol o dan nawdd y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Yn wahanol i asiantaethau gweithredol eraill y Weinyddiaeth Gyfiawnder, mae GLITEM yn gweithredu ar sail partneriaeth rhwng yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus a'r Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd. Mae'r holl staff yn gydatebol i ddeiliaid y swyddi hynny am weithredu llysoedd a thribiwnlysoedd yn effeithiol, effeithlon a buan .[545]

9.20 Mewn cyferbyniad â hyn, mae asiantaethau gweithredol eraill y Weinyddiaeth Gyfiawnder, fel yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM, yn atebol un ai i'r Arglwydd Ganghellor neu i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder.[546] Mae'r Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd wedi'i gynnwys yn fwriadol yng ngwaith GLITEM. Yn y Papur Gwyn a arweiniodd at greu'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd, nodwyd:

> The Chief Executive and the management team will work in close partnership with the Senior President and the jurisdictional Presidents. The Senior President will have responsibility for judicial functions and so will remain independent. This partnership is absolutely essential for the success of the new organisation as a whole. The judiciary cannot as a matter of constitutional principle be accountable to government and Parliament for judicial decisions in the way that the Chief Executive and the other civil servants within the organisation are, but, from the point of view of the user, judiciary and staff are delivering a service together. The governance arrangements within the new organisation need to reflect the joint nature of this endeavour.[547]

---

545 Mae'r cytundeb fframwaith yn datgan yn benodol fod yr holl staff yn gydatebol i'r Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus. Fodd bynnag, mae paragraff 1.4 yn y datgan y dylid cymryd bod unrhyw gyfeiriad at yr Arglwydd Brif Ustus yn cynnwys cyfeiriadau at yr Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd (wedi'u haddasu fel y bo'r angen i ddarparu ar gyfer unrhyw wahaniaethau yn ei swyddogaethau statudol am y tro). Gweler Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, *Framework document* (Gorffennaf 2014) paragraff 2.4. Ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications/hm-courts-and-tribunals-service-framework-document.

546 Er bod y rhain yn swyddi gwahanol, maent yn cael eu dal gan yr un person fel arfer.

547 Yr Adran Materion Cyfansoddiadol, *Transforming public services, Complaints redress and tribunals* (2004) Cm 6243, paragraff 6.87.

9.21 Roedd natur unigryw strwythur GLITEM wedi arwain y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru ("Comisiwn Thomas") i amau a oedd yn briodol ei ystyried yn asiantaeth weithredol. Mae'r adroddiad yn datgan yn bendant am GLITEM "nid Asiantaeth Weithredol ydyw", ond yn hytrach yn:

> asiantaeth ac iddi statws cyfansoddiadol arbennig o dan y Cytundeb Fframwaith sy'n adlewyrchu'r ffaith mai'r farnwriaeth yw trydedd gangen y wladwriaeth, yn annibynnol ar y ddeddfwrfa a'r weithrediaeth.[548]

9.22 Er hynny, mae nifer o nodweddion yr asiantaeth weithredol a ddisgrifiwyd yn y Canllaw yn perthyn i GLITEM. Er enghraifft, mae cytundeb fframwaith GLITEM yn darparu ar gyfer Prif Weithredwr a fydd yn gyfrifol am reoli GLITEM yn effeithlon a chosteffeithiol, am arwain staff GLITEM yn effeithiol ac am ddatblygu strategaeth a chynlluniau busnes GLITEM.[549]

9.23 Yn ogystal â hyn, mae Bwrdd gan GLITEM sy'n gyfrifol am gymeradwyo dyraniadau'r gyllideb flynyddol, am fonitro'r cyflawni ar amcanion strategol a thargedau perfformiad ac am gymeradwyo fframwaith llywodraethu corfforaethol GLITEM. Mae'r Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd anweithredol annibynnol, Uwch Farnwr Gweinyddol Cymru a Lloegr,[550] dau gynrychiolydd barnwrol arall,[551] y Prif Weithredwr, tri Chyfarwyddwr Gweithredol a enwebir gan y Prif Weithredwr a thri Chyfarwyddwr Anweithredol.[552]

9.24 Caiff cyllideb GLITEM ei dyrannu o gyllideb ehangach y Weinyddiaeth Gyfiawnder gan yr Arglwydd Ganghellor.[553] Mae'r cytundeb fframwaith yn datgan y bydd yr Arglwydd Ganghellor yn ceisio dod i gytundeb â'r Arglwydd Brif Ustus mewn cysylltiad â'r dyraniad.[554] Fel y nodwyd uchod, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gymeradwyo dyraniadau'r gyllideb o fewn GLITEM.

### Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban

9.25 Mae GLITA yn adran anweinidogol a sefydlwyd yn Ebrill 2015, gan Ddeddf Barnwriaeth a Llysoedd (yr Alban) 2008 ("Deddf 2008").[555] Cyfunodd yr hyn a oedd gynt yn Wasanaeth Llysoedd yr Alban ("GLIA") a Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yr

---

548 Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, *Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru* (Hydref 2019), paragraff 2.82.

549 Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, *Framework document* (Gorffennaf 2014), paragraffau 3.1 i 3.7. Ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications/hm-courts-and-tribunals-service-framework-document.

550 Aelod o'r Llys Apêl a benodir gan yr Arglwydd Brif Ustus i oruchwylio barnwyr gweinyddol y cylchdeithiau yng Nghymru a Lloegr.

551 Enwebir un aelod gan yr Arglwydd Brif Ustus ac enwebir y llall gan yr Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd. Gweler Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, *Framework document* (Gorffennaf 2014), paragraff 4.5.

552 Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, *Framework document* (Gorffennaf 2014), paragraff 4.5.

553 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, *Supplementary Estimate 2018-2019: Estimates Memorandum*, t 2. Ar gael yn https://www.parliament.uk/documents/commons-committees/Justice/estimates-memoranda/Ministry-Justice-Estimate-Memorandum-17-19.pdf.

554 Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, *Framework document* (Gorffennaf 2014), paragraff 7.2.

555 Deddf Barnwriaeth a Llysoedd (yr Alban) 2008 a 60, fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 4(1), paragraff 1(12)(b) i Ddeddf Diwygio Llysoedd (yr Alban) 2014.

Alban ("GTA"). Mae Deddf 2008 yn rhoi i GLITA y swyddogaeth o ddarparu'r eiddo, gwasanaethau, swyddogion a staff eraill sydd eu hangen at ddibenion Llysoedd yr Alban a Thribiwnlysoedd yr Alban a'u haelodau.[556]

### Beth yw adran anweinidogol?

9.26 Yn yr un modd ag asiantaethau gweithredol, mae Prif Weithredwr gan adrannau anweinidogol sy'n gyfrifol am redeg yr adran o ddydd i ddydd, a bwrdd rheoli sy'n gyfrifol am benderfyniadau gweithredol pwysig. Fodd bynnag, yn wahanol i asiantaethau gweithredol, mae hunaniaeth gyfreithiol ar wahân gan adrannau anweinidogol (gan eu bod wedi'u sefydlu drwy statud) ac maent yn gweithredu ar wahân i unrhyw adran noddi.[557] Fel arfer, bydd gan adrannau anweinidogol eu cyllideb eu hunain, wedi'i gosod yn uniongyrchol gan y Senedd.[558]

9.27 Nid yw adrannau anweinidogol yn uniongyrchol atebol i weinidog yn y llywodraeth. Yn hytrach, mae adran gweinidogol yn darparu graddau o oruchwyliaeth fel bod gweinidog yn gallu rhoi cyfrif am fusnes yr adran anweinidogol yn y Senedd. Er enghraifft, gallai'r gweinidog argymell addasu'r ddeddfwriaeth sy'n rheoli'r adran anweinidogol.[559]

### Datblygiad Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban

9.28 Sefydlwyd GLIA, un o'r cyrff a unodd wedyn i ffurfio GLITA, yn Rhagfyr 2010 mewn ymateb i nifer o adroddiadau a gyhoeddwyd gan y Grŵp Llywio Cyfiawnder Gweinyddol ("y GLICG") a Phwyllgor Albanaidd y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd ("Pwyllgor Albanaidd y CCGT"). Yn *Options for the Future Administration of Tribunals in Scotland*, ("Adroddiad 2008") daeth y GLICG i'r casgliad nad oedd system dribiwnlysoedd yr Alban yn cwrdd â'r prif egwyddorion o annibyniaeth a chydlyniant a drafodwyd ym Mhenodau 2 a 3 o Adroddiad Leggatt.[560] Yn benodol, roedd yr adroddiad yn rhoi pwys ar brosesau annibynnol a diduedd. Nododd fod gweinyddiaeth rhai o'r tribiwnlysoedd datganoledig yn cael ei darparu gan ysgrifenyddiaeth annibynnol ond, er gwaethaf hynny, ei bod yn cael ei hariannu a'i noddi gan gyfarwyddiaethau yn Llywodraeth yr Alban.

9.29 Nodwyd pum opsiwn ar gyfer diwygio yn Adroddiad 2008.

(1) Cadw'r sefyllfa bresennol.

---

556 Deddf Barnwriaeth a Llysoedd (yr Alban) 2008, aa 61 a 61A.

557 Swyddfa'r Cabinet, *Classification of Public Bodies: Guidance for Departments* (Ebrill 2016), paragraff 1.21. Ar gael yn https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/519571/Classification-of-Public_Bodies-Guidance-for-Departments.pdf.

558 Jill Rutter, *The Strange Case of Non-Ministerial Departments,* Institute for Government (2012), t 6.

559 Trysorlys EM, *Managing Public Money* (Gorffennaf 2013), paragraff 7.9.2. Ar gael yn https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/742188/Managing_Public_Money__MPM__2018.pdf.

560 Cyngor Defnyddwyr yr Alban, *Options for the Future Administration and Supervision of Tribunals in Scotland: A Report by the Administrative Justice Steering Group* (2008), t 2.

(2) Rhoi mecanweithiau ar waith i sicrhau gwell integreiddio a chydweithredu rhwng y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd, fel yr oedd ar y pryd, a thribiwnlysoedd yr Alban.

(3) Cynnwys yr holl dribiwnlysoedd Albanaidd yng nghylch gwaith y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd fel yr oedd ar y pryd.

(4) Sefydlu gwasanaeth tribiwnlysoedd newydd i'r Alban i gynnal yr holl dribiwnlysoedd Albanaidd.

(5) Sefydlu Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yr Alban newydd i gynnal tribiwnlysoedd ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban ("tribiwnlysoedd PF") o fewn yr Alban a'r holl dribiwnlysoedd Albanaidd.

9.30 Roedd y GLICG wedi gwrthod opsiynau (1) a (2) am nad oeddent yn ymateb yn effeithiol i ystyriaethau o ran annibyniaeth a didueddrwydd, ac opsiwn (3) am ei fod yn anghyson â'r datganoli cynyddol ar gyfrifoldebau i Senedd yr Alban. Nododd y GLICG wedyn y byddai opsiynau (4) a (5) yn ymateb i ystyriaethau o ran annibyniaeth a didueddrwydd, ond y byddai opsiwn (4) yn arwain at ragor o ymrannu rhwng tribiwnlysoedd a gedwir yn ôl a thribiwnlysoedd datganoledig yr Alban.

9.31 Er nad oedd Adroddiad 2008 wedi gwneud argymhellion penodol, roedd yn mynegi cefnogaeth i opsiwn (5), drwy ddweud:

> there is a strong argument in favour of such a solution from a purely legal perspective, given that justice, both civil and criminal, is almost entirely devolved in Scotland.[561]

9.32 Er gwaethaf y gefnogaeth a fynegwyd i opsiwn (5), nododd y GLICG y byddai'r opsiwn hwnnw'n gallu golygu colli mynediad at adnoddau a rennir rhwng tribiwnlysoedd y DU a PF, fel safleoedd a hyfforddiant. Roedd y GLICG o'r farn y gellid delio â hyn drwy sicrhau cydweithredu helaeth rhwng Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yr Alban newydd a'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd fel yr oedd ar y pryd.

9.33 Yn Rhagfyr 2008 gofynnodd Llywodraeth yr Alban am farn gan Bwyllgor Albanaidd y CCGT ynghylch sut y dylid diwygio tribiwnlysoedd yn yr Alban. Yn y pen draw, cytunodd Pwyllgor Albanaidd y CCGT â'r GLICG gan nodi "with anything short of [option (5)] there would be two tribunals systems within Scotland, the first overseeing UK and GB tribunals and the second, Scottish tribunals."[562]

---

[561] Cyngor Defnyddwyr yr Alban, *Options for the Future Administration and Supervision of Tribunals in Scotland: A Report by the Administrative Justice Steering Group* (2008), paragraff 98.

Yn yr adroddiad *Administrative Justice in Scotland – The Way Forward* a gyhoeddwyd yn 2009, ailddatganodd y GLICG ei farn bod dadleuon cryf o blaid dilyn opsiwn (5). Gweler Consumer Focus Scotland, *Administrative Justice in Scotland – The Way Forward: The Final Report of the Administrative Justice Steering* Group (Mehefin 2009), paragraff 8.50.

[562] Pwyllgor Albanaidd y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, *Options for Tribunal Reform in Scotland: Discussion Paper* (Mehefin 2010), paragraff 4.1.

## Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yr Alban

9.34 Gan ddilyn y cyngor gan Bwyllgor Albanaidd y CCGT, sefydlwyd GTA yn Rhagfyr 2010. Ar y dechrau, roedd GTA yn gweithredu fel uned cyflawni i'r Gyfarwyddiaeth Gyfiawnder yn Llywodraeth yr Alban ac yn darparu cymorth gweinyddol i chwech o dribiwnlysoedd datganoledig yr Alban.[563]

9.35 Mewn adroddiad a gyhoeddwyd yn 2011, *Tribunal Reform in Scotland: A Vision for the Future*, mynegwyd amheuon gan Bwyllgor Albanaidd y CCGT ynghylch y priodoldeb o ddarparu cymorth gweinyddol i dribiwnlysoedd gan un o unedau cyflawni Llywodraeth yr Alban. I'r perwyl hwnnw, argymhellodd y pwyllgor y dylai GTA fod yn gorff statudol a fyddai'n hollol annibynnol ar Lywodraeth yr Alban ac yn cael ei gadeirio gan Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd yr Alban.[564]

9.36 Gweithredwyd nifer o argymhellion Pwyllgor Albanaidd y CCGT yn Neddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014 ("Deddf 2014"), a sefydlodd Dribiwnlys Haen Gyntaf yr Alban ac Uwch Dribiwnlys yr Alban. Mae Deddf 2014 yn diogelu annibyniaeth farnwrol, ac yn rhestru'r deiliaid swyddi hynny sy'n gyfrifol am gynnal annibyniaeth Tribiwnlysoedd yr Alban.[565]

9.37 Yn unol â Deddf 2014, yr Arglwydd Lywydd yw pennaeth Tribiwnlysoedd yr Alban ac mae'n gyfrifol am gyfleu barn aelodau Tribiwnlysoedd yr Alban i Weinidogion yr Alban a Senedd yr Alban.[566] Mae Deddf 2014 yn rhoi pŵer hefyd i'r Arglwydd Lywydd i neilltuo person i swydd Llywydd Tribiwnlysoedd yr Alban.[567] Fodd bynnag, nid oedd Deddf 2014 yn gwahanu GTA oddi wrth is-adran Cyfarwyddiaeth Gyfiawnder Llywodraeth yr Alban.

9.38 Yn ddiweddarach yn 2014, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ei phenderfyniad i uno GTA a GLIA i greu GLITA. Eglurwyd yn yr Adroddiad Ymgynghori:

> the Scottish Ministers agreed that it was neither tenable nor desirable in the longer-term to have the Lord President as head of the court and tribunal judiciary with the tribunal administration staying with the Scottish Ministers in the long-term. This

---

563 Y tribiwnlysoedd hynny oedd Tribiwnlys Anghenion Cymorth Ychwanegol yr Alban; Tribiwnlys Tiroedd yr Alban; Tribiwnlys Iechyd Meddwl yr Alban; Tribiwnlys Apeliadau Pensiwn yr Alban; y Panel Tai Rhent Preifat/Panel Perchentyaeth; a Phanel Apeliadau Elusennau'r Alban. Gweler Llywodraeth yr Alban, *Consultation Report on the Proposed Merging of the Scottish Tribunals Service and the and Scottish Courts Service* (Mawrth 2014), paragraff 3.

564 Pwyllgor Albanaidd y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, *Tribunal Reform in Scotland: A Vision for the Future* (Ionawr 2011), paragraff 4.35.

565 Sef y Prif Weinidog, yr Arglwydd Adfocad, Gweinidogion yr Alban, aelodau Senedd yr Alban a'r holl bersonau eraill sy'n gyfrifol am faterion sy'n ymwneud ag aelodau Tribiwnlysoedd yr Alban neu weinyddu cyfiawnder. Gweler Deddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014, adran 2.

566 Deddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014, aa 2 a 6.

567 Fel uchod, a 4(2).

would lead to a situation where the judiciary was independent from Government and the administrative support was not.[568]

### Strwythur Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban

9.39 Crëwyd GLITA yn Ebrill 2015, ac roedd y cymorth gweinyddol i'r tribiwnlysoedd a weinyddid o'r blaen gan GTA yn cael ei ddarparu bellach gan uned gyflawni ddynodedig o fewn GLITA, yr uned Gweithrediadau Tribiwnlysoedd.[569] Mae GLITA yn gyfrifol am weinyddu'r tribiwnlysoedd canlynol:

(1) Tribiwnlys Haen Gyntaf yr Alban (sydd wedi'i rannu'n bum siambr);

(2) Uwch Dribiwnlys yr Alban;

(3) Tribiwnlys Iechyd Meddwl yr Alban (sydd i'w drosglwyddo i Dribiwnlys Haen Gyntaf yr Alban);

(4) Panel Adolygu Gostyngiadau'r Dreth Gyngor;

(5) Y Tribiwnlys Apeliadau Pensiwn; a

(6) Tribiwnlys Tiroedd yr Alban (sydd i'w drosglwyddo i Uwch Dribiwnlys yr Alban).[570]

9.40 Fel adran anweinidogol statudol, mae gan GLITA Fwrdd a Phrif Weithredwr. Mae GLITA yn darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad cyffredinol i'w staff cyflogedig ac yn dal y Prif Weithredwr yn atebol am berfformiad GLITA. Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am redeg GLITA o ddydd i ddydd. Mae staff GLITA yn weision sifil a benodir gan GLITA ac maent yn atebol iddo.[571]

9.41 Mae gan GLITA gyllideb ar wahân i'r gyllideb Cyfiawnder, ac mae'r Bwrdd yn gyfrifol am baratoi ei gyllideb ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae'r gyllideb yn rhan o'r

---

568 Llywodraeth yr Alban, *Consultation Report on the Proposed Merging of the Scottish Tribunals Service and the Scottish Courts Service* (Mawrth 2014), paragraff 4.

569 Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban, *Annual Reports and Accounts 2018-2019* (Medi 2019), t 75.

570 Gweler https://www.scotcourts.gov.uk/the-courts/the-tribunals/about-scottish-tribunals.

Yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Comisiwn Smith yn 2014, cytunodd Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y DU y byddai pwerau dros reoli a gweithredu tribiwnlysoedd a gedwir yn ôl yn cael eu datganoli i Senedd yr Alban. Fodd bynnag, fel y nodwyd yng Nghynllun Corfforaethol GLITA ar gyfer 2020-2023: "an agreement on whether and when such a transfer will take place is yet to be reached between the Scottish and UK Governments." Mae'n debyg, pan fydd y trosglwyddo'n digwydd, y bydd y tribiwnblysoedd hynny hefyd yn cael eu gweinyddu gan GLITA. Gweler Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban, *Corporate Plan 2020-2023* (Mai 2020) t 18.

571 Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban, *Framework document* (Ebrill 2015), paragraff 1.5. Ar gael yn https://www.scotcourts.gov.uk/docs/default-source/scs---taking-action/scts-framework-document---april-201549d5cea6898069d2b500ff0000d74aa7.pdf?sfvrsn=2.

gyllideb a gyflwynir i Senedd yr Alban ac mae'n amodol ar gael cymeradwyaeth ganddi.[572]

9.42 Mae Bwrdd GLITA yn cynnwys aelodau barnwrol ac anfarnwrol. Yr aelodau barnwrol yw'r Arglwydd Lywydd, Clerc yr Arglwydd Ustus, Llywydd Tribiwnlysoedd yr Alban, prif siryf, dau siryf neu siryf diannod,[573] ustus heddwch ac un Llywydd Siambr o Dribiwnlys Haen Uchaf yr Alban. Yr aelodau anfarnwrol yw adfocad yn ymarfer yn yr Alban, cyfreithiwr yn ymarfer yn yr Alban, Prif Weithredwr GLITA a thri unigolyn arall nad ydynt yn gymwys i'w penodi'n aelod barnwrol.[574] Penodir aelodau'r Bwrdd heblaw Clerc yr Arglwydd Ustus, Llywydd Tribiwnlysoedd yr Alban, y Prif Weithredwr a'r Arglwydd Lywydd gan yr Arglwydd Lywydd.[575]

9.43 Mae gan aelodau Bwrdd GLITA gyfrifoldeb corfforaethol dros arweinyddiaeth a chyfeiriad cyffredinol y sefydliad, dros sicrhau ei fod yn cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol ac effeithlon, a thros sicrhau ei fod yn cyflawni'r nodau ac amcanion y bydd GLITA a Gweinidogion yr Alban yn cytuno arnynt ac a gaiff eu cofnodi yng Nghynllun Corfforaethol GLITA.[576]

9.44 Mae Deddf 2008 hefyd yn rhoi pŵer i'r Bwrdd i greu pwyllgorau.[577] Mae'r Bwrdd wedi creu tri phwyllgor: y Pwyllgor Archwilio a Risg, y Pwyllgor Pobl a'r Pwyllgor Ystadau, Iechyd a Diogelwch a Diogelwch Tân. Mae swyddogaethau'r Pwyllgorau fel a ganlyn.

(1) Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn helpu'r Bwrdd i gyflawni ei ddyletswyddau o ran materion sy'n ymwneud â risg, rheolaeth, llywodraethu a'r gwerth gorau ac yn cynghori'r Bwrdd ar effeithiolrwydd prosesau llywodraethu a rheoli risg.[578]

(2) Mae'r Pwyllgor Pobl yn gweithredu ar ran y Bwrdd i sicrhau bod staff yn meddu ar y sgiliau, y gefnogaeth a'r cymhelliant sydd eu hangen, yn awr ac yn y dyfodol, i gyflawni swyddogaethau craidd y sefydliad.[579]

---

572 Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban, *Framework document* (Ebrill 2015), paragraffau 5.1 i 5.3.

573 Mae siryfon yn eistedd yn y Llysoedd Siryfon ac mae ganddynt bŵer i ddyfarnu mewn achosion sifil a rhai achosion troseddol. Ceir mwy o wybodaeth am rôl siryfon yn https://www.judiciary.scot/home/judiciary/judicial-office-holders/sheriffs/sheriffs-1.

574 Deddf Barnwriaeth a Llysoedd (yr Alban) 2008, Atodlen 3, paragraff 2.

575 Deddf Barnwriaeth a Llysoedd (yr Alban) 2008, Atodlen 3, paragraff 3.

576 Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban, *Framework document* (Ebrill 2015), paragraff 3.4. Ar gael yn https://www.scotcourts.gov.uk/docs/default-source/scs---taking-action/scts-framework-document---april-201549d5cea6898069d2b500ff0000d74aa7.pdf?sfvrsn=2.

577 Deddf Barnwriaeth a Llysoedd (yr Alban) 2008, Atodlen 3, paragraff 10(1).

578 Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban, *Audit and Risk Committee Remit* (Mehefin 2015), paragraff 1. Ar gael yn https://www.scotcourts.gov.uk/docs/default-source/scs-board/scts-audit-amp-risk-committee---remit---june-2015.pdf?sfvrsn=2 .

579 Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban, *SCTS People Committee Remit* (Tachwedd 2019), paragraff 1. Ar gael yn https://www.scotcourts.gov.uk/docs/default-source/scs-minutes/scts-people-committee-remit-(revised-november-2019).pdf?sfvrsn=2.

(3) Mae'r Pwyllgor Ystadau, Iechyd a Diogelwch a Diogelwch Tân yn gweithredu ar ran y Bwrdd i sicrhau bod GLITA yn meddu ar yr adeiladau, cyfleusterau ac arferion sydd eu hangen i gyflawni swyddogaethau craidd y sefydliad.[580]

9.45 Mae GLITA wedi cytuno â Gweinidogion yr Alban ar Ddogfen Fframwaith. Mae'r Ddogfen Fframwaith yn darparu bod y Bwrdd yn atebol i Senedd yr Alban am ddefnyddio adnoddau cyhoeddus yn effeithlon,[581] ond mae'n darparu'n benodol nad yw Gweinidogion yr Alban yn atebol drwy Gwestiynau Seneddol am weithrediad GLITA.[582] Er hynny, mae'r Ddogfen yn datgan:

> [Parliamentary Questions] to Ministers may, however, seek information from Ministers about matters for which the Scottish Government has a general responsibility, which Ministers cannot provide without assistance from the SCTS. In particular, [Parliamentary Questions] may seek statistical information from the Scottish Ministers about the performance of the justice system, and Ministers may seek information from the SCTS to enable them to respond to such questions.[583]

### Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Gogledd Iwerddon

9.46 Yng Ngogledd Iwerddon, mae GLITGI yn gweinyddu holl lysoedd Gogledd Iwerddon a mwyafrif ei dribiwnlysoedd. Yn 2016-17, cafwyd 120,021 o achosion a gwnaed penderfyniad mewn 13,028 o achosion.[584] Mae'n dilyn model yr asiantaeth weithredol, gan ei fod yn asiantaeth weithredol i'r Adran Gyfiawnder. Darperir ei gyfeiriad strategol gan Fwrdd GLITGI, sy'n cael ei gadeirio gan Brif Weithredwr ac sydd hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr barnwrol. Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am weithrediadau o ddydd i ddydd ac mae'n atebol i Gynulliad Gogledd Iwerddon (am gyllideb GLITGI a busnes GLITGI).

9.47 Rheolir gweithrediadau GLITGI gan ddogfen fframwaith sy'n egluro:

> The NICTS is subject to the overall direction and control of the Minister.
>
> The Minister determines the policy framework within which the NICTS operates and the scope of its activities. The Minister determines the resources to be made available to the NICTS following consultation with the Chief Executive and the Lord Chief Justice, approves its Corporate and Business Plans, sets key performance

---

580 Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban, *SCTS Estates, Health & Safety, Fire and Security Committee Remit,* paragraff 1. Ar gael yn https://www.scotcourts.gov.uk/docs/default-source/default-document-library/scts-estates-health-safety-fire-and-security-committee---remit---revised-april-2020.pdf?sfvrsn=0.

581 Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban, *Framework document* (Ebrill 2015), paragraff 4.1. Ar gael yn https://www.scotcourts.gov.uk/docs/default-source/scs---taking-action/scts-framework-document---april-201549d5cea6898069d2b500ff0000d74aa7.pdf?sfvrsn=2.

582 Fel uchod, paragraff 4.5.

583 Fel uchod, paragraff 4.6.

584 Mae GLITGI yn darparu gwasanaeth cynnal a chlercio ar gyfer gwrandawiadau tribiwnlysoedd i GLITEM o dan gytundeb lefel gwasanaeth. Gweler GLITGI *Annual report and accounts 2016-17*, tt 10 a 21.

targets and will be advised by Departmental officials on the performance of the NICTS.

The Minister delegates the day to day operation of the NICTS to the Chief Executive but expects to be consulted by the Chief Executive on the handling of operational matters which could give rise to significant public, judicial or Assembly concern.[585]

## DIWYGIO UNED TRIBIWNLYSOEDD CYMRU

### Cynigion blaenorol ar gyfer diwygio

9.48 Awgrymwyd nifer o fodelau gwahanol ar gyfer UTC ers ei sefydlu yn 2014. Nod cyffredin y cynigion yw sicrhau mwy o annibyniaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru. Yn yr adran hon, rydym yn amlinellu'r cynigion blaenorol hynny ac yn darparu crynodeb o'r manteision ac anfanteision posib.

#### Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd

9.49 Er bod Adroddiad 2010 Pwyllgor Cymreig y CCGT wedi'i gyhoeddi cyn creu UTC, roedd wedi datgan y farn ganlynol:

O ystyried maint a chwmpas cymharol fach y tribiwnlysoedd yng Nghymru, nid yw asiantaeth weithredol ar wahân yn ateb effeithlon na darbodus. Yn hytrach na hynny, dylai'r cyfrifoldeb dros bolisïau a gweinyddiaeth pob tribiwnlys yng Nghymru gael ei drosglwyddo i ran o Lywodraeth Cynulliad Cymru lle nad oes unrhyw gyfrifoldeb penodol am unrhyw un o benderfyniadau'r llywodraeth y mae anghydfod yn ei gylch. Byddai hefyd yn esgor ar y fantais o sicrhau mwy o gosteffeithiolrwydd drwy greu arbedion maint a dosbarthu adnoddau'n decach ymhlith y tribiwnlysoedd yng Nghymru.[586]

#### Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru

9.50 Yn ei adroddiad blynyddol cyntaf, mynegodd LITC y farn y dylai UTC fod â statws tebyg i GLITEM Cymru sydd, fel is-adran i GLITEM, yn gweithredu o dan Gytundeb Fframwaith sydd wedi'i drafod uchod. Eglurodd LITC fanteision diwygio o'r fath fel a ganlyn.

Yn ogystal â chynnig manteision sylweddol o ran y ffordd y mae system Tribiwnlysoedd Cymru yn gweithredu o safbwynt effeithlonrwydd a chyfeiriad, byddai cyflwyno statws asiantaeth weithredol i Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn rhoi elfen o annibyniaeth iddi ar Lywodraeth Cymru. Byddai hynny'n sicr yn atgyfnerthu'r angen cyson i system Tribiwnlysoedd Cymru fod yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru ac i gael ei gweld felly. Mae annibyniaeth farnwrol yn un o gonglfeini ein system

---

585 Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Gogledd Iwerddon, *Framework document* (diweddarwyd Hydref 2013), t 9. Ar gael yn https://wayback.archive-it.org/11112/20170206203048/http://www.courtsni.gov.uk/en-GB/Publications/NICTS_Agency_Governance/Documents/Northern%20Ireland%20Courts%20and%20Tribunals%20Framework%20Document/NICTS-Framework-Doc.pdf.

586 Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, *Adolygiad o Dribiwnlysoedd sy'n Gweithredu yng Nghymru* (Ionawr 2010), paragraff 70.

ddemocrataidd, ac mae gofyn cadw llygad barcud bob amser i sicrhau ei bod yn cael ei chynnal a bod eraill yn gweld hynny.[587]

9.51 Yn fwy diweddar, rhoddwyd tystiolaeth gan y Llywydd, ynghyd â phennaeth UTC, i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn y Senedd. Eglurodd:

> When I wrote my first report, I favoured creating an agency-type situation, because, putting it simply, I thought that it might be easier to achieve in the shorter term than the model that Scotland has adopted. Since time has gone by, I'm wondering—and I use the word 'wondering' advisedly because obviously there's a political element to this, as well as an administration of justice element—whether or not Wales should be considering seriously the Scottish model.

9.52 Nododd hefyd y gallai fod yn fuddiol cymharu'r sefyllfa â'r un yng Ngogledd Iwerddon, gan ei fod yn agosach o ran maint i Gymru na Lloegr.[588] Pa fodel bynnag a fabwysiedir, mae LITC yn pwysleisio yn ei adroddiad blynyddol diweddaraf "ni waeth pa strwythur sy'n ymddangos yng Nghymru ar gyfer Uned Tribiwnlysoedd Cymru, mae'n bosibl y bydd gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru rôl sylweddol i'w chwarae os ydym am gyflawni'r argymhelliad o 'fod yn annibynnol yn strwythurol'".[589]

## Adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru

9.53 Roedd Comisiwn Thomas (a oedd yn cynnwys Syr Wyn Williams, y LITC presennol, yn Gomisiynydd) yn ffafrio model yr adran anweinidogol a fabwysiadwyd yn yr Alban. Ym Mhennod 6 o adroddiad y Comisiwn, argymhellir y dylai UTC "bod yn destun rheolaeth farnwrol, yn unol â threfniadau Tribiwnlysoedd yr Alban."[590] Roedd y Comisiwn yn rhag-weld y byddai diwygio UTC yn gam ymlaen at ddiwygio ehangach ar dribiwnlysoedd a llysoedd yng Nghymru. Ym Mhennod 12, mae'r Comisiwn yn datgan:

> yn sgil datganoli deddfwriaethol, dylid datblygu Gwasanaeth Llysoedd a thribiwnlysoedd i Gymru o sylfaen uned tribiwnlysoedd i Gymru wedi'i diwygio yn unol â model Gwasanaeth Llysoedd a thribiwnlysoedd yr Alban.[591]

9.54 Rydym yn ymwybodol bod rhaid rhoi sylw, wrth wneud unrhyw argymhellion, i ddiwygiadau sydd eisoes yn cael eu cyflawni gan Lywodraeth Cymru. Byddwn yn

---

587 Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, *Adroddiad Blynyddol 2018 - 2019* (Mawrth 2019), t 10.

588 Tystiolaeth lafar gan Syr Wyn Williams a Rhian Davies-Rees i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 13 Gorffennaf 2020, paragraffau 23 i 26. Ar gael yn https://record.assembly.wales/Committee/6414.

589 Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, *Adroddiad Blynyddol 2019 - 2020* (Ebrill 2020) paragraff 3.14.

590 Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, *Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru* (Hydref 2019), paragraff 6.59.1.

591 Teitl Pennod 12 yw "Llywodraethu, cyfraith Cymru a'r farnwriaeth". Mae'r Bennod yn cynnwys tri math o argymhelliad: argymhellion ar ddatganoli cyfiawnder, argymhellion i'w gweithredu o dan y cynllun datganoli presennol ac argymhellion i'w gweithredu gyda datganoli deddfwriaethol. Mae'r argymhelliad ym mharagraff 1.43 uchod wedi'i restru fel argymhelliad i'w weithredu gyda datganoli deddfwriaethol.

parhau i fonitro unrhyw gamau a gymerir i weithredu argymhellion Comisiwn Thomas yn ystod cyfnod ein prosiect.

### Opsiynau ar gyfer diwygio

9.55 Fel y trafodwyd uchod, cafwyd gwahanol gynigion ar gyfer diwygio UTC. Yr opsiynau bras ar gyfer diwygio yw model yr asiantaeth weithredol, yn debyg i GLITEM, neu fodel yr adran anweinidogol, a elwir weithiau'n "fodel Albanaidd". Fodd bynnag, fel y mae Dr Sarah Nason, Dr Huw Pritchard, Dr Helen Taylor ac Ann Sherlock wedi nodi, mae'r term "model Albanaidd" yn anfanwl am y rheswm canlynol:

> there are various 'Scottish models' that have developed over time due to reforms establishing a Scottish Courts and Tribunals Service, which has included the transfer of administration for tribunals covering reserved matters.[592]

9.56 Term arall sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio'n aml mewn ffordd anfanwl yw annibyniaeth. Rydym yn cymryd mai ei ystyr, yn fras, yw mwy o wahanu oddi wrth Lywodraeth Cymru. Gallai hyn gynnwys hunaniaeth gyfreithiol ar wahân, annibyniaeth gyllidebol, annibyniaeth oddi wrth brosesau a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru neu ddim ond gwahanu ffisegol oddi wrth bersonél Llywodraeth Cymru. Byddai unrhyw ddiwygio'n gallu cynnwys rhai neu'r cyfan o'r opsiynau hynny.

9.57 Credwn mai'r opsiynau bras ar gyfer diwygio o dan y setliad datganoli presennol yw'r canlynol.

(1) Opsiwn un – cadw'r sefyllfa bresennol.

(2) Opsiwn dau – diwygio UTC i'w gwneud yn asiantaeth weithredol i Lywodraeth Cymru ("model yr asiantaeth weithredol").

(3) Opsiwn tri – diwygio UTC i'w gwneud yn adran anweinidogol ("model yr adran anweinidogol").

#### Cadw'r sefyllfa bresennol

9.58 Ni fyddai Opsiwn un yn ymateb i bryderon LITC a Chomisiwn Thomas nad yw UTC yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru. O dan y model cyfredol hwn, byddai LITC yn parhau'n gyfrifol am farnwriaeth y tribiwnlysoedd datganoledig, a byddai Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am weinyddu tribiwnlysoedd. Nododd Llywodraeth yr Alban fod hyn yn broblem gan ei bod yn credu mai annymunol oedd "a situation where the judiciary was independent from Government and the administrative support was not."[593]

9.59 Ar y llaw arall, mae Dr Sarah Nason a Dr Huw Pritchard wedi nodi bod rhai o arweinwyr a swyddogion y tribiwnlysoedd yn fodlon bod y trefniadau presennol yn ddigon annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'u bod yn cael eu gweld yn rhai annibynnol. Maent wedi nodi'r canlynol:

---

592 S Nason, A Sherlock, H Pritchard, a H Taylor, *Public administration and a just Wales – Full report* (Mawrth 2020), paragraff 9.12.

593 Llywodraeth yr Alban, *Consultation Report on the Proposed Merging of the Scottish Tribunals Service and the and Scottish Courts Service* (Mawrth 2014), paragraff 4.

a research interviewee from the WTU explained that the WTU is perceived differently to other Welsh Government departments and workstreams, and that there is a growing element of respect and understanding particularly for judicial independence and expertise, though this has taken some time to establish. It was also suggested that having a judicial lead (the President of Welsh Tribunals) creates space between the individual tribunal presidents and ministers.[594]

### Model yr asiantaeth weithredol

9.60 Byddai Opsiwn dau yn ymateb i ryw raddau i bryderon am annibyniaeth UTC. Amlinellwyd manteision y model hwn yn y dyfyniad o Adroddiad Blynyddol LITC uchod. Pe byddai'r model hwn yn cael ei fabwysiadu, byddai'r cyfrifoldeb dros weithgareddau UTC o ddydd i ddydd yn cael ei drosglwyddo i Brif Weithredwr, swydd a gâi ei chreu o'r newydd, a byddai penderfyniadau pwysig ar weithrediadau'n cael eu gwneud gan Fwrdd. Fodd bynnag, ni fyddai model yr asiantaeth weithredol yn cynnig ond ychydig o wahanu oddi wrth Lywodraeth Cymru, gan fod asiantaethau gweithredol yn atebol yn y pen draw i'r Gweinidog noddi ac nid oes ganddynt statws cyfansoddiadol ar wahân.

9.61 Fel y trafodwyd uchod, roedd Pwyllgor Cymreig y CCGT wedi dod i'r farn y byddai model yr asiantaeth weithredol yn aneffeithlon oherwydd nifer bach yr achosion a wrandewir gan dribiwnlysoedd Cymreig. Fodd bynnag, er 2008, y flwyddyn ddiwethaf y mae data ar ei chyfer yn Adroddiad 2010, mae nifer o dribiwnlysoedd wedi gweld cynnydd graddol yn eu llwyth achosion. Er enghraifft, yn 2008 roedd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru wedi cael 1,450 o geisiadau: roedd y nifer wedi codi i 1,942 yn 2019-2020.[595]

9.62 Bydd llwyth achosion y tribiwnlysoedd datganoledig yn cynyddu yn y dyfodol hefyd, os bydd y Senedd yn creu rhagor o lwybrau apêl i dribiwnlysoedd datganoledig. Os dilynir ein cynigion dros dro, byddai UTC wedyn yn gweinyddu llwythi achosion Tribiwnlys Prisio Cymru ac apeliadau gwahardd o'r ysgol. Am y rhesymau hyn, nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod UTC yn gweinyddu nifer rhy fach o achosion i gyfiawnhau diwygio ar sail model yr asiantaeth weithredol.

### Model yr adran anweinidogol

9.63 Byddai dilyn Opsiwn tri yn rhoi mwy o annibyniaeth i UTC o'i gymharu ag Opsiwn dau. Mae hunaniaeth gyfreithiol ar wahân gan adrannau anweinidogol ac maent yn gweithredu ar wahân i unrhyw adran sy'n eu noddi. O dan y model hwn, gallai LITC fod yn gadeirydd y Bwrdd a byddai'n gyfrifol am gyfleu barn aelodau'r tribiwnlysoedd Cymreig i'r Senedd. Byddai angen deddfu i sefydlu UTC yn adran anweinidogol.

9.64 Fel y trafodwyd uchod ym mharagraffau 9.53 a 9.54, model yr adran anweinidogol yw'r un a ffefrir gan Gomisiwn Thomas. Fel y mae Nason a Pritchard wedi nodi:

---

594 S Nason a H Pritchard, "Administrative Justice and the Legacy of Executive Devolution: Establishing a Tribunals System for Wales" (2020) *26 Australian Journal of Administrative Law 233*, t 240.

595 Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, *Adroddiad Blynyddol 2019-2020* (Gorffennaf 2020), t 8.

if the WTU is reformed as an executive agency this may well then be short-lived, with the Justice Commission (and the President of Welsh Tribunals who was also a Commissioner) now openly favouring an independent tribunals service chaired by the President (based on the Scottish model). This would be desirable not only for the immediate benefits, but also in anticipation of a longer-term transfer of additional justice functions to Wales.[596]

9.65 Mae rhai sylwebwyr wedi cynnig cyrff Cymreig eraill yn dempled posib ar gyfer strwythur UTC. Mae Nason, Pritchard, Taylor a Sherlock yn trafod Awdurdod Cyllid Cymru ("ACC") fel un enghraifft. ACC yw'r adran anweinidogol Gymreig gyntaf: cafodd ei sefydlu gan Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn gorff corfforaethol.[597] Mae ei berthynas â Llywodraeth Cymru yn cael ei rheoleiddio gan ddogfen fframwaith, sy'n egluro:

> Wrth ddatganoli pwerau trethu i Gymru, sefydlwyd ACC yn unol ag arferion gorau rhyngwladol fel adran Anweinidogol lle bo'r staff yn weision sifil, ond lle nad yw Gweinidogion Cymru yn rhan o'r gwaith gweinyddu o ddydd i ddydd a lle na allant fod yn rhan o benderfyniadau am faterion trethdalwyr unigol o gwbl... Ei swyddogaeth gyffredinol, ac felly ei brif gyfrifoldeb, yw casglu a rheoli'r trethi datganoledig.[598]

9.66 Mae ACC yn cael ei reoli gan Fwrdd a'i redeg gan Brif Weithredwr sy'n was sifil. Mae'r Bwrdd yn cynnwys aelodau anweithredol, a benodir gan Weinidogion Cymru, ac aelodau gweithredol (yn cynnwys aelod gweithredol a etholir gan staff ACC). Gweinidogion Cymru a benododd y Prif Weithredwr cyntaf. Bydd y Prif Weithredwyr sy'n ei ddilyn yn cael eu dethol gan aelodau anweithredol ACC, ar delerau y gallant eu penderfynu, ar ôl eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru.[599]

9.67 Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol ACC ac mae'n sicrhau bod modd cyflawni ei swyddogaethau statudol. Mae'n atebol i'r Senedd ac i Weinidogion Cymru am sicrhau ei fod yn cyflawni'r amcanion a blaenoriaethau a gytunwyd â Gweinidogion Cymru. Fel y mae Nason, Pritchard, Taylor a Sherlock yn egluro:

> The WRA non-ministerial model is in close alignment with the current WTU structure in terms of civil service staffing arrangements and current operation. It would formalise the relationship between WTU and Welsh Ministers and extend the level of impartiality from government. This is attractive in terms of incrementally developing the WTU further and giving it its own recognisable identity. It is also consistent with the 'Scottish model' as envisaged by the Commission on Justice as the Scottish

---

596 S Nason a H Pritchard, "Administrative Justice and the Legacy of Executive Devolution: Establishing a Tribunals System for Wales" (2020) *26 Australian Journal of Administrative Law* 240.

597 Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, a 2.

598 Awdurdod Cyllid Cymru, *Dogfen fframwaith* (Mawrth 2018), paragraff 1.4. Ar gael yn https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-08/cytundeb-rhwng-llywodraeth-cymru-ac-awdurdod-cyllid-cymru.pdf .

599 Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, a 9.

Courts and Tribunal Service is also established as a non-ministerial department under the Judiciary and Courts (Scotland) Act 2008.[600]

9.68 Er bod ACC yn endid cyfreithiol ar wahân i Lywodraeth Cymru, mae Gweinidogion Cymru yn cadw pŵer i ddyroddi cyfarwyddiadau. Mae'r datganiad o fwriad polisi a oedd gyda Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2014 yn egluro:

> Y bwriad yw y gellid defnyddio'r pŵer hwn, er enghraifft, gan Weinidogion Cymru i gyflwyno cylch gwaith blynyddol ACC i bennu blaenoriaethau polisi. Byddai unrhyw gylch gwaith o'r fath yn cael ei gyhoeddi. Dan amgylchiadau eithriadol, gallai Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i ACC pan fyddant yn ystyried bod angen ymyrryd i sicrhau bod trethi datganoledig yn cael eu casglu a'u rheoli'n effeithiol ac effeithlon.[601]

### Dadansoddiad

9.69 Rydym wedi dod i'r farn ragarweiniol y dylai UTC gael mwy o annibyniaeth strwythurol oddi wrth Lywodraeth Cymru. Er ein bod yn deall bod ei hannibyniaeth yn cael ei pharchu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru, byddai strwythur mwy ffurfiol ar gyfer UTC yn sicrhau bod hynny'n parhau ac yn cael ei weld yn parhau. Gallai strwythur o'r fath fod ar ffurf adran anweinidogol neu asiantaeth weithredol.

9.70 Byddai'r naill fodel neu'r llall hefyd yn gallu creu'r posibilrwydd o rôl fwy ffurfiol i LITC wrth redeg UTC, fel aelod o fwrdd llywodraethu. Credwn y byddai hyn yn welliant gwerthfawr. Yma eto, rydym wedi gweld bod perthynas gadarn iawn ar hyn o bryd rhwng UTC a LITC. Ond mae'r berthynas yn un gymharol anffurfiol ac felly'n agored i effaith newidiadau mewn personél a newidiadau eraill yn Llywodraeth Cymru. Byddai bwrdd llywodraethu hefyd yn rhoi lle i eraill chwarae rhan wrth redeg UTC.

9.71 Mantais bellach i'r ddau fodel yw y byddent yn cynyddu amlygrwydd a thryloywder UTC. Er bod UTC yn cyflawni rôl hanfodol drwy weinyddu'r tribiwnlysoedd, nid oes ganddi le amlwg iawn yn llygad y cyhoedd. Gan amlaf, bydd adroddiadau blynyddol y tribiwnlysoedd yn cyfeirio at yr "adran ysgrifenyddol", yn hytrach nag UTC, ac nid oes ganddi ei gwefan ei hun. Daeth yn fwy amlwg drwy ei hymwneud cynyddol â'r Senedd; fel y nodwyd uchod, yn gynharach eleni rhoddwyd tystiolaeth gan LITC a phennaeth UTC i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.[602] Ond mae ei phroffil yn gymharol isel o hyd. Drwy ei diwygio i'w gwneud yn asiantaeth weithredol neu'n adran anweinidogol, byddai UTC yn dod yn fwy amlwg ac yn fwy tryloyw i'r cyhoedd, gan y byddai angen iddi lunio adroddiad blynyddol a chyfrifon.

---

600 S Nason, A Sherlock, H Pritchard, a H Taylor, *Public administration and a just Wales – full report* (Mawrth 2020), paragraff 9.23.

601 Llywodraeth Cymru, Datganiad o fwriad y polisi (Gorffennaf 2015). Ar gael yn https://busnes.senedd.cymru/documents/s42603/Datganiad%20ar%20fwriad%20polisir%20Bil%20-%2014%20Gorffennaf%202015.pdf .

602 Tystiolaeth lafar gan Syr Wyn Williams a Rhian Davies-Rees i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 13 Gorffennaf 2020, paragraffau 23 i 26. Ar gael yn https://record.assembly.wales/Committee/6414.

9.72 Felly byddai naill ai opsiwn yr asiantaeth weithredol neu opsiwn yr adran anweinidogol yn cynnig nifer o welliannau i statws presennol UTC. A oes rheswm da wedyn dros ffafrio'r naill neu'r llall? Mae'n bosib y byddai gwahaniaethau o ran y costau a ysgwyddir wrth sefydlu adran anweinidogol yn hytrach nag asiantaeth weithredol. Mae'r union gost yn debygol o ddibynnu ar fanylion y model a fabwysiedir. Mae costau sefydlu ACC yn cynnig rhywfaint o arweiniad. Mewn adroddiad yn 2019 gan Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, fel yr oedd ar y pryd, rhoddwyd amcangyfrif o £6.3 miliwn am y costau gweithredu dros y cyfnod o ddwy flynedd rhwng 2016/17 a 2017/18.[603] Ond roedd hynny ar gyfer creu corff hollol newydd, yn hytrach na diwygio un sy'n bodoli eisoes. Byddwn yn falch o gael barn gan ymgyngoreion am y costau cymharol o sefydlu asiantaeth weithredol ac adran anweinidogol.

9.73 Fel arall, y prif wahaniaeth rhwng opsiwn yr asiantaeth weithredol ac opsiwn yr adran anweinidogol yw graddau'r annibyniaeth y byddai UTC yn ei gael o ganlyniad. Fel arfer disgwylir y bydd gan adran anweinidogol fwy o reolaeth dros ei phenderfyniadau strategol a gweithredol, yn ogystal â'i chyllideb ei hun.

9.74 Nid yw hynny'n golygu na fydd rôl i Weinidogion Cymru; byddem yn disgwyl iddynt gytuno ag UTC ddiwygiedig ar amcanion polisi. Gellid rhoi pŵer iddynt roi cyfarwyddiadau, fel y maent yn gwneud yn achos ACC. Ond byddai'n glir na fyddai disgwyl iddynt roi cyfarwyddyd ar benderfyniadau gweithredol UTC ddiwygiedig.

9.75 Rydym wedi dod i'r farn ragarweiniol y byddai UTC yn elwa o gael mwy o reolaeth o'r fath ac, felly, y dylai gael ei chyfansoddi'n adran anweinidogol. Nodwn fod awduron yr adroddiad *Public Administration and a Just Wales* yn rhannu'r farn hon.[604] Mewn UTC ddiwygiedig, byddai Prif Weithredwr yn gyfrifol am ei gweinyddu o ddydd i ddydd a Bwrdd o dan gadeiryddiaeth LITC yn darparu arweinyddiaeth. Byddai'r Bwrdd yn chwarae rhan hefyd wrth gytuno ar gyllideb UTC â Gweinidogion Cymru. Er y byddai modd cael Gweinidog noddi ar gyfer UTC ddiwygiedig, byddai UTC yn atebol yn y pen draw i'r Senedd. Byddai hyn yn dileu unrhyw argraff sy'n weddill bod Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan ym mhenderfyniadau tribiwnlysoedd.

**Cwestiwn Ymgynghori 65.**

9.76 Rydym yn cynnig dros dro y dylai Uned Tribiwnlysoedd Cymru gael ei sefydlu'n adran anweinidogol.

Ydych chi'n cytuno?

[603] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Cyllid, *Rhoi datganoli cyllidol ar waith yng Nghymru (2019)*, (Mawrth 2019) paragraff 22. Ar gael yn https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld12477/cr-ld12477-w.pdf.

[604] S Nason, A Sherlock, H Pritchard, a H Taylor, *Public administration and a just Wales – full report* (Mawrth 2020), argymhelliad 17.

# Chapter 10: Annibyniaeth farnwrol

## CYFLWYNIAD

10.1 Mae annibyniaeth farnwrol wedi'i chynnwys yn benodol yng nghylch gorchwyl y prosiect hwn. Mae'n neilltuol o berthnasol i nifer o bynciau a drafodwyd eisoes: penodiadau a disgyblaeth (Penodau 6 a 7), a strwythur Uned Tribiwnlysoedd Cymru (Pennod 9). Yn y bennod hon, edrychir yn fwy manwl ar yr hyn a olygir wrth y cysyniad o annibyniaeth farnwrol, ac ystyrir ffyrdd eraill i ddiogelu annibyniaeth y tribiwnlysoedd datganoledig. Yn benodol, ystyrir a ddylai Gweinidogion Cymru ddarparu sicrwydd statudol o annibyniaeth, ac a ddylai fod yn ofynnol bod aelodau'r tribiwnlysoedd datganoledig yn tyngu'r llw barnwrol.

10.2 Mae'r pwysigrwydd o gynnal annibyniaeth farnwrol wedi'i gydnabod o ran y tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru. Yn 2017, gwnaed datganiad gan Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol ar y pryd, mewn ymateb i ymosodiadau ar farnwyr yn y cyfryngau. Tynnodd sylw at y mecanweithiau sydd eisoes ar gael i ddiogelu annibyniaeth y tribiwnlysoedd datganoledig (yn cynnwys mynediad at y Comisiwn Penodiadau Barnwrol, arbenigedd y Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol, a Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru). Ei gasgliad oedd:

> Bydd yn brawf cynyddol o aeddfedrwydd y Cynulliad hwn fel deddfwrfa a Senedd ei fod yn cydnabod ac yn deall pwysigrwydd annibyniaeth sefydliadau barnwrol a'r egwyddorion sy'n sail iddynt.[605]

10.3 Mae'r Papur Ymgynghori hwn yn ceisio ymhelaethu ar y gwaith a wnaed eisoes i ddiogelu annibyniaeth farnwrol ac ymgorffori'r egwyddor mewn Bil Tribiwnlysoedd newydd i Gymru.

## BETH YW ANNIBYNIAETH FARNWROL?

### Gwarchod penderfynu diduedd

10.4 Mae digon wedi'i draethu am bwysigrwydd annibyniaeth farnwrol, a sut i'w diogelu. Y man cychwyn yn aml yw bod angen i farnwyr fod yn ddiduedd er mwyn cyflawni eu rôl. Mae Graham Gee, Robert Hazell, Kate Malleson a Patrick O'Brien yn egluro hyn fel a ganlyn.

> … few would disagree that judges should be equipped, personally and professionally, to resolve disputes impartially, according to law and free from improper pressure – whether from the parties to the dispute, governmental actors, pressure groups or other judges. This core understanding of judicial independence is based on the 'social logic of the courts'.[606] If judges are induced to decide

605 Mick Antoniw, Datganiad Cabinet ysgrifenedig, "Annibyniaeth tribiwnlysoedd Cymru" (Mawrth 2017) https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-annibyniaeth-tribiwnlysoedd-cymru.

606 M Shapiro, *Courts: a comparative and political analysis* (1981) t 1

disputes and hold the government to account other than through a good-faith adjudication of the facts and determination of the relevant law, then the logic of courts as a method of impartial dispute resolution breaks down. The losing party no longer has a reason to accept the legitimacy of the court's decision.[607]

10.5 Fel y mae Peter Cane yn ei roi, mae annibyniaeth farnwrol felly yn:

> a function of institutional design that promotes, but is not synonymous with, 'impartiality', which is a characteristic of reasoning processes or a frame of mind.[608]

10.6 Mewn geiriau eraill, annibyniaeth farnwrol yw'r egwyddor a ddilynir i ffurfio sefydliadau cyfreithiol a gwleidyddol er mwyn caniatáu i farnwyr weithredu'n ddiduedd a'u gwarchod rhag dylanwad amhriodol. Y ffynhonnell fwyaf amlwg i ymyrraeth ddichonol o'r fath yw llywodraeth. Dyna pam y mae cymaint o bwys yn cael ei roi ar sicrhau systemau cadarn ar gyfer penodi a disgyblu. Rhaid sicrhau na fydd unrhyw berygl bod barnwr yn teimlo cymhelliad i benderfynu achos mewn ffordd benodol o ran diolch am ei benodi, neu'n teimlo ofn y bydd y penodiad hwnnw'n cael ei dynnu oddi arno.[609]

10.7 Yn ogystal â chael eu diogelu rhag ymyrraeth amhriodol gan lywodraeth, mae angen hefyd mewn rhai achosion i farnwyr gael eu diogelu rhag aelodau o'r cyhoedd, sef y rheswm dros y ffaith na ellir dwyn achosion yn eu herbyn ("immune from suit"). Eglurodd yr Arglwydd Denning y sail resymegol dros yr egwyddor yn achos *Sirros v Moore* fel a ganlyn:

> A judge is not liable to an action in damages. The reason is not because the judge has any privilege to make mistakes or do wrong. It is so that he should be able to do his duty with complete independence and free from fear.[610]

10.8 Nid yw'r egwyddor yn ddiamod; ers gwneud Deddf Hawliau Dynol 1998, gall hawlwyr ddod ag achos am dorri'r hawl i ryddid drwy weithredoedd barnwrol. Er hynny, achosion yn erbyn y Goron yw'r rhain, nid yn erbyn y barnwr ei hun.[611]

### Annibyniaeth strwythurol

10.9 Yr un mor bwysig â'r angen i ddiogelu barnwyr rhag ymyrraeth wirioneddol yw'r angen i sicrhau bod barnwyr yn cael eu gweld yn annibynnol. Fel arall, mae perygl na fydd ceiswyr i dribiwnlysoedd yn gallu ymddiried yn y penderfyniadau a wneir yn eu hachosion. Dyma pam roedd Adroddiad Leggatt yn argymell mai gan wasanaeth tribiwnlysoedd y dylai tribiwnlysoedd gael eu gweinyddu, gan ddatgan:

---

607 G Gee, R Hazell, K Malleson a P O'Brien, (2015) *The politics of judicial independence in the UK's changing constitution*, t 10.

608 P Cane, *Administrative tribunals and adjudication* (2009) t 105.

609 Mae'r ymrwymiad personol gan farnwyr i'r dull hwn o benderfynu diduedd yn cael ei wneud drwy dyngu'r llw barnwrol; mae barnwyr yn addo gweithredu "heb ofn na ffafr, hoffter na drwgdeimlad". Trafodir y llw barnwrol yn ddiweddarach yn y bennod hon.

610 *Sirros v Moore* [1975] QB 118 yn [132].

611 Deddf Hawliau Dynol 1998, aa 9(3) a (4).

we have concluded that the only way in which users can be satisfied that tribunals are truly independent is by developing clear separation between the ministers and other authorities whose policies are tested by tribunals, and the minister who appoints and supports them."[612]

10.10 Dyma un o'r rhesymau hefyd dros y ffaith bod nifer o dribiwnlysoedd datganoledig yn cael eu gweinyddu gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru, yn dilyn argymhelliad gan Bwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yn 2010,[613] a thros ein cynnig dros dro ym Mhennod 9 y dylai UTC gael mwy byth o annibyniaeth strwythurol oddi wrth Lywodraeth Cymru.

## SICRHAU ANNIBYNIAETH DRWY STATUD

10.11 Cyflwynwyd newidiadau sylweddol yn y system gyfreithiol yn y DU drwy Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, drwy addasu swydd yr Arglwydd Ganghellor a sefydlu'r Goruchaf Lys. Un o'r egwyddorion a gytunwyd rhwng yr Arglwydd Brif Ustus a'r Arglwydd Ganghellor yn ystod y broses diwygio oedd y dylai trefniadau newydd fod yn fodd i atgyfnerthu annibyniaeth y farnwriaeth.[614] Gwneir hyn yn Neddf 2005 drwy roi sicrwydd o annibyniaeth farnwrol barhaol. Mae adran 3(1) yn darparu:

> The Lord Chancellor, other Ministers of the Crown and all with responsibility for matters relating to the judiciary or otherwise to the administration of justice must uphold the continued independence of the judiciary.[615]

10.12 Mae'r Arglwydd Ganghellor a Gweinidogion y Goron wedi'u hatal hefyd rhag ceisio dylanwadu ar benderfyniadau barnwrol penodol "through any special access to the judiciary".[616] Mae cyfrifoldebau penodol gan yr Arglwydd Ganghellor, yn cynnwys cyfrifoldeb i roi sylw i'r angen i amddiffyn annibyniaeth farnwrol.[617]

10.13 Pan basiwyd Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, estynnwyd y sicrwydd i gynnwys llywyddion siambr a dirprwy lywyddion Tribiwnlys yr Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys. Mae hefyd yn cynnwys Llywydd, Is-lywydd, aelodau panel cadeiryddion ac aelodau eraill Tribiwnlys Prisio Lloegr.[618]

10.14 Fodd bynnag, nid yw'n cael ei gymhwyso'n gyson at y tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru. Nid yw'n gymwys ond i'r aelodau hynny o'r tribiwnlysoedd datganoledig

---

612 Syr Andrew Leggatt, *Tribunals for Users One System, One Service: Report of the Review of Tribunals* (Mawrth 2001) paragraff 2.23.

613 Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, *Adolygiad o Dribiwnlysoedd sy'n Gweithredu yng Nghymru* (Ionawr 2010), t 2.

614 The Lord Chancellor's Judiciary-Related Functions: Proposals (the "concordat") (Ionawr 2004) paragraff 5. https://publications.parliament.uk/pa/ld200304/ldselect/ldcref/125/12514.htm.

615 Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, a 3(1).

616 Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, a 3(5).

617 Fel uchod, a 3(6)(a).

618 Fel uchod, Atodlen 14, rhan 3.

sydd wedi'u rhestru yn Atodlen 14 i Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005.[619] Fel y trafodwyd ym Mhenodau 6 a 7,y personau hynny yw:

(1) Llywydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru ac aelodau'r tribiwnlys hwnnw;

(2) Llywydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, ac aelodau panel cadeiryddion y tribiwnlys hwnnw;

(3) rhai aelodau o bwyllgorau asesu rhenti i Gymru (penodir eraill gan Weinidogion Cymru);[620] a

(4) Cadeirydd ac aelodau Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru.

10.15 Wrth benodi aelodau i Dribiwnlys y Gymraeg, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw hefyd i'r angen i gynnal annibyniaeth y tribiwnlys a rheolaeth y gyfraith.[621]

10.16 Yn ei hanerchiad i gynhadledd y Prosiect Cyfraith Gyhoeddus yn 2012, roedd y Barnwr Tribiwnlys Elisabeth Arfon-Jones, Is-lywydd Siambr Lloches a Mewnfudo'r Uwch Dribiwnlys ar y pryd, wedi trafod statws y tribiwnlysoedd datganoledig. Nododd wrth gyfeirio at farnwyr Tribiwnlys yr Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys eu bod yn tyngu'r llw barnwrol a bod eu hannibyniaeth farnwrol yn cael ei hamddiffyn drwy statud ond nad yw barnwyr y tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru yn cael budd o'r amddiffyniad statudol hwn ("the judges of the devolved tribunals in Wales do not benefit from this protective structural umbrella"). Dywedodd wedyn, "the devolved tribunal judges in Wales are particularly vulnerable because of the absence of appropriate judicial or ministerial protection".[622]

10.17 Ers hynny, darparwyd amddiffyniad ychwanegol drwy greu swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Ond er gwaethaf hynny, yn ein barn ni mae angen sicrhau bod Gweinidogion Cymru o dan ddyletswydd debyg i'r un sydd ar eu cymheiriaid yn y DU i ddiogelu annibyniaeth y farnwriaeth. Rydym yn cynnig dros dro y dylai Gweinidogion Cymru ac eraill sy'n gyfrifol am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru fod o dan ddyletswydd statudol i gynnal annibyniaeth y tribiwnlysoedd datganoledig.

---

619 Fel uchod, a 3(7A).

620 Pwyllgorau asesu rhenti yw un o'r tri math o dribiwnlys sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru ("TEPC"). Mae'r ddeddfwriaeth sy'n sail i'r ddau arall, y tribiwnlysoedd eiddo preswyl a'r tribiwnlysoedd prisio lesddaliadau, yn datgan y gall yr awdurdodaethau hynny gael eu harfer gan bwyllgor asesu rhenti. Felly mewn rhai achosion gellir darllen cyfeiriadau at bwyllgorau asesu rhenti fel rhai sy'n cyfeirio'n gyffredinol at aelodau TEPC.

621 Rheoliadau Tribiwnlys y Gymraeg (Penodi) OS 2013 Rhif 3139 (Cy 312), rheoliad 3.

622 Cynhadledd y Prosiect Cyfraith Gyhoeddus, Elisabeth Arfon-Jones, "The Tribunal System in Wales: Map and update on jurisdictions" (Ebrill 2012) https://publiclawproject.org.uk/resources/the-tribunal-system-in-wales-map-and-update-on-jurisdictions/.

**Cwestiwn Ymgynghori 66.**

10.18 Rydym yn cynnig dros dro y dylai Gweinidogion Cymru ac eraill sy'n gyfrifol am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru fod o dan ddyletswydd statudol i gynnal annibyniaeth y tribiwnlysoedd datganoledig.

Ydych chi'n cytuno?

## Y LLW BARNWROL

10.19 Mae'n ofynnol bod barnwyr yn y DU yn tyngu'r "llw barnwrol". Fel y nodwyd uchod, mae hyn yn arwydd o ymrwymiad personol at benderfynu diduedd. Mewn gwirionedd, mae'r hyn sy'n cael ei alw'n llw barnwrol yn cynnwys dau lw gwahanol; y llw gwrogaeth a'r llw barnwrol.[623] Mae'r llw gwrogaeth yn rhwymo'r person i fod:

> yn ffyddlon ac yn deyrngar i'w Mawrhydi y Frenhines Elizabeth yr Ail, ei hetifeddion a'i holynwyr, yn ôl y gyfraith.

10.20 Yn ogystal â'i dyngu gan farnwyr, mae fersiwn o'r llw gwrogaeth yn cael ei dyngu gan y rheini sy'n dod yn ddinesydd Prydeinig, gan glerigwyr Anglicanaidd, a chan seneddwyr. Tyngir y llw barnwrol gan farnwyr yn unig, a'i eiriau yw:

> Yr wyf i, __________ , yn tyngu i Dduw Hollalluog y gwnaf yn dda a chywir wasanaethu ein Goruchaf Arglwyddes y Frenhines Elizabeth yr Ail yn y swydd o ________ , ac y gwnaf iawn i bob math o bobl yn ôl deddfau ac arferion y deyrnas hon, heb ofn na ffafr, hoffter na drwgdeimlad.

10.21 Mae'r ddau lw ar gael hefyd ar ffurf cadarnhad, lle mae'r geiriau "Yr wyf yn tyngu i Dduw Hollalluog" yn cael eu disodli gan "Yr wyf yn datgan ac yn cadarnhau'n ddifrifol ac yn ddidwyll". Yn ogystal â hyn, mae fersiynau eraill Hindwaidd, Mwslimaidd a Sikh o'r llw crefyddol ar gael i aelodau.[624]

10.22 Mae'r Canllaw Ymddygiad Barnwrol yn egluro bod barnwr, wrth dyngu'r llw barnwrol yn cydnabod "that he or she is primarily accountable to the law which he or she must administer".[625] Yn achos *Helow v Secretary of State for the Home Department* ystyriodd yr Arglwydd Mance y rhan sydd i'r llw barnwrol wrth ystyried honiad o wyrduedd farnwrol. Daeth i'r casgliad bod y llw yn "more a symbol than a guarantee of the impartiality that any professional judge is by training and experience expected to practice and display".[626] Er hynny, mae'n symbol pwysig. Mae'n gadarnhad cyhoeddus a roddir gan y barnwr fod ei ddyletswydd yn un at reolaeth y gyfraith ac at

---

623 Mae ffurfiau gwreiddiol y ddau lw yn Neddf Llwon Addewidiol 1868.

624 Gweler https://www.judiciary.uk/about-the-judiciary/the-judiciary-the-government-and-the-constitution/oaths/.

625 Barnwriaeth y Llysoedd a Thribiwnlysoedd, *Guide to judicial conduct* (Mawrth 2018) t 8 https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2016/07/judicial-conduct-v2018-final-2.pdf.

626 *Helow v Secretary of State for the Home Department* [2008] UKHL 62, [2008] 1 WLR 2416 ym mharagraff [57].

y bobl, sydd wedi'u hymgorffori yn y Goron, ac nid tuag at y weithrediaeth neu'r Wladwriaeth.

### Y llw barnwrol a thribiwnlysoedd

10.23 Ar ôl mabwysiadu Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 ("Deddf 2007"), mae'n ofynnol bod aelodau, barnwyr ac arweinwyr barnwrol Tribiwnlys Haen Gyntaf ac Uwch Dribiwnlys y DU yn tyngu'r llw barnwrol.[627] Yn yr Alban, mae holl aelodau ac arweinwyr y tribiwnlysoedd yn cael eu hystyried yn rhan o'r farnwriaeth ac felly mae'n ofynnol iddynt dyngu'r un llw barnwrol.[628]

10.24 Mae'r Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd cyntaf, yr Arglwydd Ustus Carnwath, wedi disgrifio'r argraff fawr a wnaed arno o weld cryfder y teimladau a brofwyd gan farnwyr ac aelodau wrth dyngu'r llw barnwrol, gan nodi "one described the occasion as only slightly less nerve wracking and emotional than getting married".[629]

### Y tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru

10.25 Mae'n ofynnol i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru ("LITC") dyngu'r llw barnwrol o flaen yr Arglwydd Brif Ustus.[630] Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes gofyniad statudol am dyngu'r llw gan arweinwyr barnwrol neu aelodau tribiwnlysoedd datganoledig (er ei bod yn bosib y bydd nifer ohonynt wedi gwneud hynny wrth gael eu penodi i swyddi barnwrol eraill).

10.26 Mae hyn yn ymddangos yn anghyson i ni. Rydym yn cynnig dros dro y dylai fod yn ofynnol bod holl arweinwyr barnwrol ac aelodau'r tribiwnlysoedd datganoledig (yn cynnwys aelodau cyfreithiol ac aelodau eraill) yn tyngu'r llw barnwrol.

**Cwestiwn Ymgynghori 67.**

10.27 Rydym yn cynnig dros dro y dylai fod yn ofynnol bod holl arweinwyr barnwrol ac aelodau cyfreithiol ac aelodau eraill y tribiwnlysoedd datganoledig yn tyngu'r llw barnwrol.

Ydych chi'n cytuno?

---

627 Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, Atodlen 3 paragraff 10(2).

628 Deddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014, Atodlen 7 paragraff 11.

629 Yr Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd, *Annual Report: tribunals transformed* (Chwefror 2010) paragraff 10. Ar gael yn https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/JCO/Documents/Reports/senior-president-tribunals-report-2010.pdf.

630 Deddf Cymru 2017, Atodlen 5 paragraff 14(1)(a).

# Appendix 1: Atodiad 1: Tribiwnlysoedd sydd o fewn cwmpas y prosiect hwn

1.1 Mae'r atodiad hwn yn cynnig trosolwg byr ar bob un o'r tribiwnlysoedd sydd, ar sail ein barn dros dro, yn dod o fewn cwmpas y prosiect hwn.

### TRIBIWNLYSOEDD ADRAN 59

1.2 Mae'r tribiwnlysoedd canlynol yn dribiwnlysoedd Cymreig a restrir yn adran 59(1) o Ddeddf Cymru 2017 (y "tribiwnlysoedd adran 59"), ac sydd felly o dan oruchwyliaeth Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.[631] Gellir trawsleoli aelodau o un tribiwnlys Cymreig i dribiwnlys Cymreig arall ar gais arweinydd barnwrol yr ail dribiwnlys ac ar ôl cael cymeradwyaeth gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru.[632] Mae'r holl dribiwnlysoedd Cymreig yn cael eu gweinyddu gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn Llywodraeth Cymru.

### Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru

1.3 Sefydlwyd tribiwnlysoedd amaethyddol gan Ddeddf Amaethyddiaeth 1947. Nid oedd y Ddeddf yn darparu'n wreiddiol ar gyfer Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru ("TTAC"). Yn lle hynny, roedd yn rhoi pŵer i'r Arglwydd Ganghellor wneud gorchmynion yn sefydlu tribiwnlysoedd ar gyfer ardaloedd penodol o fewn Cymru a Lloegr. Roedd Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau Tribiwnlysoedd 2013 wedi diddymu tribiwnlysoedd tir amaethyddol ar gyfer ardaloedd yn Lloegr, gan drosglwyddo eu swyddogaethau i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf. Roedd y Gorchymyn hefyd yn darparu ar gyfer parhad Tribiwnlys Tir Amaethyddol i Gymru.[633]

1.4 Mae'r tribiwnlys yn gwrando anghydfodau rhwng landlordiaid a thenantiaid amaethyddol[634] ac anghydfodau ynghylch draenio tir.[635] Yng nghyfnod adrodd 2019-2020, roedd TTAC wedi cael cyfanswm o 22 o geisiadau.[636] Gan fod gwaith y tribiwnlys yn dibynnu'n helaeth ar ymweliadau safle, cynhelir ei wrandawiadau mewn gwestai, neuaddau tref neu adeiladau cyngor yn ardal y tir dan sylw.

1.5 Gall TTAC adolygu ei benderfyniadau ei hun, un ai ar ei fenter ei hun neu ar gais gan barti, os bydd rhagor o dystiolaeth yn dod i'r golwg, neu os yw'r penderfyniad yn

---

631 Deddf Cymru 2017, a 60.

632 Fel uchod, a 62.

633 Deddf Amaethyddiaeth 1947 a 73 (fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau Tribiwnlysoedd 2013 OS 2013/1036).

634 Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 a 13.

635 Deddf Draenio Tir 1991 a 31.

636 Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru, *Adroddiad Blynyddol 2019-2020* (2020), t 8 https://tribiwnlystiramaethyddol.llyw.cymru/sites/agriculturalland/files/2020-07/adroddiad-blynyddol-19-20.pdf.

cynnwys gwall clercio.[637] Gellir gwneud apêl hefyd i’r Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd) ar unrhyw bwynt cyfreithiol.[638]

1.6 Penodir Llywydd TTAC gan yr Arglwydd Ganghellor a rhaid iddo fod yn gyfreithiwr neu’n fargyfreithiwr ag o leiaf saith mlynedd o brofiad. Rhaid i gadeirydd y panel fod â chymhwyster cyfreithiol a bydd aelodau panel lleyg gydag ef a fydd â gwybodaeth a phrofiad o ffermio, draenio tir a materion perchnogion tir.[639]

### Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru

1.7 Sefydlwyd Tribiwnlysoedd Adolygu Iechyd Meddwl yn wreiddiol ar sail ranbarthol o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1959. Darparwyd yn benodol ar gyfer Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (“TAIMC”) gan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.[640] Mae’n gwrando ceisiadau gan ac mewn cysylltiad â phersonau a gadwyd o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, fel y’i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007.[641] Mae TAIMC yn gwrando ceisiadau gan neu ar ran y rheini a gadwyd mewn ysbyty yng Nghymru, neu gan berson sy’n preswylio yng Nghymru sydd wedi’i ryddhau i’r gymuned o dan amodau neu’n dod o dan warcheidiaeth. Yn Lloegr, mae Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol Tribiwnlys yr Haen Gyntaf yn gwrando hawliadau cyfatebol.

1.8 Dylid nodi mai TAIMC sy’n delio â’r nifer mwyaf o geisiadau o’r holl dribiwnlysoedd datganoledig a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017: cafodd 1,943 o geisiadau a gwrando 2,286 o achosion yn 2019-2020.[642] Oherwydd natur ei waith, cynhelir y rhan fwyaf o’i wrandawiadau mewn ysbytai seiciatrig. Mae hawl i apelio i’r Uwch Dribiwnlys (Siambr Apeliadau Gweinyddol) ar unrhyw bwynt cyfreithiol sy’n codi o benderfyniad gan TAIMC.[643]

1.9 Mae Llywydd TAIMC, sef yr unig farnwr cyflogedig yn y tribiwnlysoedd adran 59, yn gyfrifol am aelodau a phenderfyniadau’r tribiwnlys. Bydd tri aelod tribiwnlys ar bob panel gwrandawiadau: aelod cyfreithiol, aelod meddygol (seiciatrig) ac aelod lleyg.[644] Penodir aelodau TAIMC gan yr Arglwydd Ganghellor, heblaw aelodau cyfreithiol sy’n eistedd ar y panel cleifion dan gyfyngiadau a gaiff eu penodi gan yr Arglwydd Brif

---

637 Gorchymyn Tribiwnlysoedd Tir Amaethyddol (Rheolau) 2007 rhif 3105 paragraff 32, Atodlen 1.

638 Deddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1954 a 6(1).

639 Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru, tudalen we “Amdanom”, https://tribiwnlystiramaethyddol.llyw.cymru/ysgrifenyddiaeth-ac-aelodau?_ga=2.83989978.2133757310.1607357388-418659198.1607357388

640 Deddf Iechyd Meddwl 1959, a 3 a Deddf Iechyd Meddwl 1983, a 65.

641 Deddf Iechyd Meddwl 1983, a 65.

642 Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, *Adroddiad blynyddol 2019-2020* (2020) paragraff 2.1, a Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, *Adroddiad Blynyddol 2019-2020* (2020), t 8 https://tribiwnlysadolyguiechydmeddwl.llyw.cymru/sites/mentalhealthreview/files/2020-08/taimc-adroddiad-blynyddol-2019-20.pdf

643 Deddf Iechyd Meddwl 1983, a 78A.

644 Mae Deddf Coronafeirws 2020, Atodlen 8, paragraffau 11(1) a (2) yn darparu y gall Llywydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru benodi, er mwyn cyfansoddi’r Tribiwnlys, un aelod cyfreithiol neu un aelod cyfreithiol ac un aelod arall nad yw’n aelod cyfreithiol. Rydym yn deall nad yw’r pŵer hwn wedi’i ddefnyddio.

Ustus drwy ymgynghori â'r Arglwydd Ganghellor. Mae'r Arglwydd Brif Ustus wedi dirprwyo'r swyddogaeth penodi i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

### Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru

1.10 Mae Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru ("TEPC") yn gwrando apeliadau sy'n ymwneud ag eiddo rhentu preifat ac eiddo lesddaliadol o dan nifer o ddeddfiadau.[645] Mewn gwirionedd, mae TEPC yn dribiwnlys 'ambarél' sy'n cynnwys tri thribiwnlys gwahanol, pob un wedi'i seilio ar wahanol ddeddfiadau: pwyllgorau asesu rhenti, tribiwnlysoedd prisio lesddaliadau a thribiwnlysoedd eiddo preswyl.[646] Yn Lloegr gwrandewir hawliadau tebyg yn Nhribiwnlys yr Haen Gyntaf (Siambr Eiddo).

1.11 Am fod TEPC yn cynnwys tri thribiwnlys gwahanol, mae'r darpariaethau sy'n rheoli apeliadau'n wahanol ar gyfer pob un. Mae'r holl apeliadau'n mynd i'r Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd), ond mae apeliadau o bwyllgorau asesu rhenti wedi'u cyfyngu'n benodol gan ddeddfwriaeth sylfaenol i bwyntiau cyfreithiol. [647]

1.12 Oherwydd natur llwyth gwaith TEPC, cynhelir gwrandawiadau mewn neuaddau tref/pentref neu mewn gwestai yn ardal yr eiddo y mae anghydfod yn ei gylch. Gwrandewir rhai achosion yn swyddfa'r tribiwnlys, yn Parc Cleppa yng Nghasnewydd, ond anaml y gwneir hynny. Rydym yn gwybod am un achos mawr a oedd yn cynnwys rhwng 30 a 40 o gyfranogwyr a gafodd ei wrando yn Llys Sirol Caerdydd.

1.13 Mae'r Arglwydd Ganghellor yn penodi cadeiryddion tribiwnlysoedd, a fydd â chymhwyster cyfreithiol. Bydd Gweinidogion Cymru wedyn yn penodi llywydd ac is-lywydd o blith y cadeiryddion hynny. Penodir holl aelodau eraill y tribiwnlys gan Weinidogion Cymru.[648] Cynhelir gwrandawiadau tribiwnlys gan gadeirydd sydd â chymhwyster cyfreithiol, aelod proffesiynol ac, mewn rhai achosion, aelod lleyg.[649]

### Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru

1.14 Sefydlwyd y Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig gan Ddeddf Addysg 1996, a chafodd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ("TAAAC") ei sefydlu gan Ddeddf Addysg 2002.[650] Mae TAAAC yn gwrando apeliadau gan blant, gan rieni plentyn, neu gan bobl ifanc yn erbyn penderfyniadau a wnaed gan awdurdod lleol am

---

645 Yn cynnwys Deddf Tai 1985, Deddf Tai 2004, Deddf Landlord a Thenant 1985 a 1987, Deddf Rhenti 1977 a Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.

646 Deddf Rhenti 1977 a 65 ac Atodlen 10 (fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau Tribiwnlysoedd 2013 (OS 2013/1036)), Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 (fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 (Cychwyn Rhif 2 ac Arbedion) (Cymru) OS 2004 / 669 (Cy 62), Deddf Tai 2004 (fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau Tribiwnlysoedd 2013 (OS 2013/1036) Atodlen 1 (1) paragraff 173)

647 Gweler Deddf Rhenti 1997 a 65A, Deddf Tai 2004 a 231(1) a Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 a 175(1).

648 Deddf Rhenti 1977 Atodlen 10 paragraffau 2 i 5.

649 Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru, tudalen we "Amdanom", https://tribiwnlyseiddopreswyl.llyw.cymru/ysgrifenyddiaeth-ac-aelodau?_ga=2.49476069.2133757310.1607357388-418659198.1607357388.

650 Deddf Addysg 2002 a 195.

blentyn neu berson ifanc a'i addysg.[651] Hefyd mae TAAAC yn gwrando hawliadau am wahaniaethu ar sail anabledd o dan adran 116 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Y corff sy'n cyfateb i TAAAC yn Lloegr yw Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd) sy'n rhan o'r Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol yn Nhribiwnlys yr Haen Gyntaf.

1.15 Mae TAAAC yn cael ei lywodraethu ar hyn o bryd gan Ddeddfau Addysg 1996 a 2002, ond bydd yn cael ei ailenwi cyn hir, yn unol â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, yn Dribiwnlys Addysg Cymru. Er nad yw wedi dod i rym eto, bydd adran 70 o'r Ddeddf yn darparu rhestr o'r holl achlysuron lle mae plentyn, person ifanc neu riant yn gallu apelio i'r Tribiwnlys, ac mae adran 72 yn ymwneud â'r hawliau i apelio yn erbyn penderfyniadau sy'n effeithio ar bersonau dan gadwad.[652]

1.16 Cafodd TAAAC 172 o geisiadau yn y flwyddyn 2019 – 2020.[653] Gellir mynd ag apeliadau o TAAAC i'r Uwch Dribiwnlys (Siambr Apeliadau Gweinyddol) ar bwynt cyfreithiol.[654]

1.17 Mae TAAAC yn gwrando achosion mewn adeiladau cyhoeddus sydd fel arfer o fewn pellter teithio o un awr o gartref y plentyn neu berson ifanc.

1.18 Caiff TAAAC ei arwain gan Lywydd a benodir gan yr Arglwydd Ganghellor ac a fydd yn gyfreithiwr neu'n fargyfreithiwr sydd ag o leiaf saith mlynedd o brofiad. Mae paneli'n cynnwys cadeirydd, a fydd â chymhwyster cyfreithiol, ac aelodau lleyg a fydd â phrofiad mewn addysg neu bwnc cysylltiedig. Yn 2019 roedd chwe aelod cyfreithiol a deg aelod lleyg o TAAAC.[655]

### Y Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Ysgolion a'r Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Addysg Feithrin

1.19 Roedd Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996 (a oedd yn gymwys i Gymru a Lloegr) yn darparu ar gyfer cofrestr o arolygwyr ysgolion. Crëwyd cofrestr debyg o arolygwyr addysg feithrin gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Roedd arolygydd a anghytunai â phenderfyniad i'w dynnu oddi ar y rhestr, neu i beidio â'i gynnwys ynddi, neu i osod amodau ar gofrestriad, yn gallu gwneud cais i dribiwnlys. Roedd Deddf Addysg 2005 ("DA 2005") wedi dileu'r gofyniad i gadw cofrestrau o arolygwyr ysgolion ac arolygwyr addysg feithrin yn Lloegr.[656]

---

651 Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) aa 70 a 72. Cyn hynny, aa 325, 326, 328, 329 a 329A o Ddeddf Addysg 1996.

652 Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) a 70.

653 Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, *Adroddiad blynyddol 2019-2020* (2020), paragraff 2.1.

654 Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) a 81(1).

655 Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, *Adroddiad blynyddol 2017-2018* (2018), t 9 https://tribiwnlysanghenionaddysgolarbennig.llyw.cymru/sites/specialeducationalneeds/files/2020-05/adroddiad-blynyddol-sentw-2017-18.pdf

656 Deddf Addysg 2005, a 60, ac Atodlen 7 paragraff 7.

1.20 Roedd y darpariaethau sy'n ymwneud ag arolygwyr ysgolion wedi'u cadw i Gymru gan adran 27 o DA 2005. Mae arolygwyr meithrinfeydd yng Nghymru hefyd yn gallu parhau i wneud cais i dribiwnlys a gyfansoddwyd o dan adran 27 o DA 2005.[657] Mae'r rheoliadau sy'n rheoli gweithdrefnau'r ddau dribiwnlys yn cyfeirio atynt fel dau dribiwnlys ar wahân: y Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Ysgolion ("TAACY") a'r Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Addysg Feithrin ("TAACAF").[658]

1.21 Rydym yn deall nad yw'r tribiwnlys wedi'i gyfansoddi fel y cyfryw, ac na chafwyd ceisiadau er 2007/2008. Fodd bynnag, mae aelodau TAAAC yn gymwys i ddelio ag unrhyw achosion sy'n codi yn awdurdodaeth TAACY a TAACAF.[659] Gellid cymryd y byddai modd gwrando achosion TAACY a TAACAF yn yr un lleoliadau a ddefnyddir gan TAAAC, pe bai'r angen yn codi.

1.22 Mae tribiwnlys a sefydlwyd o dan adran 27 o DA 2005 yn gallu adolygu, rhoi o'r naill du neu amrywio ei benderfyniadau ei hun os gwnaed penderfyniad drwy gamgymeriad o ganlyniad i wall ar ran staff y tribiwnlys, os bydd parti'n methu ag ymddangos heb achos rhesymol, os bydd tystiolaeth newydd ar gael, neu os oes angen gwneud hynny er mwyn cyfiawnder.[660] Ni ellir apelio o'r tribiwnlys.

1.23 Penodir cadeirydd y tribiwnlys gan yr Arglwydd Brif Ustus drwy ymgynghori â'r Arglwydd Ganghellor. Penodir dau aelod tribiwnlys arall gan Weinidogion Cymru.[661]

### Panel Dyfarnu Cymru

1.24 Mae Panel Dyfarnu Cymru ("PDC") yn deillio o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, a phenodwyd ei aelodau cyntaf yn 2002. Mae'n gyfrifol am ddyfarnu ynghylch honiadau am dorri codau ymddygiad awdurdodau gan aelodau cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau cymuned Cymru, ac awdurdodau tân ac awdurdodau parc cenedlaethol. Mae ganddo ddwy swyddogaeth statudol. Y gyntaf yw ystyried atgyfeiriadau iddo gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn dilyn ymchwiliadau ganddo i doriadau ar god ymddygiad statudol gan aelod o awdurdod lleol. Gwrandewir yr atgyfeiriadau hyn gan dribiwnlysoedd achos neu dribiwnlysoedd achos interim.[662] Mae PDC yn dyfarnu hefyd mewn apeliadau gan bwyllgorau safonau

---

657 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Atodlen 26 paragraff 10(1).

658 Rheoliadau Addysg (y Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Ysgolion a'r Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Addysg Feithrin) (Gweithdrefn) OS 1999 Rhif 265.

659 Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, *Adroddiad Blynyddol 2018 – 2019* (2019), t 5 https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-12/adroddiad-blynyddol-cyntaf-llywydd-tribiwnlysoedd-cymru.pdf

660 Rheoliadau Addysg (y Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Ysgolion a'r Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Addysg Feithrin) (Gweithdrefn) OS 1999 Rhif 265, rheoliad 29(1).

661 Deddf Addysg 2005 paragraff 1 Atodlen 3, paragraff 1(1).

662 Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) OS 2001 Rhif 2281 (Cy 171), rheoliadau 10 ac 11.

awdurdodau lleol, a wrandewir gan dribiwnlysoedd apeliadau.[663] Roedd y tribiwnlys cyfatebol yn Lloegr, Panel Dyfarnu Lloegr, wedi cael ei ddiddymu yn 2010.[664]

1.25 Mae hawl i apelio o dribiwnlysoedd achos i'r Uchel Lys.[665] Mae gan PDC lwyth bychan o achosion, a dim ond dau gais a gafwyd yng nghyfnod adrodd 2019-2020.[666]

1.26 Mae PDC yn cael ei arwain gan Lywydd y Tribiwnlys, sy'n aelod cyfreithiol. Mae gan y tribiwnlys Ddirprwy Lywydd hefyd. Fel arfer bydd panel gwrandawiad yn cynnwys tri aelod: dau aelod lleyg a'r cadeirydd, sy'n aelod cyfreithiol. Gall mwy nag un aelod cyfreithiol eistedd ar y panel; rydym yn deall bod y llwybr hwn wedi'i ddilyn i ddibenion hyfforddi, neu lle mae gwrthdaro buddiannau, neu brinder aelodau lleyg.

### Tribiwnlys y Gymraeg

1.27 Sefydlwyd Tribiwnlys y Gymraeg ("TG") yn 2015 o dan adran 120 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur"). Mae'n gwrando apeliadau yn erbyn penderfyniadau gan Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch Safonau'r Gymraeg.[667] Nid oes tribiwnlys cyfatebol yn Lloegr.

1.28 Mae tri math o apêl.

(1) lle mae'r Comisiynydd yn hysbysu person am y penderfyniad nad yw'r gofyniad i gydymffurfio â Safon yn afresymol neu'n anghymesur, gall y Tribiwnlys benderfynu a yw'r gofyniad yn afresymol neu'n anghymesur neu beidio;[668]

(2) mae person sydd wedi cwyno i'r Comisiynydd bod person arall wedi methu â chydymffurfio â Safon yn gallu apelio

(a) yn erbyn penderfyniad gan y Comisiynydd nad yw'r person arall wedi methu â chydymffurfio â'r Safon;[669] neu

(b) yn erbyn penderfyniad gan y Comisiynydd i beidio â chynnal ymchwiliad, i beidio ag ystyried a fydd yn cynnal ymchwiliad neu i beidio â pharhau ag ymchwiliad.[670]

---

663 Deddf Llywodraeth Leol 2000 a 71(3) a 72(4).

664 Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau Tribiwnlysoedd 2010 (OS 2010/22), erthygl 1(1), Atodlen 2 paragraff 57(b) (gydag Atodlen 5).

665 Deddf Llywodraeth Leol 2000 a 78 (fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau Tribiwnlysoedd 2020 OS 2010/22 erthygl 1(1), Atodlen 2 paragraff 60(f) (gydag Atodlen 5).

666 Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, *Adroddiad Blynyddol 2019-2020* (2020) paragraff 2.1.

667 A reolit gan Fesur y Gymraeg (Cymru) (nawm 1) rhan 4.

668 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a 58.

669 Fel uchod, a 99.

670 Fel uchod, a 103. Mae apêl o dan adran 103 yn cael ei thrafod yn unol ag egwyddorion adolygu barnwrol.

1.29 Cafodd y tribiwnlys 16 o geisiadau yn 2019-2020,[671] y mwyafrif ohonynt (14 o geisiadau) wedi'u dwyn o dan adran 103 o'r Mesur.[672]

1.30 Gall TG adolygu, amrywio neu ddirymu ei benderfyniadau ei hun.[673] Mae hawl i apelio hefyd i'r Uchel Lys ar unrhyw bwynt cyfreithiol sy'n codi o benderfyniad a wnaed gan TG.[674] Hyd yn hyn, ni chafwyd unrhyw apeliadau o TG i'r Uchel Lys.[675]

1.31 Mae Llywydd TG yn gyfrifol am drefnu gwaith yr aelodau, ac am wneud penderfyniadau'n ymwneud ag apeliadau a chwynion. Penodir y Llywydd gan Weinidogion Cymru a rhaid iddo fod un ai'n gyfreithiwr neu'n fargyfreithiwr ag o leiaf ddeng mlynedd o brofiad. Gwrandewir achosion gan aelod cyfreithiol, a dau aelod lleyg.

## TRIBIWNLYSOEDD ERAILL

1.32 Nid yw'r tribiwnlysoedd canlynol yn "dribiwnlysoedd Cymreig" a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017. Nid oes perthynas ffurfiol rhyngddynt a Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ac nid ydynt yn cael eu gweinyddu gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru.

### Tribiwnlys Prisio Cymru

1.33 Mae hanes hir i dribiwnlysoedd prisio, a gellir eu holrhain i Ddeddf Pwyllgorau Asesu Undebau 1862.[676] Mae TPC yn wahanol ar sawl cyfrif i'r tribiwnlysoedd adran 59. Yn hanesyddol, roedd cysylltiad agos rhyngddo a llywodraeth leol, ac roedd tribiwnlysoedd prisio ar gyfer pob awdurdod lleol. Mae hefyd yn gwrando mwy o achosion na'r tribiwnlysoedd datganoledig eraill. Yn 2019-2020 roedd TPC wedi rhestru 4,183 o achosion ardrethi, 687 o achosion prisio'r dreth gyngor a 118 o apeliadau o fath arall (materion yn ymwneud ag atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor yn bennaf).[677]

1.34 Gwrandewir achosion gan gorff mawr o aelodau sy'n wirfoddolwyr lleol di-dâl. Mae 85 o aelodau ar hyn o bryd, o'i gymharu â'r nifer statudol uchaf o 105. Fel arfer bydd tri aelod yn gwrando apeliadau, gyda chymorth clerc. Mae clercod yn gyflogeion i TPC ac mae ganddynt arbenigedd manwl a byddant wedi cael eu hyfforddi yn sylwedd sylfaenol yr apêl – mae gan rai ohonynt gymhwyster cyfreithiol hefyd. Eu rôl yw

---

671 Tribiwnlys y Gymraeg, *Adroddiad Blynyddol 2019-2020* t 10 https://tribiwnlysygymraeg.llyw.cymru/sites/welshlanguage/files/2020-07/tyg-adroddiad-blynyddol-19-20.pdf

672 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a 103.

673 Fel uchod, a 123(4)(i).

674 Fel uchod, a 105(2).

675 Tribiwnlys y Gymraeg, *Adroddiad Blynyddol 2019-2020* t 12 https://welshlanguagetribunal.gov.wales/sites/welshlanguage/files/2020-07/wlt-annual-report-19-20.pdf.

676 https://www.valuationtribunal.gov.uk/about-us/who-we-are/

677 Tribiwnlys Prisio Cymru, *Adroddiad Blynyddol 2019 – 2020* (2020) paragraff 2.1. Mae Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru yn egluro yn *Adroddiad Blynyddol 2019 – 2020* Tribiwnlys Prisio Cymru, t 3 fod y ffigurau am apeliadau yn 2019 – 2020 yn is na'r arfer, gan fod y Swyddfa Brisio wedi bod yn ymgymryd â gwaith arall, fel bod ganddi lai o allu i ddelio ag apeliadau. Mae'r Llywydd yn rhag-weld y bydd y ffigurau'n codi'n ôl i'r nifer uwch arferol yn y cyfnod adrodd nesaf

cynghori ar y gyfraith a gweithdrefn berthnasol.[678] Mae gan TPC chwe chlerc tribiwnlys a dau uwch glerc tribiwnlys.[679]

1.35 Mae TPC yn gallu adolygu ei benderfyniadau ei hun. Gwneir apeliadau pellach i'r Uchel Lys (ar bwynt cyfreithiol ar gyfer achosion prisio'r dreth gyngor) neu i'r Tribiwnlys Tiroedd (ar gyfer achosion ardrethi annomestig). Mae TPC yn gwrando achosion yn lleol ledled Cymru.

1.36 Mae TPC yn cynnal ei weinyddiaeth ei hun, ac mae ganddo ei Brif Weithredwr ei hun. Caiff ei reoli gan Gyngor Llywodraethu sy'n cynnwys Llywydd TPC, tri chynrychiolydd cenedlaethol, a hyd at dri aelod a benodir gan Lywodraeth Cymru.[680] Lluniwyd y ddogfen fframwaith sy'n rheoleiddio'r berthynas rhwng TPC a Llywodraeth Cymru gan ei Chyfarwyddiaeth Llywodraeth Leol.[681]

### Datblygiad hanesyddol y tribiwnlysoedd prisio

1.37 Cyrff rhanbarthol oedd tribiwnlysoedd prisio yn wreiddiol. Cawsant eu cyfuno yn Lloegr gan Ddeddf Cynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 ("DCCI 2007"), a sefydlodd un Tribiwnlys Prisio Lloegr ("TPLl") yn lle'r 56 tribiwnlys blaenorol yn Lloegr. Roedd y Ddeddf wedi cadw'r Gwasanaeth Tribiwnlys Prisio a sefydlwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, sy'n darparu cymorth gweinyddol i TPLl. Roedd DCCI 2007 hefyd wedi creu swyddi newydd Llywydd ac Is-lywyddion TPLl. Penodir i'r swyddi hynny gan yr Arglwydd Ganghellor ar sail cyngor gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol.

1.38 Ar adeg y diwygiadau hyn yn Lloegr, roedd pedwar tribiwnlys prisio annibynnol yng Nghymru o hyd (Dwyrain, Gorllewin, De a Gogledd). Roeddent yn cael cymorth gan wasanaeth gweinyddu canolog (Gwasanaeth Tribiwnlys Prisio Cymru), a sefydlwyd yn 2006.[682] Disodlwyd y system honno drwy Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010 ("Rheoliadau 2010") a sefydlodd y Tribiwnlys Prisio Cymru presennol yn lle'r pedwar tribiwnlys blaenorol.[683]

### Diwygio TPC yn 2017

1.39 Yn adroddiad Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru yn 2016 ("Adroddiad 2016"), gwnaed nifer o argymhellion pellach yn ymwneud â TPC. Nodwyd bod y pwyllgor yn ffafrio strwythurau i Gymru gyfan yn hytrach na strwythur rhanbarthol. Fodd bynnag, nid oedd yr adroddiad wedi mynd mor bell ag argymell y gallai Uned Tribiwnlysoedd Cymru weinyddu TPC, a nodwyd fel a ganlyn:

---

678 Am ragor o fanylion am rôl y clerc, gweler Cyfarwyddyd Arfer Gorau 2B: https://www.valuationtribunal.wales/fileadmin/resources/docs/best-practice-protocols/en/vtw-best-practice-protocol-2b.pdf

679 Tribiwnlys Prisio Cymru, *Adroddiad Blynyddol 2019 – 2020* (2020) t 26

680 Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru OS 2010 Rhif 713 (Cy 69), rheoliad 6.

681 Mae'r ddogfen fframwaith ar gael yn https://www.valuationtribunal.wales/fileadmin/resources/docs/publications/en/Framework_Document.pdf

682 Fe'i sefydlwyd gan Reoliadau Tribiwnlysoedd Prisio (Cymru) OS 2005 Rhif 3364 (Cy 261).

683 Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru OS 2010 Rhif 713 (Cy 69).

> It would seem that there is no realistic prospect that the VTW could be transferred to and administered by the Welsh Tribunal Unit within the next five years. There are substantial logistical hurdles linked, inter alia, to the tribunal's IT system which is linked to the VOA and to the pension arrangements of the VTW staff.[684]

1.40 Er hynny, roedd Adroddiad 2016 wedi dod i'r farn bod modd diwygio rheoliadau 2010 i ddileu rôl awdurdodau lleol mewn penodi aelodau gan fod hyn, ym marn yr Adroddiad, yn tanseilio'r canfyddiad o annibyniaeth y tribiwnlys.[685] Roedd yr Adroddiad hefyd yn beirniadu'r system a oedd ar waith ar y pryd ar gyfer ethol aelodau, gan alw'r system o ethol cadeiryddion, llywyddion ac aelodau Cyngor Llywodraethu'r tribiwnlys prisio yn "anachronism". Roedd yn argymell sefydlu system benodi seiliedig ar deilyngdod yn ei lle.

1.41 Mewn ymateb i'r argymhellion hyn, gwnaeth Gweinidogion Cymru Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru (Diwygio) 2017 ("Rheoliadau 2017").[686] Y prif newidiadau a wnaed oedd:

(1) dileu rôl awdurdodau lleol yn y broses benodi;

(2) yn lle'r pedwar "cynrychiolydd rhanbarthol" (a'u pedwar dirprwy), rhoi tri "chynrychiolydd cenedlaethol", i helpu TPC i symud o strwythur rhanbarthol i strwythur Cymru gyfan;[687]

(3) dileu'r broses ethol ar gyfer cadeiryddion, a darparu y dylai aelodau a chadeiryddion gael eu penodi gan baneli dethol wedi'u ffurfio o aelodau o'r Cyngor Llywodraethu;

(4) cyflwyno nifer uchaf o aelodau a fyddai'n gostwng yn raddol i 105 o 1 Ebrill 2020; a

(5) symleiddio'r weithdrefn ethol ar gyfer y llywydd, a chynrychiolwyr cenedlaethol.

1.42 Er nad yw'n "dribiwnlys Cymreig" yn ôl y diffiniad yn adran 59(1) o Ddeddf Cymru 2017, mae TPC yn awdurdod Cymreig datganoledig.[688]

### Paneli apelio annibynnol

1.43 Mae paneli apelio derbyniadau ysgolion yn gwrando apeliadau a wneir o awdurdodau derbyn, sy'n penderfynu i ba ysgol y dylai plentyn fynd. Mae paneli apelio gwaharddiadau ysgolion yn gwrando apeliadau a wneir o gyrff llywodraethu ysgol sydd wedi penderfynu y dylai disgybl gael ei wahardd o ysgol. Mae'r ddau banel yn

---

684 Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru, *Administrative justice: a cornerstone for social justice in Wales* (2016), paragraff 42.

685 Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru, *Administrative justice: a cornerstone for social justice in Wales* (2016), paragraffau 32 a 33.

686 Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru (Diwygio) OS 2017 Rhif 941 (Cy 234).

687 Memorandwm esboniadol, paragraff 43.

688 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, a 157A ac Atodlen 9A.

cael eu gweinyddu gan awdurdodau lleol fel arfer. Mae'n arfer cyffredin iddynt gael eu rhedeg gyda'i gilydd o dan yr enw "panel apelio annibynnol".

1.44 Er bod gweinyddu'r panel yn gyfrifoldeb i'r awdurdod lleol fel arfer, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cod statudol ar apeliadau derbyniadau (y "Cod Apeliadau Derbyniadau").[689] Mae hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ar wahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (y "Canllawiau Gwahardd").[690]

1.45 Am fod y paneli hyn yn cael eu gweinyddu'n lleol, mae'n anodd cael data dibynadwy am eu dull o weithredu. Mae rhai awdurdodau lleol yn cyhoeddi manylion y nifer o apeliadau derbyniadau ysgolion y maent yn eu gwrando, yn rhannol i helpu rhieni a all fod yn ystyried apelio. Ond mae'r data hyn yn anghyson, ac nid ydym wedi dod o hyd i unrhyw awdurdodau lleol sy'n cyhoeddi manylion gwrandawiadau paneli apelio gwaharddiadau ysgolion.

1.46 Dylid cynnal gwrandawiadau paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion mewn lleoliadau niwtral, ac nid yn yr ysgol sy'n derbyn/gwahardd. Mae adeiladau awdurdod lleol yn lleoliadau derbyniol, ar yr amod bod y gwrandawiad yn cael ei gynnal mewn adeilad sydd heb gysylltiad â thimau adran addysg neu dderbyniadau neu waharddiadau yr awdurdod lleol.

1.47 Er nad yw paneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion wedi'u rhestru'n dribiwnlysoedd Cymreig yn adran 59(1) o Ddeddf Cymru 2017, maent wedi'u rhestru'n awdurdodau Cymreig datganoledig yn Atodlen 9A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

### Paneli apelio derbyniadau ysgolion

1.48 Yng Nghymru, mae adran 94(5) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn darparu bod awdurdodau derbyn yn gyfrifol am weinyddu paneli apelio derbyniadau.[691] Awdurdodau lleol yw'r awdurdodau derbyn ar gyfer ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir (mwyafrif yr ysgolion yng Nghymru), a chyrff llywodraethu yw'r awdurdodau derbyn ar gyfer ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir. Yng Nghymru, ysgolion ffydd yw'r rhain yn aml, yn cael eu rhedeg gan yr Eglwys Gatholig neu gan yr Eglwys yng Nghymru.

1.49 Yn ymarferol, gall cyrff llywodraethu benderfynu gofyn i'r awdurdod lleol drefnu'r paneli apelio y mae'r corff llywodraethu yn gyfrifol amdanynt. Mae'r Cod Apeliadau Derbyniadau hefyd yn rhag-weld y posibilrwydd o gydweithio rhwng awdurdodau lleol. Gyda golwg ar aelodau panel, mae'r Cod Apeliadau Derbyniadau yn nodi y "gall cronni adnoddau gydag awdurdodau derbyn ac awdurdodau lleol cyffiniol fod o

---

[689] Gwneir y Cod Apeliadau Derbyniadau Ysgolion o dan adran 84 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Llywodraeth Cymru, *Cod apelau derbyn i ysgolion* (2013). Ar gael yn https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/y-cod-apelau-derbyn-i-ysgolion.pdf

[690] Llywodraeth Cymru, *Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion* (Tachwedd 2019). Ar gael yn https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-11/gwahardd-o-ysgolion-unedau-cyfeirio-disgyblion.pdf

[691] Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a 95(3) hefyd yn caniatáu i gorff llywodraethu apelio i banel yn erbyn penderfyniad gan awdurdod lleol i dderbyn plentyn a oedd wedi'i wahardd o'r blaen o ddwy neu ragor o ysgolion.

gymorth i sicrhau nad yw'r un aelodau'n eistedd ar baneli ar gyfer ysgol dro ar ôl tro".[692]

1.50 Mae paneli apelio derbyniadau ysgolion yn cynnwys hyd at dri neu bump o aelodau. Rhaid i un o'r aelodau hynny fod â phrofiad mewn addysg, neu fod yn rhiant i ddisgybl a gofrestrwyd mewn ysgol arall. Rhaid i un arall fod yn aelod "lleyg": rhywun "heb brofiad personol o reoli unrhyw ysgol neu o ddarparu addysg mewn unrhyw ysgol".[693] Mae'n ofynnol i awdurdodau derbyn ailhysbysebu am aelodau lleyg bob tair blynedd.

1.51 Gall y panel apelio gyfarwyddo bod plentyn i gael lle mewn ysgol benodol. Bydd y penderfyniad hwnnw'n rhwymo'r awdurdod derbyn a chorff llywodraethu'r ysgol gymunedol neu ysgol wirfoddol a reolir lle mae'r paneli'n penderfynu y dylai'r plentyn gael ei leoli.[694]

1.52 Mae apeliadau derbyniadau ysgolion yn fwy cyffredin o lawer nag apeliadau yn erbyn gwahardd. Yn Adroddiad 2016, adroddwyd amcangyfrif o 600 a wnaethpwyd yn 2013 am nifer yr apeliadau derbyniadau ysgolion yng Nghymru bob blwyddyn.[695] Mae'r niferoedd yn amrywio rhwng awdurdodau lleol; yn ardal Cyngor Sir Caerdydd, er enghraifft, cafwyd 408 o apeliadau yn y flwyddyn 2018 i 2019, ac o'r rhain roedd 26 yn llwyddiannus.[696] Ym Mro Morgannwg, cafwyd 132 o apeliadau, a chwech o'r rheini wedi llwyddo.[697]

### Paneli apelio gwaharddiadau ysgolion

1.53 Darperir ar gyfer paneli apelio gwaharddiadau ysgolion gan Ddeddf Addysg 2002, ac maent yn gwrando apeliadau yn erbyn penderfyniadau gan bwyllgorau disgyblu cyrff llywodraethu ar waharddiadau parhaol.[698] Maent yn cael eu trefnu gan awdurdod lleol.[699] Mae cyfansoddiad y panel yn debyg i hwnnw mewn paneli apelio derbyniadau; mae panel yn cynnwys tri neu bum aelod, yn cynnwys aelodau lleyg, aelodau sy'n gweithio ym maes addysg neu reoli addysg, ac aelodau sydd neu a fu'n llywodraethwyr ysgolion a gynhelir.[700]

---

692 Llywodraeth Cymru, *Cod apelau derbyn i ysgolion* (2013), paragraffau A.7 a 2.9.

693 Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) OS 2005 Rhif 1398 (Cy 112), Atodlen 1 paragraff 1.

694 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, a 94(6).

695 Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru, *Administrative justice: a cornerstone for social justice in Wales* (2016),paragraff 49.

696 https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Ysgolion-a-dysgu/Ysgolion/Gwneud-cais-am-le-mewn-ysgol/Apelio-penderfyniad-am-le-mewn-ysgol/Pages/default.aspx

697 Cyngor Bro Morgannwg, A Parental Guide to School Admissions in the Vale 2019/20, Educating Children in the Vale of Glamorgan, t 26.

698 Deddf Addysg 2002, a 52.

699 Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) OS 2003 Rhif 3227 (Cy 308), rheoliad 7(1).

700 Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) OS 2003 Rhif 3227 (Cy 308), Atodlen 1 paragraff 2(2).

1.54 Mae panel yn gallu gorchymyn bod:

(1) y gwaharddiad yn cael ei gadarnhau;

(2) y disgybl yn cael ei dderbyn yn ôl; neu

(3) bod yr achos yn un eithriadol lle nad yw derbyn yn ôl yn ffordd ymarferol ymlaen, ond y byddai hynny'n gyfarwyddyd priodol fel arall.[701]

1.55 Ceir llai o apeliadau yn erbyn gwahardd nag o apeliadau derbyn. Nid yw Llywodraeth Cymru yn coladu gwybodaeth am hyn, felly mae'n anodd cael gwybod pa nifer a geir bob blwyddyn. Mae Adroddiad 2016 yn cyfeirio at astudiaeth ddichonoldeb flaenorol a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru, a gofnododd fod 21 o apeliadau yn 2011-2012.[702] Mae ymchwil ddiweddar yn awgrymu y gall y cyfanswm fod ychydig yn fwy erbyn hyn. Yn *Public Administration and a Just Wales: Education* (adroddiad a gyhoeddwyd yn 2020), mae'r awduron yn egluro eu bod wedi ceisio cael gwybodaeth drwy wneud ceisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, gan ofyn am y nifer o baneli apelio gwaharddiadau ysgolion roeddent wedi'u cynnull yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r adroddiad yn egluro fel a ganlyn:

> Of the 12 local authorities who responded to our FOI asking how many school exclusion appeal panels they had convened over the past 12 months, 3 declined to disclose the information due to the low numbers involved and the risk of students being identified. The other 9 had, between them, convened a total of 18 panels: one authority had convened no panels, 4 had convened one each, one had convened 3, one had convened 4, and one had convened 7 in the 12 month period.[703]

---

701 Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) OS 2003 Rhif 3227 (Cy 308), rheoliad 7(5).

702 Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru, *Administrative justice: a cornerstone for social justice in Wales* (2016), paragraff 50.

703 S Nason, A Sherlock, H Taylor a H Pritchard, *Public administration and a just Wales* (Mawrth 2020), t 67. Ar gael yn https://mk0nuffieldfounpg9ee.kinstacdn.com/wp-content/uploads/2019/11/Admin-Justice-Wales-Education-Full.pdf.

# Appendix 2: Atodiad 2: Rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol yng nghyfarfod cyntaf y grŵp cynghorol a gynhaliwyd 01 Hydref 2020, MS Teams.

Andrew Shipsides (Prif Weithredwr Tribiwnlys Prisio Cymru)

Claire Sharp (Llywydd Panel Dyfarnu Cymru)

Carol Cobert (Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru)

Carolyn Kirby OBE (Llywydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru)

Christopher Warner (Llywodraeth Cymru)

Elizabeth Price (Llywodraeth Cymru)

Emma Morris (Llywodraeth Cymru)

James Gerard (Llywodraeth Cymru)

Dr Huw Pritchard (Prifysgol Caerdydd)

Huw Williams (Uned Tribiwnlysoedd Cymru)

Imogen Sherriff (Llywodraeth Cymru)

Iwan Jenkins (Llywydd Tribiwnlys y Gymraeg)

Maria Payne (Uned Tribiwnlysoedd Cymru)

Rhian Davies Rees (Uned Tribiwnlysoedd Cymru)

Rhiannon Walker (Llywydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru)

Richard Payne (Llywydd Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru)

Dr Sarah Nason (Prifysgol Bangor)

Syr Wyn Williams (Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru)

# Chapter 11: Cwestiynau Ymgynghori

## PENNOD 2: TRIBIWNLYSOEDD YNG NGHYMRU : CYMHWYSEDD DATGANOLEDIG A THRIBIWNLYSOED DATGANOLEDIG

**Cwestiwn Ymgynghori 1.**

11.1 Ein barn dros dro yw y dylai cyrff penderfynu sy'n dyfarnu ar anghydfodau rhwng partïon drwy wneud dyfarniadau rhwymol gael eu dynodi'n "dribiwnlysoedd" i ddibenion y prosiect hwn.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 2.90**

**Cwestiwn Ymgynghori 2.**

11.2 Rydym yn cynnig dros dro fod y cyrff canlynol yn dribiwnlysoedd datganoledig:

(1) Y tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017;

(2) Tribiwnlys Prisio Cymru;

(3) paneli apelio derbyniadau ysgolion; a

(4) paneli apelio gwaharddiadau ysgolion.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 2.91**

**Cwestiwn Ymgynghori 3.**

11.3 Rydym yn cynnig dros dro nad yw'r cyrff penderfynu neu gynlluniau canlynol yn "dribiwnlysoedd datganoledig":

(1) ombwdsmyn, yn cynnwys Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;

(2) Arolygiaeth Gynllunio Cymru a Lloegr;

(3) paneli adolygu annibynnol ar ddyfarniadau yng Nghymru;

(4) y gronfa cymorth dewisol i Gymru;

(5) y broses apeliadau annibynnol i ffermwyr a pherchnogion coedwigoedd;

(6) paneli adolygu gofal iechyd parhaus y GIG;

(7) Byrddau Canolwyr Meddygol o dan gynlluniau pensiwn ac iawndal diffoddwyr tân yng Nghymru;

(8) Pwyllgorau Coedwigaeth Cymru;

(9) y broses apeliadau annibynnol i ffermwyr a pherchnogion tir yng Nghymru; a

(10) y Tribiwnlys Cosbau Traffig.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 2.92**

## PENNOD 3: SYSTEM DRIBIWNLYSOEDD I GYMRU

**Cwestiwn Ymgynghori 4.**

11.4 Rydym yn cynnig dros dro y dylid cyfuno'r Tribiwnlysoedd Cymreig a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017 i ffurfio Tribiwnlys Haen Gyntaf i Gymru, wedi'i rannu'n siambrau.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 3.89**

**Cwestiwn Ymgynghori 5.**

11.5 Rydym yn cynnig dros dro y dylai Gweinidogion Cymru gael pŵer i ddarparu ar gyfer rhannu Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru yn siambrau, drwy is-ddeddfwriaeth a wneir ar ôl cael cydsyniad gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 3.90**

**Cwestiwn Ymgynghori 6.**

11.6 Rydym yn cynnig dros dro yw y dylai Tribiwnlys Prisio Cymru fod yn rhan o Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 3.102**

**Cwestiwn Ymgynghori 7.**

11.7 Rydym yn cynnig dros dro y dylid cyfuno awdurdodaeth y paneli apelio gwaharddiadau ysgolion ag awdurdodaeth Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 3.127**

**Cwestiwn Ymgynghori 8.**

11.8 Rydym yn cynnig dros dro na ddylai awdurdodaeth y paneli apelio derbyniadau ysgolion gael ei chyfuno, am y tro, ag awdurdodaeth Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 3.129**

**Cwestiwn Ymgynghori 9.**

11.9 Rydym yn cynnig dros dro y dylai awdurdodaethau'r Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Ysgolion a'r Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Addysg Feithrin gael eu cyfuno ag awdurdodaeth Tribiwnlys Anghenion Addysg Arbennig Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 3.138**

**Cwestiwn Ymgynghori 10.**

11.10 Rydym yn cynnig dros dro y dylid cyfuno'r tribiwnlysoedd sy'n rhan o Dribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru (tribiwnlysoedd eiddo preswyl, tribiwnlysoedd prisio lesddaliadau, a phwyllgorau asesu rhenti) i ffurfio un siambr.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 3.139**

**Cwestiwn Ymgynghori 11.**

11.11 Rydym yn gofyn am farn ynghylch:

(1) a ddylai Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru gynnwys siambr rheoleiddio cyffredinol ac, os dylai

(2) pa dribiwnlysoedd presennol a ddylai fod yn rhan o'r siambr honno.

**Paragraff 3.140**

**Cwestiwn Ymgynghori 12.**

11.12 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylid cyfuno Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru a Thribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru i ffurfio siambr eiddo.

**Paragraff 3.141**

**Cwestiwn Ymgynghori 13.**

11.13 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylid cyfuno tribiwnlysoedd datganoledig presennol eraill i ffurfio un siambr.

**Paragraff 3.142**

## PENNOD 4: APELIADAU

**Cwestiwn Ymgynghori 14.**

11.14 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylai llwybrau apêl o'r tribiwnlysoedd datganoledig fod yn unffurf.

**Paragraff 4.54**

**Cwestiwn Ymgynghori 15.**

11.15 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylai llwybr apêl unffurf, os caiff ei fabwysiadu, fod yn un i:

(1) yr Uwch Dribiwnlys;

(2) y Llys Gweinyddol yng Nghymru; neu

(3) Tribiwnlys Apêl i Gymru a sefydlir o'r newydd.

**Paragraff 4.55**

**Cwestiwn Ymgynghori 16.**

11.16 Os na fabwysiedir llwybr apêl unffurf, rydym yn gofyn am farn ynghylch:

(1) a ddylid pennu un llwybr apêl diofyn, er hynny (ee ar gyfer tribiwnlysoedd sydd newydd eu creu);

(2) pa lwybr apêl diofyn y dylid ei bennu;

(3) pa dribiwnlysoedd y dylai'r apeliadau ohonynt gael eu gwrando drwy'r llwybr apêl diofyn hwnnw; a

(4) a fyddai modd ychwanegu tribiwnlysoedd yn raddol at y llwybr apêl diofyn.

**Paragraff 4.56**

**Cwestiwn Ymgynghori 17.**

11.17 Rydym yn gofyn am farn ynghylch

(1) a ddylid cyfeirio apeliadau o baneli apelio derbyniadau ysgolion i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru; a

(2) os dylid, ar ba seiliau y dylai ceiswyr allu apelio.

**Paragraff 4.64**

**Cwestiwn Ymgynghori 18.**

11.18 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylai apeliadau a gyfeirir ymlaen o Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru sy'n ymwneud â phenderfyniadau paneli apelio derbyniadau ysgolion fod yn gyfyngedig i achosion sy'n codi pwynt pwysig o egwyddor neu ymarfer, neu achosion lle mae rheswm cryf arall dros wrando'r apêl.

**Paragraff 4.65**

**Cwestiwn Ymgynghori 19.**

11.19 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylid cael un llwybr apêl o Dribiwnlys Prisio Cymru ar gyfer apeliadau ar ardrethi a'r dreth gyngor ac, os dylid, pa lwybr apêl y dylid ei bennu.

**Paragraff 4.69**

**Cwestiwn Ymgynghori 20.**

11.20 Rydym yn cynnig dros dro y dylai apeliadau o bwyllgorau asesu rhenti ddod o dan yr un rheolau ar ganiatâd i apelio â'r rheini ar gyfer y tribiwnlysoedd eraill sy'n rhan o Dribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 4.71**

## PENNOD 5: RHEOLAU GWEITHDREFNOL

**Cwestiwn Ymgynghori 21.**

11.21 Rydym yn cynnig dros dro y dylid cynnwys prif amcan yn rheolau gweithdrefnol y tribiwnlysoedd datganoledig.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 5.19**

**Cwestiwn Ymgynghori 22.**

11.22 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylid cynnwys rhestr o enghreifftiau esboniadol gyda phrif amcan newydd ac, os dylid, pa enghreifftiau y dylid eu cynnwys.

**Paragraff 5.20**

**Cwestiwn Ymgynghori 23.**

11.23 Rydym yn cynnig dros dro y dylai rheolau tribiwnlysoedd datganoledig gynnwys, lle y bo’n briodol, ddyletswydd ar y partïon i gydweithredu â’i gilydd a’r tribiwnlys.

Ydych chi’n cytuno?

11.24 A yw dyletswydd o’r fath yn briodol yn achos Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru?

**Paragraff 5.24**

**Cwestiwn Ymgynghori 24.**

11.25 Rydym yn cynnig dros dro y dylai rheolau gweithdrefnol y tribiwnlysoedd datganoledig ddarparu ar gyfer cyflwyno dogfennau drwy ddulliau electronig.

Ydych chi’n cytuno?

**Paragraff 5.31**

**Cwestiwn Ymgynghori 25.**

11.26 Rydym yn cynnig dros dro y dylai tribiwnlysoedd datganoledig gael yr hawl i adolygu eu penderfyniadau.

Ydych chi’n cytuno?

**Paragraff 5.36**

**Cwestiwn Ymgynghori 26.**

11.27 Rydym yn cynnig dros dro y dylid safoni’r rheolau ar wrandawiadau o bell yn rheolau gweithdrefnol tribiwnlysoedd datganoledig.

Ydych chi’n cytuno?

**Paragraff 5.51**

**Cwestiwn Ymgynghori 27.**

11.28 Rydym yn cynnig dros dro y dylid safoni rheolau gweithdrefnol tribiwnlysoedd datganoledig, lle y bo'n briodol.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 5.68**

**Cwestiwn Ymgynghori 28.**

11.29 Rydym yn gofyn am farn ynghylch:

(1) a oes enghreifftiau o wahaniaethau annymunol rhwng rheolau gweithdrefnol tribiwnlysoedd datganoledig a rheolau gweithdrefnol Tribiwnlys yr Haen Gyntaf; a

(2) sut y gellid rheoli'r risg o wahaniaethau.

**Paragraff 5.69**

**Cwestiwn Ymgynghori 29.**

11.30 Rydym yn cynnig dros dro y dylid parhau â set o reolau ar wahân ar gyfer pob tribiwnlys neu siambr.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 5.82**

**Cwestiwn Ymgynghori 30.**

11.31 Rydym yn cynnig dros dro y dylid cyfuno rheolau gweithdrefnol TEPC i wneud un set o reolau.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 5.86**

**Cwestiwn Ymgynghori 31.**

11.32 Rydym yn cynnig dros dro y dylid cael Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd i Gymru.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 5.108**

**Cwestiwn Ymgynghori 32.**

11.33 Rydym yn cynnig dros dro y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fod yn gyfrifol am gadeirio'r Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd i Gymru ac am benodi ei aelodau.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 5.109**

**Cwestiwn Ymgynghori 33.**

11.34 Rydym yn cynnig dros dro y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael ei arwain wrth arfer ei allu i benodi aelodau Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd i Gymru gan ffactorau sydd wedi'u nodi mewn deddfwriaeth, yn cynnwys yr angen i amrywiaeth o arbenigedd fod ar gael i'r Pwyllgor.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 5.110**

**Cwestiwn Ymgynghori 34.**

11.35 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylai rheolau gael eu gwneud, ar ôl eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru, gan fwyafrif o Bwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru, neu gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

**Paragraff 5.111**

**PENNOD 6: PENODIADAU**

**Cwestiwn Ymgynghori 35.**

11.36 Rydym yn cynnig dros dro y dylai'r un awdurdod (neu awdurdodau) penodi wneud penodiadau i'r holl dribiwnlysoedd datganoledig.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 6.52**

**Cwestiwn Ymgynghori 36.**

11.37 Rydym yn cynnig dros dro y dylai aelodau'r tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017 gael eu penodi gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 6.68**

**Cwestiwn Ymgynghori 37.**

11.38 Rydym yn cynnig dros dro y dylai Llywyddion ac Is-lywyddion y tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017 gael eu penodi gan Weinidogion Cymru, gyda chytundeb Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 6.69**

**Cwestiwn Ymgynghori 38.**

11.39 Rydym yn gofyn am farn ynghylch sut y dylai Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru gael ei benodi.

**Paragraff 6.74**

**Cwestiwn Ymgynghori 39.**

11.40 Rydym yn gofyn am farn ynghylch sut y dylai aelodau a chadeiryddion Tribiwnlys Prisio Cymru gael eu penodi.

**Paragraff 6.75**

**Cwestiwn Ymgynghori 40.**

11.41 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylai aelodau paneli apelio derbyniadau ysgolion ac, os cedwir nhw, paneli apelio gwaharddiadau ysgolion gael eu penodi gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

**Paragraff 6.80**

**Cwestiwn Ymgynghori 41.**

11.42 Rydym yn cynnig dros dro na ddylid newid trefniadau dethol y Comisiwn Penodiadau Barnwrol ar gyfer penodi yn rhan o'n diwygiadau.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 6.86**

**Cwestiwn Ymgynghori 42.**

11.43 Rydym yn gofyn am farn ynghylch sut y dylid dethol Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru.

**Paragraff 6.92**

**Cwestiwn Ymgynghori 43.**

11.44 Rydym yn gofyn am farn ynghylch sut y dylid dethol aelodau Tribiwnlys Prisio Cymru, yn cynnwys cadeiryddion.

**Paragraff 6.93**

**Cwestiwn Ymgynghori 44.**

11.45 Rydym yn gofyn am farn ynghylch sut y dylid dethol aelodau o baneli apelio derbyniadau ysgolion ac (os cedwir nhw) paneli apelio gwaharddiadau ysgolion.

**Paragraff 6.94**

## PENNOD 7: CWYNION A DISGYBLAETH

**Cwestiwn Ymgynghori 45.**

11.46 Rydym yn cynnig dros dro y dylid cael polisïau a gweithdrefnau cwynion safonol sy'n gymwys i'r holl dribiwnlysoedd datganoledig.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 7.86**

**Cwestiwn Ymgynghori 46.**

11.47 Rydym yn cynnig dros dro y dylid trefnu i'r polisïau cwynion fod ar gael ar-lein a hefyd ar ffurf copi caled drwy wneud cais.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 7.87**

**Cwestiwn Ymgynghori 47.**

11.48 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a oes angen polisi cwynion ar gyfer paneli apelio derbyniadau ysgolion ac (os cedwir nhw) paneli apelio gwaharddiadau ysgolion, yn ychwanegol i'r rôl a gyflawnir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar hyn o bryd.

**Paragraff 7.88**

**Cwestiwn Ymgynghori 48.**

11.49 Rydym yn cynnig dros dro y dylid darparu ar gyfer cwynion ynghylch ymddygiad aelodau Tribiwnlys Prisio Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 7.89**

**Cwestiwn Ymgynghori 49.**

11.50 Rydym yn cynnig dros dro y dylid cael gweithdrefn unffurf ar gyfer cwynion ynghylch gweinyddu'r tribiwnlysoedd datganoledig.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 7.99**

**Cwestiwn Ymgynghori 50.**

11.51 Rydym yn cynnig dros dro y dylid cael gweithdrefn unffurf ar gyfer cwynion am ymddygiad aelodau ac arweinwyr barnwrol y tribiwnlysoedd datganoledig.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 7.100**

**Cwestiwn Ymgynghori 51.**

11.52 Rydym yn cynnig dros dro mai'r arweinydd barnwrol perthnasol a ddylai ymchwilio i gwynion ynghylch aelodau'r tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 7.101**

**Cwestiwn Ymgynghori 52.**

11.53 Rydym yn cynnig dros dro y dylai'r broses o ymchwilio i gwynion am arweinwyr barnwrol tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017 gael ei threfnu gan y Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol, neu gan gorff cyfatebol.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 7.102**

**Cwestiwn Ymgynghori 53.**

11.54 Rydym yn gofyn am farn ynghylch pwy a ddylai ymchwilio i gwynion a wneir am ymddygiad aelodau o baneli apelio derbyniadau a gwaharddiadau ysgolion.

**Paragraff 7.108**

**Cwestiwn Ymgynghori 54.**

11.55 Rydym yn cynnig dros dro mai Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru a ddylai ymchwilio i gwynion am ymddygiad aelodau o'r tribiwnlys hwnnw.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 7.112**

**Cwestiwn Ymgynghori 55.**

11.56 Rydym yn cynnig dros dro mai'r Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol neu gorff cyfatebol a ddylai ymchwilio i gwynion ynghylch ymddygiad Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 7.113**

**Cwestiwn Ymgynghori 56.**

11.57 Rydym yn cynnig dros dro y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael y pŵer i ddisgyblu a diswyddo aelodau'r tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 7.125**

**Cwestiwn Ymgynghori 57.**

11.58 Rydym yn cynnig dros dro y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael y pŵer i ddisgyblu a diswyddo aelodau Tribiwnlys Prisio Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 7.126**

**Cwestiwn Ymgynghori 58.**

11.59 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael y pŵer i ddisgyblu a diswyddo aelodau paneli apelio derbyniadau ysgolion ac (os cedwir nhw) paneli apelio gwaharddiadau ysgolion.

**Paragraff 7.127**

**Cwestiwn Ymgynghori 59.**

11.60 Rydym yn cynnig dros dro y dylai arweinwyr barnwrol y tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017 gael eu disgyblu a'u diswyddo gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 7.133**

**Cwestiwn Ymgynghori 60.**

11.61 Rydym yn cynnig dros dro y dylai Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru gael ei ddisgyblu a'i ddiswyddo gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 7.134**

**Cwestiwn Ymgynghori 61.**

11.62 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a oes angen cysylltu unrhyw amddiffyniadau pellach â'r arfer ar bwerau disgyblu er mwyn gwarchod annibyniaeth y farnwriaeth.

**Paragraff 7.135**

## PENNOD 8: LLYWYDD TRIBIWNLYSOEDD CYMRU

**Cwestiwn Ymgynghori 62.**

11.63 Rydym yn cynnig dros dro y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fod yn farnwr yn y tribiwnlys neu dribiwnlysoedd y mae'r Llywydd yn llywyddu arnynt.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 8.42**

**Cwestiwn Ymgynghori 63.**

11.64 Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylai paneli apelio derbyniadau ysgolion ac (os cedwir nhw) paneli apelio gwaharddiadau ysgolion gael eu goruchwylio gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

**Paragraff 8.53**

**Cwestiwn Ymgynghori 64.**

11.65 Rydym yn cynnig dros dro y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru oruchwylio Tribiwnlys Prisio Cymru.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 8.56**

## PENNOD 9: UNED TRIBIWNLYSOEDD CYMRU

**Cwestiwn Ymgynghori 65.**

11.66 Rydym yn cynnig dros dro y dylai Uned Tribiwnlysoedd Cymru gael ei sefydlu'n adran anweinidogol.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 9.76**

## PENNOD 10: ANNIBYNIAETH FARNWROL

**Cwestiwn Ymgynghori 66.**

11.67 Rydym yn cynnig dros dro y dylai Gweinidogion Cymru ac eraill sy'n gyfrifol am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru fod o dan ddyletswydd statudol i gynnal annibyniaeth y tribiwnlysoedd datganoledig.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 10.18**

**Cwestiwn Ymgynghori 67.**

11.68 Rydym yn cynnig dros dro y dylai fod yn ofynnol bod holl arweinwyr barnwrol ac aelodau cyfreithiol ac aelodau eraill y tribiwnlysoedd datganoledig yn tyngu'r llw barnwrol.

Ydych chi'n cytuno?

**Paragraff 10.27**